



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2009  
Wednesday, 4 November 2009**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 29 Cwestiynau i'r Dirprwy Prif Weinidog a'r Gweinidog Dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
Questions to the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport
- 51 Cynnig i Newid Enw'r Pwyllgor Archwilio  
Motion to Change the Name of the Audit Committee
- 52 Cynnig i Ddirymu Gorchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009  
Motion to Annul the Tuberculosis Eradication (Wales) Order 2009
- 81 Adroddiad yr Is-bwyllgor Darlledu am y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru  
The Broadcasting Sub-committee's Report on the Welsh Newspaper Industry
- 100 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Cardiaidd  
Welsh Conservatives Debate: Cardiac Services
- 125 Cyfnod Pleidleisio  
Voting Time
- 129 Dadl Fer: Cefnogi Ymgyrch Rhyddid Rhag Ofn USDAW  
Short Debate: Supporting USDAW's Freedom from Fear Campaign

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services**

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(3)1275(HSS), yn ôl.

**The Presiding Officer:** Question 1, OAQ(3)1275(HSS), has been withdrawn.

#### **NHS Services in North Wales**

#### **Gwasanaethau'r GIG yn y Gogledd**

**Q2 Brynle Williams:** What are the Minister's priorities for improving the delivery of NHS services in north Wales? OAQ(3)1280(HSS)

**C2 Brynle Williams:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaethau'r GIG yn y gogledd? OAQ(3)1280(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** My immediate priority is to continue with the implementation of NHS reorganisation so that patients across the whole of Wales are seen and treated as quickly as possible.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Fy mlaenoriaeth gyntaf yw parhau'r gwaith o ad-drefnu'r GIG er mwyn i gleifion ledled Cymru gael eu gweld a'u trin cyn gynted ag sy'n bosibl.

**Brynle Williams:** Given the plans to expand the area around St Asaph, Bodelwyddan and Rhyl over the next 10 to 12 years by building 1,500 to 2,000 homes, what discussions are you having with your officials to ensure that Glan Clwyd Hospital has sufficient capacity to deal with the corresponding population increase? What assurances can you provide that there will be sufficient capacity in north Wales to deal with the biggest surge in the national birth rate in the last 50 years and with the unique challenges that that brings with it?

**Brynle Williams:** O gofio'r cynlluniau i ehangu'r ardal o amgylch Llanellwyr, Bodelwyddan a'r Rhyl dros y 10 i'r 12 mlynedd nesaf trwy godi 1,500 i 2,000 o gartrefi, pa drafodaethau yr ydych yn eu cael gyda'ch swyddogion i sicrhau bod gan Ysbyty Glan Clwyd ddigon o gapasiti i ymdopi â'r cynnydd yn y boblogaeth a fydd yn digwydd o ganlyniad i hynny? Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd digon o gapasiti yn y gogledd i ymdopi â'r cynnydd mwyaf inni ei weld yn y gyfradd genedigaethau genedlaethol yn yr 50 mlynedd diwethaf, a'r heriau unigryw a ddaw yn sgil hynny?

**Edwina Hart:** We not only need to discuss the hospital environment, but also primary and community services. I expect the local health board to do a lot of forward planning on this. The involvement of local government representatives on the local health board should help with those discussions. I will certainly ensure that, when the director of the NHS talks to other chief executives, they look at the local authority's plans in terms of where the housing development is located so that we can strategically put services in place,

**Edwina Hart:** Mae angen inni drafod gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol yn ogystal â thrafod yr ysbyty ei hun. Yr wyf yn disgwyl i'r bwrdd iechyd lleol wneud llawer o waith blaengynllunio ar hyn. Dylai'r ffaith fod gan lywodraeth leol gynrychiolwyr ar y bwrdd iechyd lleol fod o gymorth yn y trafodaethau hynny. Byddaf yn bendant yn sicrhau, pan fydd cyfarwyddwr y GIG yn siarad â phrif weithredwyr eraill, eu bod yn edrych ar gynlluniau'r awdurdod lleol o ran lleoliad y gwaith datblygu tai fel y gallwn

ready for any future development, in both primary and hospital care.

**Gareth Jones:** Mewn achosion brys lle mae bywydau mewn perygl, mae ar gleifion angen cludiant ar unwaith mewn ambiwlans i Ysbyty Glan Clwyd neu i Ysbyty Gwynedd, lle gallant gael y gwasanaethau meddygol a llawfeddygol gorau. Yn ddiweddar, gwelais o leiaf chwe ambiwlans yn aros tu allan i adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Glan Clwyd. Gan nad yw Ysbyty Llandudno yn derbyn achosion meddygol brys, mae mwy a mwy o ambiwlansys am fod allan o'r ardal am lawer mwy o amser. A wnewch chi edrych ar ddarpariaeth ambiwlansys brys yn ardal Aberconwy?

**Edwina Hart:** I am aware of issues of ambulances lurking outside accident and emergency departments in many hospitals throughout Wales. The chief executive of NHS Wales, together with the chief executives of the new local health boards and the Welsh Ambulance Services NHS Trust, are aware of the issue and are dealing with it.

I expect the ambulance trust to match resources to demand. That is particularly key in terms of the issues that you have raised with me. The latest response times that were published this morning show that performance against the eight-minute, category-A target in north Wales was 72 per cent: Conwy was at 80 per cent and Gwynedd at 65.6 per cent. The target for each LHB area is 60 per cent. So, we can see that the ambulance trust in north Wales is generally performing exceptionally well. However, I am mindful of your points and will draw them to the attention of the ambulance trust's chair.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ(3)1277(HSS), yn ôl.

fynd ati'n strategol i roi gwasanaethau yn eu lle, yn barod ar gyfer unrhyw waith datblygu yn y dyfodol, o safbwynt gofal sylfaenol a gofal yn yr ysbyty.

**Gareth Jones:** In emergency cases where lives are at risk, patients need to be taken urgently by ambulance to Glan Clwyd Hospital or to Ysbyty Gwynedd, where they can be given the best medical and surgical services. Recently, I saw at least six ambulances waiting outside the accident and emergency department of Glan Clwyd Hospital. Given that Llandudno Hospital does not take emergency medical cases, more and more ambulances are going to be spending an increasing amount of time outside the area. Will you look at the provision of emergency ambulances in the Aberconwy area?

**Edwina Hart:** Yr wyf yn ymwybodol o broblemau cerbydau ambiwlans yn aros y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys mewn nifer o ysbytai ledled Cymru. Mae prif weithredwr GIG Cymru, ynghyd â phrif weithredwyr y byrddau iechyd lleol newydd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, yn ymwybodol o'r broblem hon ac y maent yn mynd i'r afael â hi.

Yr wyf yn disgwyl i'r ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans sicrhau bod yr adnoddau'n cyd-fynd â'r galw. Mae hynny'n arbennig o bwysig yng nghyswllt y problemau yr ydych wedi'u codi gyda mi. Mae'r amseroedd ymateb diweddaraf a gyhoeddwyd y bore yma'n dangos bod perfformiad yn erbyn y targed o wyth munud categori A yn y gogledd yn 72 y cant; yng Nghonwy yr oedd yn 80 y cant ac ar gyfer Gwynedd yn 65.6 y cant. Y targed ar gyfer pob ardal bwrdd iechyd lleol yw 60 y cant. Felly, gwelwn fod yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn y gogledd yn perfformio'n eithriadol o dda ar y cyfan. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol o'ch pwyntiau, a byddaf yn tynnu sylw cadeirydd yr ymddiriedolaeth ambiwlans atynt.

**The Presiding Officer:** Question 3, OAQ(3)1277(HSS), has been withdrawn.

### **Social Service Provision for 18 to 25-year-olds**

**Q4 Ann Jones:** Will the Minister provide a statement on social service provision for 18 to 25-year-olds in Wales?  
OAQ(3)1271(HSS)

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** These pilot schemes are the responsibility of my colleague, the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. I understand that consideration of the future roll-out of this scheme across Wales will be informed by the findings of the evaluation of the pilot schemes. The details of this evaluation are currently being developed and I will ask Jane Hutt to write to you with more information on this.

However, with regard to social services—indeed, across the board—the Children and Young Persons Act 2008 has enabled us to strengthen the statutory framework to enable social services to continue to provide support to children in need and to their families. The National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Social Welfare and Other Fields) Order 2008 has also enabled us to bring forward legislative change to support the welfare of those up to 25 years of age, including any child and their carer.

**Ann Jones:** Thank you for that very comprehensive answer, Gwenda. I know that you also believe that a young person's transition into adulthood can, at times, be difficult for most people, but that those with a disability face even more barriers to a seamless transition. I am pleased to see that the pilot schemes are now in operation, but what about key workers designated to one person right throughout this period? We are now often finding that key workers change as a child moves from being a child to an adult. This change can be most distressing. It is at that crisis point that a child or a young person needs their social worker and it causes personal trauma if they have not built a relationship with their new adult social worker or key worker. I would be interested to hear Jane Hutt's evaluation of this pilot

### **Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Pobl Ifanc Rhwng 18 a 25 Oed**

**C4 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu datganiad am ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc 18 i 25 oed yng Nghymru?  
OAQ(3)1271(HSS)

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Cyfrifoldeb fy nghydweithiwr, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yw'r cynlluniau peilot hyn. Deallaf y bydd darganfyddiadau'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot yn sail i unrhyw ystyriaeth a roddir i weithredu'r cynllun hwn ar draws Cymru gyfan yn y dyfodol. Mae manylion y gwerthusiad hwn wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, a gofynnaf i Jane Hutt ysgrifennu atoch gyda mwy o wybodaeth am hyn.

Fodd bynnag, o ran gwasanaethau cymdeithasol—yn wir, yn gyffredinol—mae Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 wedi caniatáu inni gryfhau'r fframwaith statudol i alluogi gwasanaethau cymdeithasol i barhau i ddarparu cymorth i blant mewn angen a'u teuluoedd. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 hefyd wedi ein galluogi i gyflwyno newid deddfwriaethol i gefnogi lles pobl ifanc hyd at 25 oed, gan gynnwys unrhyw blentyn a'i ofalwr.

**Ann Jones:** Diolch, Gwenda, am eich ateb cynhwysfawr iawn. Gwn eich bod hefyd yn credu y gall tyfu'n oedolyn fod yn brofiad anodd i'r rhan fwyaf o bobl ifanc ar adegau, ond bod y rheini sydd ag anabledd yn wynebu mwy fyth o rwystrau wrth bontio'n esmwyth o'r naill gyfnod i'r llall. Yr wyf yn falch gweld bod y cynlluniau peilot bellach ar waith, ond beth am glustnodi un gweithiwr allweddol i bob unigolyn trwy gydol y cyfnod hwn? Gwelwn yn aml yn awr fod gweithwyr allweddol yn newid wrth i blentyn dyfu'n oedolyn. Gall y newid hwn fod yn ofidus iawn. Mae ar blentyn neu berson ifanc angen ei weithiwr cymdeithasol ar yr adeg argyfyngus hon, ac y mae'n achosi trawma personol os nad yw wedi meithrin perthynas â'r gweithiwr cymdeithasol neu'r gweithiwr allweddol newydd. Byddai gennyf

scheme, but I want to see social services playing their full part in providing that seamless transition for those people who have to go through the awful trauma of childhood to adulthood with a disability or a difficulty.

**Gwenda Thomas:** As I said, I will ask Jane Hutt to write to you with a full answer. As far as social services are concerned, I have outlined some issues. Care leavers up to 25 years of age who start or resume a programme of education or training will be entitled to a personal adviser who will be responsible for preparing and maintaining the pathways plan. These plans enable children and young people to articulate their aspirations and respond to changing needs and ambitions.

**Angela Burns:** As you are aware, I am dealing with a number of constituency cases around social services issues, some of which have been appropriate for me to bring to your attention. I thank you for your help with those cases. However, there are a great many others that we are dealing with ourselves within the constituency and one thing that comes up time and again is the workload of social workers and the fact that they are struggling to cope with the number of cases that they have. A documentary programme on television the other night said that most social workers should have a caseload of around 13 but that many have around 40 cases. What mechanisms are in place to monitor social workers' caseloads within local authorities, and what steps are you taking to ensure that their caseloads are not so great that they are dropping cases?

**Gwenda Thomas:** Workloads are sometimes a concern, but recruitment is going well in Wales and we seem to have turned a corner. However, we need to look at the future of social services and how they are delivered and funded. We will soon be able to make an announcement in the Chamber about the details of the commission that I am setting up, and I see the work of that commission as very much the way forward in looking at

ddiddordeb clywed gwerthusiad Jane Hutt o'r cynllun peilot hwn, ond hoffwn weld gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud eu rhan lawn werth ddarparu'r pontio esmwyth hwnnw i'r bobl hynny sy'n gorfod dioddef y trawma erchyll o dyfu o fod yn blentyn i fod yn oedolyn gydag anabledd neu anhawster.

**Gwenda Thomas:** Fel y dywedais, gofynnaf i Jane Hutt ysgrifennu atoch gydag ateb llawn. O ran gwasanaethau cymdeithasol, yr wyf wedi amlinellu rhai o'r problemau. Nes iddynt fod yn 25 oed bydd gan bobl sy'n gadael gofal ac sy'n dechrau ar raglen addysg neu hyfforddiant, neu'n ailgydio mewn rhaglen o'r fath, hawl i gael cynghorydd personol a fydd yn gyfrifol am baratoi a chynnal y cynllun llwybrau. Mae'r cynlluniau hyn yn galluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu dyheadau ac ymateb i anghenion ac uchelgeisiau sy'n newid.

**Angela Burns:** Fel y gwyddoch, yr wyf yn ymdrin â nifer o achosion yn fy etholaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, ac yr oedd yn briodol imi ddod â rhai ohonynt i'ch sylw. Diolch ichi am eich cymorth gyda'r achosion hynny. Fodd bynnag, yr ydym yn ymdrin â llawer iawn o achosion eraill ein hunain yn yr etholaeth, ac un peth sy'n codi dro ar ôl tro yw llwyth gwaith gweithwyr cymdeithasol a'r ffaith eu bod yn ymdrechu i ymdopi â nifer yr achosion sydd ganddynt. Yn ôl rhaglen ddogfen a ddarllledwyd ar y teledu y noson o'r blaen, dylai fod gan y rhan fwyaf o weithwyr cymdeithasol lwyth o ryw 13 o achosion, ond y mae gan lawer ohonynt ryw 40 o achosion. Pa fecanweithiau sydd ar waith i fonitro llwyth achosion gweithwyr cymdeithasol mewn awdurdodau lleol, a pha gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau nad yw eu llwyth achosion mor fawr fel nad yw rhai achosion yn cael sylw?

**Gwenda Thomas:** Mae llwyth gwaith yn bryder weithiau, ond mae prosesau recriwtio'n gweithio'n dda yng Nghymru, ac ymddengys fod y sefyllfa'n newid er gwell. Fodd bynnag, mae angen inni edrych ar ddyfodol gwasanaethau cymdeithasol a sut y cânt eu darparu a'u hariannu. Cyn hir, byddwn yn gallu cyhoeddi yn y Siambwr fanylion y comisiwn yr wyf yn ei sefydlu, ac yr wyf yn ystyried gwaith y comisiwn

workloads and how we expect social services to pan out over the next decade. We need to await this commission's report, which I expect in the autumn of next year.

**Mick Bates:** I was very pleased to note the figures that were released in England yesterday that showed a reduction in child obesity. Obesity, particularly in the 18 to 25 age range, is a significant problem. What assessment has your Government made of the impact of obesity on the delivery of social services, and have you had discussions with the Minister for Health and Social Services about how the number of referrals for obesity surgery are resulting in very few successful operations? The majority of requests for obesity surgery are turned down. My constituents are turning to social services for support, and it seems that the problem of obesity must also be addressed through social services. What work have you done, or will you do, to address that issue?

1.40 p.m.

**Gwenda Thomas:** Social services are concerned with the welfare of young people across the board. I will ask the Minister for Health and Social Services to give you a full reply with regard to obesity surgery. I am sure that she will be prepared to do so.

#### Patient Transport Services

**Q5 Peter Black:** Will the Minister make a statement on patient transport services? OAQ(3)1236(HSS)

**Edwina Hart:** I expect Win Griffiths' review of patient transport services to be completed for consultation by January 2010. He is currently finalising his discussions with the Welsh ambulance service and preparing service pilot plans to be considered as part of the consultation. I apologise to Members that this work has taken longer than I envisaged,

hwnnw fel y ffordd ymlaen i raddau helaeth a'r ffordd yr ydym yn disgwyl gweld wasanaethau cymdeithasol yn datblygu dros y degawd nesaf. Mae angen inni aros am adroddiad y comisiwn hwn. Yr wyf yn disgwyl gweld ei gyhoeddi yn yr hydref flwyddyn nesaf.

**Mick Bates:** Yr oeddwn yn falch iawn sylwi bod y ffigurau a gyhoeddwyd yn Lloegr ddoe yn dangos gostyngiad yn nifer yr achosion o ordewdra ymhlith plant. Mae gordewdra, yn enwedig yn yr ystod oedran 18 i 25, yn broblem sylweddol. Pa asesiad y mae eich Llywodraeth wedi'i wneud o effaith gordewdra ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol, ac a ydych wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y ffordd y mai nifer fach iawn o lawdriniaethau llwyddiannus sy'n deillio o'r holl atgyfeiriadau am lawdriniaeth i drin gordewdra? Caiff mwyafrif y ceisiadau am lawdriniaeth i drin gordewdra eu gwrthod. Mae pobl yn fy etholaeth i'n troi at y gwasanaethau cymdeithasol am gymorth, ac y mae'n ymddangos ei bod yn rhaid mynd i'r afael â phroblem gordewdra drwy'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd. Pa waith yr ydych wedi'i wneud, neu y byddwch yn ei wneud, i fynd i'r afael â'r mater hwnnw?

**Gwenda Thomas:** Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â phob agwedd ar les pobl ifanc. Gofynnaf i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi ateb llawn ichi ynghylch llawdriniaethau i drin gordewdra. Yr wyf yn siŵr y bydd yn barod i wneud hynny.

#### Gwasanaethau Cludo Cleifion

**C5 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau cludo cleifion? OAQ(3)1236(HSS)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn disgwyl i adolygiad Win Griffiths o wasanaethau cludo cleifion fod yn barod ar gyfer ymgynghori erbyn mis Ionawr 2010. Mae wrthi'n cwblhau ei drafodaethau gyda gwasanaeth ambiwlans Cymru ac yn paratoi cynlluniau peilot ar gyfer gwasanaethau, i'w hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad. Ymddiheuraf i'r

but during the course of his review, so many issues were drawn to his attention that I felt that I should have a much fuller report to present to Members.

**Peter Black:** I wanted to raise a specific case. I have been contacted by several individuals in my region regarding treatment using a hyperbaric oxygen chamber. Currently there is only one of these in Wales, in Spire Cardiff Hospital, which is run by the Diving Diseases Research Centre. As you know, the treatment can be used for a range of medical problems, such as burns, skin grafts and radiotherapy. Many consultants now require a course of this treatment before an operation. However, while patients living in Newport, Cardiff and parts of the Valleys can get transport to and from the centre by ambulance, patients who live in Bridgend or further west, including my region, who require transport are not eligible for that transport. There are cases where this has prevented them from having treatment at all, as they have been unable to get to the hospital.

The NHS in England is willing to pay for its patients to be transported to Cardiff, which means that the centre has been able to get patients from Bristol and Bath who have had an ambulance to take them there over the bridge. However, we cannot get patients there from Swansea, Pembroke Dock and areas in the west. Do you agree that it is not acceptable for patients to be denied part of their treatment because they live in the wrong part of Wales and so cannot receive transport to where their treatment will take place, despite the fact that transport is available to other patients? Will you have a conversation with the Wales ambulance trust about sorting this out?

**Edwina Hart:** I thank you for raising that point with me in the Chamber. I would be grateful for more detail on this matter and I will certainly raise it with the chief executive of the NHS and the chief executive of the

Aelodau fod y gwaith wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelais, ond tynnwyd sylw Win Griffiths at gynifer o faterion yn ystod yr adolygiad nes imi deimlo y dylwn gael adroddiad llawer llawnach i'w gyflwyno i'r Aelodau.

**Peter Black:** Yr oeddwn am godi achos penodol. Mae nifer o unigolion yn fy rhanbarth wedi cysylltu â mi ynghylch triniaeth sy'n defnyddio siambr ocsigen hyperbarig. Ar hyn o bryd, un yn unig o'r siambrau hyn sydd yng Nghymru, yn Ysbyty Spire yng Nghaerdydd, a chaiff ei rhedeg gan y Ganolfan Ymchwil i Glefydau Plymio. Fel y gwyddoch, gellir defnyddio'r driniaeth ar gyfer ystod o broblemau meddygol, megis llosgiadau, impiadau croen a radiotherapi. Erbyn hyn, mae nifer o feddygon ymgynghorol yn mynnu bod cleifion yn cael y driniaeth hon cyn cael llawdriniaeth. Fodd bynnag, er bod cleifion sy'n byw yng Nghasnewydd, Caerdydd a rhannau o'r Cymoedd yn gallu cael eu cludo i'r ganolfan ac yn ôl mewn ambiwlans, nid yw cleifion sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr neu ymhellach i'r gorllewin, gan gynnwys pobl yn fy rhanbarth i y mae angen cludiant arnynt, yn gymwys i gael y cludiant hwnnw. Mae ync achosion lle mae hynny wedi eu hatal rhag cael triniaeth o gwbl, am eu bod wedi methu cyrraedd yr ysbyty.

Mae'r GIG yn Lloegr yn barod i dalu am gludo'i gleifion i Gaerdydd, sy'n golygu bod y ganolfan wedi gallu cael cleifion o Fryste a Chaerfaddon, wedi eu cludo dros y bont mewn ambiwlans. Fodd bynnag, ni allwn ni gael cleifion i'r ysbyty o Abertawe, Doc Penfro ac ardaloedd yn y gorllewin. A ydych yn cytuno nad yw'n dderbyniol fod cleifion yn methu â chael rhan o'u triniaeth am eu bod yn byw yn y rhan anghywir o Gymru ac felly'n methu â chael cludiant i'r fan lle mae'r driniaeth yn cael ei rhoi, er bod cludiant ar gael i gleifion eraill? A wnewch chi drafod gwneud rhywbeth ynghylch hynny gydag ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans Cymru?

**Edwina Hart:** Diolch ichi am godi'r pwynt hwn gyda mi yn y Siambr. Byddwn yn falch cael mwy o fanylion am y mater, a byddaf yn siŵr o'i godi gyda phrif weithredwr y GIG a phrif weithredwr yr ymddiriedolaeth



ambulance trust on behalf of your constituents.

**Peter Black:** Thank you, Minister. On a wider point, I would like to ask you about the Wales ambulance service and about the efficiency review of the ambulance service that was carried out earlier this year. Have you now seen that efficiency review? When are you likely to be able to report on its conclusions?

**Edwina Hart:** The way that this has been dealt with as an efficiency review within the Welsh ambulance service and Health Commission Wales, which, as you know, deals with the resourcing for the ambulance service, has not been satisfactory. I have not yet had a full report on the review. I understand that my officials are trying to broker a discussion that will get me a completed review. That indicates some of the difficulties that I have as Minister in dealing with some of these issues.

Health Commission Wales will no longer be an issue in relation to these matters in the future in light of the changes that I have made within the NHS. However, the difficulties that we have had in getting what we require in this case is an illustration to Members of some of the very real problems that we have in dealing with the ambulance trust.

**Rhodri Glyn Thomas:** Hoffwn ddychwelyd at bwynt gwreiddiol Peter Black ynglŷn â thrafnidiaeth i gleifion, ac yn arbennig cleifion sy'n gorfod derbyn triniaeth arbenigol yn bell o gartref. Yn aml, nid yw'r cleifion hyn yn gallu gyrru, neu ni fyddai'n ddoeth iddynt yrru ar ôl derbyn eu triniaeth, ac mae cael cludiant yn anodd. Mae cleifion yn ei chael yn anodd iawn i wybod at bwy y dylent fynd i holi am gludiant yn y lle cyntaf. Mae'n ymddangos bod rhai cyrff yn ceisio pasio'r cyfrifoldeb i eraill, er enghraifft, oddi wrth yr ymddiriedolaeth i'r bwrdd iechyd lleol neu'r ysbyty, ac yn y blaen. A yw'r newidiadau yr ydych yn eu gwneud i'r gwasanaeth iechyd gwladol yn mynd i wella'r sefyllfa honno? Hoffwn ategu'r hyn a ddywedodd Peter ynglŷn â'r angen i sicrhau

ambiwlans ar ran eich etholwyr.

**Peter Black:** Diolch, Weinidog. Ar bwynt mwy cyffredinol, hoffwn eich holi ynghylch gwasanaeth ambiwlans Cymru a'r adolygiad o effeithlonrwydd y gwasanaeth ambiwlans a wnaed yn gynharach eleni. A ydych wedi gweld yr adolygiad effeithlonrwydd hwnnw erbyn hyn? Pryd y byddwch yn debygol o fod mewn sefyllfa i adrodd am ei gasgliadau?

**Edwina Hart:** Nid yw'r modd yr ymdriniwyd â hwn fel adolygiad effeithlonrwydd o fewn gwasanaeth ambiwlans Cymru a Chomisiwn Iechyd Cymru sydd, fel y gwyddoch, yn ymwneud â darparu adnoddau ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans, wedi bod yn foddhaol. Nid wyf wedi cael adroddiad llawn ar yr adolygiad hyd yma. Deallaf fod fy swyddogion yn ceisio trefnu trafodaeth a fydd yn darparu adolygiad wedi ei gwblhau ar fy nghyfer. Mae hynny'n arwydd o rai o'r anawsterau yr wyf fi, fel Gweinidog, yn eu cael wrth ymdrin â rhai o'r materion hyn.

Ni fydd Comisiwn Iechyd Cymru'n broblem mwyach yng nghyswllt y materion hyn yn y dyfodol, o gofio'r newidiadau yr wyf wedi'u gwneud yn y GIG. Fodd bynnag, mae'r anawsterau yr ydym wedi'u cael wrth geisio cael yr hyn y mae arnom ei angen yn yr achos hwn yn dangos i'r Aelodau rai o'r problemau gwirioneddol a gawn wrth ymdrin â'r ymddiriedolaeth ambiwlans.

**Rhodri Glyn Thomas:** I should like to return to the original point made by Peter Black about patient transport, especially patients who have to receive specialised treatment far from home. These patients are often unable to drive, or it is unwise for them to drive after their treatment, and finding transport is difficult. Patients find it difficult to know where they should go to ask about transport in the first place. It seems that some organisations are trying to pass the blame on to others, for example, from the trust to the local health board or the hospital, and so on. Will the changes which you are introducing in the national health service improve that situation? I endorse what Peter said about the need to ensure consistency of transport and the right to transport in all parts of Wales.

cysondeb o ran cludiant a'r hawl i gludiant drwy Gymru.

**Edwina Hart:** I think that I need to make it clear in response that the current non-emergency patient transport service across Wales is serving a number of citizens poorly and is not citizen-focused enough in the delivery of its services. The current non-emergency patient transport system is extremely fragmented and needs to be managed as a whole system across all current providers. That also includes the involvement of the voluntary sector.

**Edwina Hart:** Wrth ymateb, credaf fod angen imi egluro nad yw'r gwasanaeth cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, ac sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar draws Cymru, yn cynnig gwasanaeth da i lawer o ddinasyddion, ac nid yw'n canolbwyntio ddigon ar y dinesydd wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r system bresennol ar gyfer cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys yn fratiog tu hwnt, ac y mae angen iddi gael ei rheoli fel un system gyfan sy'n cynnwys yr holl ddarparwyr presennol. Mae hynny'n cynnwys cyfraniad y sector gwirfoddol hefyd.

Rural provision is underprovided by all non-emergency patient services. Therefore, the reforms that we are undertaking with the local health boards will make a difference and improve the service. I hope that, when Win Griffiths's report goes into the public domain, all Assembly Members will take the opportunity to comment on it. I would like to receive individual Members' comments on what is happening in their areas and the history of the difficulties that some patients have experienced so that we can ensure that, when we go ahead with the report, any changes will represent what the Welsh electorate requires, which is a more efficient patient transport service.

Nid oes yr un o'r gwasanaethau cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer ardaloedd gwledig. Felly, bydd y diwygiadau yr ydym yn eu cyflwyno ar y cyd â'r byrddau iechyd lleol yn gwneud gwahaniaeth ac yn gwella'r gwasanaeth. Gobeithio, pan gaiff adroddiad Win Griffiths ei gyhoeddi, y bydd holl Aelodau'r Cynulliad yn dal ar y cyfle i gynnig sylwadau arno. Hoffwn gael sylwadau Aelodau unigol am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal hwy, a chlywed am yr anawsterau y mae rhai cleifion wedi'u cael fel y gallwn sicrhau, pan fyddwn yn symud ymlaen â'r adroddiad, y bydd unrhyw newidiadau'n adlewyrchu'r hyn y mae ar etholwyr Cymru ei angen, sef gwasanaeth cludo cleifion mwy effeithlon.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** The Minister referred to the rural situation and the provision of hospital transport. I have written to the Minister specifically about an issue in Machynlleth, to which I have received a response. I thank her for that; it was helpful.

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** Cyfeiriodd y Gweinidog at sefyllfa ardaloedd gwledig a'r ddarpariaeth cludiant ysbytai. Yr wyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn benodol am problem ym Machynlleth. Yr wyf wedi cael ymateb i'm llythyr ac yr wyf yn diolch iddi am hynny; yr oedd yn ddefnyddiol.

I will refer to that case. On more than one occasion, the taxi to take the constituent from Machynlleth to Swansea was over two hours late, which meant that the appointment was missed, and angst and concern for the cancer patient. Secondly, on one occasion, the person concerned was obliged to share the taxi with a drunken drug user, who had not

Cyfeiriai at yr achos hwnnw. Ar fwy nag un achlysur, yr oedd y taci yr oedd disgwyl iddo gludo'r etholwr o Fachynlleth i Abertawe dros ddwyawr yn hwyr yn cyrraedd. Yn sgi hynny, collwyd yr apwyntiad, ac achoswyd gofid a phryder i'r claf a oedd â chanser. Yn ail, ar un achlysur bu'n rhaid i'r unigolyn dan sylw rannu taci

only hypodermic needles but cans of lager. What guidelines exist on this? Clearly, that was totally inappropriate. Will the Minister look seriously at this case and at whether there are guidelines across the board in relation to such instances?

**Edwina Hart:** I was grateful to the leader of the opposition for drawing my attention to these issues, which raise enormous concerns about the administration of the system. A full and comprehensive survey on citizens' experience of services is needed to support the work that we are undertaking, and the useful information that has come from the leader of the opposition and others will help us focus. However, like you, I am concerned about how on earth that could happen in the first place and how there could be that element of delay. Examples have been drawn to my attention of kidney dialysis patients who have gone in for appointments at 2.30 p.m. and 3 p.m. and nobody has turned up to collect them until 10 p.m. or 11 p.m. Some of these elderly people have gone back to a house on their own, as there has not been any family there. If you are on your own, you would like to be home by teatime rather than late in the evening. That is why we have had to undertake difficult work. I would be grateful to continue to receive Members' correspondence on these issues and the information that they get from patient groups in their areas, because that is the only way that we will start to resolve these matters. They should have been resolved a long time ago. We are now putting sufficient emphasis on them and, hopefully, will resolve them as part of Win's review and the wider consideration that I am currently giving to the role of the ambulance trust.

**Alun Davies:** I am sure that you will agree that the more economically deprived the area, the more important it is that transport is available to take patients to and from hospital. In urban and rural Wales, we face real problems in relation to poor people being unable to meet appointments or receive treatment when and where necessary. Do you agree—I think that you have indicated this already in replies that you have given to

gyda defnyddiwr cyffuriau a oedd yn feddw ac yn cario nodwyddau hypodermig a chaniau cwrw. Pa ganllawiau sy'n bodoli ynghylch hyn? Mae'n amlwg fod y sefyllfa'n hollol amhriodol. A wnaiff y Gweinidog edrych o ddifrif ar yr achos hwn, ac edrych i weld a oes yna ganllawiau cyffredinol ynghylch achosion o'r fath?

**Edwina Hart:** Yr oeddwn yn ddiolchgar i arweinydd yr wrthblaid am dynnu fy sylw at y problemau hyn, sy'n codi pryderon mawr ynghylch gweinyddu'r system. Mae angen arolwg llawn a chynhwysfawr o brofiad defnyddwyr o wasanaethau i ategu'r gwaith yr ydym yn ei wneud, a bydd y wybodaeth ddefnyddiol sydd wedi dod i law gan arweinydd yr wrthblaid ac eraill yn ein helpu i ganolbwyntio'n sylw. Fodd bynnag, fel chithau, yr wyf yn poeni sut ar y ddaear y gallai hynny ddigwydd yn y lle cyntaf, a sut y gallai fod cymaint o oedi. Yr wyf wedi cael gwybod am enghreifftiau o gleifion sy'n cael dialysis arenol ac wedi mynd i'r ysbyty ar gyfer apwyntiad am 2.30 p.m. a 3 p.m., a neb yn dod i'w casglu tan 10 p.m. neu 11 p.m. Mae rhai o'r bobl oedrannus hyn wedi mynd yn ôl i dŷ lle maent ar eu pen eu hunain, am nad oedd aelod o'r teulu yno ar eu cyfer. Os ydych ar eich pen eich hun, byddai'n well gennych gyrraedd adref erbyn amser te yn hytrach nag yn hwyr yn y nos. Dyna pam yr ydym wedi gorfod gwneud gwaith anodd. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Aelodau'n dal i ysgrifennu ataf am y materion hyn a'r wybodaeth a gânt gan grwpiau cleifion yn eu hardal, gan mai dyna'r unig ffordd y gallwn ddechrau datrys y problemau hyn. Dylent fod wedi eu datrys amser maith yn ôl. Yr ydym yn rhoi digon o bwyslais arnynt erbyn hyn, a gobeithio y byddwn yn eu datrys fel rhan o adolygiad Win a'r ystyriaeth ehangach yr wyf wrthi'n ei rhoi i rôl yr ymddiriedolaeth ambiwlans.

**Alun Davies:** Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, po fwyaf yw amddifadedd economaidd ardal, pwysicaf oll yw bod cludiant ar gael i gludo cleifion i'r ysbyty ac yn ôl. Mewn ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru, yr ydym yn wynebu problemau gwirioneddol yng nghyswllt pobl dlawd sy'n methu â chadw apwyntiadau neu'n methu â chael triniaeth pan a ble mae angen. A ydych yn cytuno—credaf eich bod wedi dangos

previous questions this afternoon—that patient transport will be a priority for you as you go forward with this review? In contributing to the review, we will be drawing your attention to issues about a lack of public transport and a lack of effective public transport that suits the needs of patients and is within a reasonable travelling distance of hospitals.

**Edwina Hart:** On patient transport, when you meet the personnel that undertake the work, you find that they have a lot of good ideas about what is required, how it should have been managed differently, perhaps, and how the ambulance trust should, perhaps, have put more resources into patient transport in the first place. It is quite a complex agenda. I totally agree with you, Alun. We need to take the opportunity of this review to look at joining up public services in relation to patient transport. It does not just involve the NHS; there is also local government involvement. The Deputy Minister has asked me about what happens to social services buses during the day. They go out in the morning and collect people to take them to a day centre and take them back in the evenings, but what happens during all that time in the middle? Could they be used to take a group of people to a hospital appointment and bring them back? There is also the involvement of the voluntary sector, community cars and other matters to consider. For example, if three people in a rural, remote or socially deprived community need transport, could they go at the same time, in the same car, to an appointment at the same time in three different departments and then be brought back again? This is a matter of administration, and quite simple administrative concerns do not seem to have been taken into account. I sometimes feel that the patient is the last person to be consulted on transport arrangements. There is almost a system approach and I think that we have to get to grips with that.

1.50 p.m.

**Trish Law:** I take this opportunity to say how delighted I was, Minister, to join you on your visit to Ysbyty Aneurin Bevan last

hynny eisoes yn eich ymatebion i gwestiynau blaenorol y prynhawn yma—y bydd cludiant cleifion yn un o'ch blaenoriaethau wrth ichi symud ymlaen â'r adolygiad hwn? Wrth gyfrannu at yr adolygiad, byddwn yn tynnu eich sylw at broblemau'n ymwneud â diffyg cludiant cyhoeddus a diffyg cludiant cyhoeddus effeithiol sy'n gweddu i anghenion cleifion ac o fewn pellter teithio rhesymol i ysbytai.

**Edwina Hart:** O ran cludiant i gleifion, wrth gwrdd â'r bobl sy'n gwneud y gwaith fe welwch fod ganddynt lawer o syniadau da ynghylch yr hyn sydd ei angen, sut y dylid bod wedi'i reoli'n wahanol efallai, a sut y dylai'r ymddiriedolaeth ambiwlans fod wedi dyrannu mwy o adnoddau i gludiant cleifion yn y lle cyntaf, efallai. Mae'n agenda ddigon cymhleth. Yr wyf yn cytuno'n llwyr â chi, Alun. Mae angen inni gymryd y cyfle a ddaw yn sgil yr adolygiad hwn i edrych ar gydgysylltu gwasanaethau cyhoeddus o ran cludo cleifion. Nid mater i'r GIG yn unig yw hwn; mae gan lywodraeth leol hefyd ran i'w chwarae. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog imi beth sy'n digwydd i fysiau gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y dydd. Byddant yn mynd allan yn y bore i gasglu pobl a'u cludo i ganolfan ddydd, ac yna'n eu cludo'n ôl ar ddiwedd y prynhawn, ond beth sy'n digwydd yn ystod yr holl amser yn y canol? A ellid eu defnyddio i fynd â grŵp o bobl i apwyntiad ysbyty a'u cludo'n ôl wedyn? Rhaid ystyried cyfraniad y sector gwirfoddol, ceir cymunedol a materion eraill hefyd. Er enghraifft, os oes angen cludiant ar dri o bobl mewn cymuned wledig, anghysbell neu ddifreintiedig o safbwynt cymdeithasol, a allent fynd ar yr un pryd, yn yr un car, i apwyntiad sydd ar yr un pryd mewn tair adran wahanol, a chael eu cludo'n ôl wedyn? Mater o weinyddu yw hyn, ac ymddengys nad yw materion gweinyddol digon syml wedi cael eu hystyried. Weithiau, byddaf yn teimlo mai'r claf yw'r person olaf i ymgynghori ag ef ynghylch trefniadau cludiant. Bron nad oes angen dull gweithredu ar sail system, a chredaf fod angen inni fynd i'r afael â hynny.

**Trish Law:** Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddweud mor falch yr oeddwn, Weinidog, o gael ymuno â chi ar eich ymweliad ag Ysbyty

Thursday. Like you, I was terribly impressed to see the remarkable progress that has been made since you performed the topping-out ceremony seven months ago, on 2 April. There are plans for a minor injuries unit in the new hospital, which will, hopefully, lighten the demand for patient-transfer services between Blaenau Gwent, Abergavenny and Newport. However, there is a lobby of thought that is keen to see the creation of a full accident and emergency department at Ysbyty Aneurin Bevan. Would you agree that the hospital development is so advanced that it would be impractical and impossible to make any such change?

**Edwina Hart:** I echo your comments about the lovely visit that we had. We saw one of the rooms that are being developed for patients. Its size was first class in terms of nursing requirements and so on. The bathroom was also first class. As you have said, the decision was made when the development costs were agreed that there was to be a minor injuries unit. All of the planning work has been predicated on that and I do not think that we can move back from that, to be honest. I can understand why the community feels that it would be nice to have a full-blown accident and emergency department, but we cannot have one in every hospital development, so I concur with your comments.

### Specialist Health Services

**Q6 Jonathan Morgan:** Will the Minister outline plans to improve the provision of specialist health services?  
OAQ(3)1238(HSS)

**Edwina Hart:** I issued my second Cabinet statement setting out my decisions in relation to specialised and tertiary services in October. This included the establishment of a joint committee comprising all seven local health boards from 1 October 2009. The committee will have limited functions until it is fully operational in April 2010.

**Jonathan Morgan:** It has been estimated that over 40 per cent of deaf children experience mental health problems compared

Aneurin Bevan ddydd Iau diwethaf. Fel chithau, gwnaed argraff fawr iawn arnaf gan y cynnydd hynod a wnaed ers ichi osod y garreg gopa mewn seremoni saith mis yn ôl ar 2 Ebrill. Mae yna gynlluniau ar gyfer uned mân anafiadau yn yr ysbyty newydd a fydd, gobeithio, yn lleihau'r galw am wasanaethau i drosglwyddo cleifion rhwng Blaenau Gwent, y Fenni a Chasnewydd. Fodd bynnag, mae yna garfan sy'n awyddus i weld creu adran damweiniau ac achosion brys lawn yn Ysbyty Aneurin Bevan. A fydddech yn cytuno bod gwaith datblygu'r ysbyty wedi mynd mor bell fel y byddai'n anymarferol ac yn amhosibl gwneud newid o'r fath?

**Edwina Hart:** Hoffwn ategu eich sylwadau am ein hymweliad braf. Gwelsom un o'r ystafelloedd sy'n cael eu datblygu ar gyfer cleifion. Yr oedd ei maint yn berffaith o ran gofynion nyrsio, ac yn y blaen. Yr oedd yr ystafell ymolchi o'r safon uchaf hefyd. Fel yr ydych wedi ei ddweud, gwnaethpwyd y penderfyniad, wrth gytuno ar y costau datblygu, y byddai'r ysbyty'n cynnwys uned mân anafiadau. Mae'r holl waith cynllunio wedi'i wneud ar sail hynny, ac ni chredaf y gallwn newid hynny, a dweud y gwir. Gallaf ddeall pam y mae'r gymuned yn teimlo y byddai'n braf cael adran damweiniau ac achosion brys lawn, ond ni allwn gael un ym mhob ysbyty sy'n cael ei ddatblygu, ac felly yr wyf yn cytuno â'ch sylwadau.

### Gwasanaethau Iechyd Arbenigol

**C6 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau i wella darpariaeth gwasanaethau iechyd arbenigol?  
OAQ(3)1238(HSS)

**Edwina Hart:** Cyhoeddais fy ail ddatganiad Cabinet, a oedd yn egluro fy mhenderfyniadau ar wasanaethau arbenigol a thrydyddol, ym mis Hydref. Yr oedd yn cynnwys sefydlu cydbwyllgor gyda chynrychiolwyr o bob un o'r saith bwrdd iechyd lleol o 1 Hydref 2009 ymlaen. Swyddogaethau cyfyngedig a fydd gan y pwyllgor nes bydd yn gwbl weithredol ym mis Ebrill 2010.

**Jonathan Morgan:** Amcangyfrifwyd bod dros 40 y cant o blant byddar yn cael problemau iechyd meddwl, o'u cymharu â 25

to 25 per cent of hearing children. It is not deafness itself that increases the risk of mental health problems, but rather the consequences of being deaf in a hearing environment and a hearing-orientated society, where communication barriers exist and therefore affect the incidence of mental health problems. There are large gaps at the moment in both preventative and clinical mental health services for deaf children and adolescents in Wales. At best, individuals are treated by non-specialist staff in mainstream mental health services, and this is a particular problem for deaf children and young people who have communication service needs. Will the Minister commit to examining the child and adolescent mental health services strategy, and the other strategies that the Assembly Government is now working on, to see whether deaf and hard-of-hearing children are fully able to access the mental health services that they need?

**Edwina Hart:** I am happy to take forward the point that the Member has raised and to report back to the Assembly in due course. It is essential to recognise if we have a hole in a service and to do something about it. I thank him for raising that point with me today in the Chamber.

**Nerys Evans:** Fel cadeirydd y grŵp epilepsi, yr wyf yn falch iawn o'r gyfarwydddeb epilepsi yr ydych wedi ei chyhoeddi. Mae'n arwain y Deyrnas Unedig a cheir tipyn o bethau ynddi y gallwn ymfalchïo ynddynt. Dwy elfen bwysig i bobl sy'n dioddef epilepsi yw'r gwasanaethau y maent yn cael mynediad atynt drwy'r gwasanaeth iechyd, ond hefyd y cymorth y maent yn ei gael drwy fod yn aelodau o grwpiau cymorth lleol, lle y maent yn rhannu profiadau ac yn dangos cefnogaeth. Mae'r elusennau epilepsi yn gwneud llawer o waith da i ysgogi ac i helpu'r grwpiau lleol hyn. A ydych yn cytuno bod y gwaith hwn yn hanfodol i'r bobl sy'n dioddef epilepsi ac a wnewch longyfarch pobl Caerfyrddin sydd wedi sefydlu grŵp cymorth newydd i bobl sy'n dioddef o epilepsi yn y sir?

**Edwina Hart:** I do not think that I could

y cant o blant sy'n gallu clywed. Nid y byddardod ei hun sy'n cynyddu perygl problemau iechyd meddwl, ond canlyniadau bod yn fyddar mewn amgylchedd lle mae pawb arall yn gallu clywed, a chymdeithas sy'n troi o amgylch pobl sy'n gallu clywed, lle mae yna rwystrau cyfathrebu sy'n effeithio felly ar nifer yr achosion o broblemau iechyd meddwl. Ar hyn o bryd mae bylchau mawr yn y gwasanaethau iechyd meddwl clinigol ac ataliol ar gyfer plant a phobl ifanc fyddar yng Nghymru. Ar y gorau, caiff unigolion eu trin gan staff anarbenigol mewn gwasanaethau iechyd meddwl prif ffrwd, ac y mae hynny'n broblem benodol i blant a phobl ifanc fyddar y mae angen gwasanaeth cyfathrebu arnynt. A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i archwilio'r strategaeth ar iechyd meddwl plant a'r glasoed, a'r strategaethau eraill y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio arnynt ar hyn o bryd, i weld a yw plant fyddar neu drwm eu clyw yn gallu cael yr holl wasanaethau iechyd meddwl y mae arnynt eu hangen?

**Edwina Hart:** Yr wyf yn barod i weithredu ar y pwynt y mae'r Aelod wedi'i godi, ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad maes o law. Os oes bwlch mewn gwasanaeth, mae'n hanfodol inni gydnabod hynny a gwneud rhywbeth yn ei gylch. Diolch iddo am godi'r pwynt hwn gyda mi yn y Siambr heddiw.

**Nerys Evans:** As chair of the epilepsy group, I am very pleased with the epilepsy directive that you have published. It leads the United Kingdom and there are quite a few things in it that we can take pride in. Two elements that are important to people who suffer from epilepsy are the services that they access through the health service, but also the support they get from being members of local support groups, where they can share their experiences and offer support. Epilepsy charities do a great deal of good work to encourage and help local support groups. Do you agree that that work is vital to people who suffer from epilepsy, and will you congratulate the people of Carmarthen who have established a new support group for people who suffer from epilepsy in the county?

**Edwina Hart:** Nid wyf yn credu bod modd

overestimate how important it is that support groups exist. I congratulate the residents in Carmarthen on setting up a new support group for people with epilepsy. Our policy for improving epilepsy services in Wales is set out in our service development directives for epilepsy, which I published earlier this year. As you indicated, it is the first plan of its kind in the United Kingdom. It is essential that we develop these types of plans. The directive recognises the need for raising awareness of epilepsy among patients and the public. Public awareness of epilepsy is at quite a low level: if you see somebody experiencing an epileptic fit, people are not certain what to do. Therefore, I am pleased that there is this new support group, and I am also pleased that the issue of epilepsy is now being taken very seriously within Government and the health service.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, delivery against targets in the NHS, whether in specialist services or right across the NHS, is a key component of the Welsh Assembly Government's aspirations for modelling the NHS. In the Finance Committee meeting of a week or so ago, speaking on behalf of the directors of finance, Paul Davies highlighted that of the 25 targets set by the Welsh Assembly Government, in their mind, two are sacrosanct, and we touched on this issue this morning in the Health, Wellbeing and Local Government Committee. They are the Access 2009 targets and the four-hour to treatment target for accident and emergency departments. Given that he went on to say that everything would have to be scrutinised and, in his mind and that of the rest of the NHS, it is debatable whether any of the other targets are deliverable, which targets would you be prepared to forsake given the constraint that he has identified on NHS resources?

**Edwina Hart:** It is always nice to know people's personal opinions on the running of the NHS, but I think that I will decide which targets are achievable in the service, not finance directors.

gorbwysleisio mor bwysig yw cael grwpiau cymorth. Yr wyf yn llongyfarch trigolion Caerfyrddin am sefydlu grŵp cymorth newydd i bobl sydd ag epilepsi. Mae ein polisi ar gyfer gwella gwasanaethau i bobl sydd ag epilepsi yng Nghymru i'w weld yn ein cyfarwydddebau datblygu gwasanaethau ar gyfer epilepsi, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Fel y nodwyd gennyh, hwn yw'r cynllun cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig. Mae'n hanfodol inni ddatblygu cynlluniau tebyg i hyn. Mae'r gyfarwydddeb yn cydnabod bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o epilepsi ymhlith cleifion a'r cyhoedd. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o epilepsi yn gymharol isel: mae pobl yn ansicr beth i'w wneud wrth weld rhywun yn cael ffit epileptig. Felly, yr wyf yn falch fod y grŵp cymorth newydd hwn wedi'i ffurfio, ac yr wyf yn falch fod epilepsi yn fater sy'n cael ei gymryd o ddifrif gan y Llywodraeth a'r gwasanaeth iechyd.

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, mae perfformiad yn erbyn targedau yn y GIG, boed mewn gwasanaethau arbenigol ynteu ar draws y GIG yn gyffredinol, yn elfen allweddol yn nyheadau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer modelu'r GIG. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid tuag wythnos yn ôl, wrth siarad ar ran y cyfarwyddwyr cyllid, nododd Paul Davies fod dau o'r targedau o blith y 25 a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn anghyffyrddadwy yn eu tyb hwy, a chyfeiriwyd at y mater hwn y bore yma yn y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol. Y ddau darged dan sylw yw targedau Mynediad 2009 a'r targed o bedair awr ar gyfer darparu triniaeth mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. O gofio'i fod wedi mynd yn ei flaen i ddweud y byddai'n rhaid craffu ar bopeth, a'i bod yn amheus, yn ei farn ef a barn gweddill y GIG, a yw'n bosibl cyrraedd unrhyw un o'r targedau eraill, pa dargedau y byddech yn barod i'w hanghofio, o ystyried y cyfyngiadau y mae wedi eu nodi ar adnoddau'r GIG.

**Edwina Hart:** Mae hi bob amser yn braf cael gwybod beth yw barn bersonol pobl am redeg y GIG, ond credaf mai fi, ac nid y cyfarwyddwyr cyllid, a fydd yn penderfynu pa dargedau y gellir eu cyrraedd yn y gwasanaeth.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, Minister, but, at the end of the day, he was speaking in his capacity as a director of finance. These individuals play a critical role in managing the resources that are sent down from the Assembly Government to meet the aspirations in the targets that you set. Today, you were robust in the health committee in saying, ‘Well, at the end of the day, they have to get on with the job’, but the fact of the matter is that we live in a challenging environment, and patients and staff have identified—as was raised with you this morning—the example of training and the need to ring-fence it if we are to attract people to Wales. It is one thing for you to say that it is nice to hear personal opinions, but are you confident that the settlements that you have given the NHS will deliver the targets that you have set the NHS for patients, and that there is no room for manoeuvre at all and that they must be met?

**Edwina Hart:** We set targets for a specific purpose—we do not sit around in Cathays park thinking, ‘That is a good idea, I’ll set a target on it’, we do it to ensure better results for patients. We have to recognise that we face tight financial settlements, and I am already looking at the whole issue of intelligent targets and reviewing the annual operating framework with regard to what will be done in that area. So, I listen to what the service tells me, but, frankly, those people are there to deliver. The directors also indicated in that meeting that they thought that money was not being well spent. Well, they had better get on and make sure that it is better spent, because I am paying them an awful lot of money to do their jobs. They are NHS employees. I set the direction of policy, and they have to get on with it.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, cancer will affect one in three Welsh citizens, and the distance to specialist health services has been shown to cause a decrease in survival rates for some cancers. Between

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am eich ateb, Weinidog, ond yn y pen draw rhaid cofio’i fod yn siarad yn rhinwedd ei swydd fel cyfarwyddwr cyllid. Mae gan yr unigolion hyn rôl hollbwysig yn rheoli’r adnoddau a ddyrennir gan Lywodraeth y Cynulliad i fodloni’r dyheadau yn y targedau yr ydych yn eu gosod. Heddiw, yr oeddech yn gadarn yn y pwyllgor iechyd wrth ddweud ei bod yn rhaid yn y pen draw iddynt fwrw ymlaen â’r gwaith. Ond y gwir amdani yw ein bod yn byw mewn amgylchedd heriol, ac y mae cleifion a staff wedi nodi—fel y codwyd gyda chi y bore yma—yr enghraifft o hyfforddiant a’r angen am neilltuo arian ar ei gyfer os ydym am ddenu pobl i Gymru. Un peth yw dweud ei bod yn braf clywed barn bersonol pobl, ond a ydych yn hyderus y bydd y setliadau yr ydych wedi’u rhoi i’r GIG yn ei alluogi i gyrraedd y targedau yr ydych wedi’u gosod i’r GIG o ran cleifion, ac nad oes hyblygrwydd o gwbl a’i bod yn rhaid eu cyrraedd?

**Edwina Hart:** Yr ydym yn gosod targedau at ddiben penodol—nid rhyw eistedd ym Mharc Cathays y byddwn a meddwl ‘Dyna syniad da, beth am osod targed ar gyfer hynny’. Yr ydym yn gosod targedau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i gleifion. Rhaid inni gydnabod ein bod yn wynebu setliadau ariannol tynn, ac yr wyf eisoes yn edrych ar holl fater targedau deallus, ac yn adolygu’r fframwaith gweithredu blynyddol o ran beth a gaiff ei wneud yn y maes hwnnw. Felly, yr wyf yn gwrandao ar yr hyn sydd gan y gwasanaeth i’w ddweud wrthyf, ond a siarad yn blaen, gwaith y bobl hynny yw cyflawni. Awgrymodd y cyfarwyddwyr hefyd yn y cyfarfod hwnnw eu bod yn credu nad oedd yr arian yn cael ei wario’n dda. Wel, gwell fyddai fynd ati i sicrhau ei fod yn cael ei wario’n well, oherwydd yr wyf yn talu llawer iawn o arian iddynt am wneud eu gwaith. Cânt eu cyflogi gan y GIG. Fi sy’n pennu’r cyfeiriad o ran polisi, a rhaid iddynt hwy fynd ati.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, bydd canser yn effeithio ar un o bob tri o ddinasyddion Cymru, a dangoswyd bod y pellter teithio i wasanaethau iechyd arbenigol yn lleihau’r cyfraddau goroesi ar gyfer rhai



2003 and 2007, 671 Powys patients needed access to chemotherapy, yet only seven of those patients were able to receive it within Powys. Over half those patients had to travel to England, and the average distance travelled for a Powys cancer patient who requires chemotherapy is a round trip of 75 miles, with many patients having a round trip of over 100 miles. The questions to you this afternoon have been dominated by the need to improve patient transport services, but, surely, the reality is that, where we can, we should treat patients more closely to home. There is no clinical reason why many people who need chemotherapy could not be treated in their homes, in community hospitals, or through innovative projects such as the Tenovus mobile unit service, which is providing chemotherapy services to people in their communities, thereby cutting down on the need for people to travel for this essential treatment. What consideration will you give to ensuring that, in future, chemotherapy patients in rural areas have more access to chemotherapy services closer to home, either via their community hospital or via such innovative projects as the Tenovus mobile unit service?

**Edwina Hart:** I state on record—I am sure that Members will concur—what an excellent project the Tenovus mobile unit service is and how successful it has been in delivering those services.

I had the opportunity to go out and about to look at issues to do with maintaining community hospitals and what services they should offer. Dr Chris Jones and I have been particularly keen to look at the chemotherapy issues, because general practitioners are happy to be there, supervising chemotherapy and utilising the facilities. I am therefore giving further consideration to these issues as part of Dr Jones's work.

I am also giving consideration to the wider issues as part of the discussions with the cancer network, because I realise what a difficult position patients in Powys are in

mathau o ganser. Rhwng 2003 a 2007, yr oedd angen cemotherapi ar 671 o gleifion ym Mhowys, ond saith yn unig o'r cleifion hynny a fedrodd ei gael ym Mhowys. Bu'n rhaid i dros hanner y cleifion hynny deithio i Loegr, ac ar gyfartaledd rhaid i glaf sy'n dioddef gan ganser ym Mhowys ac sydd ag angen cemotherapi arno deithio taith gron o 75 milltir, a rhaid i lawer o gleifion deithio taith gron o dros 100 milltir. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd ichi y prynhawn yma wedi canolbwyntio ar yr angen i wella gwasanaethau cludo cleifion, ond siawns mai'r gwir yw ei bod yn rhaid inni drin cleifion yn nes i'w cartref, ble bynnag y gallwn. Nid oes rheswm clinigol pam na ellid trin llawer o bobl y mae angen cemotherapi arnynt yn eu cartrefi, mewn ysbytai cymunedol neu drwy brosiectau arloesol megis gwasanaeth uned deithiol Tenovus, sy'n darparu gwasanaethau cemotherapi i bobl yn eu cymunedau, gan leihau'r angen i bobl deithio i gael y driniaeth hanfodol honno. Pa ystyriaeth a rowch i sicrhau, yn y dyfodol, fod gan gleifion mewn ardaloedd gwledig sydd ag angen cemotherapi arnynt yn cael mynediad mwy helaeth i wasanaethau cemotherapi yn nes i'w cartref, boed hynny trwy'r ysbyty cymunedol ynteu drwy brosiectau arloesol megis gwasanaeth uned deithiol Tenovus?

**Edwina Hart:** Yr wyf am ddweud yn swyddogol—ac yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno—fod gwasanaeth uned deithiol Tenovus yn brosiect ardderchog ac wedi bod yn llwyddiannus tu hwnt wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Cefais gyfle i fynd o amgylch i edrych ar faterion yn ymwneud â chynnal ysbytai cymunedol, a'r gwasanaethau y dylent eu cynnig. Mae Dr Chris Jones a minnau wedi bod yn awyddus iawn i edrych ar faterion yn ymwneud â chemotherapi, oherwydd mae meddygon teulu'n fodlon bod yno i oruchwylio cemotherapi a defnyddio'r cyfleusterau. Yr wyf felly'n ystyried y materion hyn ymhellach fel rhan o waith Dr Jones.

Yr wyf hefyd yn ystyried y materion ehangach fel rhan o'r trafodaethau gyda'r rhwydwaith canser, gan fy mod yn sylweddoli mor anodd yw'r sefyllfa i gleifion

because of the amount of travelling they have to do for many aspects of cancer treatment. The discussion is ongoing, and I hope to make some announcements about cancer targets and other cancer-related work. We will also soon be picking up Dr Jones's work on what we can do in terms of innovation and the provision of chemotherapy, in particular, closer to home.

2.00 p.m.

### Post-traumatic Stress Disorder

**Q7 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on her policies to support individuals with post-traumatic stress disorder? OAQ(3)1265(HSS)

**Edwina Hart:** We are committed to supporting and treating individuals with PTSD across Wales. They can access services through GPs and local community mental health services. More specialised treatment is also available through the NHS traumatic stress service at the University Hospital of Wales. Veterans are entitled to priority NHS treatment for service-related conditions, including PTSD.

**Mark Isherwood:** PTSD affects people who have been exposed to traumatic events. Among combat veterans, there is a common pattern of attempted symptom suppression through alcohol and drug abuse, a downward spiral of employment difficulties, relationship problems, confrontations with the law and even suicide. More Falklands veterans have committed suicide than have died in action. Ten per cent of our prison population are ex-forces personnel, and 2,000 of those are estimated to have PTSD. Twelve per cent of our homeless people are in this category—I could go on.

ym Mhowys oherwydd y pellter y mae'n rhaid iddynt ei deithio i gael llawer elfen o'r driniaeth am ganser. Mae'r drafodaeth yn parhau, a gobeithiaf wneud rhai cyhoeddiadau am dargedau o ran canser a gwaith arall sy'n gysylltiedig â chanser. Cyn hir, byddwn yn mynd ati hefyd i weithredu ar waith Dr Jones o ran yr hyn y gallwn ei wneud yng nghyswllt arloesi a darparu cemotherapi, yn enwedig, yn nes i gartref y claf.

### Anhwylder Straen wedi Trawma

**C7 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei pholisïau i gefnogi unigolion sydd ag anhwylder straen wedi trawma? OAQ(3)1265(HSS)

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi ymrwymo i gefnogi a thrin unigolion sydd ag anhwylder straen wedi trawma ledled Cymru. Gallant gael gwasanaethau trwy feddygon teulu a gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol lleol. Mae triniaeth fwy arbenigol ar gael hefyd trwy wasanaeth y GIG yn Ysbyty Athrofaol Cymru ar gyfer straen wedi trawma. Mae gan gyn-filwyr hawl i gael triniaeth fel mater o flaenoriaeth gan y GIG yn achos anhwylderau sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth, gan gynnwys anhwylder straen wedi trawma.

**Mark Isherwood:** Mae anhwylder straen wedi trawma yn effeithio ar bobl sydd wedi profi digwyddiadau trawmatig. Mae yna batrwm cyffredin ymhlith cyn-filwyr sydd â phrofiad o frwydro, lle byddant yn ceisio cuddio'r symptomau trwy gamdefnyddio alcohol a chyffuriau, ac y mae patrwm o anawsterau cynyddol o ran gwaith, problemau yn eu perthynas ag eraill, gwrthdaro â'r heddlu, a hunanladdiad hyd yn oed. O blith y cyn-filwyr a fu'n ymladd ar Ynysoedd Falkland, mae nifer y rhai sydd wedi cyflawni hunanladdiad ers hynny yn fwy na'r nifer a gafodd eu lladd yn y brwydro. Mae deg y cant o'r bobl yn ein carchardai wedi bod yn y lluoedd arfog, ac amcangyfrifir bod gan 2,000 o'r rheini anhwylder straen wedi trawma. Mae 12 y cant o'n pobl ddigartref hefyd yn y categori hwn—gallwn fynd barhau.

For this reason, Pathways Treatment Service for traumatised ex-service personnel was opened in Bangor this summer by Dr Power and Dr Steven Hughes, a veteran of 2 Para from the Falklands. The service provides in-house therapy for PTSD sufferers. When I visited the service, in the previous week alone they had received 11 referrals, six of which were north Wales residents, and mainly from the NHS and the police. I was told that the service had been besieged with requests for help. Six community-based health pilot schemes, one of which is in Wales, are already oversubscribed, and they are unlocking memories in short therapy sessions, leaving veterans to cope until the next appointment. I was also told that because there is no Combat Stress centre in Wales, the service is currently only able to offer time-limited treatment. The service already has 2,000 clients and expects more.

However, I heard the distressing news today that because the providers funded the service from their personal savings and because they have not been able to secure any statutory funding, the service has been in crisis talks and has had no option but to issue redundancies and close the treatment service by the end of November. Minister, will you intervene to safeguard this vital service for our wounded veterans?

**Edwina Hart:** The NHS does provide services in this area, and you will be aware that we are jointly funding with the Ministry of Defence the communities' veteran mental health therapist service project, which is based at University Hospital Wales in south Wales. We are also looking at a veteran health needs assessment and we have a veterans' mental health task and finish group, which Dr John Bisson deals with.

Am y rheswm hwn, agorwyd Gwasanaeth Triniaethau 'Pathways' ym Mangor yn ystod yr haf ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi dioddef trawma. Cafodd ei agor gan Dr Power a Dr Steven Hughes a fu'n brwydro ar Ynysoedd Falkland yn ail Fataliwn y Parasiwtwyr. Mae'r gwasanaeth yn darparu therapi yn y lleoliad ar gyfer pobl sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Pan ymwelais â'r gwasanaeth, yr oedd 11 o bobl wedi'u cyfeirio yno yn ystod yr wythnos flaenorol yn unig, chwech ohonynt yn byw yn y gogledd, yn bennaf gan y GIG a'r heddlu. Dywedwyd wrthyf fod y gwasanaeth yn cael ei foddi gan geisiadau am gymorth. Mae chwe chynllun peilot sy'n cynnig gwasanaeth iechyd yn y gymuned, un ohonynt yng Nghymru, eisoes wedi cael mwy o geisiadau nag y gallant eu derbyn, a byddant yn deffro atgofion mewn sesiynau therapi byr ac yna'n gadael i'r cyn-filwyr ymdopi tan yr apwyntiad nesaf. Oherwydd nad oes canolfan gan Combat Stress yng Nghymru, dywedwyd wrthyf hefyd mai am gyfnod penodol yn unig y gall y gwasanaeth gynnig triniaeth ar hyn o bryd. Mae gan y gwasanaeth 2,000 o gleientiaid eisoes ac y mae'n disgwyl mwy.

Fodd bynnag, oherwydd bod y darparwyr wedi ariannu'r gwasanaeth o'u cynilion personol, ac am eu bod wedi methu cael cyllid statudol, clywais y newyddion gofidus heddiw fod y gwasanaeth wedi bod yn cynnal trafodaethau argyfwng, wedi gorfod diswyddo staff, ac yn gorfod cau'r gwasanaeth erbyn diwedd mis Tachwedd. Weinidog, a wnewch chi ymyrryd i ddiogelu'r gwasanaeth hanfodol hwn ar gyfer ein cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu?

**Edwina Hart:** Mae'r GIG yn darparu gwasanaethau yn y maes hwn, a gwyddoch ein bod yn ariannu'r prosiect gwasanaeth therapydd iechyd meddwl i gyn-filwyr yn y gymuned, ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r gwasanaeth hwn yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn y de. Yr ydym hefyd yn edrych ar asesiad o anghenion iechyd cyn-filwyr, ac y mae gennym grŵp gorchwyl a gorffen sy'n edrych ar iechyd meddwl cyn-filwyr yng ngofal Dr John Bisson.

With regard to the service to which you referred, at no time has the Welsh Assembly Government promised the service any offer of grant aid, and no formal application for grant aid has been made by the service or on its behalf. I am advised that consultants for the service were advised at the first point of contact with our appraisal team that the project was not eligible for grant aid, because the services that the project provides can be provided by the NHS. Veterans across Wales have access to mental health services through their GPs and community mental health teams and, where required, specialist in-patient services. I understand that that is the position regarding the project which you have drawn to my attention, which is run by Dr Power.

**Mohammad Asghar:** Minister, I heard your statement and your precise and broad answer to Mark Isherwood. However, anecdotal evidence suggests that the proper diagnosis of post-traumatic stress disorder is far below the actual incidence of PTSD, and that many GPs lack a proper understanding of the condition. What consideration has the Minister given to improve this situation in Wales?

**Edwina Hart:** I am not aware of any such problems among GPs, but if you gave me specific evidence I would be more than happy to look at it, and I will ensure that it is considered by my medical advisers and discussed with the GP committees in Wales and the British Medical Association. GPs undergo regular professional development and they have knowledge of their patient's history, which often makes them best placed to help to identify issues. GPs in Wales are going through a revalidation process as part of that. I would be happy to receive any evidence, not only from you but from any other Members, about this particular issue because we want to ensure quality services.

O ran y gwasanaeth y cyfeiriedd ato, nid yw Llywodraeth y Cynulliad erioed wedi addo cymorth grant i'r gwasanaeth, ac nid oes cais ffurfiol am gymorth grant wedi'i gyflwyno gan y gwasanaeth nac ar ei ran. Dywedwyd wrthyf fod ymgynghorwyr ar ran y gwasanaeth wedi cael gwybod, pan gysylltwyd â'n tîm arfarnu am y tro cyntaf, nad oedd y prosiect yn gymwys i gael cymorth grant gan fod y gwasanaethau y mae'r prosiect yn eu cynnig yn rhai y gall y GIG eu darparu. Mae cyn-filwyr ledled Cymru yn gallu cael gwasanaethau iechyd meddwl trwy eu meddygon teulu a thimau iechyd meddwl cymunedol, a gwasanaethau arbenigol i gleifion mewnol lle bydd angen. Deallaf mai dyna'r sefyllfa o ran y prosiect yr ydych wedi tynnu fy sylw ato ac sy'n cael ei redeg gan Dr Power.

**Mohammad Asghar:** Weinidog, clywais eich datganiad a'ch ateb manwl ac eang i Mark Isherwood. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod nifer y bobl sy'n cael eu diagnosio'n iawn ag anhwylder straen wedi trawma lawer yn is na nifer y bobl sy'n dioddef o'r anhwylder mewn gwirionedd, a bod nifer o feddygon teulu nad ydynt yn deall yr anhwylder yn iawn. Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i wella'r sefyllfa hon yng Nghymru?

**Edwina Hart:** Nid wyf yn ymwybodol o ddim problemau felly ymysg meddygon teulu, ond pe baech yn rhoi tystiolaeth benodol imi, byddwn yn fwy na pharod i edrych arni, a sicrhau ei bod yn cael ei hystyried gan fy nghynghorwyr meddygol a'i thrafod gyda'r pwyllgorau meddygon teulu yng Nghymru a Chymdeithas Feddygol Prydain. Bydd meddygon teulu'n cael datblygiad proffesiynol yn rheolaidd, ac y mae ganddynt wybodaeth am hanes eu cleifion, sy'n golygu mai hwy sydd yn y sefyllfa orau yn aml i helpu adnabod problemau. Mae meddygon teulu yng Nghymru yn mynd trwy broses ailddilysu fel rhan o hynny. Byddwn yn falch cael tystiolaeth, nid yn unig gennych chi ond gan unrhyw Aelod arall hefyd, am y broblem benodol hon, gan ein bod yn awyddus i sicrhau gwasanaethau o safon.

**Eleanor Burnham:** We realise that the Barnett formula does us down compared with Scotland. In Scotland, almost £3 million over two years has been pledged to support PTSD through Combat Stress. What plans do you have to alleviate this ticking time bomb? We realise that your heart is in it but that the money is not available. My understanding is that the final year for the current three-year grant ends in 2011 and there are huge problems. As more and more people come back from Afghanistan or other places in the world where they are suffering greatly, surely it is incumbent upon us, and upon you as Minister, to do our very best.

**Eleanor Burnham:** Sylweddolwn nad ydym yn gwneud cystal â'r Alban dan fformiwla Barnett. Yn yr Alban, mae bron i £3 miliwn wedi'u haddo dros gyfnod o ddwy flynedd i gynorthwyo pobl ag anhwylder straen wedi trawma, trwy Combat Stress. Pa gynlluniau sydd gennych chi i leddfu'r broblem hon sydd mewn perygl o ffrwydro? Sylweddolwn eich bod yn gefnogol ond nad yw'r arian ar gael. Os deallaf yn iawn, bydd y grant tair blynedd presennol yn dod i ben yn 2011 ac y mae yna broblemau enbyd. Wrth i fwyfwy o bobl ddychwelyd o Affganistan neu leoedd eraill yn y byd lle maent yn dioddef yn enbyd, mae'n sicr fod dyletswydd arnom i wneud ein gorau glas, ac arnoch chi fel Gweinidog.

**Edwina Hart:** I am keen to ensure that there is no gap in service provision between the end of the pilot scheme and the adoption of the national model. We are looking at that strategically at the moment because it is important that, while veterans and armed forces policy is not devolved, all the issues that affect veterans are devolved. We are taking a holistic look at these issues as a Government, whether it is me with regard to health, Jocelyn Davies with regard to housing or issues around training. Your points were well made.

**Edwina Hart:** Yr wyf yn awyddus i sicrhau nad oes bwlch yn y ddarpariaeth o ran gwasanaethau, rhwng diwedd y cynllun peilot a dechrau mabwysiadu'r model cenedlaethol. Yr ydym yn edrych ar hynny'n strategol ar hyn o bryd, oherwydd mae'n bwysig i'r holl faterion sy'n effeithio ar gyn-filwyr gael eu datganoli, er nad yw cyn-filwyr a'r lluoedd arfog yn faes polisi sydd wedi'i ddatganoli. Yr ydym yn edrych ar bob agwedd ar y materion hyn fel Llywodraeth, boed yn broblemau iechyd yr wyf fi'n edrych arnynt, yn broblemau tai y mae Jocelyn Davies yn edrych arnynt, ynteu'n broblemau'n ymwneud â hyfforddiant. Yr oedd pwyntiau yn rhai da.

### Vending Machines

**Q8 Nick Ramsay:** Will the Minister make a statement on the implementation of her policy to change the nutritional profile of vending machines in hospitals? OAQ(3)1255(HSS)

**Edwina Hart:** Health promoting vending machines contribute to delivering the 'One Wales' commitment to improve hospital food and nutrition. The local health boards were given clear guidance on implementation in the health promoting hospital vending directions, issued in September 2008. A review of the first 12 months' progress will be completed shortly.

**Nick Ramsay:** Thank you for that answer,

### Peiriannau Gwerthu

**C8 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu ei pholisi i newid proffil maeth peiriannau gwerthu mewn ysbytai? OAQ(3)1255(HSS)

**Edwina Hart:** Mae peiriannau gwerthu sy'n hybu iechyd yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i wella bwyd a maeth mewn ysbytai. Rhoddwyd canllawiau clir i'r byrddau iechyd lleol ar y ffordd i weithredu, yn y cyfarwyddiadau ar werthu bwyd a diod sy'n hybu iechyd mewn ysbytai, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2008. Caiff adolygiad o'r cynnydd a wnaed yn ystod y 12 mis cyntaf ei gwblhau yn hir.

**Nick Ramsay:** Diolch am eich ateb,

Minister. It has now been about a year since the initial implementation of this policy, yet, as far as I am aware, there has been no real assessment of the effectiveness of the policy in improving the nutrition and diet of those accessing vending machines in our hospitals. Do you have any plans to review and evaluate the effectiveness and the impact of the policy on the nutrition and diet of those people?

**Edwina Hart:** As I indicated in my answer, but perhaps not fully enough, a review of the first 12 months' progress will be completed shortly, which will take on board the points that you have just made. I realise that, in some areas, this has not been particularly popular in terms of the vending machine agenda. Assembly Government officials are also trying to engage with the retail and voluntary sector food providers in hospitals to get them to look at their position. I know that concerns have been expressed by the WRVS, which runs some excellent facilities in hospitals. The review will encompass all the issues to which you alluded.

**Ann Jones:** Notwithstanding your reasons for making us all healthier via the vending machines, Minister, may I put in a plea for— [*Laughter.*] That is what it is all about, is it not? It is to make us all healthier by not eating the awful stuff that comes out of the vending machines. I make a plea on behalf of the front-line staff who work in hospitals, who, because they do not get breaks due to the nature of their work—I can testify to that, having been an emergency service worker—often need a small piece of chocolate to keep them going for an hour and a half beyond the time of their lunch break, which they might not take. Not having that in the vending machines is causing staff some problems. There is an issue here about allowing staff to have some personal choice over what is in vending machines. When you hold this review, I ask you seriously to look at whether staff should be allowed to access vending machines with drinks containing glucose and fizzy drinks that will keep them going a little longer. We all know about this, because we have all done it in the past.

Weinidog. Mae tua blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r polisi hwn gael ei weithredu gyntaf, ac eto, hyd y gwn i, nid oes asesiad go iawn wedi'i wneud o effeithiolrwydd y polisi o ran gwella maeth a deiet pobl sy'n defnyddio peiriannau gwerthu yn ein hysbytai. A oes gennych unrhyw gynlluniau i adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y polisi ar faeth a deiet y bobl hynny?

**Edwina Hart:** Fel yr awgrymais yn fy ateb, er nad yn ddigon llawn, efallai, bydd adolygiad o'r cynnydd a wnaed yn ystod y 12 mis cyntaf yn cael ei gwblhau cyn hir, a bydd yn ystyried y pwyntiau yr ydych newydd eu gwneud. Sylweddolaf nad yw'r agenda ar gyfer peiriannau gwerthu wedi bod yn boblogaidd iawn mewn rhai ardaloedd. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ceisio ymwneud â darparwyr bwyd yn y sector gwirfoddol a manwerthu mewn ysbytai i'w cael i ystyried eu sefyllfa. Gwn fod Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched, sy'n rhedeg rhai cyfleusterau ardderchog mewn ysbytai, wedi mynegi pryderon. Bydd yr adolygiad yn rhoi sylw i'r holl faterion y cyfeirich atynt.

**Ann Jones:** Er gwaethaf eich rhesymau dros ein gwneud i gyd yn iachach trwy'r peiriannau gwerthu, Weinidog, hoffwn gyflwyno ple ar ran— [*Chwerthin.*] Onid dyna yw'r diben? Ein gwneud i gyd yn iachach trwy beidio â bwyta'r sothach sy'n dod allan o'r peiriannau gwerthu? Hoffwn gyflwyno ple ar ran y staff rheng-flaen sy'n gweithio mewn ysbytai, nad ydynt yn cael seibiant oherwydd natur eu gwaith—gallaf dystio i hynny, fel rhywun sydd wedi gweithio i'r gwasanaethau brys—ond bydd angen darn bach o siocled arnynt yn aml i'w cadw i fynd am awr a hanner ar ôl eu hegwyl amser cinio, na fyddant efallai'n ei chymryd. Mae peidio â chael siocled yn y peiriannau gwerthu yn achosi rhai problemau staff. Mae caniatáu rhywfaint o ddewis personol i staff ynghylch yr hyn sydd mewn peiriannau gwerthu yn bwnc trafod yn y cyswllt hwn. Pan fyddwch yn gwneud yr adolygiad, gofynnaf o ddifrif ichi ystyried a ddylai staff gael defnyddio peiriannau sy'n gwerthu diodydd byrlymog a diodydd sy'n cynnwys glwcos, a fydd yn eu cadw i fynd ychydig yn hwy. Gwyddom i gyd am hyn, oherwydd mae

pob un ohonom wedi ei wneud yn y gorffennol.

**Edwina Hart:** As Ann indicated, the issue for us is to support the healthy eating agenda. However, if it would be helpful for Members, I will ask the partnership council and the joint management of the trade union body whether they have any comments on the review that has been undertaken.

**Edwina Hart:** Fel yr awgrymodd Ann, yr hyn sy'n bwysig i ni yw cefnogi'r agenda ar fwyta'n iach. Fodd bynnag, os yw'n ddefnyddiol i'r Aelodau, gofynnaf i'r cyngor partneriaeth a chyd-reolwyr corff yr undebau llafur a oes ganddynt unrhyw sylwadau ar yr adolygiad sydd wedi'i wneud.

**Jenny Randerson:** Minister, I have asked you about this topic before, as you will be well aware. I do not necessarily agree with Ann Jones when she says that what is in vending machines is awful stuff. The point that I was making is that, because the standards applied were inappropriate, some perfectly healthy food was caught by the standards that had been applied. This was an issue that the Food Standards Agency raised when it wrote saying that the standards that had been applied were not intended for vending machines. Can you confirm whether the issue of the standards applied has been included in your review? Will that review be published and, if so, at what point can we expect to see it?

**Jenny Randerson:** Weinidog, yr wyf wedi eich holi am hyn o'r blaen, fel y gwyddoch yn iawn. Nid wyf o reidrwydd yn cytuno ag Ann Jones pan ddywed fod y pethau sy'n dod allan o beiriannau gwerthu yn sothach. Y pwynt yr oeddwn yn ei wneud oedd bod rhywfaint o fwyd hollol iach wedi'i ddal gan y safonau a ddefnyddiwyd, oherwydd bod y safonau a ddefnyddiwyd yn amhriodol. Yr oedd hwn yn fater a godwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, pan ysgrifennodd gan ddweud nad oedd y safonau a ddefnyddiwyd wedi'u bwriadu ar gyfer peiriannau gwerthu. A allwch gadarnhau bod mater y safonau a ddefnyddiwyd wedi'i gynnwys yn eich adolygiad? A fydd yr adolygiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi, ac os felly, pryd y gallwn ddisgwyl ei weld?

**Edwina Hart:** I have very much taken on board the comments that I have received during the last 12 months. They will be fully examined by the chief medical officer and his officials when they undertake the review. The nutrient profile and model application for hospital vending are being reviewed following on from the first year, and all the points that Members have been raising with me will be taken into account.

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi gwranddo'n astud ar y sylwadau a gefais yn ystod y 12 mis diwethaf. Cânt eu harchwilio'n llawn gan y prif swyddog meddygol a'i swyddogion pan fyddant yn cynnal yr adolygiad. Bydd proffil maeth peiriannau gwerthu a'r ffordd orau i'w defnyddio mewn ysbytai yn cael eu hadolygu ar ôl y flwyddyn gyntaf, a bydd yr holl bwyntiau y mae'r Aelodau wedi bod yn eu codi gyda mi yn cael eu hystyried.

2.10 p.m.

On timescales, I will write to Members about a definitive timescale for the department undertaking the review, and when it will be published. I know that this is of enormous interest to Members, NHS staff and people across the board.

O ran yr amserlen, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelodau ynghylch amserlen bendant ar gyfer yr adran sy'n gwneud yr adolygiad, a phryd y caiff yr adolygiad ei gyhoeddi. Gwn fod hyn o ddiddordeb mawr i'r Aelodau, staff y GIG a phobl yn gyffredinol.

**The Presiding Officer:** In calling question 8, I had neglected to remind myself that three questions today were not called. I think that we have time for Peter Black's question 9.

**Y Llywydd:** Wrth alw cwestiwn wyth, anghofiais fod tri chwestiwn heb eu galw heddiw. Credaf fod gennym amser ar gyfer cwestiwn rhif 9 gan Peter Black.

**Neurological Services**

**Q9 Peter Black:** Will the Minister make a statement on the future of neurological services within Wales? OAQ(3)1237(HSS)

**Edwina Hart:** I refer you to my letter dated 16 October, sent to all Assembly Members.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. We are acutely aware in South Wales West, and further west, of the changes to neurosurgery at Morriston Hospital. Despite the commitment in the 'One Wales' agreement, and the strong manifesto pledge from your partners Plaid Cymru, you have, in fact, abandoned emergency neurosurgery at Morriston and transferred it to Cardiff. What assessment have you made of the impact of that move on travelling times for patients, and the risk to patients of excessive travelling times from west Wales to Cardiff in order to receive treatment?

**Edwina Hart:** For the purpose of the Record, Presiding Officer, perhaps I should answer the question in this way. I have been especially pleased to note the strong clinical consensus that the implementation planning group has secured for this recommendation, which was backed unanimously by all neurosurgeons working in mid and south Wales. As a result, we will maintain the neuroscience centres at Morriston Hospital and University Hospital Wales, as promised by the administration. Complex intracranial neurosurgery will continue at UHW, but any pre and post-operative care will be carried out at Morriston Hospital. More patients from mid and west Wales who require spinal surgery will go to Morriston instead of travelling to UHW, which is an improvement on the present patient transport arrangements, and the plans will allow surgeons to sub-specialise, increasing their expertise in services that improve outcomes for patients. While there will be an integration and movement of services between the two sites, we will maintain and sustain both centres, which was the whole object of the exercise, for the benefit of patients and staff.

**Gwasanaethau Niwrolegol**

**C9 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau niwrolegol yng Nghymru? OAQ(3)1237(HSS)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeirïaf at fy llythyr, dyddiedig 16 Hydref, a anfonwyd at holl Aelodau'r Cynulliad.

**Peter Black:** Diolch am eich ateb, Weinidog. Yn y de-orllewin, ac ymhellach i'r gorllewin, yr ydym yn ymwybodol iawn o'r newidiadau mewn niwrolawdriniaeth yn Ysbyty Treforys. Er gwaethaf yr ymrwymiad yng nghytundeb 'Cymru'n Un', a'r addewid pendant ym manifesto eich partneriaid, Plaid Cymru, yr ydych mewn gwirionedd wedi troi eich cefn ar y ddarpariaeth niwrolawdriniaeth frys yn Nhreforys a'i throsglwyddo i Gaerdydd. Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o effaith hynny ar amseroedd teithio i gleifion, a'r risg i gleifion o orfod teithio am ormod o amser o'r gorllewin i Gaerdydd er mwyn cael triniaeth?

**Edwina Hart:** At ddiben y Cofnod, Lywydd, efallai y dylwn ateb y cwestiwn fel hyn. Yr wyf wedi bod yn arbennig o falch o'r consensws clinigol cryf y mae'r grŵp cynllunio gweithredu wedi'i sicrhau ar gyfer yr argymhelliad hwn. Cafodd gefnogaeth unfrydol gan yr holl niwrolawfeddygon sy'n gweithio yn y canolbarth a'r de. O ganlyniad, byddwn yn cadw'r canolfannau niwrowyddoniaeth yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Athrofaol Cymru, fel yr addawyd gan y weinyddiaeth. Bydd niwrolawdriniaeth fewngreuanol gymhleth yn parhau i ddigwydd yn yr Ysbyty Athrofaol, ond caiff gofal cyn y llawdriniaeth ac wedyn ei ddarparu yn Ysbyty Treforys. Bydd mwy o gleifion o'r canolbarth a'r gorllewin y mae arnynt angen llawdriniaeth ar y cefn yn mynd i Dreforys yn hytrach nag i'r Ysbyty Athrofaol, sy'n welliant ar y trefniadau presennol ar gyfer cludo cleifion, a bydd y cynlluniau'n caniatáu i lawfeddygon arbenigo o fewn y maes, gan gynyddu eu harbenigedd mewn gwasanaethau sy'n gwella canlyniadau i gleifion. Er y bydd gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio a'u symud rhwng y ddau safle, byddwn yn cynnal ac yn cadw'r ddwy ganolfan er lles



cleifion a staff, a dyna oedd holl fwriad yr ymarfer.

The improvements are in line with best practice and have the backing of neuroscience clinicians across mid and south Wales. It is also anticipated that the number of operations at Morriston will increase because of the repatriation of elective spinal surgery from Cardiff, and thus planned surgery will move closer to where people live. This will also bolster the trauma centre at Morriston, which was a major issue of concern, by strengthening spinal services at the hospital.

Mae'r gwelliannau'n unol ag arfer gorau, ac y mae clinigwyr niwrowyddoniaeth ar draws y canolbarth a'r de yn eu cefnogi. Rhagwelir hefyd y bydd nifer y llawdriniaethau yn Nhreforys yn cynyddu oherwydd bod llawdriniaeth ddewisol ar y cefn wedi'i symud o Gaerdydd, ac felly bydd llawdriniaethau a gynllunnir yn cael eu symud yn nes i'r fan lle mae pobl yn byw. Bydd hynny'n hwb i'r ganolfan drawma yn Nhreforys hefyd, a oedd yn destun pryder mawr, wrth i wasanaethau'r ysbyty ar gyfer llawdriniaeth ar y cefn gael eu cryfhau.

Therefore, in addition to the specific point on complex intracranial neurosurgery, I stress the wider point of providing treatment closer to home for a lot of patients from mid and west Wales. This is the solution that clinicians advised me to take, it is supported by all the experts in the field, and it will be adopted and implemented by the appropriate LHBs.

Felly, yn ogystal â'r pwynt penodol am niwrolawdriniaeth fewngreuanol gymhleth, yr wyf yn pwysleisio'r pwynt cyffredinol y bydd nifer o gleifion o'r canolbarth a'r gorllewin yn cael eu trin yn nes i'w cartref. Dyma'r penderfyniad y cefais fy nghyngori i'w wneud gan glinigwyr, caiff ei gefnogi gan yr holl arbenigwyr yn y maes, a bydd yn cael ei fabwysiadu a'i weithredu gan y byrddau iechyd lleol priodol.

**Val Lloyd:** Minister, I am sure that you will agree that communities need to be able to understand why a change is necessary. You have clearly outlined the rationale for the moves in neurosurgery, in that chronic staff shortages mean that the current situation has become unsustainable, and outside pressures are in danger of compromising patient safety. Would you agree that now is not the time to start a debate about this, but instead, public representatives should be working together to look at all the issues at stake, including the training of junior doctors and staff shortages, in order to ensure that neurosurgery patients in Wales can access the best and safest service?

**Val Lloyd:** Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod angen i gymunedau allu deall pam y mae'n rhaid wrth newid. Yr ydych wedi amlinellu'n glir y rhesymeg dros symud niwrolawdriniaeth, sef bod prinder staff dybryd yn golygu nad oes modd cynnal y sefyllfa bresennol, a bod perygl i bwysau o'r tu allan beryglu diogelwch cleifion. A fydech yn cytuno nad dyma'r amser i ddechrau dadl ynghylch hyn, ond yn hytrach y dylai cynrychiolwyr cyhoeddus fod yn cydweithio i edrych ar yr holl faterion dan sylw, gan gynnwys hyfforddiant meddygon iau a phrinder staff, er mwyn sicrhau bod cleifion y mae angen niwrolawdriniaeth arnynt yng Nghymru yn gallu cael y gwasanaeth gorau a mwyaf diogel.

**Edwina Hart:** I concur with your comments, Val; you were a practitioner, and indeed a teacher in the NHS, and I understand exactly the points that you make. It is easy to focus on one aspect of this complex policy agenda, rather than looking at the whole, and the way that it benefits a lot of patients. We will be putting a process in place that the public will understand, ensuring timely emergency

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cytuno â'ch sylwadau, Val; yr oeddech yn ymarferydd, ac yn wir yn athrawes yn y GIG, a deallaf yn iawn y pwyntiau a wneuch. Mae'n hawdd canolbwyntio ar un agwedd ar yr agenda bolisi gymhleth hon, yn hytrach nag edrych ar yr agenda gyfan, a'r modd y mae o fudd i lawer o gleifion. Byddwn yn rhoi proses ar waith y bydd y cyhoedd yn ei deall, gan

treatment by improving the crucial services that stabilise patients following any trauma, allowing for faster onward transfer of surgery. As part of that, the public can be reassured that we will also recruit additional neurologists so that we can provide more services locally in mid and south Wales. We are also considerably strengthening the rehabilitation side, which is also part of this agenda—it is not just about neurosurgery and spinal conditions. We want to ensure that rehabilitation can occur closer to home across the geographical area. The report in its totality is good, and we have to recognise that it will lead to an improvement in services for people in south Wales.

**Alun Cairns:** To be frank, the Minister has been extremely selective in her response to the question about neurosurgery services in Swansea and Cardiff. I remember that the Minister, in her previous post before the last Assembly elections, was unequivocal in her view that this emergency service in Swansea should not move because of the vital two-hour travel time issue as regards accessing emergency neurosurgery care in Swansea. That is what the Minister's view was before the elections, and now, after the elections, we are receiving a completely different response. I cannot accept for a second the statement made by Val Lloyd that this is not the time to have a debate—of course they do not want a debate, because we are scrutinising what they said before and after the elections. That question was about emergency operations in Swansea and the importance of the fact that they should take place in Swansea.

**Leanne Wood:** What is your question, Alun?

**The Presiding Officer:** Order. He is about to ask a question.

**Alun Cairns:** Thank you, Llywydd. Will the Minister tell us why she is giving a different version of events now compared with the version she gave before the election?

**Edwina Hart:** I am sorry that you feel

sicrhau triniaeth frys amserol trwy wella'r gwasanaethau hanfodol sy'n sefydlogi cyflwr cleifion yn dilyn unrhyw drawma, ac sy'n caniatáu eu trosglwyddo ynghynt i gael llawdriniaeth. Fel rhan o hynny, gall y cyhoedd fod yn dawl eu meddwl y byddwn hefyd yn recriwtio mwy o niwrolawfeddygon fel y gallwn ddarparu mwy o wasanaethau'n lleol yn y canolbarth a'r de. Yr ydym hefyd yn cryfhau'r ochr adsefydlu yn sylweddol, sy'n rhan o'r agenda hon hefyd—nid niwrolawdriniaeth ac anhwylderau'r cefn yw'r unig faterion dan sylw. Yr ydym am sicrhau bod y broses adsefydlu'n gallu digwydd yn nes i gartref y claf ar draws yr ardal ddaearyddol. Mae'r adroddiad yn ei gyfanwydd yn un da, a rhaid inni gydnabod y bydd yn arwain at wella gwasanaethau i bobl yn y de.

**Alun Cairns:** A siarad yn blaen, mae'r Gweinidog wedi bod yn ddetholus iawn wrth ymateb i'r cwestiwn ynghylch gwasanaethau niwrolawdriniaeth yn Abertawe a Chaerdydd. Cofiaf fod y Gweinidog, yn ei swydd flaenorol cyn etholiadau diwethaf y Cynulliad, yn bendant iawn ei barn na ddylai'r gwasanaeth brys hwn gael ei symud o Abertawe, oherwydd mater hollbwysig teithio am ddwyawr i gael gofal niwrolawdriniaeth frys yn Abertawe. Dyna oedd barn y Gweinidog cyn yr etholiadau, ac yn awr, ar ôl yr etholiadau, cawn ymateb hollol wahanol. Ni allaf dderbyn am eiliad y datganiad a wnaed gan Val Lloyd, sef nad dyma'r amser i gael dadl—wrth gwrs nad ydynt am gael dadl, oherwydd yr ydym yn craffu ar yr hyn a ddywedwyd ganddynt cyn ac ar ôl yr etholiadau. Yr oedd y cwestiwn hwnnw'n ymwneud â llawdriniaethau brys yn Abertawe a phwysigrwydd y ffaith y dylid eu cynnal yn Abertawe.

**Leanne Wood:** Beth yw eich cwestiwn chi, Alun?

**Y Llywydd:** Trefn. Mae ar fin gofyn cwestiwn.

**Alun Cairns:** Diolch, Lywydd. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pam y mae'n rhoi darlun gwahanol inni'n awr, o'i gymharu â'r darlun a gawsom ganddi cyn yr etholiad?

**Edwina Hart:** Mae'n flin gennyf nad ydych

unable to accept the recommendation of all the clinicians within the area about what is necessary in terms of the safety of services. I am always being accused of trying to run the national health service and trying to make decisions, and when I do ask experts to advise me—and may a place on record my thanks to Dr Axford for his excellent work—I am accused of going back on promises. What we wanted to do was to maintain services in Swansea and Cardiff, and that is what we have done. It is the continuation of complex intracranial neurosurgery that has gone to Cardiff. A wave of other things is coming back to Morriston Hospital, therefore patients are going to Swansea and not to Cardiff.

This is pure mischief making on your behalf. If you want to carry coffins around the streets and work up people and upset them, then you carry on, Alun, because the public will see through what you are doing. This is about patient safety. Neurosurgeons have told me that I cannot compromise on any of these issues—I must have the right staffing in place and I must do the right thing. As part of this, I have protected all of the trauma arrangements in Morriston, which is the centre for south-west Wales. Clinicians support this, and people will understand that that is what is required in terms of services. My job, as the Minister for Health and Social Services, is to ensure that I provide safe and effective services as close to home as possible, and that is what I am doing. I am sorry if you do not like it, but I have taken the best advice and think that I have made a good judgment on this. At the end of the day, I will be the judge as regards the safety of patients and the treatment that they receive.

**David Lloyd:** Further to the comments that have been made, as someone who campaigned for seven years for Swansea to be the centre of neurosurgical services in south Wales, this is not the solution that I particularly wanted, and I have conveyed those feelings to the Minister. It is not my favourite solution, but, as you know, Minister, junior doctor shortages mean that the complex intracranial service has already

yn teimlo y gallwch dderbyn argymhelliad yr holl glinigwyr yn yr ardal ar yr hyn sy'n angenrheidiol o ran diogelwch gwasanaethau. Caf fy nghyhuddo byth a hefyd o geisio rhedeg y gwasanaeth iechyd gwladol a cheisio gwneud penderfyniadau, a phan ofynnaf am gyngor arbenigwyr—hoffwn gofnodi fy niolch i Dr Axford am ei waith ardderchog—caf fy nghyhuddo o dorri fy ngair. Yr hyn yr oeddem am ei wneud oedd cadw gwasanaethau yn Abertawe a Chaerdydd, a dyna yr ydym wedi'i wneud. Yr hyn sydd wedi'i symud i Gaerdydd yw niwrolawdriniaeth fewngreuanol gymhleth. Mae ton o bethau eraill yn dod yn ôl i Ysbyty Treforys, ac y mae cleifion felly'n mynd i Abertawe yn hytrach na Chaerdydd.

Y cyfan yr ydych yn ceisio'i wneud yw creu helynt. Os ydych am godi bwganod a chynhyrfu pobl a'u gofidio, daliwch ati, Alun, oherwydd bydd y cyhoedd yn gweld trwy'r hyn yr ydych yn ei wneud. Mater o ddiogelwch cleifion yw hyn. Mae niwrolawfeddygon wedi dweud wrthyf na allaf gyfaddawdu ar yr un o'r materion hyn—rheid imi gael y staff iawn a rhaid imi wneud y peth iawn. Fel rhan o hyn yr wyf wedi diogelu'r holl drefniadau ar gyfer trin trawma yn Nhreforys, sydd yng nghanol y de-orllewin. Mae clinigwyr yn cefnogi hynny, a bydd pobl yn deall mai dyna y mae ei angen o ran gwasanaethau. Fy ngwaith i, fel y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yw sicrhau fy mod yn darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol mor agos i gartrefi pobl ag sy'n bosibl, a dyna yr wyf yn ei wneud. Mae'n flin gennyf os nad ydych yn hoffi hynny, ond yr wyf wedi ceisio'r cyngor gorau ac yn credu fy mod wedi gwneud penderfyniad da ar y mater hwn. Yn y pen draw, fi sydd i benderfynu ar faterion yn ymwneud â diogelwch cleifion a'r driniaeth y maent yn ei chael.

**David Lloyd:** Yn ychwanegol at y sylwadau sydd wedi'u gwneud, fel un a fu'n ymgyrchu am saith mlynedd dros gael Abertawe'n ganolfan gwasanaethau niwrolawdriniaeth yn y de, nid dyma'r ateb yr oeddwn i am ei gael yn arbennig, ac yr wyf wedi cyfleu'r teimladau hynny i'r Gweinidog. Nid hwn yw'r ateb gorau yn fy marn i, ond fel y gwyddoch, Weinidog, mae prinder meddygon iau yn golygu bod y gwasanaeth

left Morrision Hospital and has been centralised in Cardiff.

It is true to note that without the One Wales Government, and without the very vigorous campaign in South Wales West and its environs, there would not be a neurosurgical service at all left in Swansea, albeit the complex spinal neurosurgery service only. It is also true to note that the policy of the health leads of the Conservative Party and the Liberal Democrats at the time—Jonathan Morgan and Jenny Randerson—was to centralise neurosurgical services in Cardiff. Therefore, I cannot put up with the crocodile tears—even though there are no tears—coming from the two spokespeople this afternoon.

I am assured by neurosurgical colleagues of improved patient service because they have all signed up to it, in both Swansea and Cardiff. However, a high number of emergency referrals to neurosurgery come via general practitioners. General practitioners in South Wales West used to ring up Morrision Hospital for acute neurosurgical admissions, and the situation was dealt with. What we want is an absolute assurance that when Cardiff is now rung up, as the acute neurosurgical emergency centre, the same smooth transition of patients can and will happen over succeeding months. The scrutiny of that situation is what we are calling for as members of the Health, Wellbeing and Local Government Committee.

2.20 p.m.

**Edwina Hart:** Thank you, Dr Lloyd. You also raised that point with me in the Health, Wellbeing and Local Government Committee today, and I gave you the necessary assurances there, which I am prepared to repeat, that Paul Williams will certainly take this matter up with the relevant local health boards so that primary care has the commitment required to ensure that it is a smooth-running service. I know about your disappointment; you expressed that to me in the committee. However, you also make a valid point about the safety of services here,

mewngreuanol cymhleth eisoes wedi gadael Ysbyty Treforys ac wedi'i ganoli yng Nghaerdydd.

Mae'n wir nodi na fyddai gwasanaeth niwrolawdriniaeth ar ôl yn Abertawe o gwbl, heblaw am y gwasanaeth niwrolawdriniaeth gymhleth ar y cefn, oni bai am Lywodraeth Cymru'n Un a'r ymgyrch frwd iawn a gafwyd yn y de-orllewin a'r cyffiniau. Mae'n wir nodi hefyd mai polisi'r rhai a oedd yn arwain ar iechyd yn y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar y pryd—Jonathan Morgan a Jenny Randerson—oedd canoli gwasanaethau niwrolawdriniaeth yng Nghaerdydd. Felly, ni allaf oddef dagrau ffug—er nad oes dagrau—gan y ddau lefarydd y prynhawn yma.

Mae cydweithwyr ym maes niwrolawdriniaeth yn fy sicrhau y bydd y cam hwn yn gwella'r gwasanaeth i gleifion oherwydd eu bod i gyd wedi'i gefnogi, yn Abertawe ac yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, mae nifer fawr o atgyfeiriadau brys am niwrolawdriniaeth yn dod drwy feddygon teulu. Byddai meddygon teulu yn y de-orllewin yn arfer ffonio Ysbyty Treforys ynghylch derbyn cleifion yr oedd angen niwrolawdriniaeth aciwt arnynt, a byddai'r sefyllfa'n cael sylw. Yr hyn yr ydym am ei gael yn awr yw sicrwydd pendant y gall ac y bydd cleifion yn cael eu trosglwyddo'r un mor rhwydd dros y misoedd sy'n dilyn, pan fydd meddygon teulu'n ffonio Caerdydd, sef y ganolfan frys ar gyfer niwrolawdriniaeth aciwt. Yr ydym ni, fel aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, am sicrhau cadw golwg fanwl ar y sefyllfa honno.

**Edwina Hart:** Diolch, Dr Lloyd. Codwyd y pwynt hwnnw gennych hefyd gyda mi yn y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol heddiw. Cawsoch y sicrwydd angenrheidiol gennyf yno, ac yr wyf yn fodlon ei ailadrodd, sef y bydd Paul Williams yn sicr o godi'r mater hwn gyda'r byrddau iechyd lleol perthnasol, fel y bydd gan y sector gofal sylfaenol yr ymrwymiad angenrheidiol i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth. Gwn eich bod yn siomedig; mynegwyd hynny gennych yn y pwyllgor. Fodd bynnag, yr ydych hefyd yn gwneud

about the fact that there are issues to do with junior doctors, particularly in this field, and about the fact that that is an issue not just for Wales, but across the whole of the United Kingdom. I accept that. I think that we must also recognise that we have full support from clinicians; it is definitely one of the issues that influenced me.

There is all this talk about what I have done, but it is clear that there was a move to centralise services in Cardiff, which would have been a very dangerous move. What would the next step have been? Would services have been moved outside Wales? Would children's services have moved to Bristol? So, at the end of the day, this is a solution that suits everybody with regard to what we have to deliver. I accept that it is not everybody's favourite option, but we are where we are, and, with the limited health resources available, it also fits into the financial and cost package.

pwylt dilys yma ynghylch diogelwch gwasanaethau, y ffaith fod problemau o ran meddygon iau, yn enwedig yn y maes hwn, a'r ffaith fod hon yn broblem nid yn unig i Gymru ond i'r Deyrnas Unedig gyfan. Yr wyf yn derbyn hynny. Credaf ei bod yn rhaid inni gydnabod hefyd fod gennym gefnogaeth lawn y clinigwyr; mae hynny'n bendant yn un o'r pethau a ddylanwadodd arnaf.

Sonnir o hyd am yr hyn yr wyf fi wedi'i wneud, ond y mae'n amlwg fod yna symudiad i ganoli gwasanaethau yng Nghaerdydd, a fyddai wedi bod yn beryglus iawn. Beth fyddai'r cam nesaf wedi bod? A fyddai gwasanaethau wedi cael eu symud y tu allan i Gymru? A fyddai gwasanaethau plant wedi cael eu symud i Fryste? Yn y pen draw, felly, mae hwn yn ateb sy'n gweddu i bawb o ran yr hyn y mae'n rhaid inni ei ddarparu. Yr wyf yn derbyn nad hwn yw'r dewis gorau ym marn pawb, ond dyna'r sefyllfa yr ydym ynddi, a chyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer iechyd y mae'n gweddu hefyd o safbwynt arian a chost.

## **Cwestiynau i'r Dirprwy Prif Weinidog a'r Gweinidog Dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

### **Questions to the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport**

#### **Public Transport**

**Q1 Mick Bates:** What action is the Welsh Assembly Government currently taking to improve public transport services in mid Wales? OAQ(3)1214(ECT)

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** The national transport plan sets out my plans to improve public transport services in mid Wales, including introducing additional services on the Cambrian main line and developing plans for additional services on the Heart of Wales line, as well as improving the quality and integration of local bus services.

**Mick Bates:** Thank you for that response, Minister. I offer my congratulations on the aspirations I heard expressed with regard to

#### **Gwasanaethau Trafnidiaeth**

**C1 Mick Bates:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd ar hyn o bryd i wella gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn y canolbarth? OAQ(3)1214(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn gosod allan fy nghynlluniau i wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn y canolbarth, gan gynnwys cyflwyno gwasanaethau ychwanegol ar brif reilffordd y Cambrian a datblygu cynlluniau am wasanaethau ychwanegol ar reilffordd Calon Cymru, yn ogystal â gwella ansawdd gwasanaethau bysiau lleol a'u hintegreiddio'n well.

**Mick Bates:** Diolch am eich ymateb, Weinidog. Mae'r dyheadau o ran trafndiaeth gynaliadwy a thwristiaeth a gafodd eu

sustainable transport and tourism this morning at the conference. However, the aspirations do not seem to meet the challenges we face in rural mid Wales at the moment, where we face the continuing erosion of services and a difficult infrastructure, against a backdrop of a less mobile population that relies heavily on public transport to access nearby towns and villages and friends and family. I will give you three examples of how we are losing services. The X32 bus service from Bangor to Aberystwyth was suddenly withdrawn. We face an ongoing struggle to improve public transport and reopen Carno station. We still rely heavily on community transport, and yet we cannot use free bus passes on community transport, which is an essential part of the service. Minister, do you not agree that, in truth, your transport plan is not working? Do you agree that the Scottish model of dedicating 70 per cent of the budget to sustainable transport issues is the way we should travel in Wales, given our duty on sustainable development?

**The Deputy First Minister:** I think that your question highlights several individual matters that we can deal with. The X32 service is not a matter for a ministerial decision. I am sure that you are aware that that is a matter for the bus operator. However, I am sure that the bus operator will have heard your strong representations. I think that you are aware that the current position is that the Carno Station Action Group is working closely with Trafnidiaeth Canolbarth Cymru, TraCC, to include proposals in the regional transport plan, and my officials are looking forward to seeing those proposals, which may be prioritised within the final regional transport plan due at the end of this year.

On your point about community transport, current provision is being looked at, and proposals are being discussed with the association. Later this year, I will be looking to see whether there are ways in which I can improve community transport services, because I understand the needs of sparsely

mynegi yn y gynhadledd y bore yma yn rhai i'w llongyfarch. Fodd bynnag, nid yw'r dyheadau fel pe baent yn ateb yr heriau sy'n ein hwynebu yn y canolbarth gwledig ar hyn o bryd, lle mae'r isadeiledd yn peri problemau a gwasanaethau'n cael eu colli. At hynny mae gennym boblogaeth y mae'n anos iddi symud o le i le ac sy'n dibynnu'n drwm ar gludiant cyhoeddus i fynd i drefi a phentrefi cyfagos ac ymweld â theulu a ffrindiau. Dyma ichi dair enghraifft o'r modd yr ydym yn colli gwasanaethau. Rhoddwyd y gorau i redeg y gwasanaeth bws X32 o Fangor i Aberystwyth yn sydyn. Yr ydym yn wynebu brwydr barhaus i wella cludiant cyhoeddus ac ailagor gorsaf Carno. Yr ydym yn dal yn dibynnu'n drwm ar gludiant cymunedol, ac eto ni allwn ddefnyddio tocynnau teithio rhad ac am ddim ar gludiant cymunedol, sy'n rhan hanfodol o'r gwasanaeth. Weinidog, a ydych yn cytuno nad yw eich cynllun trafndiaeth yn gweithio mewn gwirionedd? A ydych yn cytuno mai dilyn model yr Alban o neilltuo 70 y cant o'r gyllideb i faterion trafndiaeth gynaliadwy yw'r ffordd ymlaen i ni yng Nghymru, o gofio'n dyletswydd o ran datblygu cynaliadwy?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Credaf fod eich cwestiwn yn codi llawer mater unigol y gallwn ymdrin â hwy. Nid mater i weinidogion ei benderfynu yw'r gwasanaeth X32. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol mai mater i'r gweithredydd bysiau yw hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y bydd y gweithredydd bysiau wedi clywed eich sylwadau pendant. Credaf eich bod yn ymwybodol mai'r sefyllfa bresennol yw bod Grŵp Gweithredu Gorsaf Carno yn gweithio'n agos gyda Trac, Trafnidiaeth Canolbarth Cymru, i gynnwys cynigion yn y cynllun trafndiaeth rhanbarthol, ac y mae fy swyddogion yn edrych ymlaen at weld y cynigion hynny, a allai gael eu blaenoriaethu yn y cynllun trafndiaeth rhanbarthol terfynol a gaiff ei gyhoeddi ddiwedd y flwyddyn.

Ynghylch eich pwynt am gludiant cymunedol, yr ydym yn edrych ar y ddarpariaeth bresennol ac y mae cynigion yn cael eu trafod gyda'r gymdeithas. Yn ddiweddarach eleni byddaf yn edrych i weld a oes ffyrdd y gallaf wella gwasanaethau cludiant cymunedol, gan fy mod yn deall

populated rural areas in particular. I will be working with the Minister for Rural Affairs to see how we can develop these services. However, I do not accept the point that this Government has not committed itself to an integrated transport service, because I can tell Mick that, in the next financial year, there is a significant shift to public transport. The balance of spend in my department has now crossed over, with 54 per cent of the budget now being spent on integrated transport, and 46 per cent on roads. That shift will continue.

**Nerys Evans:** Yn eich ateb cyntaf i Mick Bates, dywedasoch eich bod yn gwneud gwaith i ehangu'r gwasanaeth rheilffyrdd yn y canolbarth. A wnewch chi roi mwy o fanylion inni am y mater hwn ac, o bosibl, amserlen ar gyfer gwella'r opsiynau o ran y trafndiaeth gyhoeddus sydd ar gael i bobl yn y canolbarth?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'n bwysig sylweddoli bod trafndiaeth gyhoeddus yn bwysig mewn ardal wledig. Wrth wella gwasanaeth rheilffordd y Cambrian, er enghraifft, yr ydym wedi ceisio sicrhau ein bod yn cwblhau'r gwaith ar yr isadeiledd. Yr wyf yn falch o ddweud bod y gwaith hwnnw bellach wedi'i gwblhau. Yr unig beth sydd ar ôl bellach yw'r gwaith ar y signalau, sydd yn mynd rhagddo gan Network Rail. Y gobaith yw y bydd gwaith hwnnw wedi'i gwblhau erbyn canol y flwyddyn nesaf, a bydd hynny'n rhoi cyfle inni, fel y gwnaethom yn ein blaenraglen, sicrhau ein bod yn gallu cynyddu nifer y gwasanaethau ar y rheilffordd honno, sydd yn brysur yn ystod yr haf, ond yr ydym hefyd yn rhagweld y bydd nifer y teithwyr yn cynyddu yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Mae ymrwymiad felly i wella'r gwasanaeth. Erbyn canol y flwyddyn nesaf, gallwn roi adroddiad pellach arno.

**Paul Davies:** Mae pobl yn awyddus iawn i wella cyfundrefn drafnidiaeth gyhoeddus yng ngorllewin a chanolbarth Cymru. Cefais yr anrhydedd o dderbyn deiseb yr wythnos diwethaf oddi wrth ddau ddisgybl yn fy etholaeth i sy'n dymuno gweld cynnydd yn y gwasanaethau trên yn y gorllewin. Maent yn dymuno sicrhau bod y cyfleoedd ar gael o

anghenion ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth yn benodol. Byddaf yn gweithio gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig i weld sut y gallwn ddatblygu'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn y pwynt nad yw'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i wasanaeth trafndiaeth integredig, oherwydd gallaf ddweud, Mick, y bydd yna newid pwyslais sylweddol mewn cludiant cyhoeddus yn y flwyddyn ariannol nesaf. O ran gwariant yn fy adran, mae'r fantol eisoes wedi troi, a chaiff 54 y cant o'r gyllideb ei wario ar drafnidiaeth integredig nawr, a 46 y cant ar ffyrdd. Bydd y newid pwyslais hwnnw'n parhau.

**Nerys Evans:** In your first answer to Mick Bates, you outlined that you were working to expand rail services in mid Wales. Can you give us some more details about that matter and perhaps provide a timetable for improving the public transport options available to people in mid Wales?

**The Deputy First Minister:** It is important to realise that public transport is important in a rural area. In improving the services on the Cambrian line, for example, we have tried to ensure that we complete the work on the infrastructure. I am pleased to say that that work has now been completed. The only thing that remains to be done is the signalling work, which is being done by Network Rail. It is hoped that that work will have been completed by the middle of next year, and that will give us an opportunity, as we set out in our forward work programme, to ensure that we can increase the number of services on that line, which is busy during the summer and which we now anticipate will see an increase in passenger numbers during the autumn and winter. Therefore, there is a commitment to improve services. We will be able to report back again by the middle of next year.

**Paul Davies:** People are eager to improve the public transport system in mid and west Wales. I had the privilege of receiving a petition last week from two pupils in my constituency who want to see an increase in the train services available in west Wales. They want to ensure that opportunities to travel to work and to other locations will be

safbwynt teithio i'r gwaith ac i leoedd eraill pan fyddant wedi gorffen eu haddysg. Pa fath o fuddsoddiad y mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn y gorllewin a'r canolbarth i wella gwasanaethau trên?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn derbyn bod awydd i weld gwella gwasanaethau trên yn eich ardal. Caf nifer o lythyrau oddi wrth bobl sy'n awyddus i weld y gwasanaethau'n gwella. Bob tro y byddwn yn gwella'r isadeiledd, yr ydym am gael cytundeb gydag Arriva Trains i gynnwys gwasanaethau newydd. Felly, un o'r trafferthion y mae'r Llywodraeth yn ei hwynebu yw'r ffaith y byddai'n rhaid inni gyfrannu tuag at y gost os nad yw gwasanaethau newydd wedi'u cynnwys yn y fasnachfrait. Rhywbeth arall yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd yw ein bod ni, fel Llywodraeth, yn pwrcau'r stoc ei hun, sy'n golygu mai un cost cyfalaf fyddai gennym yn hytrach na chost refeniw blynyddol. Gallaf eich sicrhau bod y Llywodraeth yn ystyried hynny'n ofalus ar y cyd ag Arriva Trains. Pan fyddwn wedi dod i'r casgliad bod modd inni brynu'r stoc, mater o flaenoriaethu o safbwynt y gwasanaethau fydd hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol o'r alwad am fwy o wasanaethau yn y gorllewin.

### One Wales

**Q2 Andrew R.T. Davies:** Will the Deputy First Minister make a statement on progress towards meeting the 'One Wales' commitments in the economy and transport portfolio? OAQ(3)1195(ECT)

**The Deputy First Minister:** Good progress continues to be made towards meeting our 'One Wales' commitments. Progress against individual commitments is reported quarterly in the 'One Wales' delivery plan update that is published on the Welsh Assembly Government's website.

**Andrew R.T. Davies:** One of the commitments in the 'One Wales' agreement was the development of the sustainable towns initiative. I believe that it started out with four towns identified in each one of the regions of Wales. This was then condensed to one town, namely Cardiff. What resource

available when they have completed their education. What kind of investment is the Government making in mid and west Wales in order to improve train services?

**The Deputy First Minister:** I accept that there is a desire to see improved rail services in your area. I receive many letters from people who want to see such improvements. When we undertake to improve the infrastructure, we would like to reach an agreement with Arriva Trains on the provision of additional services. However, one of the problems facing the Government is the fact that we would have to contribute to the cost of such services where they are not included in the franchise. Another consideration at present is that we, as a Government, purchase the stock itself, which would mean one capital cost rather than an annual revenue cost. I can assure you that the Government is giving careful consideration to this in conjunction with Arriva Trains. When we come to the conclusion that we are able to buy the stock, it will be a matter of prioritisation in terms of services. However, I am aware of the demand for additional services in west Wales.

### Cymru'n Un

**C2 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am y cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau 'Cymru'n Un' yn y portffolio economi a thrafnidiaeth? OAQ(3)1195(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym yn dal i wneud cynnydd da tuag at gyflawni ein hymrwymadau yn 'Cymru'n Un'. Byddwn yn adrodd bob chwarter ble yr ydym arni o ran cyflawni ymrwymadau unigol yn niweddariad y cynllun cyflenwi yn 'Cymru'n Un' sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Andrew R. T. Davies:** Un o'r ymrwymadau yng nghytundeb 'Cymru'n Un' oedd datblygu'r fenter trefi cynaliadwy. Credaf fod hyn wedi dechrau trwy nodi un dref ym mhob un o bedwar rhanbarth Cymru. Yna cwtogwyd hynny i un dref, sef Caerdydd. Pa adnoddau ydych chi wedi eu darparu, ar ffurf



have you made available, by means of support and financial resources, to facilitate the 'One Wales' commitment in Cardiff, and when will we see the tangible results on the ground in Cardiff?

**The Deputy First Minister:** The tangible results are starting in Cardiff because the Pont y Werin bridge, for example, is being constructed, and you will see considerable changes being introduced in the town itself. I understand that work will also continue fairly soon in St Mary Street, for example. Therefore, quite a lot of work is happening there.

It is not true to say that I have reduced the number of sustainable travel towns from four to one. My intention is to have four such towns, the first of which is Cardiff. Considerable investment is being made in Cardiff—£28 million—to which we, the local authority and others are making substantial contributions. I hope to be in a position in a couple of months' time to make announcements on the other sustainable travel towns that I intend to have across Wales.

**Gareth Jones:** Yr ydym yn ymwybodol ac yn falch o glywed am ymrwymiad Llywodraeth Cymru'n Un i greu cysylltiadau ledled Cymru. Byddwn yn hoffi gweld ymrwymiad gan bob plaid i gyflawni nod o'r fath. Yn anffodus, rhoddir yr argraff yn aml mai unig ddiddordeb y Ceidwadwyr yw'r gwelliannau ar yr M4 yn ne-ddwyrain Cymru. Mae pobl y gogledd yn blino'n lân ar glywed gwleidyddion yn y Cynulliad yn mynd ymlaen ac ymlaen am yr M4 o hyd, gan anghofio'n llwyr am y gogledd a'r gorllewin. A wnewch ein hatgoffa am bwysigrwydd nod amlwg Llywodraeth Cymru'n Un o weithredu strategaeth drafnidiaeth sy'n dod â phob rhan o Gymru yn nes at ei gilydd?

2.30 p.m.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Os edrychwch ar y flaenraglen ffyrdd, gwelwch fod nifer o gynlluniau ledled Cymru ynddi, gan gynnwys yr M4, ffordd Blaenau'r Cymoedd a gwelliannau rhwng y de a'r gogledd. Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd y cynllun i gael

cymorth ac adnoddau ariannol, i hwyluso ymrwymiad 'Cymru'n Un' yng Nghaerdydd, a phryd y byddwn yn gweld y canlyniadau go iawn ar lawr gwlad yng Nghaerdydd?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym yn dechrau gweld canlyniadau go iawn yng Nghaerdydd gan fod Pont y Werin, er enghraifft, yn cael ei hadeiladu, a byddwch yn gweld cyflwyno newidiadau sylweddol yn y dref ei hun. Deallaf y bydd gwaith yn parhau yn eithaf buan yn Heol Eglwys Fair hefyd, er enghraifft. Felly, mae cryn dipyn o waith yn digwydd yno.

Nid yw'n wir dweud fy mod wedi cwtdgi nifer y trefi teithio cynaliadwy o bedair i un. Fy mwriad yw cael pedair tref o'r fath, a'r cyntaf o'r rhain yw Caerdydd. Mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud yng Nghaerdydd—£28 miliwn—ac yr ydym ni, yr awdurdod lleol ac eraill yn cyfrannu'n sylweddol at hyn. Gobeithiaf fod mewn sefyllfa ymhen mis neu ddau i wneud cyhoeddiadau ynghylch y trefi teithio cynaliadwy eraill y bwriadaf eu cael ledled Cymru.

**Gareth Jones:** We are aware of, and are pleased to hear about, the commitment of the One Wales Government to create links throughout Wales. I should like to see all parties make a commitment to achieving such a goal. Unfortunately, one often gets the impression that the Conservatives are only interested in improvements on the M4 in south-east Wales. People in north Wales are sick and tired of hearing politicians in the Assembly going on and on about the M4, while forgetting all about north and west Wales. Will you remind us of the importance of the clear aim in the One Wales Government to implement a transport strategy that brings all parts of Wales closer together?

**The Deputy First Minister:** If you look at the trunk road forward programme, you will see that there are several schemes throughout Wales, including the M4, the Heads of the Valleys road, and improvements between north and south Wales. As you know, the

ffordd osgoi i Borthmadog yn ddiweddar. Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd yng Ngelligemlyn, ac yr ydym yn disgwyl gwaith pellach wrth i'r misoedd fynd heibio. Mae'n rhaid i Weinidog wrando ar y pwysau sy'n dod o wahanol Aelodau am y gwaith mewn gwahanol ardaloedd. Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau bod Cymru gyfan yn cael sylw o dan y rhaglen, a dyna fydd blaenoriaeth y Llywodraeth hon.

**David Melding:** A key action in the 'One Wales' agreement was to create jobs across Wales. We have, in fact, lost 50,000 jobs since that commitment was made, much of which is as a result of the international recession. Further evidence was published last week showing that the small and medium-sized enterprise sector is shedding jobs particularly quickly in Wales. There is severe strain on the Welsh economy at the moment. What have you done to examine the commitments that you have made in 'One Wales', which was developed before the economic recession, so that you can respond to some of the acute dangers and challenges facing us?

**The Deputy First Minister:** The overall commitment in 'One Wales' remains: we want to see economic prosperity and jobs created across Wales. That will remain. As a result of the impact of the recession, we need to consider which particular policies to pursue to protect our industries and to invest for the future. That is why I have set out my economic renewal programme, which will enable my officials and me to look at how we can develop more effective policies for the future.

**David Melding:** I urge you to look in one direction as a matter of urgency, namely that of the danger of structural unemployment that we now face, particularly among the young, who may lose contact with the workforce for many years and suffer dire consequences for the development of their careers. That has been written about by various commentators in journals and by international organisations that are studying Western economies in general. WAG can do some things, although I am not saying that it

scheme to build a bypass for Porthmadog was announced recently. Work is under way at Gelligemlyn now, and we expect further works as the months pass. A Minister must listen to the emphasis placed by various Members on works in different areas. It is my responsibility to ensure that the whole of Wales is covered by this programme, and that will be the priority of this Government.

**David Melding:** Yr oedd creu swyddi ledled Cymru yn gam gweithredu allweddol yng nghytundeb 'Cymru'n Un'. Mewn gwirionedd, yr ydym wedi colli 50,000 o swyddi ers i'r ymrwymiad hwnnw gael ei wneud, ac y mae llawer o hynny o ganlyniad i'r dirwasgiad rhyngwladol. Cyhoeddwyd mwy o dystiolaeth yr wythnos diwethaf yn dangos bod y sector busnesau bach a chanolig yn colli swyddi'n arbennig o gyflym yng Nghymru. Mae straen ddifrifol ar economi Cymru ar hyn o bryd. Beth yr ydych wedi'i wneud i archwilio'r ymrwymadau a wnaethoch yn 'Cymru'n Un', a ddatblygwyd cyn y dirwasgiad economaidd, er mwyn ichi allu ymateb i rai o'r peryglon a'r heriau difrifol sy'n ein hwynebu?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r ymrwymiad cyffredinol sydd yn 'Cymru'n Un' yn parhau: yr ydym am weld ffyniant economaidd a swyddi'n cael eu creu ledled Cymru. Bydd hynny'n parhau. O ganlyniad i effaith y dirwasgiad mae angen inni ystyried pa bolisiau penodol i'w dilyn er mwyn amddiffyn ein diwydiannau a buddsoddi ar gyfer y dyfodol. Dyna pam yr wyf wedi cyflwyno fy rhaglen i adnewyddu'r economi, a fydd yn galluogi fy swyddogion a minnau i ystyried sut y gallwn ddatblygu polisiau mwy effeithiol ar gyfer y dyfodol.

**David Melding:** Yr wyf yn eich annog i edrych ar un peth ar fyrder, sef perygl diweithdra strwythurol sy'n ein hwynebu'n awr, yn enwedig ymhlith yr ifanc a all golli cysylltiad â'r gweithlu am flynyddoedd a dioddef canlyniadau enbyd o ran datblygu eu gyrfa. Mae hyn wedi cael sylw gan amryw sylwebwyr mewn cylchgronau a chan sefydliadau rhyngwladol sy'n astudio economïau'r byd Gorllewinol yn gyffredinol. Gall LICC wneud rhai pethau, ond nid wyf yn dweud y gall wneud popeth y mae angen

can do everything that needs to be done in this area, as it would need to co-operate with the UK Government. However, we can develop schemes that allow people to maintain and develop contact with the workplace, perhaps through work experience, internships, and the extension of training that would focus particularly on postgraduate training, but we will have to offer more bursaries. It will be impossible to get people who are already in debt as a result of their undergraduate studies to stay on in a depressed economic situation, unless we give them incentives. If we concentrate on subjects that are likely to see growth, such as science, technology, engineering and mathematics, we will be investing in tomorrow, as well as keeping people in a productive area of enterprise and preparing them for a successful economic future.

**The Deputy First Minister:** You have highlighted a real issue on which we can agree, which is that structural unemployment, if it happens at a significant pace, will have an impact on the Welsh economy. We do not want to see—and are striving hard to prevent through schemes such as ReAct and ProAct—more and more people becoming economically inactive over a longer period. Once people become economically inactive, it is far more difficult to get them back into the workplace. These short-term measures are absolutely vital, and the way in which the Government has responded, through ReAct and ProAct, has prevented many people from getting into that position. I do understand the point that you are making, and the Government has seized that issue. I am working with Jane Hutt, the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, and we are developing programmes, particularly on training. You highlighted certain issues, such as postgraduate training and the development of STEM subjects. The Government has taken a very significant step in allocating resources properly through the priority sectors that we have allocated, particularly for research and development. Not only do we want substantial graduate training, but we also want to try to persuade more young graduates to become young entrepreneurs. Through our programmes, we

ei wneud yn y maes hwn, oherwydd byddai angen iddi gydweithredu â Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, gallwn ddatblygu cynlluniau sy'n galluogi pobl i gynnal a datblygu cyswllt â'r gweithle, efallai drwy brofiad gwaith a swyddi dan hyfforddiant, a thrwy ymestyn hyfforddiant a fyddai'n canolbwyntio'n benodol ar hyfforddiant ôl-raddedig, ond bydd yn rhaid inni gynnig mwy o fwrsariaethau. Fe fydd yn amhosibl cael pobl sydd eisoes mewn dyled o ganlyniad i'w hastudiaethau israddedig i barhau eu hastudiaethau mewn cyfnod o ddirwasgiad economaidd, oni bai ein bod yn rhoi cymhellion iddynt. Os byddwn yn canolbwyntio ar bynciau sy'n debygol o weld twf, megis gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, byddwn yn buddsoddi yn y dyfodol, yn ogystal â chadw pobl mewn maes cynhyrchiol o safbwynt menter a'u paratoi ar gyfer dyfodol economaidd llwyddiannus.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydych wedi tynnu sylw at broblem go iawn y gallwn gytuno arni, sef y bydd diweithdra strwythurol yn cael effaith ar economi Cymru os bydd yn digwydd ar gyflymdra sylweddol. Nid ydym am weld mwy a mwy o bobl yn mynd yn economaidd anweithgar dros gyfnod hwy—ac yr ydym yn ymdrechu'n galed i atal hynny rhag digwydd drwy gynlluniau megis ReAct a ProAct. Pan fydd pobl yn mynd yn economaidd anweithgar, mae'n anoddach o lawer eu cael yn ôl i'r gweithle. Mae'r mesurau tymor byr hyn yn gwbl hanfodol, ac y mae'r modd y mae'r Llywodraeth wedi ymateb, drwy ReAct a ProAct, wedi atal nifer o bobl rhag cael eu hunain yn y sefyllfa honno. Yr wyf yn deall y pwynt yr ydych yn ei wneud, ac y mae'r Llywodraeth wedi ymateb i'r mater hwnnw. Yr wyf yn gweithio gyda Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ac yr ydym yn datblygu rhaglenni, yn enwedig rhaglenni hyfforddiant. Gwnaethoch dynnu sylw at faterion penodol, megis hyfforddiant ôl-raddedig a datblygu pynciau megis gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg. Mae'r Llywodraeth wedi cymryd cam sylweddol iawn o ran dyrannu adnoddau'n briodol drwy'r sectorau â blaenoriaeth yr ydym wedi'u pennu, yn enwedig ar gyfer ymchwil a datblygu. Nid

are encouraging young people to look at self-employment and new jobs, creating new investment as the way forward for the future.

**Jenny Randerson:** One problem that the economy in Wales now faces is the lack of credit available for businesses to expand. A few weeks ago, I suggested that one way of dealing with that problem would be to create a Welsh stock exchange. I asked the First Minister about it yesterday because I have received an extremely positive response to the idea across industry and from experts. I was very disappointed by the First Minister's reply, so I am hoping that you will be more supportive of it. Can I have your assurance that your Government will be prepared to consider and support the idea?

**The Deputy First Minister:** If that were a viable proposition, I must say that I would probably regard it as a pretty long-term one, and it will not help us through the current recession. I fully understand the point that you make about the lack of credit. However, the Government is currently developing a proposal—and I hope that there will be common agreement on this—for a citizens' or a people's bank, which will provide the financial model to help the businesses that many people believe are suffering the most as a result of the lack of credit, namely small and medium-sized enterprises. If we could get agreement on that, it would be an enormous help to us as we come out of the recession.

**Jenny Randerson:** Across the world, regional stock exchanges assist specifically those small and medium-sized enterprises. Such a project would be aimed at those small and medium-sized businesses that are hoping to grow. I would hope that this would enable our national awareness and pride to come into play, as I am convinced that Welsh people would be keen to invest in Welsh businesses. Can I have your assurance that you will consider the idea, given that, I am told, it can be done remarkably quickly and cheaply?

hyfforddiant sylweddol i raddedigion yn unig y mae arnom ei angen, ond yr ydym hefyd am geisio cymell mwy o raddedigion ifanc i fod yn entrepreneuriaid ifanc. Drwy ein rhaglenni yr ydym yn annog pobl ifanc i ystyried hunan-gyflogaeth a swyddi newydd, gan greu buddsoddiad newydd, fel ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol.

**Jenny Randerson:** Un broblem y mae'r economi yng Nghymru yn ei hwynebu nawr yw'r diffyg credyd sydd ar gael i fusnesau ehangu. Ychydig wythnosau'n ôl, awgrymais y byddai creu cyfnewidfa stoc i Gymru yn un ffordd o fynd i'r afael â'r broblem honno. Gofynnais i'r Prif Weinidog am hynny ddoe oherwydd yr wyf wedi cael ymateb cadarnhaol iawn i'r syniad o du diwydiant a chan arbenigwyr. Yr oeddwn yn siomedig iawn gan ateb y Prif Weinidog, felly yr wyf yn gobeithio y byddwch chi'n fwy cefnogol ohono. A gaf eich sicrwydd y bydd eich Llywodraeth yn barod i ystyried a chefnogi'r syniad?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Pe bai hynny'n gynnig hyfyw, rhaid imi ddweud y byddwn, mwy na thebyg, yn ei ystyried yn un eithaf hirdymor, ac ni fydd yn ein helpu drwy'r dirwasgiad presennol. Yr wyf yn deall yn iawn y pwynt yr ydych yn ei wneud ynghylch diffyg credyd. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wrthi'n datblygu cynnig—a gobeithiaf y bydd pawb yn gytûn ar hyn—ar gyfer banc dinasyddion neu fanc y bobl, a fydd yn darparu'r model ariannol i helpu'r busnesau y mae llawer o bobl yn credu eu bod yn dioddef fwyaf o ganlyniad i'r diffyg credyd, sef busnesau bach a chanolig eu maint. Pe baem yn gallu cael cytundeb ar hynny, byddai'n help mawr inni wrth inni ddod allan o'r dirwasgiad.

**Jenny Randerson:** Ar draws y byd, mae cyfnewidfeydd stoc rhanbarthol yn cynorthwyo'r busnesau bach a chanolig hynny'n benodol. Byddai prosiect o'r fath yn anelu at y busnesau bach a chanolig hynny sy'n gobeithio tyfu. Byddwn yn gobeithio y byddai hyn yn galluogi ein hymwybyddiaeth a'n balchder cenedlaethol i wneud eu rhan, oherwydd yr wyf yn sicr y byddai pobl Cymry'n awyddus i fuddsoddi mewn busnesau Cymreig. A gaf fi eich sicrwydd y byddwch yn ystyried y syniad, o gofio bod modd ei wneud yn gyflym ac yn rhad iawn,

neu felly y dywedir wrthyf?

**The Deputy First Minister:** If you would like to send your proposal forward, we will certainly want to take a look at it. I am not so sure that we would be able to establish it quickly. I hope that people regard me as a fairly practical politician, so I am anxious to help Welsh businesses to come out of the recession as it currently stands, and I would like cross-party support for the establishment of new financial models. However, I would be happy to look at your proposal if you would like to send it to me.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Pe baech yn anfon eich cynnig ymlaen, byddwn yn cymryd golwg arno yn bendant. Nid wyf mor siŵr a allem ei sefydlu'n gyflym. Gobeithio bod pobl yn fy ystyried yn wleidydd lled ymarferol, felly, yr wyf yn awyddus i helpu busnesau Cymru i ddod allan o'r dirwasgiad fel y mae ar hyn o bryd, a hoffwn gael cefnogaeth ar draws y pleidiau i sefydlu modelau ariannol newydd. Fodd bynnag, byddwn yn barod i edrych ar eich cynnig os hoffech ei anfon ataf.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 3, OAQ(3)1230(ECT), i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

**The Presiding Officer:** Question 3, OAQ(3)1230(ECT), has been transferred for written answer by the Minister for Social Justice and Local Government.

### Public Transport

### Trafnidiaeth Gyhoeddus

**Q4 Nick Bourne:** Will the Minister outline his commitment to public transport in Wales?  
OAQ(3)1228(ECT)

**C4 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei ymrwymiad i drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru?  
OAQ(3)1228(ECT)

**The Deputy First Minister:** My commitments for public transport are outlined in the national transport plan. These include initiatives such as developing Sustainable Travel Towns, introducing a Welsh entitlement card, developing a number of strategic park and ride sites, and continuing to improve rail services.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae fy ymrwymadau ar gludiant cyhoeddus wedi'u nodi yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Yn eu plith mae mentrau megis gwella Trefi Teithio Cynaliadwy, cyflwyno cerdyn hawl i Gymru, datblygu nifer o safleoedd parcio a theithio strategol, a pharhau i wella gwasanaethau rheilffyrdd.

**Nick Bourne:** I wanted to ask specifically about the Heart of Wales line, which is particularly dear to me but also to the party, as a commitment to public transport. In your transport plan, it is referred to as an east-west link, but it is also a north-south link, of course. What is happening in relation to the extra rolling stock that was at least an aspiration of your stewardship of the department, and also the fifth train service on the Heart of Wales line?

**Nick Bourne:** Yr oeddwn am holi'n benodol am reilffordd Calon Cymru, sy'n annwyl iawn imi ac i'r blaid, fel ymrwymiad i gludiant cyhoeddus. Yn eich cynllun trafnidiaeth, cyfeirir ati fel cyswllt rhwng y dwyrain a'r gorllewin, ond y mae'n gyswllt rhwng y gogledd a'r de hefyd, wrth gwrs. Beth sy'n digwydd gyda'r cerbydau ychwanegol a oedd yn ddyhead o leiaf gan eich adran, a'r pumed gwasanaeth trên ar reilffordd Calon Cymru hefyd?

**The Deputy First Minister:** My understanding is that the Heart of Wales line forum was not happy with an Arriva Trains Wales proposal early this year, which would have provided an additional train service, because that service would terminate at Llanelli and not run the full length of the line.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fy nealltwriaeth i yw nad oedd fforwm rheilffordd Calon Cymru yn hapus â chynnig Trenau Arriva Cymru yn gynnar eleni a fyddai wedi darparu gwasanaeth trên ychwanegol, oherwydd byddai'r gwasanaeth hwnnw'n dod i ben yn Llanelli heb fynd i ddiwedd y llinell. Fodd

However, I am anxious to assure you that we have made the commitment in the forward rail programme and we would like to see those services develop. I would be happy to go back to Arriva Trains to see whether we can adapt some of those plans, as I understand that this service has considerable local support.

2.40 p.m.

**Bethan Jenkins:** Bûm yn ymweld â'r YMCA ym Mhort Talbot ychydig wythnosau yn ôl, a gwelais fod rhai o'r bobl sy'n aros yno yn gweithio i Amazon ar Ffordd Fabian. Os ydynt yn dechrau gwaith yn gynnar yn y bore, nid oes modd iddynt gyrraedd eu gweithle. Yr ydym yn cydnabod eich gwaith caled i sicrhau bod cwmni Amazon yn dod i'r ardal honno, ond a ydych yn ymwybodol o'r sefyllfa hon, lle nad yw'r gweithwyr, sydd ar yr isafswm cyflog, yn gallu cyrraedd eu gweithle ar drafnidiaeth gyhoeddus? A allwch weithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod modd iddynt gyrraedd eu gweithle yn ddiogel?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydych yn gwneud pwynt pwysig o ran gallu pobl i gyrraedd eu gweithle ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yr ydym yn awyddus i hyrwyddo hynny. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus, oherwydd mater i'r awdurdod lleol a'r cwmni yw hwn yn bennaf. Yn dilyn eich cwestiwn, byddwn yn hapus i ysgrifennu at yr awdurdod lleol i ofyn pa gynlluniau sydd ganddo i sicrhau bod pobl yn gallu cyrraedd eu gweithle yn Amazon.

**Kirsty Williams:** If we are to persuade people to use public transport, we have to ensure that our roads are safe. There are many examples in my constituency of communities that are suffering because they are dissected by trunk roads for which you have responsibility. For 10 years, the residents of Howey on the A483 have been asking the Welsh Assembly Government to make safety improvements to that stretch of trunk road. That is particularly important now because the school has closed and children from housing association homes and the local council estate have to cross the road to catch the bus into school. Pensioners, having come out of town, have to cross the road to get to

bynnag, yr wyf yn awyddus i'ch sicrhau ein bod wedi gwneud yr ymrwymiad yn y flaenraglen rheilffyrdd, a hoffem weld y gwasanaethau hynny'n datblygu. Byddwn yn hapus i fynd yn ôl at Trenau Arriva i weld a allwn addasu rhai o'r cynlluniau hynny, oherwydd deallaf fod cryn gefnogaeth i'r gwasanaeth hwn yn lleol.

**Bethan Jenkins:** I visited the YMCA in Port Talbot a few weeks ago, and I saw that some of the people who are staying there work for Amazon on Fabian Way. If they start work early in the morning, there is no way for them to reach their workplace. We recognise your hard work in ensuring that Amazon moved to that area, but are you aware of that situation where the workers, who are on the minimum wage, cannot get to their workplace by public transport? Can you work with the local authority to ensure that it is possible for them to arrive at their workplace safely?

**The Deputy First Minister:** You make an important point about people's ability to travel to work by public transport, and we are keen to promote that. However, we must tread carefully, because this is mainly a matter for the local authority and that company. Further to your question, I would be happy to write to the local authority to ask what plans it has to ensure that people can reach their place of work at Amazon safely.

**Kirsty Williams:** Os ydym am ddarbwyllio pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, rhaid inni sicrhau bod ein ffyrdd yn ddiogel. Mae nifer o enghreifftiau yn fy etholaeth i o gymunedau sy'n dioddef am eu bod wedi'u rhannu gan gefnffyrdd yr ydych chi'n gyfrifol amdanynt. Ers 10 mlynedd, mae trigolion Hawau ar yr A483 wedi bod yn gofyn i Lywodraeth y Cynulliad wneud gwelliannau diogelwch ar y rhan honno o'r gefnffordd. Mae hynny'n arbennig o bwysig nawr gan fod yr ysgol wedi cau a phlant o gartrefi cymdeithasau tai a'r stad tai cyngor leol yn gorfod croesi'r ffordd i ddal y bws i'r ysgol. Rhaid i bensiynwyr groesi'r ffordd ar ôl dod o'r dref i gyrraedd yr arhosfan bysiau ar yr

the bus stop on the other side. Given that you are, as you have just said, a practical politician, will you provide some practical assistance to the residents of Howey either via road improvements or by lowering the speed limit?

**The Deputy First Minister:** I am glad that you appreciate the fact that I am a practical politician—that is helpful. I will promise to look at that proposal. Before long, I will announce my proposal on speed limits and on how local people and communities can consider whether speed limits are appropriate. The guidelines on reducing speed limits in certain areas will become easier. However, on your question, rather than give you a reply this afternoon, I promise to consider it and to write to you.

#### Economic Development

**Q5 Brynle Williams:** What are the Minister's priorities for economic development in north Wales? OAQ(3)1224(ECT)

**The Deputy First Minister:** My priorities are to create a stronger, more sustainable business environment across Wales. I recently announced an economic renewal programme, as the time is right to rethink our approach to economic development to create a stronger, more sustainable business environment when we come out of the recession.

**Brynle Williams:** I am sure that you share my concerns. Despite Gordon Brown promising that Britain is the best place in which to weather the recession, the UK is now suffering the longest one on record. As of last Friday, it is the only G7 nation that is still in recession. North Wales has lost a disproportionate number of jobs, and regrettably many of its major employers have gone out of business and have moved their operations overseas. In light of that, what confidence do you have that such a region has any hope of recovery while a Labour Government remains at Westminster?

ochr arall. O gofio eich bod yn wleidydd ymarferol, fel yr ydych newydd ddweud, a wnewch chi roi ychydig gymorth ymarferol i drigolion Hawau, naill ai drwy welliannau ar y ffordd ynteu drwy ostwng y terfyn cyflymder?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn falch eich bod yn sylweddoli fy mod yn wleidydd ymarferol—mae hynny'n help. Yr wyf yn addo edrych ar y cynnig. Cyn hir, byddaf yn cyhoeddi fy nghynnig ar derfynau cyflymder a'r ffordd y gall pobl leol a chymunedau ystyried a yw terfynau cyflymder yn briodol. Bydd y canllawiau ar ostwng terfynau cyflymder mewn ardaloedd penodol yn dod yn haws. Fodd bynnag, o ran eich cwestiwn, yn hytrach na rhoi ateb ichi y prynhawn yma, yr wyf yn addo ei ystyried ac ysgrifennu atoch.

#### Datblygu Economaidd

**C5 Brynle Williams:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer datblygu economaidd yn y gogledd? OAQ(3)1224(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fy mlaenoriaethau yw creu amgylchedd busnes cryfach, mwy cynaliadwy ledled Cymru. Yn ddiweddar, cyhoeddais raglen ar gyfer adnewyddu'r economi am mai dyma'r adeg i ailfeddwl ein dull o weithredu yn y maes datblygu economaidd, er mwyn creu amgylchedd busnes cryfach, mwy cynaliadwy pan ddown allan o'r dirwasgiad.

**Brynle Williams:** Yr wyf yn siŵr eich bod chi, fel finnau, yn pryderu. Er bod Gordon Brown wedi addo mai Prydain yw'r lle gorau ar gyfer dod drwy'r dirwasgiad, mae'r DU yn mynd drwy'r dirwasgiad hiraf a gofnodwyd ar hyn o bryd. Ers dydd Gwener diwethaf, y DU yw'r unig genedl o blith yr G7 sy'n dal i fod mewn dirwasgiad. Mae'r gogledd wedi colli nifer anghymesur o swyddi, ac yn anffodus mae nifer o brif gyflogwyr y rhanbarth wedi rhoi'r gorau iddi ac wedi symud eu gweithrediadau dramor. O gofio hynny, a ydychm yn hyderus fod gan ranbarth o'r fath unrhyw obaith am adferiad tra bydd Llywodraeth Lafur mewn grym yn San Steffan?

**The Deputy First Minister:** I do not think that I can answer that question today, Brynle. However, I will deal with my responsibilities to consider what can be done to improve the economy of north Wales.

Incidentally, according to the figures, some Valleys communities have suffered the worst unemployment. We have a responsibility to look at the recession's impact across Wales. I assure you that I am mindful of the fact that a number of jobs have been lost in north Wales, and my officials in the St Asaph office are working hard to try to minimise the losses that are occurring where announcements have been made and not yet finalised, but also to attract new business to the area. To show that commitment, I am meeting the Institute of Directors in north Wales tomorrow and I am meeting the Confederation of British Industry in north Wales tomorrow evening. Therefore, we are a listening Government and where appropriate action can be taken, we will act.

**Janet Ryder:** Deputy First Minister, today, I met representatives of the wood panel industry, who expressed concerns and said that they are experiencing a shortage of supply of raw materials. Kronospan in north-east Wales is a major employer. Would you be willing to meet representatives of that industry with me to discuss their problems?

**The Deputy First Minister:** Subject to diary commitments, I would of course be happy to meet representatives of the sector, which has suffered in the recession due to a drop-off in orders. It is important to stress that the Government recognises that, for example, a company like Kronospan is an important employer and we will do anything we can to help it to stabilise its position and to improve its prospects in the future.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn deall eich bod yn wleidydd ymarferol, ac yr wyf yn falch o glywed hynny. Hoffwn wybod pa gamau mentrus yr ydych yn eu cymryd a beth sydd ar y gweill er mwyn ceisio ymateb i rai o'r problemau mae cwmnïau bach yn eu hwynebu. Faint o bobl sydd wedi cael eu

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni chredaf y gallaf ateb y cwestiwn hwnnw heddiw, Brynle. Fodd bynnag, fe ymdriniaf â'm cyfrifoldebau i ystyried yr hyn y gellir ei wneud i wella economi'r gogledd.

Gyda llaw, yn ôl y ffigurau rhai o gymunedau'r Cymoedd sydd wedi dioddef y diweithdra gwaethaf. Mae cyfrifoldeb arnom i edrych ar effaith y dirwasgiad ledled Cymru. Yr wyf yn eich sicrhau fy mod yn effro i'r ffaith fod nifer o swyddi wedi'u colli yn y gogledd, ac y mae fy swyddogion yn swyddfa Llanelwy yn gweithio'n galed i geisio lleihau'r colledion sy'n digwydd lle mae cyhoeddiadau wedi'u gwneud ond y manylion terfynol heb ddod i law eto, ond i ddenu busnes newydd i'r ardal hefyd. Yn arwydd o'r ymrwymiad hwnnw, byddaf yn cyfarfod â Sefydliad y Cyfarwyddwyr yn y gogledd yfory ac â Chydffederasiwn Diwydiant Prydain yn y gogledd nos yfory. Felly, yr ydym yn Llywodraeth sy'n gwranddo, ac os oes modd cymryd camau gweithredu priodol byddwn yn gwneud hynny.

**Janet Ryder:** Ddirprwy Brif Weinidog, heddiw cyfarfûm â chynrychiolwyr y diwydiant paneli pren, a fynegodd bryderon bod eu cyflenwad o ddeunyddiau crai yn brin. Mae Kronospan yn y gogledd-ddwyrain yn gyflogwr mawr. A fydddech yn fodlon cyfarfod â chynrychiolwyr y diwydiant hwnnw gyda mi i drafod eu problemau?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gan ddibynnu ar yr ymrwymadau yn fy nyddiadur, wrth gwrs, byddwn yn hapus i gyfarfod â chynrychiolwyr y sector, sydd wedi dioddef yn y dirwasgiad oherwydd bod llai o archebion am eu cynnyrch. Mae'n bwysig pwysleisio bod y Llywodraeth yn cydnabod, er enghraifft, fod cwmni fel Kronospan yn gyflogwr pwysig, a byddwn yn gwneud unrhyw beth a allwn i'w helpu i sefydlogi a gwella'i ragolygon yn y dyfodol.

**Eleanor Burnham:** I understand that you are a practical politician, and I am pleased to hear that. I should like to know what innovative steps you are taking and what you have planned to try to respond to some of the problems facing small firms. How many people have the ProAct and ReAct schemes



gwarchod gan gynlluniau ProAct a ReAct?

protected?

O ran pobl ifanc sy'n ddi-waith, beth yw rôl Gyrfaoedd Cymru a faint o bobl ifanc o'r gogledd sydd wedi cael eu helpu ac sydd wedi llwyddo i ddod o hyd i waith o ganlyniad i'w help?

With regard to unemployed young people, what is the role of Careers Wales, and how many young people from north Wales have been helped and have managed to find work as a result of its assistance?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni allaf roi'r ffigurau ar gyfer Gyrfaoedd Cymru, felly ysgrifennaf atoch ynglŷn â hynny.

**The Deputy Prime Minister:** I cannot give figures for Careers Wales, therefore, I shall write to you about that.

Mae 19 o gwmnïau o'r gogledd wedi derbyn cymorth, sydd wedi rhoi help i 1,200 o bobl sy'n cael eu cyflogi. Mae gwerth y cymorth hwnnw yn fwy na £2 filiwn. Felly, mae nifer o gwmnïau yn y gogledd eisoes wedi cael arian. Mae nifer o gwmnïau eraill wedi rhoi ceisiadau i mewn ond heb glywed eto os byddant yn derbyn yr arian. Yr wyf yn awyddus iawn i gwmnïau bach a chanolig sylweddoli bod ProAct ar gael. Byddwn yn croesawu unrhyw beth y gall Aelodau Cynulliad ei wneud i'n helpu i hysbysebu'r ffaith bod yr help hwn ar gael. Hoffwn weld nifer o'n cwmnïau bach yn derbyn help os yw'r amodau yn iawn.

In north Wales, 19 companies have received support, which has assisted 1,200 people in employment. The value of that support is in excess of £2 million. Therefore, many companies in north Wales have already received funding. Many other companies have submitted applications but have not yet heard whether they will receive funding. I am eager for small and medium sized enterprises to realise that ProAct is available. We welcome anything that Assembly Members can do to help us advertise the fact that this help is available. I should like to see many of our small companies being assisted if the conditions are right.

Yr wyf hefyd yn ymwybodol bod gwaith pwysig i'w wneud gyda phobl ifanc. Mae'r dirwasgiad hwn wedi cael effaith andwyol ar bobl ifanc. Yr wyf yn gweithio gyda Jane Hutt a John Griffiths i sicrhau bod cynlluniau ar y gweill i sicrhau bod hyfforddiant ar eu cyfer, ac yr ydym hefyd yn cydweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn y Deyrnas Gyfunol i sicrhau ein bod yn gweithio ar y cyd lle bo modd er mwyn defnyddio'r arian yn fwy effeithiol.

I am also aware that important work needs to be done with young people. The recession has had an adverse effect on young people. I am working with Jane Hutt and John Griffiths to ensure that there are schemes in place to ensure training for them, and we are also collaborating with the Department for Work and Pensions to ensure that we work together to use the money more effectively.

### Future of Railways

### Dyfodol Rheilffyrdd

**Q6 Nick Bourne:** Will the Minister make a statement on the future of railways in Wales? OAQ(3)1227(ECT)

**C6 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol rheilffyrdd yng Nghymru? OAQ(3)1227(ECT)

**The Deputy First Minister:** I will continue to invest in the railways in Wales in order to further improve train services, infrastructure and stations. The national transport plan sets out my future priorities.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Byddaf yn parhau i fuddsoddi yn y rheilffyrdd yng Nghymru er mwyn gwella gwasanaethau trenau, yr isadeiledd a'r gorsafoedd ymhellach. Mae'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn egluro fy mlaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

**Nick Bourne:** I would like to raise a couple

**Nick Bourne:** Hoffwn godi rhai materion

of issues relating to the Cambrian line. The first is the introduction of the European rail traffic management system, the introduction and installation of which we are told will lead to disruption on the line without any specific information regarding what form that disruption will take. Are you in a position to give more detail on that—if not now, then at least to publicise it or to get the providers to do so, because there are concerns about the form that the disruption will take?

The second point is to ask the Deputy First Minister whether he can give us an update on how far forward we are in the reopening of Carno station.

**The Deputy First Minister:** With regard to ERTMS, when you undertake work to upgrade signalling, there is bound to be a measure of disruption. I have asked Network Rail to assure me—and it has done so—that disruption will be kept to a minimum. However, there is no doubt that there will be some disruption. I do not think that we can get away from that. If you would like more detail, I am happy to write to you with that information.

In relation to Carno station, my officials recently met the Carno Station Action Group. My officials and the action group have agreed that they will work closely with Trac, the regional transport consortium, to include the group's proposals in the regional transport plan. I will then have to make a decision based on the priorities in the transport plan as to whether or not this should be taken forward in that context.

2.50 p.m.

**Jeff Cuthbert:** I am returning to a subject that I have raised several times. At the Enterprise and Learning Committee today, we took evidence from Network Rail and Passenger Focus and they were both able to confirm that the infrastructure work and the lengthening of platforms on the Rhymney valley line was completed some time ago—in the case of some stations, more than two

ynghylch rheilffordd y Cambrian. Mae'r mater cyntaf yn ymwneud â chyflwyno system rheoli traffig rheilffyrdd Ewrop, ac yr ydym wedi cael gwybod y bydd y gwaith o'i chyflwyno a'i gosod yn amharu ar y gwasanaeth ar y llinell hon. Ond nid ydym wedi cael gwybodaeth benodol sut yn union y bydd yn amharu ar y gwasanaeth. A ydych mewn sefyllfa i roi rhagor o fanylion am hynny—os nad yn awr, o leiaf i gyhoeddi'r wybodaeth neu gael y darparwyr i wneud hynny, oherwydd mae pryderon ynghylch sut y bydd yn amharu?

Yr ail bwynt yw gofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog a yw'n gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am faint o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran ailagor gorsaf Carno.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** O ran system rheoli traffig rheilffyrdd Ewrop, pan fyddwch yn gwneud gwaith i uwchraddio signalau, mae'n anochel y bydd rhywfaint o darfu. Yr wyf wedi gofyn i Network Rail roi sicrwydd imi—ac y mae wedi gwneud hynny—y bydd cyn lleied â phosibl o darfu. Fodd bynnag, nid oes dim amheuaeth na fydd rhywfaint ar o darfu. Ni chredaf fod modd osgoi hynny. Os hoffech gael rhagor o fanylion, yr wyf yn fodlon ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth honno.

O ran gorsaf Carno, yn ddiweddar bu fy swyddogion yn cyfarfod â Grŵp Gweithredu Gorsaf Carno. Mae fy swyddogion a'r grŵp gweithredu wedi cytuno y byddant yn gweithio'n agos gyda Trac, y consortiwm trafndiaeth rhanbarthol, i gynnwys cynigion y grŵp yn y cynllun trafndiaeth rhanbarthol. Yna, bydd yn rhaid imi benderfynu, ar sail y blaenoriaethau yn y cynllun trafndiaeth, a ddylid gweithredu'r cynigion hyn yn y cyd-destun hwnnw ai peidio.

**Jeff Cuthbert:** Yr wyf yn dychwelyd at bwnc yr wyf wedi'i godi droeon. Yn y Pwyllgor Menter a Dysgu heddiw, buom yn clywed tystiolaeth gan Network Rail a Passenger Focus, a'r ddau sefydliad yn gallu cadarnhau bod y gwaith ar yr isadeiledd ac ar ymestyn y platfformau ar reilffordd cwm Rhymni wedi'i gwblhau ers cryn amser—yr oedd y gwaith wedi'i gwblhau dros ddwy

years ago—yet we still do not have trains from Arriva Trains Wales of six carriages in length at peak times. We were told that it was waiting for the volume of passengers to justify it, but I find that hard to believe and I would have assumed that, before the considerable capital investment of public money was put in, that would have been resolved so that the purpose of having the longer stations and bigger trains would have been clear. Therefore, can you return to Arriva Trains Wales and urge it to put on the rolling stock that I believe has been obtained, so that my constituents no longer face gross overcrowding when travelling back and forth to Cardiff at peak times?

**The Deputy First Minister:** There are two issues here, on the first of which I wholeheartedly agree with you. There is hardly any point in improving infrastructure to make more services available if those services do not follow. When the infrastructure work was completed, I was able to increase the services from Merthyr to Cardiff, as you know, this year. I would hope that we can work with Arriva Trains to try to come up with a solution; as you say, that solution is to have six-carriage trains. Part of the problem is lack of rolling stock. I have discussed this with Arriva Trains, but I will do so again. There is a proposal, as I mentioned to Paul Davies earlier, that the Welsh Assembly Government and my officials will be considering, which is to purchase rolling stock directly, and we would have to make decisions on the appropriate locations for those services.

It is clear that, as a result of the increased use of public transport—more and more passengers are using it, particularly trains—the demand for extra carriages is widespread, and we need to remember that.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf wedi codi gyda chi nifer o weithiau yn y gorffennol y cysylltiadau rheilffordd i'r gorllewin o Abertawe a'r ffaith bod y gwasanaeth hwnnw'n annigonol. Cyfeiriodd Paul at hyn yn gynharach. A ydych yn teimlo bod ansawdd y gwasanaeth i'r gorllewin o Abertawe yn gwella ac a oes gennych

flynedd yn ôl yn achos rhai gorsafoedd—ac eto nid yw Trenau Arriva Cymru yn defnyddio trenau chwe cherbyd o hyd yn ystod yr oriau brig. Dywedwyd wrthym ei fod yn aros i nifer y teithwyr gyfiawnhau gwneud hynny, ond y mae'n anodd gennyf gredu hynny, a byddwn wedi tybio y byddai'r mater hwnnw wedi ei ddatrys ac y byddai'r diben o gael y gorsafoedd hwy a threnau mwy wedi bod yn glir cyn buddsoddi arian cyfalaf cyhoeddus sylweddol. Felly, a allwch fynd yn ôl at Trenau Arriva Cymru a'i annog i ddefnyddio'r cerbydau y credaf eu bod ar gael, fel na fydd fy etholwyr bellach yn gorfod defnyddio trenau sydd dan eu sang wrth deithio'n ôl ac ymlaen i Gaerdydd yn ystod yr oriau brig?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae dau bwynt yn codi o hyn, ac yr wyf yn cytuno'n llwyr â chi ar y pwynt cyntaf. Nid oes llawer o ddiben gwella'r isadeiledd i allu darparu rhagor o wasanaethau os na fydd y gwasanaethau hynny'n dilyn. Pan orffennwyd y gwaith ar yr isadeiledd, bu imi gynyddu'r gwasanaethau o Ferthyr Tudful i Gaerdydd eleni, fel y gwyddoch. Byddwn yn gobeithio y gallwn weithio gyda Trenau Arriva i geisio dod o hyd i ateb; fel y dywedwch, yr ateb hwnnw yw cael trenau chwe cherbyd. Rhan o'r broblem yw diffyg cerbydau. Yr wyf wedi trafod y mater hwn gyda Trenau Arriva ond byddaf yn gwneud hynny eto. Mae yna gynnig, fel y soniais wrth Paul Davies yn gynharach, y bydd Llywodraeth y Cynulliad a'm swyddogion i'n ei ystyried, sef prynu cerbydau'n uniongyrchol, a byddai'n rhaid inni benderfynu ar y lleoliadau priodol ar gyfer y gwasanaethau hynny.

Mae'n amlwg fod y galw am gerbydau ychwanegol yn fawr, oherwydd mwy o ddefnyddio ar gludiant cyhoeddus—mae mwy a mwy o deithwyr yn ei defnyddio yn enwedig trenau—ac y mae angen inni gofio hynny.

**Rhodri Glyn Thomas:** I have raised the issue of the rail links to the west of Swansea and the inadequacy of that service with you several times in the past. Paul referred to this earlier. Do you feel the quality of the service to the west of Swansea is improving, and do you have any plans to ensure that that service improves in future?

unrhyw gynlluniau i sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw'n gwella i'r dyfodol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Credaf fod problemau gyda'r isadeiledd, a bydd yn rhaid inni edrych ar draphont Casllwchwr yn ofalus. Yr ydym wedi cael arian drwy'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol i sicrhau ein bod yn gwella'r isadeiledd hwn a bod y trac yn cael ei ddeuoli. Bydd hynny'n golygu y gallwn ddefnyddio mwy o wasanaethau.

Y pwynt a wneuthum yn fy atebion i Paul a Jeff oedd bod y Llywodraeth yn edrych ar brynu mwy o stoc i weld a allwn ddefnyddio mwy o drenau a mwy o wasanaethau. Yr wyf yn sylweddoli bod pwysau'n dod o'r gorllewin i gael mwy o wasanaethau a gwell gwasanaethau. Yr wyf yn gorfod ystyried bod galw yn dod o nifer o gyfeiriadau, fel y dywedodd Jeff a Paul ac fel yr ydych chi wedi'i ddweud. Felly, mae'n rhaid imi ystyried y patrwm yn genedlaethol. Gallaf eich sicrhau, lle bo modd gwella'r gwasanaeth, byddaf yn ceisio gwneud hynny yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

#### Loans and Investments for Businesses

**Q7 Leanne Wood:** Will the Minister make a statement on business access to loans and investments in South Wales Central? OAQ(3)1205(ECT)

**The Deputy First Minister:** We will continue to work with banks to seek new ways of working to release finance to businesses. Considerable discussions have taken place with high-street banks at our economic summits. We are also exploring options around the citizen's bank concept for new and more local ways of providing finance.

**Leanne Wood:** HSBC recently announced the closure of branches in Ferndale and Rhiwbina, which will affect access to financial services, including loans and investments, for businesses and individual customers. Do you agree that it is not socially just for people in an area like Ferndale in the Rhondda to have to travel nearly five miles to their nearest HSBC branch, which will be in Porth? Do you also agree that HSBC has no right to advertise itself as the world's local

**The Deputy Prime Minister:** There are problems with the infrastructure, and we will have to look carefully at the Loughor viaduct. We have received funding through the strategic capital investment fund to make improvements to the infrastructure and to make the track dual. That will mean we can use more services.

The point that I made in my responses to Paul and Jeff was that the Government is looking at buying more stock to see whether more trains and more services can be used. I realise that there is pressure from west Wales to get more and better services. I have to consider that there are calls from many directions, as Jeff and Paul, and yourself, have said. Therefore, I have to consider the national pattern. Where it is possible to improve the service, I can assure you that I will try to do so during the next two years..

#### Benthyciadau a Buddsoddiadau i Fusnesau

**C7 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am allu busnesau yng Nghanol De Cymru i allu cael benthyciadau a buddsoddiadau? OAQ(3)1205(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Byddwn yn parhau i weithio gyda banciau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio i ryddhau cyllid ar gyfer busnesau. Mae llawer o drafod wedu bod gyda banciau'r stryd fawr yn ein huwchgynadleddau economaidd. Yr ydym hefyd yn archwilio dewisiadau ynghylch y syniad o fanc dinasyddion i sicrhau ffyrdd newydd a mwy lleol o ddarparu arian.

**Leanne Wood:** Yn ddiweddar cyhoeddodd HSBC y byddai'n cau canghennau yng Nglynrhedynog a Rhiwbeina, a fydd yn cael effaith ar allu busnesau a chwsmeriaid i gael gwasanaethau ariannol, gan gynnwys benthyciadau a buddsoddiadau. A ydych yn cytuno ei bod yn anghyfiawn yn gymdeithasol fod pobl mewn ardal fel Glynrhedynog yn Rhondda yn gorfod teithio bron i bum milltir i'w cangen HSBC agosaf, yn y Porth? A ydych hefyd yn cytuno nad oes

bank following this announcement? Furthermore, will you agree to speak to your Cabinet colleagues about the economic impact of these bank closures on communities like Ferndale, including further support for the proposal that was outlined in the Plaid Cymru manifesto in 2007 for a community-based or people's bank?

**The Deputy First Minister:** In relation to the HSBC announcement, obviously it is regrettable that services are being lost in that way in many communities. Of course, this has been the pattern in recent years, that not only HSBC, but other high-street banks too, have been pulling out of local communities, which means that people have to travel much further to access those services. Therefore, the proposal that the Minister for Finance and Public Service Delivery is looking at on behalf of the Welsh Assembly Government for the creation of a people's or citizens' bank is an important concept. Not only would that help people to access services in their communities, it would also assist with the problems that small and medium-sized businesses experience in accessing finance. That matter is currently being looked at.

**Jonathan Morgan:** Some two years ago, one of the first interviews that you gave as the Deputy First Minister was to the *Western Mail*. In that interview, you talked about a number of policy initiatives to help small businesses. You talked about the business rate relief scheme and business investment. In that article, on the business rate relief scheme, you said

'Many small businesses say to us if you can improve on that scheme you are providing us with direct support. For small businesses it can make the difference between success and failure.'

As the Minister charged with supporting small businesses in Wales, do you think that the revaluation of business properties from next year will help businesses to succeed or fail?

gan HSBC yr hawl i hysbysebu ei hun fel banc lleol y byd wedi'r cyhoeddiad hwn? Hefyd, a wnewch chi gytuno i siarad â'ch cydweithwyr yn y Cabinet am yr effaith economaidd y mae cau'r banciau hyn yn ei chael ar gymunedau megis Glynrhedynog, gan gynnwys cymorth pellach ar gyfer y cynnig a amlinellwyd ym maniffesto Plaid Cymru yn 2007 am fanc cymunedol neu fanc y bobl?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** O ran cyhoeddiad HSBC, mae'n anffodus, wrth gwrs, fod gwasanaethau'n cael eu colli fel hyn mewn nifer o gymunedau. Wrth gwrs, dyma fu'r patrwm yn y blynyddoedd diwethaf, sef bod banciau eraill y stryd fawr, yn ogystal â HSBC, wedi bod yn tynnu allan o gymunedau lleol, sy'n golygu ei bod yn rhaid i bobl deithio lawer ymhellach i allu cael y gwasanaethau hynny. Felly, mae'r cynnig y mae'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei ystyried ar ran Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer creu banc y bobl neu fanc dinasyddion yn gysyniad pwysig. Byddai hynny nid yn unig yn helpu pobl i gael mynediad i wasanaethau yn eu cymunedau, ond byddai hefyd yn cynorthwyo gyda'r problemau y mae busnesau bach a chanolig eu maint yn eu cael wrth geisio cael cyllid. Mae'r mater hwnnw'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

**Jonathan Morgan:** Tua dwy flynedd yn ôl, un o'r cyfweiliadau cyntaf a roesoch fel y Dirprwy Brif Weinidog oedd i'r *Western Mail*. Yn y cyfweiliad hwnnw, soniech am nifer o fentrau polisi i helpu busnesau bach. Soniech am y cynllun i gynnig gostyngiadau treth i fusnesau a buddsoddi mewn busnesau. Yn yr erthygl honno, dyma yr oeddech yn ei ddweud am y cynllun gostyngiadau treth i fusnesau,

Mae nifer o fusnesau bach yn dweud wrthym y byddwn yn rhoi cymorth uniongyrchol iddynt os gallwn wella'r cynllun hwnnw. Gall olygu'r gwahaniaeth rhwng llwyddo a methu i fusnesau bach.

Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynorthwyo busnesau bach yng Nghymru, a ydych yn credu y bydd ailbrisió eiddo busnes o'r flwyddyn nesaf yn helpu busnesau i llwyddo neu fethu?

**The Deputy First Minister:** You obviously have not read the article by your own Conservative guru, Dylan Jones-Evans. He has welcomed our proposal to help small businesses through the small business rate relief scheme. Although there is to be a revaluation, which has been announced, the Welsh Assembly Government has decided to reduce the provisional multiplier to 0.409 and 64,000 Welsh businesses will see a reduction in their rates. I think that that is a good response from this Government, acknowledged by Dylan Jones-Evans no less.

### Draft Budget

**Q8 Peter Black:** Will the Minister make a statement on the effect of the draft budget on his priorities? OAQ(3)1213(ECT)

**The Deputy First Minister:** The allocation of funds to my department in the draft budget enables me to deliver my priorities. I have recently commissioned an economic renewal programme which will inform future budget alignment.

**Peter Black:** I very much welcome the fact that you are looking at your priorities and at economic renewal. However, do you not accept that, if we are to boost the economy in Wales, we also need to invest in the skills of the future workforce? Therefore, how can you claim that the budget is supporting your priorities when we have a 5 per cent cut in the money available for further and higher education?

**The Deputy First Minister:** We have to remember that the skills agenda has to be delivered not only in the context of the budget itself, but also in terms of the European funding component—European structural funds, in terms of training—which is in addition to the DCELLS budget line. Therefore, there is very significant funding available. We will do everything that we possibly can during this recession to protect our skills base; that is why we have ReAct, ProAct and SkillBuild. All of that would be jeopardised under savage Liberal Democrat

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'n amlwg nad ydych wedi darllen yr erthygl gan eich gwrw Ceidwadol eich hun, Dylan Jones-Evans. Mae ef wedi croesawu ein cynnig i helpu busnesau bach trwy'r cynllun gostyngiadau treth i fusnesau bach. Er bod ailbrisió'n mynd i ddiwydd, ac y mae hynny wedi cael ei gyhoeddi, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu gostwng y lluosydd dros dro i 0.409, a bydd 64,000 o fusnesau Cymru yn gweld gostyngiad yn eu trethi. Credaf fod hynny'n ymateb da gan y Llywodraeth hon, sy'n cael ei gydnabod gan neb llai na Dylan Jones-Evans.

### Cyllideb Ddrafft

**C8 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y gyllideb ddrafft ar ei flaenoriaethau? OAQ(3)1213(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r arian sydd wedi'i ddyrannu i'm hadran i yn y gyllideb ddrafft yn fy ngalluogi i gyflawni fy ymrwymadau. Yn ddiweddar, yr wyf wedi comisiynu rhaglen adnewyddu economaidd a fydd yn llywio'r gwaith o alinio cyllidebau yn y dyfodol.

**Peter Black:** Yr wyf yn croesawu'n fawr y ffaith eich bod yn ystyried eich blaenoriaethau ac adnewyddu'r economi. Fodd bynnag, onid ydych yn derbyn bod angen inni fuddsoddi yn sgiliau gweithlu'r dyfodol os ydym am roi hwb i'r economi yng Nghymru? Felly, sut y gallwch honni bod y gyllideb yn cefnogi eich blaenoriaethau a ninnau â thoriad o 5 y cant yn yr arian sydd ar gael ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rhaid inni gofio'i bod yn rhaid cyflawni'r agenda sgiliau nid yng nghyd-destun y gyllideb ei hun yn unig, ond hefyd o ran yr elfen o arian Ewropeaidd—cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, o ran hyfforddiant—sy'n ychwanegol at y gyllideb APADGOS. Felly, mae swm sylweddol iawn o arian ar gael. Byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu yn ystod y dirwasgiad hwn i warchod ein sylfaen sgiliau; dyna pam y mae gennym y rhaglenni ReAct, ProAct ac Adeiladu Sgiliau. Byddai hyn oll yn cael ei beryglu gan doriadau llym

cuts after the next election. [*Interruption.*]

y Democratiaid Rhyddfrydol yn yr etholiad nesaf. [*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. I was about to call Mohammad Asghar.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr oeddwn ar fin galw ar Mohammad Asghar.

**Mohammad Asghar:** I would like to take this opportunity to congratulate the Deputy First Minister on his work in protecting Welsh jobs. A recent example of this has been the provision of ProAct programmes, which he has just mentioned, for Corus workers, many of whom work at the Corus plant in Newport in my region. Will the Deputy First Minister assure us that the next Assembly budget will not jeopardise the future of the ProAct and ReAct schemes in Wales?

**Mohammad Asghar:** Hoffwn gymryd y cyfle hwn i longyfarch y Dirprwy Brif Weinidog ar y gwaith y mae wedi'i wneud i ddiogelu swyddi yng Nghrymu. Enghraifft ddiweddar o hyn oedd darparu rhaglenni ProAct, y mae newydd sôn amdanynt, ar gyfer gweithwyr Corus, nifer ohonynt yn gweithio yn ffatri Corus yng Nghasnewydd yn fy rhanbarth i. A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ein sicrhau na fydd cyllideb nesaf y Cynulliad yn peryglu dyfodol y cynlluniau ProAct a ReAct yng Nghymru?

**The Deputy First Minister:** The ReAct scheme is a continuing scheme—it was in place before the recession. ProAct is a specific response to the recession. As it has been so successful, as a Government we will have to consider how we can extend the programme until the end of the recession. In other words, we want to ensure that it is available until the recession is over. I assure you that that is what we are currently doing.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae cynllun ReAct yn gynllun parhaol—cafodd ei sefydlu cyn y dirwasgiad. Mae ProAct yn ymateb penodol i'r dirwasgiad. Gan iddi fod mor llwyddiannus, bydd yn rhaid inni fel Llywodraeth ystyried sut y gallwn ymestyn y rhaglen tan ddiwedd y dirwasgiad. Hynny yw, yr ydym am sicrhau bod y rhaglen ar gael nes i'r dirwasgiad ddod i ben. Gallaf eich sicrhau mai dyna yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd.

3.00 p.m.

Neither of those programmes would have been possible, of course, without the support of European funding, and we will continue to use such funding as a way of protecting jobs throughout this recession.

Wrth gwrs, ni fyddai wedi bod yn bosibl cynnal y naill rhaglen neu'r llall heb gymorth arian o Ewrop, a byddwn yn parhau i ddefnyddio arian o'r fath fel ffordd i ddiogelu swyddi trwy gydol y dirwasgiad hwn.

**Alun Cairns:** Is it not the case that your budget is so tight because your influence in the Cabinet is so weak, and that the rise in your budget does not really leave you room to do much within the framework? To add insult to injury, the amount of money available to your Cabinet colleagues to support businesses after revaluation, given the significant increases facing businesses in business rates, does not leave you with any room to manoeuvre. Will you tell me whether your switch in policy priority from inward investment, when you sent out the message that Wales is closed to business, to developing indigenous businesses was based on an objective strategic analysis, and, if so,

**Alun Cairns:** Onid yw'n wir fod eich cyllideb mor dynn oherwydd bod eich dylanwad yn y Cabinet mor wan, ac nad yw'r cynnydd yn eich cyllideb yn caniatáu ichi wneud llawer o fewn y fframwaith? Ac i rwbio halen yn y briw, nid yw'r arian sydd ar gael i'ch cydweithwyr yn y Cabinet i gynorthwyo busnesau ar ôl ailbrisio yn rhoi dim lle ichi symud, o gofio'r cynnydd sylweddol mewn trethi busnes sy'n wynebu busnesau. A wnewch chi ddweud wrthyf ai ar sail dadansoddiad strategol gwrthrychol y newidiwyd eich blaenoriaeth polisi o fewnffuddsoddi, pan roesoch ar wybod fod Cymru ar gau i fusnes, i ddatblygu busnesau cynhenid, ac os felly, a wnewch chi rannu'r

will you share that? Or was it just done on a whim in order to cover some difficult reports that were being published at the time?

**The Deputy First Minister:** I find that astounding. Everybody apart from Alun Cairns has welcomed my economic renewal programme, including David Melding. I find it amazing that Alun is the only one with his head in the sand on this matter, for some unknown reason. [*Interruption.*] I would just say to Alun that I have said that I will share my objectives with the Conservatives and with the Liberal Democrats, and if he has anything to say in relation to that, I am always open to ideas. What I do not want is continual whingeing from Members. I want ideas from them. He obviously has not read the evidence that I gave to committee on my budget, in which I said that in addition to the core budget that I have announced, there is an extra £45 million in capital through the strategic capital investment fund and an extra £37 million through European funding. That means that I have £82 million outside my budget to assist me in delivering my programme. He clearly has not listened to what we have said about support for small businesses in relation to business rate relief. Yes, there will be a revaluation, but because of the reduction in the poundage, 64,000 businesses in Wales will pay less in business rates next year. Why can you not welcome that, Alun?

### Businesses

**Q9 Darren Millar:** Will the Minister make a statement on the current challenges faced by Welsh businesses? OAQ(3)1206(ECT)

**The Deputy First Minister:** The Welsh Assembly Government is fully aware of the challenges faced by Welsh businesses in the current economic climate. Over the next six to nine months, my economic renewal programme will review and reshape the Assembly Government's economic development activities to build a more sustainable and resilient economy following

dadansoddiad hwnnw â ni? Ynteu ar fympwy y gwnaethoch hynny i ymateb i rai adroddiadau anodd a oedd yn cael eu cyhoeddi ar y pryd?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn rhyfeddu clywed hynny. Mae pawb ar wahân i Alun Cairns wedi croesawu fy rhaglen ar gyfer adnewyddu'r economi, gan gynnwys David Melding. Mae'n syfrdanol mai Alun yw'r unig un â'i ben yn y tywod ar y mater hwn, am ryw reswm sy'n ddirgelwch imi. [*Torri ar draws.*] Hoffwn dweud wrth Alun fy mod wedi dweud y byddaf yn rhannu fy amcanion gyda'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac os oes ganddo unrhyw beth i'w ddweud ynghylch hynny, yr wyf bob amser yn barod i wrando ar syniadau. Yr hyn nad wyf am ei glywed yw cwyno parhaus gan Aelodau. Yr wyf am gael syniadau ganddynt. Mae'n amlwg nad yw wedi darllen y dystiolaeth a roddais i'r pwyllgor am fy nghyllideb, lle dywedais fod £45 miliwn o gyfalaf ychwanegol ar gael trwy'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, a £37 miliwn yn ychwanegol trwy arian o Ewrop, a hynny ar ben y gyllideb graidd yr wyf wedi'i chyhoeddi. Golyga hynny fod gennyf £82 miliwn y tu allan i'm cyllideb i'm helpu i ddarparu fy rhaglen. Mae'n amlwg nad yw wedi gwrandao ar yr hyn yr ydym wedi'i ddweud am gymorth i fusnesau bach o ran rhyddhad ardrethi busnes. Bydd, fe fydd ailbrisio, ond oherwydd gostwng y gyfradd yn y bunt, bydd 64,000 o fusnesau yng Nghymru yn talu llai o drethi busnes y flwyddyn nesaf. Pam na allwch chi groesawu hynny, Alun?

### Busnesau

**C9 Darren Millar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr heriau sy'n wynebu busnesau yng Nghymru ar hyn o bryd? OAQ(3)1206(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn deall yn iawn yr heriau sy'n wynebu busnesau Cymru yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Yn ystod y chwech i naw mis nesaf dan fy rhaglen i adnewyddu'r economi byddwn yn adolygu ac yn ail-lunio gweithgareddau Llywodraeth y Cynulliad ym maes datblygu economaidd er mwyn creu economi fwy



the recession.

**Darren Millar:** Many small businesses in my constituency have expressed great concern about the impact of the current Royal Mail dispute on their business, particularly on their cash flow when they are waiting for cheques to appear in the post. What representations have you made to the UK banking industry to request that it be flexible with Welsh businesses during the current dispute?

**The Deputy First Minister:** I have not done anything to contact the banks on that particular issue. I have, however, constantly talked to the banks about the assistance that they should give to small and medium-sized enterprises. Even the banks now acknowledge that the businesses that will suffer most as a result of this recession are small and medium-sized enterprises, which, by and large, depend on overdraft facilities rather than on structured loans. I hope to meet the banks again fairly soon to make that point clear. That is why the proposal for a people's bank or a citizen's bank is so important now, because that is the sector that I believe we should be assisting.

**Helen Mary Jones:** I take this opportunity to thank you for visiting people with small businesses in my constituency immediately before the recess. You will remember from those discussions that their concern was not about business rates, but about having the right infrastructure available to retail businesses. We are all aware that the Assembly Government is unable to provide direct support to retail businesses because of European restrictions, but you undertook that day to look, during the course of the business review, at whether it might be possible to support the infrastructure. Will you put that on record and will you keep me updated as the review of business support continues as to how it might be possible to support retail businesses in that indirect way by ensuring that the right type of infrastructure is available?

**The Deputy First Minister:** One of the legacies of a former Conservative Secretary

cynaliadwy a gwynnach ar ôl y dirwasgiad.

**Darren Millar:** Mae nifer o fusnesau bach yn fy etholaeth wedi mynegi pryder mawr am effaith anghydfod presennol y Post Brenhinol ar eu busnes, yn enwedig ar eu llif arian wrth ddisgwyl i sieciau gyrraedd yn y post. Pa sylwadau yr ydych chi wedi'u cyflwyno i ddiwydiant bancio'r DU i ofyn iddo fod yn hyblyg gyda busnesau yng Nghymru yn ystod yr anghydfod presennol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf wedi gwneud dim i gysylltu â'r banciau ar y mater penodol hwnnw. Fodd bynnag, yr wyf wedi bod yn siarad yn gyson â'r banciau ynghylch y cymorth y dylent ei roi i fentrau bach a chanolig eu maint. Mae hyd yn oed y banciau'n cydnabod erbyn hyn mai'r busnesau a fydd yn dioddef fwyaf o ganlyniad i'r dirwasgiad hwn fydd mentrau bach a chanolig eu maint, sydd ar y cyfan yn dibynnu ar gyfleusterau gorddrafft yn hytrach na benthyciadau strwythuredig. Gobeithiaf gyfarfod â'r banciau eto'n weddol fuan i bwysleisio'r pwynt hwnnw. Dyna pam y mae'r cynnig ar gyfer banc y bobl neu fanc dinasyddion mor bwysig yn awr, oherwydd dyna'r sector y credaf y dylem fod yn ei gynorthwyo.

**Helen Mary Jones:** Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch ichi am ymweld â phobl sydd â busnesau bach yn fy etholaeth yn syth cyn y toriad. Fe gofiwch o'r trafodaethau hynny nad ardrethi busnes oedd yn peri'r pryder mwyaf iddynt, ond cael yr isadeiledd iawn yn ei le ar gyfer busnesau manwerthu. Gwyddom i gyd na all Llywodraeth y Cynulliad ddarparu cymorth uniongyrchol i fusnesau manwerthu oherwydd cyfyngiadau Ewrop, ond y diwrnod hwnnw addawsoch ystyried, yn ystod yr adolygiad busnes, a allai fod yn bosibl cefnogi'r isadeiledd. A wneuch chi ddweud hynny ar goedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf imi, wrth i'r adolygiad o gymorth busnes fynd rhagddo, am y ffordd y gallai fod yn bosibl cynorthwyo busnesau manwerthu yn anuniongyrchol fel hynny trwy sicrhau bod yr isadeiledd iawn ar gael?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Un o'r pethau a etifeddwyd gan gyn-Ysgrifennydd Gwladol

of State for Wales is that the private sector was the only sector allowed to help with infrastructure, particularly in terms of providing business units or other units. What I aim to do in my economic renewal programme is to see whether, as a result of market failure in certain areas of Wales, the public sector needs to intervene to ensure that those facilities are available. I give you the assurance that that will be part of the work that I am undertaking.

Cymru o'r Blaid Geidwadol yw mai'r sector preifat oedd yr unig sector a oedd yn cael helpu gydag isadeiledd, yn enwedig o ran darparu unedau busnes neu unedau eraill. Yr hyn y bwriadaf ei wneud yn fy rhaglen adnewyddu economaidd yw gweld a oes angen i'r sector cyhoeddus ymyrryd, oherwydd methiant y farchnad mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau hynny ar gael. Gallaf eich sicrhau y bydd hynny'n rhan o'r gwaith yr wyf yn ei wneud.

### New Businesses

**Q10 Lorraine Barrett:** Will the Minister provide an update on the help available for new businesses in the Cardiff area? OAQ(3)1208(ECT)

**The Deputy First Minister:** Support and help is available under Flexible Support for Business for entrepreneurs and new and existing businesses. Inquiries to Flexible Support for Business since the beginning of the year have exceeded targets and over 5,000 individuals have registered for start-up support. I also recently launched the Single Investment Fund—Local in east Wales.

**Lorraine Barrett:** Thank you for that response, Deputy First Minister. I am particularly interested in graduates leaving our universities—I am thinking of the city of Cardiff and Cardiff University. Is there any collaborative work that you can do with the universities to help support graduates who may be looking to set up their own businesses in a co-operative way, because that would help them to get into the job market and also help to create jobs for other people?

**The Deputy First Minister:** That is an important question, and the issue has been highlighted in other questions asked in the Chamber this afternoon. The enterprise education team promotes entrepreneurship within all higher education and further education institutions in Wales, therefore it is possible for Cardiff University to participate in that scheme. We also give specific support

### Busnesau Newydd

**C10 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sydd ar gael i fusnesau newydd yn ardal Caerdydd? OAQ(3)1208(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae cefnogaeth a chymorth ar gael dan y rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnes ar gyfer entrepreneuriaid a busnesau newydd a'r rheini sy'n bodoli eisoes. Mae nifer yr ymholiadau i Gymorth Hyblyg i Fusnesau ers dechrau'r flwyddyn yn uwch na'r targedau, ac y mae dros 5,000 o bobl wedi cofrestru ar gyfer cymorth cychwyn busnes. Lansiais hefyd y ddiweddar y Gronfa Fuddsoddi Sengl—Lleol yn nwyrain Cymru.

**Lorraine Barrett:** Diolch ichi am eich ymateb, Ddirprwy Brif Weinidog. Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn graddedigion sy'n gadael ein prifysgolion—sôn yr wyf am ddinas Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd. A oes unrhyw waith y gallwch chi ei wneud ar y cyd â'r prifysgolion i helpu cefnogi graddedigion a all fod yn ystyried sefydlu eu busnes eu hunain mewn modd cydweithredol, oherwydd byddai hynny'n eu helpu i ddod i mewn i'r farchnad swyddi a hefyd yn helpu creu swyddi ar gyfer pobl eraill?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae hynny'n gwestiwn pwysig, a thynnwyd sylw at y mater mewn cwestiynau eraill a ofynnwyd yn y Siambr y prynhawn yma. Mae'r tîm addysg a menter yn hyrwyddo entrepreneuriaeth ym mhob sefydliad addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru, ac felly gall Prifysgol Caerdydd gymryd rhan yn y cynllun hwnnw. Yr ydym hefyd yn rhoi cymorth penodol i

to graduates through Flexible Support for Business, which includes free business taster sessions, free business skills workshops, one-to-one coaching and mentoring and also access to graduate start-up bursaries. If there are graduates who you feel could benefit from any of these schemes, I would be happy to hear from them and I can put them in touch with the appropriate assistance.

**Chris Franks:** Minister, do you agree that Plaid Cymru in Government has helped businesses and workers in Cardiff and across Wales with the ProAct and ReAct schemes? Do you also agree that David Cameron's opposition to these schemes shows the gulf between the Tories' rhetoric about their compassion and their actions?

**The Deputy First Minister:** What we have tried to do during this recession is to protect our skill base, because in past recessions, particularly when the Conservatives were in power, people were thrown onto the scrapheap. When the upturn came, businesses did not have the necessary skills to capture new markets. By protecting our skill base, we have prevented that from happening this time, so many more companies will be better positioned to take advantage of the upturn, when it comes.

raddedigion trwy Gymorth Hyblyg i Fusnes, sy'n cynnwys sesiynau blasu busnes yn rhad ac am ddim, gweithdai sgiliau busnes yn rhad ac am ddim, hyfforddiant a mentora un i un, a mynediad i fwsariaethau cychwyn busnes ar gyfer graddedigion. Os gwyddoch am unrhyw raddedigion y teimlwch y gallent elwa o unrhyw rai o'r cynlluniau hyn, byddwn yn falch clywed ganddynt, a gallaf eu rhoi mewn cysylltiad â'r cymorth priodol.

**Chris Franks:** Weinidog, a ydych yn cytuno bod cael Plaid Cymru mewn Llywodraeth wedi helpu busnesau a gweithwyr yng Nghaerdydd ac ar draws Cymru ggyda'r cynlluniau ProAct a ReAct? A ydych yn cytuno hefyd fod gwrthwynebiad David Cameron i'r cynlluniau hyn yn dangos y bwch rhwng rhethreg y Torïaid ynglŷn â chydymdeimlo a'u camau gweithredu?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr hyn yr ydym wedi ceisio'i wneud yn ystod y dirwasgiad hwn yw diogelu ein sylfaen sgiliau, oherwydd mewn dirwasgiad yn y gorffennol, yn enwedig pan oedd y Ceidwadwyr mewn grym, cafodd pobl eu taflu ar y domen. Pan ddaeth y dirwasgiad i ben, nid oedd gan fusnesau y sgiliau angenrheidiol i ddal marchnadoedd newydd. Yr ydym wedi atal hynny rhag digwydd y tro hwn trwy ddiogelu ein sylfaen sgiliau, felly bydd llawer mwy o gwmnïau mewn gwell sefyllfa i fanteisio ar y cyfnod gwell, pan ddaw.

### **Cynnig i Newid Enw'r Pwyllgor Archwilio Motion to Change the Name of the Audit Committee**

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigiau fod

*y Cynulliad yn penderfynu, o dan adran 30(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y bydd pwyllgor y Cynulliad a elwir yn Bwyllgor Archwilio yn cael ei adnabod fel y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o hyn ymlaen. (NDM4313)*

**Jonathan Morgan:** On behalf of the Audit Committee, I am pleased to welcome the proposed change of the name of the committee. The Audit Committee has long been recognised as one of the Assembly's key scrutiny committees. It examines the way

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I move that

*the Assembly determines, under section 30(1) of the Government of Wales Act 2006, that the Assembly committee known as the Audit Committee be known from here on as the Public Accounts Committee. (NDM4313)*

**Jonathan Morgan:** Ar ran y Pwyllgor Archwilio, mae'n bleser gennyf groesawu'r cynnig arfaethedig i newid enw'r pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi'i gydnabod ers tro yn un o brif bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Mae'n archwilio'r modd y mae'r

that the Government has carried out its policies on the basis of reports prepared by the Auditor General for Wales, and it reports directly to the Assembly on whether Government and public bodies are capable of delivering the public policy agenda. The committee invites evidence from witnesses, particularly the Permanent Secretary and accounting officers of the Welsh Assembly Government, and makes recommendations on how efficiency and effectiveness can be improved. As I said in the recent debate on the Audit Committee's annual report for September 2007 to the end of 2008, the committee took evidence from 47 witnesses and published 14 reports. It made a total of 170 recommendations that were either wholly or partially accepted by the Government. That is a substantial record of achievement.

3.10 p.m.

The change of the committee's name to that of 'public accounts committee' reflects the fact that the committee is clearly far more than just an 'audit' committee. We welcome the proposal from the independent review panel that it would be far more appropriate to describe the committee as 'the public accounts committee'. It far better reflects the work of the committee and its role in protecting the public purse in Wales. It also reflects and is in keeping with the style and manner of working in other parliamentary bodies. I am delighted to support the motion this afternoon.

**Y Llywydd:** Nad oes neb arall am siarad ar y cynnig. Y cwestiwn yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, yw wyf yn datgan bod y cynnig wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Cynnig i Ddirymu Gorchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009 Motion to Annul the Tuberculosis Eradication (Wales) Order 2009**

**Lorraine Barrett:** I move the following motion in my name and the name of Peter Black. I move that

Llywodraeth wedi gweithredu ei pholisïau ar sail adroddiadau a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac y mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cynulliad ar y cwestiwn a yw'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus yn gallu cyflawni'r agenda polisi cyhoeddus. Mae'r pwyllgor yn gwahodd tystiolaeth gan dystion, yn arbennig yr Ysgrifennydd Parhaol a swyddogion cyfrifyddu Llywodraeth y Cynulliad, ac y mae'n gwneud argymhellion sut y gellir gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Fel y dywedais yn y ddadl yn ddiweddar ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio am y cyfnod Medi 2007 i ddiwedd 2008, cafodd y pwyllgor dystiolaeth gan 47 o dystion a chyhoeddodd 14 o adroddiadau. Gwnaeth gyfanswm o 170 o argymhellion a gafodd eu derbyn yn llwyr neu'n rhannol gan y Llywodraeth. Mae hynny'n record sylweddol o gyflawni.

Mae newid enw'r pwyllgor i 'bwyllgor cyfrifon cyhoeddus' yn adlewyrchu'r ffaith fod y pwyllgor yn amlwg lawer yn fwy na phwyllgor 'archwilio' yn unig. Yr ydym yn croesawu'r cynnig gan y panel adolygu annibynnol mai llawer mwy priodol fyddai disgrifio'r pwyllgor fel 'y pwyllgor cyfrifon cyhoeddus'. Mae'n adlewyrchu gwaith y pwyllgor a'i swyddogaeth o ran diogelu pwrs y wlad yng Nghymru lawer yn well. Mae hefyd yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd â'r arddull a'r dull gweithio mewn cyrff seneddol eraill. Mae'n bleser gennyf gefnogi'r cynnig hwn y prynhawn yma.

**The Presiding Officer:** No one else wishes to speak to the motion. The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, I declare that the motion is agreed.

*the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order No. 24.2:*

*agrees that the Tuberculosis Eradication (Wales) Order 2009, laid before the Assembly on 30 September 2009, be annulled. (NDM4301)*

I will start by saying that the Minister's decision to lay the Tuberculosis (Wales) Order 2009 was poorly judged and likely to worsen the spread of bovine TB in Wales. I did not put my name to this motion lightly and I spent quite a few restless nights coming to this decision. I have always been a loyal member of my party and of the Assembly Government, but I could not stand by and let this Order go through without a last-minute attempt to stop it. I call on the Minister to drop the Order and to replace it with a new Order to allow for a vaccination pilot scheme only, as well as the cattle-based measures that she has in place. I appreciate that the Order allows for vaccination, but having two schemes in place would mean that it would be impossible to know what had worked. Even the Minister's chief veterinarian has said:

'If we are successful we won't be able to say for sure whether is the cull or our other actions that did it; it will be a combination of these measures'.

I do not believe that killing badgers as a means of tackling this problem is scientifically or morally justified. I use the word 'killing' because a 'cull' is defined as

'the removal of selected individuals...usually due to undesirable characteristics.'

The Minister's Order will trap badgers and kill all that are caught, irrespective of their TB status. I could just reiterate scientifically based arguments against the Minister's Order, but they have already been well rehearsed in the Chamber. Today, I want to concentrate on what others have said, some of them farmers in Pembrokeshire. I know that many of you will have received these letters, because there has been a strong campaign against this. It is fair to say that we

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.2:*

*yn cytuno y dylid dirymu Gorchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009, a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad ar 30 Medi 2009. (NDM4301)*

Dechreuaf drwy ddweud bod penderfyniad y Gweinidog i gyflwyno Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2009 yn annoeth ac yn debygol o waethygu ymlediad TB mewn gwartheg yng Nghymru. Nid ar chwarae bach y rhois fy enw i'r cynnig hwn, a chollais lawer noson o gwsg cyn gwneud y penderfyniad hwn. Bûm yn aelod ffyddlon o'm plaid a Llywodraeth y Cynulliad erioed, ond ni allwn adael i'r Gorchymyn hwn gael ei basio heb ymgais munud olaf i'w atal. Galwaf ar y Gweinidog i ollwng y Gorchymyn a chyflwyno Gorchymyn newydd yn ei le er mwyn caniatáu inni dreialu cynllun brechu yn unig, yn ogystal â'r mesurau'n ymwneud â gwartheg a gyflwynwyd ganddi. Sylweddolaf fod y Gorchymyn yn caniatáu brechu, ond byddai cael dau gynllun ar waith yn golygu y byddai'n amhosibl gwybod beth oedd wedi gweithio. Mae prif filfeddyg y Gweinidog hyd yn oed wedi dweud:

Os byddwn yn llwyddiannus, ni fyddwn yn gallu dweud yn bendant ai'r rhaglen ddifa ynteu ein camau gweithredu eraill a wnaeth hynny; bydd yn gyfuniad o'r mesurau hyn.

Ni chredaf y gellir cyfiawnhau lladd moch daear fel dull i fynd i'r afael â'r broblem hon yn wyddonol nac yn foesol. Defnyddiaf y gair 'lladd' oherwydd y diffiniad o 'ddifa' yw

cael gwared ag unigolion dethol...oherwydd nodweddion annymunol fel rheol.

Bydd Gorchymyn y Gweinidog yn golygu dal moch daear a lladd pob un a gaiff ei ddal, waeth beth fo'i statws TB. Gallwn ailadrodd dadleuon gwyddonol yn erbyn Gorchymyn y Gweinidog, ond maent eisoes wedi'u cyflwyno droeon yn y Siambr. Heddiw, yr wyf am ganolbwyntio ar yr hyn y mae pobl eraill wedi'i ddweud, rai ohonynt yn ffermwyr yn Sir Benfro. Gwn y bydd llawer ohonoch wedi cael y llythyrau hyn, oherwydd bu ymgyrch gref yn erbyn hyn. Mae'n deg

have also received many representations from farmers who want the cull to go ahead. Eunice and Carron Meredith say this:

‘We run an organic extensive farm and...we have never had a case of bTB. We own 55 acres of woodland which is a badger city with huge numbers of healthy badgers causing no harm to anyone and they also live and move about amongst the cattle.

‘We have always believed TB to be caused by intensive farming and the way to control TB is to deal with the welfare, health and movement of cattle. Coming on to our farm to cull our healthy badger population would be criminal. Why mess with a healthy woodland community which manages itself?

‘If the Welsh Assembly Government insist on being so irresponsible as to cull badgers then please make sure they do not have the powers to come on to farms where there haven’t been any cases of TB, like ours.’

That is a question that I want to put to the Minister. The Order gives the power to prosecute anyone who tries to stop badgers from being killed. Would that apply to the likes of Eunice and Carron if you send your marksmen onto their land, where there are only healthy badgers?

A young person called Willow—I think that you have all had this letter—has given this a lot of thought; I do not know how old she is. She tells us that she rides a lot on farms and one in particular has had outbreaks of bovine TB. She says:

‘The land is desert and has no wildlife anywhere and the cows are kept in dire conditions.’

She feels strongly that it is those intensive farming conditions that cause bovine TB. I therefore make a simple plea—[*Interruption.*]

dweud ein bod hefyd wedi cael nifer o sylwadau gan ffermwyr sy’n awyddus i weld y rhaglen ddifa’n mynd yn ei blaen. Dyma sydd gan Eunice a Carron Meredith i’w ddweud:

Yr ydym yn rhedeg fferm organig fawr ac nid ydym erioed wedi cael achos o TB. Yr ydym yn berchen ar 55 erw o goetir sy’n llawn moch daear gyda nifer fawr iawn o foch daear iach nad ydynt yn achosi niwed i neb, ac y maent hefyd yn byw ac yn symud ymhlith y gwartheg.

Yr ydym wedi credu erioed fod TB yn cael ei achosi gan arferion ffermio dwys ac mai’r ffordd i reoli TB yw ymdrin â lles ac iechyd gwartheg a’r gwaith o’u symud. Byddai dod i’n fferm ni i ddifa ein poblogaeth o foch daear iach yn warthus. Pam ymyrryd â chymuned coetir iach sy’n ei rheoli ei hun?

Os yw Llywodraeth y Cynulliad yn mynnu bod mor anghyfrifol â difa moch daear, a wnewch chi sicrhau nad oes ganddynt y pwerau i ddod i ffermydd, fel ein fferm ni, lle na fu dim achosion o TB.

Dyna gwestiwn yr hoffwn ei gyflwyno i’r Gweinidog. Mae’r Gorchymyn yn rhoi’r pŵer i erlyn unrhyw un sy’n ceisio atal moch daear rhag cael eu lladd. A fyddai hynny’n berthnasol i bobl fel Eunice a Carron os byddwch yn anfon eich saethwyr ar eu tir, lle mae moch daear iach yn unig?

Mae merch ifanc o’r enw Willow—credaf eich bod i gyd wedi cael y llythyr hwn—wedi ystyried y mater hwn yn ofalus. Wn i ddim faint yw ei hoed. Mae’n dweud ei bod yn marchogaeth llawer ar ffermydd a bod achosion o TB wedi’u cael ar un ohonynt yn benodol. Meddai:

Mae’r tir yn ddifffraith heb ddim bywyd gwyllt yn unman a’r gwartheg yn cael eu cadw mewn amodau ofnadwy.

Mae’n credu’n gryf mai’r amodau ffermio dwys hynny sy’n achosi TB mewn gwartheg. Felly, yr wyf yn gwneud ple syml—[*Torri ar draws*].

**Alun Davies:** I do not wish to stop you in mid-argument, but you were part of the Rural Development Sub-Committee inquiry into bovine TB, and we took evidence over many months from many different witnesses, and not one provided any evidence at all that farming practices lead to the spread of bovine TB—not one. That was part of a report that you accepted at the time.

**Lorraine Barrett:** You know that I voted in a different way to the rest of the committee regarding the proposals at the end of that report. There is evidence that intensive farming and bad husbandry can lead to disease of all sorts. That is a given, if you see the conditions that some of these cattle live in.

**Brynle Williams** *rose—*

**Lorraine Barrett:** No, I will continue, Brynle.

This young person takes this issue seriously, and she asks that more support be given to farmers so that they can ensure that they have enough clean bedding, and can create more space. She may be young, but she has a right to express her views. [*Interruption.*]

Go on then, Brynle.

**Brynle Williams:** You say that this is due to bad conditions, and the way in which animals are kept, but I have to inform you, Mrs Barrett, that we farmers have to comply with legislation set down by this very Chamber on farming practices and inspection of livestock—that sets out requirements about how they are kept, right down to the square footage per animal that should be provided. Please do not drag out that old chestnut, that it is due to bad farming.

**Lorraine Barrett:** Mr Williams, I am sure that there are many good farmers in Wales who look after their animals, but I could take you to a few places where that is not the case.

**Alun Davies:** Nid wyf yn dymuno eich atal yng nghanol eich dadl, ond yr oeddech yn rhan o ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i TB mewn gwartheg, a chafwyd tystiolaeth dros fisoedd lawer gan lawer o wahanol dystion, ac ni ddarparodd yr un ohonynt ddim tystiolaeth o gwbl fod arferion ffermio'n arwain at ymlediad TB mewn gwartheg—dim un ohonynt. Yr oedd hynny'n rhan o adroddiad a dderbyniwyd gennych ar y pryd.

**Lorraine Barrett:** Gwyddoch fy mod wedi pleidleisio mewn ffordd wahanol i weddill y pwyllgor ar y cynigion ar ddiwedd yr adroddiad hwnnw. Mae tystiolaeth y gall ffermio dwys a hwsmonaeth wael arwain at bob math o glefydau. Mae hynny'n ffaith, pe byddech yn gweld yr amodau lle mae rhai o'r gwartheg hyn yn byw.

**Brynle Williams** *a gododd—*

**Lorraine Barrett:** Na, yr wyf am barhau, Brynle.

Mae'r ferch ifanc hon yn cymryd y mater hwn o ddifrif, ac y mae'n gofyn i ffermwyr gael mwy o gymorth i allu sicrhau bod ganddynt ddigon o wellt glân, a'u bod yn gallu creu mwy o le. Efallai ei bod yn ifanc, ond mae ganddi'r hawl i fynegi ei barn. [*Torri ar draws*]

Ewch yn eich blaen, Brynle.

**Brynle Williams:** Dywedwch mai amodau gwael a'r ffordd y caiff anifeiliaid eu cadw sydd i gyfrif am hyn, ond rhaid imi ddweud wrthyf, Mrs Barrett, ei bod yn rhaid i ni ffermwyr gydymffurfio â deddfwriaeth a gyflwynwyd gan y Siambr hon ar arferion ffermio ac archwilio da byw—sy'n gosod allan ofynion ynglŷn â'r ffordd y cânt eu cadw, gan gynnwys faint o droedfeddi sgwâr y dylid eu darparu ar gyfer pob anifail, hyd yn oed. Peidiwch ag ailadrodd yr hen stori honno mai arferion ffermio gwael sy'n gyfrifol am hyn.

**Lorraine Barrett:** Mr Williams, yr wyf yn siŵr fod llawer o ffermwyr da yng Nghymru sy'n gofalu am eu hanifeiliaid, ond gallwn fynd â chi i rai manau lle nad yw hynny'n wir.

The Woodland Trust, a much-respected organisation in Wales, is extremely uneasy about the proposed cull. It believes that the best scientific evidence does not point to the destruction of badgers as an effective method of TB eradication. It does not think that it is possible to measure the results if a cull is undertaken alongside cattle-based measures, and therefore it believes that a stand-alone cattle-based trial is better. Pembrokeshire Against The Cull, an organisation made up of landowners, farmers and residents, produces some excellent material. It asks when farmers will have the courage to accept that they can contribute to spreading the disease through careless cattle-trading activities; and it asks that question because the director of the Welsh Government's animal health division said on 23 June that

'there is only one way that the disease gets into a clean area, and that is by moving infected animals'.

You only have to look at the work done at Woodchester Park in Gloucestershire, which is part of the badger research programme of the Department for Environment, Food and Rural Affairs. For the past 30 years this work has shown that badgers live in social groups, and usually stay in the group all their lives, rather than moving from sett to sett. Radio tracking has shown this—they rarely venture outside their boundaries unless they are disturbed by changes in neighbouring areas, or other badgers nearby are being attacked. Evidence at Woodchester Park shows that badgers caught in farm buildings are more likely to have bovine TB than those caught near the sett. There is a lot more information available from Woodchester Park and I urge Members to read it.

The RSPCA has voiced concern about licensed culling, about operators not being sufficiently skilled and trained. Can the Minister reassure us that, if our motion is

Mae Coed Cadw, sefydliad uchel ei barch yng Nghymru, yn bryderus iawn ynglŷn â'r rhaglen ddifa arfaethedig. Mae'n credu nad yw'r dystiolaeth wyddonol orau yn awgrymu bod lladd moch daear yn ddull effeithiol o ddileu TB. Nid yw'n credu bod modd mesur y canlyniadau os cynhelir rhaglen ddifa ochr yn ochr â mesurau'n ymwneud â gwartheg, ac felly mae'n credu mai gwell fyddai cynnal treial unigol sy'n canolbwyntio ar fesurau'n ymwneud â gwartheg yn unig. Mae'r mudiad Atal y Cwlio Sir Benfro, sy'n cynnwys tîrfeddianwyr, ffermwyr a thrigolion, yn cynhyrchu enghreifftiau o ddeunyddiau gwych. Mae'n gofyn pryd y bydd ffermwyr yn ddigon dewr i dderbyn eu bod yn gallu cyfrannu at ledaenu'r clefyd drwy weithgareddau diofal wrth fasnachu gwartheg; ac y mae'n gofyn y cwestiwn hwnnw oherwydd bod cyfarwyddwr is-adran iechyd anifeiliaid Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud ar 23 Mehefin mai

un ffordd yn unig sydd i'r clefyd gyrraedd ardal lân, a hynny yw drwy symud anifeiliaid heintus.

Nid oes ond rhaid ichi edrych ar y gwaith a wneir ym Mharc Woodchester yn Swydd Gaerloyw, sy'n rhan o raglen ymchwil i foch daear gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Dros y 30 mlynedd diwethaf mae'r gwaith hwn wedi dangos bod moch daear yn byw mewn grwpiau cymdeithasol, ac fel rheol yn aros yn yr un grŵp drwy eu hoes, yn hytrach na symud o wâl i wâl. Mae system o lwybro radio wedi dangos hynny—anaml iawn y byddant yn mentro y tu hwnt i'w ffiniau oni bai bod newidiadau mewn ardaloedd cyfagos yn aflonyddu arnynt, neu bod rhywbeth yn ymosod ar foch daear eraill gerllaw. Mae dystiolaeth ym Mharc Woodchester yn dangos bod moch daear sy'n cael eu dal mewn adeiladau fferm yn fwy tebygol o fod wedi'u heintio â TB gwartheg na'r rheini sy'n cael eu dal ger y wâl. Mae llawer mwy o wybodaeth ar gael gan Barc Woodchester, ac anogaf Aelodau i'w darllen.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) wedi mynegi pryder ynglŷn â difa trwyddedig gan weithredwyr heb y sgiliau na'r hyfforddiant



defeated today, the people recruited to undertake the proposed cull will have the right experience and undertake the cull in the right way? The National Trust believes that any significant decrease in TB in cattle can only be achieved through such large-scale and draconian measures to reduce badger numbers as to make the option impractical, unaffordable, and publicly unacceptable.

Professor John Vaughan, chair of the independent scientific group, advised us that it is totally inappropriate to expect farmers to undertake this, but I presume that most marksmen in this country would come from the farming industry. A cull could only be carried out under expert fieldsmen, who would require immense organisational and logistical support. Can the Minister tell us which expert fieldsmen she will be employing to shoot badgers, and how long the whole exercise will last?

3.20 p.m.

In conclusion, I want to say that this is not a cull, but a kill, and Pembrokeshire will be known as the killing fields. It is not a cull, it is a slaughter.

**Brynle Williams:** I am very sorry, Lorraine, that you take this attitude that farming is nothing but a dirty, fierce practice.

**Joyce Watson:** No-one said that.

**Brynle Williams:** That is what Lorraine is implying.

It is understandable that the Assembly Government's TB eradication programme still generates strong feeling, which is obvious here today, both for and against, among some Members here and the public. That was the case when the eradication programme was debated and voted upon last year, and therefore it is not surprising that the motion has been tabled. However, the fact remains that Wales is in urgent need of the eradication of TB—not the eradication of wildlife. Too many people are very emotive

priodol. A all y Gweinidog ein sicrhau, os caiff ein cynnig ei wrthod heddiw, y bydd gan y rheini sy'n cael eu recriwtio i ymgymryd â'r gwaith difa arfaethedig y profiad iawn ac y byddant yn gwneud y gwaith yn y ffordd gywir? Cred yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol mai'r unig fodd o sicrhau gostyngiad sylweddol mewn TB mewn gwartheg yw drwy ddefnyddio mesurau mor helaeth a didrugaredd i leihau niferoedd moch daear nes y bydd y dewis hwnnw'n anymarferol, yn rhy ddrud ac yn annerbyniol i'r cyhoedd.

Mae'r Athro John Vaughan, cadeirydd y grŵp gwyddonol annibynnol, wedi ein cynghori ei bod yn gwbl amhriodol disgwyl i ffermwyr wneud y gwaith hwn, ond yr wyf yn tybio y byddai'r rhan fwyaf o saethwyr yn y wlad hon yn dod o'r diwydiant ffermio. Dim ond pobl saethwyr arbenigol a allai wneud y gwaith difa, a byddai arnynt angen llawer iawn o gymorth o ran trefniadaeth a logisteg. A all y Gweinidog ddweud wrthym pa saethwyr arbenigol y bydd yn eu cyflogi i saethu moch daear, ac am ba hyd y bydd yr ymarfer cyfan yn para?

I gloi, hoffwn ddweud nad difa yw hyn, ond lladd, a bydd Sir Benfro yn cael ei hadnabod fel maes y gyflafan. Nid difa yw hyn, ond lladdfa.

**Brynle Williams:** Mae'n ddrwg gennyf, Lorraine, eich bod yn teimlo nad yw ffermio yn ddim ond arfer budr a garw.

**Joyce Watson:** Ni ddywedodd neb hynny.

**Brynle Williams:** Dyna y mae Lorraine yn ei ensynio.

Mae'n ddealladwy fod rhaglen Llywodraeth y Cynulliad i ddileu TB yn dal i ennyn teimladau cryf, sy'n amlwg yma heddiw, o'i phlaidd ac yn ei herbyn, ymhlith rhai Aelodau yma a'r cyhoedd. Yr oedd hynny'n wir pan drafodwyd y rhaglen ddileu a phan bleidleisiwyd arni y llynedd, ac felly nid yw'n syndod fod y cynnig wedi'i gyflwyno. Fodd bynnag, y ffaith amdani yw bod angen dybryd am ddileu TB yng Nghymru—nid dileu bywyd gwyllt. Mae gormod o bobl yn emosïynol iawn ynglŷn â hyn heb sylweddoli

about this and do not realise that TB crosses from animals to people. I have three grandchildren and I do not want the risk of TB crossing to them; it is already happening down in the west country, and the evidence is there to support that.

**Joyce Watson:** While you say all of those things, and while I agree that emotions are high, how will you be able to look your grandchildren in the face and say that this cull will definitely improve the situation? The evidence from the chief veterinary officer states that you will not know the answer to that question.

**Brynle Williams:** That is like the old adage, 'how long is a piece of string?'. We will not know the answer until we get right through to the end of this process, which will take many years. I remember that when TB was eradicated in Wales there was a dinner in this city to celebrate that. I will not argue about the niceties of whether the cow gave it to the badger or whether the badger gave it to the cow. We have tried cattle control and we have tried the removal of cattle, but the one factor that has not been addressed is the wildlife issue. We must address that issue, and do so holistically. I would love to see a vaccination programme that would cure it immediately. I am sorry, but we are still playing around with experiments after very many years—[*Interruption.*—]—it is more than two years, I am afraid.

The compensation bill was £24 million last year, and I am more than certain that the Minister for Health and Social Services, Edwina Hart, would love to have a large proportion of that to put into the health service. If the Assembly Government's policies were to go back to cattle-only measures, which have failed completely to contain TB, let alone to eradicate the disease in the past decade, then, by the Minister's calculation, the bill will be nearer to £80 million. Due to these economic conditions and the pressure of public finances, Wales needs to eradicate this debilitating disease, because I emphasise again that it can cross to

bod modd i TB gael ei drosglwyddo o anifeiliaid i bobl. Mae gennyf dri o wyrion ac wyresau, ac nid wyf am wynebu'r risg y gallai TB gael ei drosglwyddo iddynt hwy; mae eisoes yn digwydd yng ngorllewin Lloegr, ac y mae tystiolaeth i gefnogi hynny.

**Joyce Watson:** Er eich bod yn dweud yr holl bethau hynny, ac er fy mod yn cytuno bod hwn yn fater sy'n cynhyrfu'r emosiynau, sut y byddwch yn gallu edrych i fyw llygaid eich wyrion a'ch wyresau a dweud gyda sicrwydd y bydd y difa hwn yn sicr yn gwella'r sefyllfa? Mae'r dystiolaeth gan y prif swyddog milfeddygol yn dweud na fyddwch yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwnnw.

**Brynle Williams:** Pwy fydd yn gallu dweud? Ni fyddwn yn gwybod yr ateb nes bydd y broses hon wedi'i chwblhau, a bydd hynny'n cymryd blynyddoedd lawer. Cofiaf pan gafodd TB ei ddileu yng Nghymru fod cinio yn y ddinas hon i ddathlu hynny. Nid wyf am ddadlau am y manylion ai'r fuwch a roddodd y clefyd i'r mochyn daear ynteu'r mochyn daear i'r fuwch. Yr ydym wedi rhoi cynnig ar reoli gwartheg ac wedi rhoi cynnig ar ladd gwartheg, ond yr un ffactor sydd heb gael sylw yw bywyd gwylt. Rhaid inni fynd i'r afael â'r mater hwnnw, a gwneud hynny mewn modd cyfannol. Byddwn wrth fy modd yn gweld rhaglen frechu a fyddai'n datrys y broblem yn llwyr. Rhaid imi ddweud mai dal i gyboli ag arbrofion yr ydym ni ar ôl blynyddoedd lawer—[*Torri ar draws*]—mae'n fwy na dwy flynedd, mae arnaf ofn.

Y llynedd, talwyd £24 miliwn mewn iawndal, ac y mae'n siŵr gennyf y byddai Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth ei bodd yn cael cyfran fawr o hwnnw i'w rhoi i'r gwasanaeth iechyd. Pe byddai polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn mynd yn ôl at fesurau'n ymwneud â gwartheg yn unig, sydd wedi methu'n lân â rheoli TB, heb sôn am ei ddileu yn ystod y degawd diwethaf, yna yn ôl cyfrifiad y Gweinidog byddai'r bil iawndal yn nes at £80 miliwn. O ganlyniad i'r amodau economaidd presennol a'r pwysau ar arian cyhoeddus, mae angen i Gymru ddileu'r clefyd gwanychol hwn, oherwydd pwysleisiaf eto y gall gael ei drosglwyddo i bobl.

**Irene James:** Will you take an intervention?

**Irene James:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Brynle Williams:** No, I am sorry, I will not take an intervention—I am running out of time.

**Brynle:** Na wnaf, mae'n ddrwg gennyf, ni dderbyniaf ymyriad—mae fy amser yn dod i ben.

This is costing us a fortune—a fortune that could be used for front-line services. The case for a genuine, holistic TB eradication policy that addresses the infection in livestock and wildlife is robust, as it was when members last voted on it. I know that you voted against it, Lorraine, but you were there and you saw all the evidence that was given. The Welsh Conservatives remain committed to a healthy wildlife population, living alongside healthy cattle and, more so, alongside healthy people. I urge Members to join us in supporting the TB eradication programme and oppose the motion.

Mae hyn yn costio ffortiwn inni—ffortiwn y gellid ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau rheng flaen. Mae'r ddadl o blaid cael polisi dilys a chyfannol i ddileu TB, sy'n mynd i'r afael â'r haint ymhlith da byw a bywyd gwyllt, yn un gref, fel y gwelwyd y tro diwethaf pan bleidleisiodd aelodau ar y pwnc. Gwn eich bod wedi pleidleisio yn ei erbyn, Lorraine, ond yr oeddech yno a gwelsoch yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd. Mae Ceidwadwyr Cymru'n dal wedi ymrwymo i boblogaeth bywyd gwyllt iach sy'n byw ochr yn ochr â gwartheg iach, ac yn bwysicach ochr yn ochr â phobl iach. Anogaf yr Aelodau i ymuno â ni i gefnogi'r rhaglen i ddileu TB a gwrthwynebu'r cynnig.

**Joyce Watson:** I am sure that we all recognise the devastating impact that bovine TB has on our farming industry, and we are agreed about the need to combat that disease. However, I cannot support the Minister's plan for a cull of badgers in north Pembrokeshire, and I will set out the reasons in my argument. I do, however, commend the Government's clear commitment to eradicating the disease in Wales. The Minister has said consistently that a cull would go ahead only once all preparatory work was complete. I think that we need to allow more time to implement and assess the work already under way. New control measures are still being introduced, and the health check is ongoing. How can we hope to determine what does or does not work if we test a cull at the same time as introducing other measures? What will this mean for other parts of Wales that could be targeted for wildlife culls in future? Therefore, I am concerned that we are setting an unsustainable precedent in Pembrokeshire. It would be better to introduce a package of control measures, alongside a vaccination programme. Injectable vaccines for badgers will be licensed for sale next year, and oral bait vaccine, which would be much cheaper to deploy than five or six years of intensive culling, will be available from 2014. Why

**Joyce Watson:** Yr wyf yn sicr ein bod bob un yn cydnabod yr effaith ddinistriol y mae TB gwartheg yn ei chael ar ein diwydiant ffermio, ac yr ydym yn gytûn fod angen trechu'r clefyd hwn. Fodd bynnag, ni allaf gefnogi cynllun y Gweinidog ar gyfer difa moch daear yng ngogledd Sir Benfro, a byddaf yn gosod allan y rhesymau yn fy nadl. Fodd bynnag, yr wyf yn cymeradwyo ymrwymiad clir y Llywodraeth i ddileu'r clefyd yng Nghymru. Mae'r Gweinidog wedi dweud yn gyson na fyddai rhaglen ddifa'n digwydd nes i'r holl waith paratoadol gael ei gwblhau. Credaf fod angen inni ganiatáu mwy o amser i wneud y gwaith sydd eisoes wedi dechrau, ac i'w asesu. Mae mesurau rheoli newydd yn dal i gael eu cyflwyno, ac y mae'r archwiliad iechyd yn parhau. Sut gallwn benderfynu beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio os profwn broses ddifa a chyflwyno mesurau eraill ar yr un pryd? Beth fydd hynny'n ei olygu i rannau eraill o Gymru y gellid eu targedu ar gyfer rhaglenni difa bywyd gwyllt yn y dyfodol? Felly, yr wyf yn pryderu ein bod yn gosod cynsail anghynladwy yn Sir Benfro. Byddai'n well cyflwyno pecyn o fesurau rheoli, ochr yn ochr â rhaglen frechu. Bydd brechlynnau y gellir eu chwistrellu ar gyfer moch daear yn cael eu trwyddedu i'w gwerthu flwyddyn nesaf, a bydd brechlyn i'w roi mewn abwyd,

can we not wait until then and put those control measures in place?

I also have questions about the feasibility of the plan. The independent study group found that, unless a cull takes place within fixed boundaries, it can exacerbate the problem. I question whether the Preseli hills and the shallow rivers of north Pembrokeshire are the sorts of impasses that the independent study group had in mind. Compliance is another potential sticking point. As Lord Krebs pointed out, the Government will need to kill around 90 per cent of the badger population over a large area for at least five to six years if it hopes to achieve even a modest reduction in cattle TB. Given that there is already strong opposition from some farmers and landowners and organisations such as the Wildlife Trust, which, between them, manage some 4,000 ha in the pilot area, I have serious doubts about whether the Government can manage this level of co-operation for the best part of the next decade.

People on both sides of the debate have traded scientific arguments, and I do not want to revisit the well rehearsed exchange. Both sides have certainly been selective, but it is very patronising for those who support the cull to suggest that the general public, the majority of which opposes it, is ignorant of the real science. In the past few weeks, I have received more than 100 letters from people who are deeply opposed to the cull. To denigrate their opinions and say that they do not understand is quite wrong.

**Nerys Evans:** Will you take an intervention?

**Joyce Watson:** No. People have enough common sense to appreciate that, when Wales opts to cull badgers and England opts to vaccinate, based on the same body of evidence, the only thing that is misleading is to say that the science supports a cull. I think that it was Mike German, in yesterday's debate on single-use carrier bags, who drew the comparison with the smoking ban and

a fydd yn rhatach i'w ddefnyddio na phum neu chwe mlynedd o ddifa dwys, ar gael o 2014. Pam na allwn aros tan hynny a chyflwyno'r mesurau rheoli hynny?

Y mae gennyf gwestiynau hefyd ynglŷn ag ymarferoldeb y cynllun. Darganfu'r grŵp astudio annibynnol y gall proses ddifa waethygu'r broblem oni fydd yn digwydd o fewn ffiniau penodol. Yr wyf yn amau mai mynyddoedd Preseli ac afonydd bas gogledd Sir Benfro oedd gan y grŵp mewn golwg wrth sôn am ffiniau pendant. Mae cydymffurfiaeth yn broblem arall bosibl. Fel y dywedodd yr Arglwydd Krebs, bydd angen i'r Llywodraeth ladd tua 90 y cant o boblogaeth y moch daear dros ardal fawr am o leiaf bump i chwe mlynedd os yw'n gobeithio sicrhau hyd yn oed ostyngiad bach yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg. O gofio bod gwrthwynebiad cryf ymhlith rhai ffermwyr a thirfeddianwyr a sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Natur, sy'n rheoli tua 4,000 hectar rhyngddynt yn yr ardal beilot, yr wyf yn amheus iawn a all y Llywodraeth reoli'r lefel hon o gydwethrediad am bron i ddegawd.

Mae pobl ar ddwy ochr y ddadl wedi cyflwyno dadleuon gwyddonol, ac nid wyf am ailadrodd y dadleuon hynny sydd wedi'u cyflwyno droeon. Bid siŵr, y mae'r ddwy ochr wedi bod yn ddetholus, ond y mae'n nawddoglyd iawn i'r rheini sy'n cefnogi'r broses ddifa awgrymu bod y cyhoedd, sydd â'r mwyafrif yn gwrthwynebu hyn, yn anwybodus am y wyddoniaeth gywir. Yn yr wythnosau diwethaf yr wyf wedi cael dros 100 o lythyrau gan bobl sy'n gwrthwynebu'r broses ddifa yn chwyrn. Mae'n amhriodol iawn diffrïo eu barn a dweud nad ydynt yn deall.

**Nerys Evans:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Joyce Watson:** Na wna. Mae gan bobl ddigon o synnwyr cyffredin i sylweddoli, pan fydd Cymru'n dewis difa moch daear a Lloegr yn dewis brechu, ar sail yr un dystiolaeth, mai'r unig beth sy'n gamarweiniol yw dweud bod y wyddoniaeth yn cefnogi difa. Credaf mai Mike German, yn ystod y ddadl ddoe ar fagiau siopa untro, a wnaeth y gymhariaeth â'r gwaharddiad ar

talked about the need to take people with you. I am afraid that the Government is leaving people behind with its plans to eliminate badgers from north Pembrokeshire. That is why there is such strength of feeling against the plans. So, I will support the motion, and I urge the Minister and Members on all sides to reconsider the methodology of the eradication programme. It is not only north Pembrokeshire that will be badly affected by the proposed cull. Wales's world-class reputation as a sustainable, progressive nation will be badly damaged too.

**Mick Bates:** I would like to start by saying how much I welcome today's debate, which, once again, gives Members the opportunity to express their views on this. The Welsh Liberal Democrats have given a free vote on this issue on each occasion it has been debated in the Chamber. I will be voting against the proposed annulment of the Tuberculosis Eradication (Wales) Order 2009. In my contribution, I would like to deal with the evidence and put on record the evidence. I am deeply disappointed that we have already heard a list of allegations about farming practice that were not raised during the evidence-gathering process and which are based on views that are totally inflammatory and deeply hurtful to the farmers of Wales.

3.30 p.m.

Those farmers farm to a very high standard and will listen to this debate in disgust given that people do not present the evidence, as that would suggest, if these allegations were true, that the courts should be full of people being charged with cruelty. There is no chance to challenge this.

**Alun Cairns:** I am grateful to Mick Bates for giving way. Do you not think that the responsible approach—if such allegations are true, or if such allegations are made—would be to take those accusations to the authorities so that a full, frank and fair investigation could be conducted?

**Mick Bates:** I agree with you. Let us hope that others take up that challenge.

ysmygu a'r angen i ennyn cefnogaeth pobl. Mae arnaf ofn fod y Llywodraeth yn colli pobl gyda'i chynlluniau i ddileu moch daear o ogledd Sir Benfro. Dyna pam y mae teimladau mor gryf yn erbyn y cynlluniau. Felly, byddaf yn cefnogi'r cynnig, ac anogaf y Gweinidog ac Aelodau ar bob ochr i ailystyried methodoleg y rhaglen ddifa. Nid ar ogledd Sir Benfro yn unig y bydd hyn yn cael effaith ddrwg; bydd yn gwneud niwed mawr hefyd i enw da rhyngwladol Cymru fel gwlad gynaliadwy a blaengar.

**Mick Bates:** Hoffwn ddechrau drwy ddweud cymaint yr wyf yn croesawu'r ddadl heddiw sy'n rhoi cyfle, unwaith eto, i Aelodau fynegi eu barn ar hyn. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi rhoi pleidlais rydd ar y mater hwn bob tro wrth ei drafod yn y Siambr. Byddaf yn pleidleisio yn erbyn y cynnig i ddirymu'r Gorchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009. Yn fy nghyfraniad, hoffwn drafod y dystiolaeth a chofnodi'r dystiolaeth honno. Yr wyf yn siomedig iawn ein bod eisoes wedi clywed rhestr o honiadau am arferion ffermio na chawsant eu codi yn ystod y broses o gasglu dystiolaeth ac sy'n seiliedig ar safbwyntiau sy'n gwbl ymfflamychol ac yn sarhaus iawn i ffermwyr Cymru.

Mae'r ffermwyr hynny'n ffermio ar safon uchel iawn, a byddant yn gwaredu at y ddadl hon, o gofio nad yw pobl yn cyflwyno'r dystiolaeth, oherwydd byddai hynny'n awgrymu, pe bai'r honiadau hyn yn wir, y dylai'r llysoedd fod yn llawn pobl sydd wedi'u cyhuddo o greulondeb. Nid oes cyfle i herio hynny.

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ddiolchgar i Mick Bates am ildio. Oni chredwch mai'r dull cyfrifol o weithredu—pe bai honiadau o'r fath yn wir, neu pe bai honiadau o'r fath yn cael eu gwneud—fyddai cyflwyno'r honiadau hynny i'r awdurdodau er mwyn gwneud ymchwiliad llawn, gonest a theg?

**Mick Bates:** Yr wyf yn cytuno â chi. Gadewch inni obeithio y bydd eraill yn ymateb i'r her honno.

The evidence that we have received through public contact has been useful. I have personally tried to send a full, detailed response to each one, including those that came from Essex and amounted to more than half of the correspondence. I do not take this issue lightly, and I wish to emphasise that I have based my decision on evidence. I remind all of you that TB is one of the biggest challenges facing us in Wales, not only on health and welfare grounds, but on economic grounds. I have witnessed the misery of farming families on so many occasions, along with the difficulty faced by vets who have to deal with families in abject misery because a lifetime's work is about to be slaughtered. I will develop that theme and related evidence in a moment, but, with your permission, Presiding Officer, I will take an intervention from Joyce Watson.

**Joyce Watson:** Thank you for taking the intervention. You mention that you received e-mails from Essex, but I do not really see that that is particularly relevant. I probably have the largest mailbag on this issue because I happen to live in Pembrokeshire and I happen to be Labour's spokesperson on rural affairs. I have had very few—it is actually three out of 170—e-mails or letters from outside of the county. In terms of your point about the devastation and the impact, it would be wise to think about the devastation and the impact on the wider community, because I have also had e-mails telling me that people will not come to Pembrokeshire to holiday because they do not want to be part of the ugly scene that they expect to see there.

**Mick Bates:** I will start with the evidence. In 1998, the number of cattle slaughtered for TB control purposes in Wales was 1,046. In 2008, the number of cattle slaughtered was 12,043, which is a rise of 1,150 per cent. Between 2007 and 2008, the number of cattle slaughtered rose by 52 per cent, with an increase of more than 30 per cent in the prevalence in the Welsh herd. It is quite clear that the raft of measures introduced has been unsuccessful. These include tight controls and testing for TB before movements, farms with identifiable TB being frozen for business—

Mae'r dystiolaeth a gafwyd drwy gysylltu â'r cyhoedd wedi bod yn ddefnyddiol. Yn bersonol, yr wyf wedi ceisio anfon ymateb llawn a manwl i bob llythyr, gan gynnwys y rhai a ddaeth o Essex yn cynrychioli dros hanner yr ohebiaeth. Nid wyf yn cymryd y mater hwn yn ysgafn, a dymunaf bwysleisio fy mod wedi seilio fy mhenderfyniad ar dystiolaeth. Hoffwn eich atgoffa i gyd mai TB yw un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu yng Nghymru, nid yn unig ar sail iechyd a lles, ond ar sail economaidd. Yr wyf wedi gweld dioddefaint teuluoedd sy'n ffermio ar gynifer o achlysuron, yn ogystal â'r anhawster sy'n wynebu milfeddygon sy'n gorfod delio â theuluoedd mewn sefyllfaoedd torcalonnus oherwydd bod oes o waith ar fin cael ei dinistrio. Byddaf yn datblygu'r thema honno a'r dystiolaeth gysylltiedig yn y man, ond gyda'ch caniatâd chi, Lywydd, derbyniaf ymyriad gan Joyce Watson.

**Joyce Watson:** Diolch am dderbyn yr ymyriad. Soniech eich bod wedi cael negeseuon e-bost o Essex, ond ni chredaf fod hynny'n berthnasol iawn. Mae'n debyg mai fi sy'n cael fwyaf o bost ar y mater hwn am fy mod yn digwydd byw yn Sir Benfro ac yn digwydd bod yn llefarydd y Blaid Lafur ar faterion gwledig. Ychydig iawn o negeseuon e-bost neu lythyrau yr wyf fi wedi'u cael o'r tu allan i'r wlad hon—tri allan o 170, a dweud y gwir. Ar eich pwynt ynglŷn â'r dinistr a'r effaith, byddai'n ddoeth ystyried y dinistr a'r effaith ar y gymuned ehangach, oherwydd yr wyf hefyd wedi cael negeseuon e-bost gan bobl yn dweud wrthyf na fyddant yn dod i Sir Benfro ar eu gwyliau am nad ydynt yn dymuno bod yn rhan o'r gyflafan y disgwyliant ei gweld yno.

**Mick Bates:** Dechreuaf gyda'r dystiolaeth. Yn 1998, lladdwyd 1,046 o wartheg at ddibenion rheoli TB yng Nghymru. Yn 2008, lladdwyd 12,043 o wartheg, sy'n gynydd o 1,150 y cant. Rhwng 2007 a 2008, gwelwyd cynnydd o 52% yn nifer y gwartheg a laddwyd, gyda chynnydd o fwy na 30 y cant yn nifer yr achosion o TB ym muches Cymru. Mae'n amlwg ddigon bod yr holl fesurau a gyflwynwyd wedi bod yn aflwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau rheoli llym a phrofi am TB cyn symud gwartheg, ffermydd sydd ag achosion pendant o TB yn cael eu hatal rhag

**Irene James** *rose*—

**Mick Bates:** I have already accepted an intervention and I am almost out of time. I will willingly take the intervention in a moment, but I will finish my comments first.

Farms are closed down and tested every 60 days. Movements from farms where routine TB testing is overdue are frozen. By comparison, TB-infected badgers can roam between all farms, possibly infecting many farms on a single journey. It is inappropriate, in my opinion, to compare the randomised badger culling trials with the Minister's announcement on culling because we have very hard geographic boundaries for this first testing area. If you look at the reanalysis of the randomised trial, you will find that it demonstrates clearly that reducing badger numbers by around 80 per cent reduced the incidence of TB in cattle by an average of 23 per cent during the culling period and, following the cull, the incidence of TB was reduced by 54 per cent.

If you want further evidence, there is the evidence from the Gloucestershire trials, where TB was actually cleared. It is important to consider the facts, and I support the trials for vaccination, which will, by the way, require changes to UK and European legislation. We have already heard about the trapping and release of animals that are vaccinated. It is plainly ridiculous to trap an animal with TB, which many of these badgers would have, and then inject it and release it back into the wild with TB to infect more cattle. This is total nonsense

I have been saddened by so many issues on farms and I understand how deeply emotive this is for some people, as it is for me. However, in conclusion, over 29,000 cattle were slaughtered last year across the UK, and an untold number of badgers suffered a slow death from inflammation caused by TB. Thousands of cattle are killed each year and the control of badgers has so far remained unchecked. The evidence, Members, is there, and the Government is right. Please oppose

masnachu—

**Irene James** *a gododd*—

**Mick Bates:** Yr wyf eisoes wedi derbyn ymyriad ac y mae fy amser ar fin dod i ben. Byddaf yn ddigon bodlon derbyn yr ymyriad mewn munud, ond gadewch imi orffen fy sylwadau yn gyntaf.

Caiff ffermydd eu cau a'u profi bob 60 diwrnod. Ni cheir symud gwartheg o ffermydd lle mae angen cynnal profion TB arferol. I'r gwrthwyneb, gall moch daear sydd wedi'u heintio â TB symud o fferm i fferm gan heintio nifer o ffermydd ar un daith efallai. Yn fy marn i, mae'n amhriodol cymharu hap-dreialon difa moch daear â chyhoeddiad y Gweinidog ar ddifa, oherwydd mae gennym ffiniau daearyddol pendant iawn ar gyfer yr ardal brofi gyntaf hon. Os edrychwch ar yr ailddadansoddiad o'r hap-dreial, fe welwch ei fod yn dangos yn glir fod lleihau niferoedd moch daear tua 80 y cant wedi lleihau nifer yr achosion o TB mewn gwartheg 23 y cant ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod difa, ac yn dilyn y cyfnod difa, gwelwyd lleihad o 54 y cant yn nifer yr achosion o TB.

Os hoffech gael tystiolaeth bellach, mae yna dystiolaeth o dreialon yn Swydd Gaerloyw, lle dilëwyd TB mewn gwirionedd. Mae'n bwysig ystyried y ffeithiau, ac yr wyf yn cefnogi'r treialon ar gyfer brechu a fydd, gyda llaw, yn golygu newidiadau yn neddfwriaeth y DU ac Ewrop. Yr ydym eisoes wedi clywed bod angen dal a rhyddhau anifeiliaid sydd wedi'u brechu. Mae'n amlwg ei bod yn hurt dal anifail sydd â TB—a byddai hynny'n wir am lawer o'r moch daear hyn—ac yna'i frechu a'i ryddhau i'r gwyllt ggyda TB er mwyn iddo heintio mwy o wartheg. Mae hynny'n hollol hurt.

Yr wyf wedi fy nhristáu gan gynifer o broblemau ar ffermydd, ac yr wyf yn deall bod y mater hwn yn un emosiynol iawn i rai pobl, fel y mae i mi. Fodd bynnag, i gloi, lladdwyd dros 29,000 o wartheg ledled y DU y llynedd, a dioddefodd nifer difesur o foch daear farwolaeth araf o ganlyniad i lid a achosir gan TB. Caiff miloedd o wartheg eu lladd bob blwyddyn, a hyd yma nid oes dim wedi ei wneud i reoli moch daear. Aelodau, mae'r dystiolaeth ar gael ac y mae'r

this annulment.

**Irene James:** I thank Lorraine and Peter for giving us the opportunity to look at this issue once again, especially in the light of increased evidence provided after the independent scientific group trials. Its conclusion was that culling badgers makes no meaningful contribution to controlling bovine TB. In fact, the head researcher at the Government's research centre is adamant that culling badgers will make bovine TB worse, and that if we are to tackle bovine TB, farmers need to start backing the vaccination programme.

There is absolutely no doubt that TB is causing untold misery and suffering to farmers all over Wales. Therefore, if we are to annul this Order today, we could and should look at introducing a new Order to introduce a vaccine system. Vaccine involves trapping, giving a simple injection, marking and releasing the badger, and this can be carried out all year round. After two or three years, an oral vaccine should be available, and that would make this task even easier. With an alternative option available and many people questioning whether the cull itself can possibly come to any clear conclusions, now is surely the time to stop and reflect. There is doubt over whether, at the end of this consuming and expensive exercise, we will have a clear picture of what has been effective, and I understand that we will not know which factors have caused any reduction in TB among cattle.

**Mick Bates** *rose*—

**Irene James:** Sorry, Mick, you refused to take my intervention, so I will do the same to you.

In my time as an Assembly Member, I have never received so much correspondence in such a short time on one single issue. This demonstrates the huge amount of public concern and anger over this issue, particularly among individuals living in the proposed cull area. [*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. Irene James

Llywodraeth yn iawn. Gwrthwynebwbwch y dirymiad hwn.

**Irene James:** Diolch i Lorraine a Peter am roi'r cyfle inni edrych ar y mater hwn unwaith eto, yn arbennig yng ngoleuni tystiolaeth gynyddol a ddarparwyd ar ôl treialon y grŵp gwyddonol annibynnol. Daeth i'r casgliad nad yw difa moch daear yn gwneud dim cyfraniad ystyrion i'r gwaith o reoli TB gwartheg. Yn wir, mae'r prif ymchwilydd yng nghanolfan ymchwil y Llywodraeth yn sicr y bydd difa moch daear yn gwaethygu'r sefyllfa, ac os ydym am fynd i'r afael â TB mewn gwartheg mae angen i ffermwyr ddechrau cefnogi'r rhaglen frechu.

Nid oes dim amheuaeth nad yw TB yn achosi dioddefaint difesur i ffermwyr ledled Cymru. Felly, os ydym am ddirymu'r Gorchymyn hwn heddiw, gallem ystyried cyflwyno Gorchymyn newydd i gyflwyno system frechu, a dylem wneud hynny. Mae brechu'n golygu dal mochyn daear mewn magl, rhoi pigiad syml iddo, ei farcio a'i ryddhau, a gellir gwneud y gwaith hwn drwy'r flwyddyn. Ar ôl dwy neu dair blynedd, dylai brechlyn i'w lyncu fod ar gael, a byddai hynny'n gwneud y dasg yn haws byth. Gan fod dewis arall ar gael a chan fod llawer o bobl yn amau a all y broses ddifa ei hun gynnig unrhyw gasgliadau clir, rhaid mai nawr yw'r amser i roi terfyn ar hyn ac ystyried. Mae'n amheus a fydd gennym ddarlun clir o'r hyn a fu'n effeithiol ar ddiwedd yr ymarfer trafferthus a drud hwn, a deallaf na fyddwn yn gwybod pa ffactorau sydd wedi achosi unrhyw ostyngiad mewn TB ymhlith gwartheg.

**Mick Bates** *a gododd*—

**Irene James:** Mae'n ddrwg gennyf, Mick, gwnaethoch wrthod derbyn fy ymyriad i, felly, gwnaf finnau'r un fath i chi.

Yn ystod fy nghyfnod fel Aelod o'r Cynulliad, nid wyf erioed wedi cael cymaint o ohebiaeth mewn cyfnod mor fyr ar un mater unigol. Mae hyn yn dangos cymaint yw pryder a dicter y cyhoedd am y mater hwn, yn arbennig ymhlith unigolion sy'n byw yn ardal y rhaglen ddifa arfaethedig. [*Torri ar draws*]

**Y Llywydd:** Trefn. Mae Irene James wedi



has indicated that she is not taking any interventions.

**Irene James:** I hope that we will all take these concerns seriously. When the initial bovine TB Order was debated, I said to all of you that if we wished to be a good friend to farming community members, we had to be brave and tell them something that many of them might not like. I repeat this statement today and ask you to vote to annul this Order.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ym mrawddeg olaf Irene James clywais am y tro cyntaf yn y ddadl hon gyfeiriad at yr hyn yr ydym i fod i'w drafod y prynhawn yma, sef y Gorchymyn sy'n caniatáu i'r Llywodraeth a'r Gweinidog sicrhau bod y difa yma yn cael ei wneud mewn ffordd sydd wedi'i gynllunio'n ofalus, wedi'i dargedu ac wedi'i gyflawni mewn ffordd mor ddyngarol â phosibl. Yr hyn yr ydych yn ceisio'i wneud yw atal y Llywodraeth rhag rheoli'r broses honno. Nid dadl ar yr egwyddor yw hon; dadl yw hon ynglŷn â'r broses o ddifa moch daear. Mae'n bwysig cofio mai rhan yn unig o gynllun cynhwysfawr y Llywodraeth i geisio dileu TB yng Nghymru yw'r difa. Nid yw'n cynrychioli'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

3.40 p.m.

Gwnaethpwyd cyfeiriadau at system frechu. Rhoddwyd yr argraff y byddai brechu moch daear yn arwain at y broblem gyfan yn diflannu dros nos—mae sôn wedi bod am wyddoniaeth—ond mae hynny'n nonsens gwyddonol pur. Byddai cynllun brechu yn cymryd amser hir iawn ac ni fyddai canlyniadau am gyfnod hir. Nid oes hyd yn oed—

**Joyce Watson** *a gododd*—

**Rhodri Glyn Thomas:** Fe ildiaf mewn munud, Joyce.

Ni fyddai modd gwneud hynny'n effeithiol am dair neu bedair blynedd arall. Oherwydd hynny, yr argraff yr ydych yn ei roi yw bod hwn yn ateb i'r broblem; nid ydyw'n ateb, ac mae pawb yn cydnabod hynny.

dweud nad yw'n barod i dderbyn ymyriadau.

**Irene James:** Gobeithio y byddwn bob un yn ystyried y pryderon hyn o ddifrif. Pan drafodwyd y Gorchymyn TB gwartheg cychwynnol, dywedais wrth bob un ohonoch, os oeddem am fod yn gyfaill da i'r gymuned ffermio byddai'n rhaid inni fod yn ddewr a dweud rhywbeth wrthynt na fyddai llawer ohonynt yn hoffi ei glywed efallai. Ailadroddaf y gosodiad hwn heddiw, a gofynnaf ichi bleidleisio i ddirymu'r Gorchymyn hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** It was in Irene James's final sentence that I heard for the first time in this debate a reference to what we should be discussing this afternoon, which is the Order that allows the Government and the Minister to ensure that this cull takes place in a manner that is carefully planned, targeted and as humane as possible. You are trying to prevent the Government from controlling that process. This is not a debate on the principle; it is a debate on the process of culling badgers. It is important to bear in mind that the culling is just one part of the Government's comprehensive scheme to eradicate TB in Wales. It does not represent the scheme in its entirety.

References have been made to a vaccination programme. The impression given was that vaccinating badgers would solve the problem overnight—there has been talk of the science—but that is utter scientific nonsense. A vaccination programme would take a very long time and there would be no results for a long time. There is not even—

**Joyce Watson** *rose*—

**Rhodri Glyn Thomas:** I will give way in a minute, Joyce.

It would not be possible for that to be done in an effective manner for another three or four years. As a result, the impression you are giving is that this is a solution to the problem; it is not a solution, and everyone recognises

that fact.

**Joyce Watson:** You raise an important point. You say that if you introduce a vaccine it will not solve the problem overnight. Equally—and I can point you towards the evidence, because it is there, and it is Government evidence—you would have to sustain a cull for six years and kill 90 per cent of the badger population just to have some impact. There will be very healthy badgers among those that are killed.

**Rhodri Glyn Thomas:** That is an opinion, but until we have carried out a pilot kill, or cull, it is impossible—[*Interruption.*] Well, you are going to kill badgers. Let us look at the facts—

**Brynle Williams** *rose*—

**Rhodri Glyn Thomas:** I will give way in a minute, Brynle.

Your argument is that we should wait until 2014. The figures have already been given for the number of cattle that have been killed, which is increasing again. It was 12,000 last year; up to the end of August last year it was 7,000, and up to the end of August this year it is 8,000, therefore we have seen another increase. The amount of money that has had to be paid out in compensation has increased to £24 million. You have said, ‘Wait until 2014,’ but the estimate of the amount of money that will have to be spent in compensation in 2014 is £80 million. For all those reasons, we cannot afford to wait. We need to ensure this afternoon that we have a Government that is enabled to carry out this part of its eradication policy in a managed, targeted and humane way.

**Brynle Williams:** You touched on the heart of this matter in your opening remarks, which is that we are getting wrapped up in one emotional event. There is a whole raft of recommendations that we need to address. That is why the word ‘holistically’—

**Joyce Watson:** Do them first, then.

**Joyce Watson:** Mae hynny'n bwynt pwysig. Yr oeddech yn dweud na fyddai cyflwyno rhaglen frechu yn datrys y broblem dros nos. Yn yr un modd—a gallaf eich cyfeirio at y dystiolaeth, oherwydd y mae ar gael, a thystiolaeth y Llywodraeth ydyw—byddai'n rhaid ichi gynnal rhaglen ddifa am chwe mlynedd a lladd 90 y cant o'r boblogaeth moch daear dim ond er mwyn cael rhywfaint o effaith. Bydd moch daear iach iawn ymysg y rhai a leddir.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae hynny'n farn, ond nes y byddwn wedi cynnal lladdfa beilot, neu broses ddifa beilot, mae'n amhosibl—[*Torri ar draws*]. Wel, yr ydych yn bwriadu lladd moch daear. Gadewch inni edrych ar y ffeithiau—

**Brynle Williams** *a gododd*—

**Rhodri Glyn Thomas:** Ildiaf mewn munud, Brynle.

Eich dadl chi yw y dylem aros tan 2014. Yr ydym eisoes wedi clywed faint o wartheg sydd wedi eu lladd, ac y mae'r nifer yn dal i godi. Y llynedd lladdwyd 12,000; 7,000 hyd at ddiwedd mis Awst y llynedd a 8,000 hyd at ddiwedd mis Awst eleni, felly, yr ydym wedi gweld cynnydd arall. Mae'r arian y bu'n rhaid inni ei dalu fel iawndal wedi cynyddu i £24 miliwn. Yr ydych chi wedi ein hannog i aros tan 2014, ond amcangyfrifir y bydd yn rhaid gwario £80 miliwn ar iawndal yn 2014. Am yr holl resymau hynny, ni allwn fforddio aros. Mae angen inni sicrhau'r prynhawn yma fod gennym Lywodraeth sy'n gallu cynnal y rhan hon o'i pholisi dileu mewn ffordd ddi-boen sy'n cael ei rheoli a'i thargedu.

**Brynle Williams:** Yr oeddech yn cyfeirio at wraidd y mater hwn yn eich sylwadau agoriadol, sef ein bod yn canolbwyntio ar un digwyddiad emosiynol. Mae llawer o argymhellion y mae angen inni fynd i'r afael â hwy. Dyna pam y mae'r gair ‘cyfannol’—

**Joyce Watson:** Gwnewch hwy yn gyntaf, felly.

**Brynle Williams:** Joyce, as Rhodri said, we are looking at—

**Brynle Williams:** Joyce, fel y dywedodd Rhodri, yr ydym yn edrych ar—

**The Presiding Officer:** Order. You cannot take interventions from everywhere, so just address him, please.

**Y Llywydd:** Trefn. Ni allwch dderbyn ymyriadau o bob man, felly, a wnewch ei annerch ef, os gwelwch yn dda.

**Brynle Williams:** Diolch, Rhodri, am bwysleisio bod hwn yn becyn cyfan.

**Brynle Williams:** Thank you, Rhodri, for emphasising that this is a comprehensive package.

We are getting sidetracked by one issue, instead of getting rid of TB.

Yr ydym yn cael ein harwain ar gyfeiliorn gan un mater, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddileu TB.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'r pwynt hwnnw'n eithriadol o bwysig. Rhan o gynllun cynhwysfawr gan y Gweinidog yw hyn i fynd i'r afael â'r broblem. Mae gen i ofn mai'r cyfan sy'n digwydd y prynhawn yma yw ymgais eto i oedi datblygiad y mater hwn ac i'w osgoi. Yr ydym wedi derbyn gohebiaeth amdano; mae teimladau cryf iawn, ond, ar adegau yn y byd gwleidyddol, mae'n rhaid i bobl wneud penderfyniadau, ac nid ydynt bob amser yn rhwydd. Mae'r Gweinidog wedi gwneud y penderfyniad ei bod am weithredu ar y mater hwn, ac mae'r Llywodraeth am weithredu ar y mater. Dylem fod wedi gweithredu arno flynyddoedd yn ôl—dyna'r gwir plaen amdani. Yr ydym wedi osgoi ac wedi oedi, ond, o'r diwedd, mae gennym Weinidog a Llywodraeth sy'n barod i weithredu ac i wneud hynny mewn ffordd gyfrifol. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi'r gallu i'r Gweinidog i wneud hynny.

**Rhodri Glyn Thomas:** That is an extremely important point. This is just part of the Minister's comprehensive scheme to tackle the problem. I am afraid that all that is happening this afternoon is yet another attempt to slow down and avoid the process. We have all received correspondence on the issue; there are strong feelings about it, but on occasion those in the political world must take decisions, and those decisions are not always easy. The Minister has taken the decision to act on this matter, therefore, the Government intends to take action. The fact of the matter is that action should have been taken years ago. We have avoided the subject and delayed things, but, at last, we have a Minister and a Government who are prepared to take action and to do so in a responsible manner. This Order permits the Minister to do just that.

Gofynnwyd y cwestiwn yn gynharach ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am ladd y moch daear. Os cymerwch bwerau'r Gweinidog i benderfynu pwy fydd yn gwneud y gwaith oddi wrthi y prynhawn yma, yr unig opsiwn fydd ganddi yw caniatáu i ffermwyr i'w wneud. Os mai hynny yw eich bwriad drwy geisio dirymu'r ddeddfwriaeth y prynhawn yma, chi fydd yn creu sefyllfa o weithredu anghyfrifol. Yr ydym ni am ganiatáu i'r Gweinidog weithredu yn gyfrifol, fel y mae wedi'i wneud eisoes yn y mater hwn.

The question was raised earlier about who will be responsible for culling the badgers. If you take away the Minister's power this afternoon to decide who carries out this work, the only option available to her will be to allow farmers to do it. If that is your intention in trying to annul this legislation this afternoon, you will be the ones creating a situation of irresponsible action. We want to permit the Minister to act in a responsible manner, as she has already done in relation to this issue.

**Trish Law:** Over the last fortnight or so, since it was publicised that an attempt would be made to annul the badger cull Order, I

**Trish Law:** Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, ers cyhoeddi y byddai ymgais i ddirymu'r Gorchymyn difa moch daear, yr

have been inundated with correspondence on this issue. The vast majority of it urged me to support the motion that has been moved today by Lorraine and Peter, with only a handful in support of the cull, coming mainly from those with farming interests. The correspondence has come from near and far—from Blaenau Gwent to Blaenau Ffestiniog, from Tregaron to Truro and even Troon. I have assured them that my position has not changed since April last year when 12 of us voted against a motion that shamefully ‘welcomed’ the Welsh Assembly Government’s badger cull programme. That there is such wide interest in this motion suggests that the eyes of the UK are on us here in Cardiff bay this afternoon. The integrity, values and humanity of the National Assembly are under the nation’s spotlight this afternoon.

I will not repeat everything I said here in April 2008, except to say that, if this motion is not agreed today, we will be edging towards one of the most barbaric practices inflicted by the Welsh Assembly Government in its 10-year history. It is a brutal, heartless and inhuman act when the harsh reality is that Wales’s bovine TB problem can be easily traced to cattle movements and farming practices. Scientific evidence has consistently shown that moving cattle and buying in cattle are the greatest risk factors for bovine TB.

**Mick Bates:** Will you take an intervention?

**Trish Law:** No, Mick.

The only scientific way forward is to concentrate on vaccination and improved cattle-based measures. Sacrificing thousands of innocent animals, most of which do not have TB, is not a scientific or justified response to the problem, and such an approach will gravely tarnish the reputation of the National Assembly for Wales.

**Lesley Griffiths:** I am extremely disappointed that this is not a motion that would prevent the cull from taking place. Sadly, this motion is not about whether the Welsh Assembly Government carries out its

wyf wedi cael llif o ohebiaeth ar y mater hwn. Yr oedd y mwyafrif helaeth yn fy annog i gefnogi’r cynnig a gyflwynwyd heddiw gan Lorraine a Peter, a llond llaw yn unig o blaid y difa, a’r gefnogaeth honno’n dod yn bennaf gan bobl sydd â buddiannau ym myd ffermio. Mae’r ohebiaeth wedi dod o bell ac agos—o Flaenau Gwent i Flaenau Ffestiniog, o Dregaron i Truro a hyd yn oed Troon. Yr wyf wedi’u sicrhau nad yw fy safbwynt wedi newid ers mis Ebrill y llynedd pan bleidleisiodd 12 ohonom yn erbyn y cynnig a ‘groesawodd’ yn gywilyddus raglen o ddifa moch daear gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae’r ffaith fod cymaint o ddiddordeb yn y cynnig hwn yn awgrymu bod y DU yn ein gwyllo yma ym mae Caerdydd y prynhawn yma. Mae uniondeb, gwerthoedd a dyngarwch y Cynulliad dan chwyddwydr y genedl y prynhawn yma.

Nid wyf am ailadrodd popeth a ddywedais yma ym mis Ebrill 2008, heblaw dweud, os na chaiff y cynnig hwn ei gytuno heddiw, y byddwn gam yn nes at un o’r arferion mwyaf anwaraidd i Lywodraeth y Cynulliad ei gyflwyno yn y 10 mlynedd ers ei sefydlu. Mae’n weithred greulon, ddidostur ac annynol pan mai gwir plaen y sefyllfa yw bod modd olrhain problem TB gwartheg yng Nghymru yn rhwydd i symudiadau gwartheg ac arferion ffermio. Mae’r dystiolaeth wyddonol wedi dangos yn gyson mai symud gwartheg a phrynu gwartheg i mewn yw’r ffactorau risg mwyaf ar gyfer TB gwartheg.

**Mick Bates:** A wnewch chi dderbyn myriad?

**Trish Law:** Na wnaif, Mick.

Yr unig ffordd ymlaen o safbwynt gwyddonol yw canolbwyntio ar frechu a gwell mesurau’n ymwneud â gwartheg. Nid yw aberthu miloedd o anifeiliaid diniwed, a’r mwyafrif heb fod yn cario TB, yn ymateb cyfiawn na gwyddonol i’r broblem, a bydd dull gweithredu o’r fath yn parhau enw da’r Cynulliad Cenedlaethol yn ddifrifol.

**Lesley Griffiths:** Yr wyf yn siomedig dros ben nad yw hwn yn gynnig a fyddai’n atal y rhaglen ddifa rhag digwydd. Yn anffodus, nid cynnig yw hwn ynghylch a yw Llywodraeth y Cynulliad i weithredu ei rhaglen i ddileu

bovine TB eradication programme or not; if it were, I would be voting in favour of it. I remain opposed to the cull. I do not believe that there is enough scientific evidence to support such a drastic step. I have spoken to scientists and veterinarians, none of whom has been able to reassure me that this policy is the correct one and will have the desired impact on bovine TB that the Government believes it will. However, a prime concern—

**Mark Isherwood:** You have referred to vets, but the British Veterinary Association, which has 11,500 members, has said that the failure to tackle wildlife sources of infection has prolonged the presence of the disease in all affected species populations. It urged us to support the TB eradication Order and to vote against the amendment before us today. Who do you think knows best, the British Veterinary Association or a bunch of politicians?

**Lesley Griffiths:** I am not saying that there are not some vets who say that. I was referring to the vets and scientists to whom I have spoken.

A prime concern for me and the many constituents who have contacted me is animal welfare. If the eradication Order is not agreed this afternoon, the Welsh Assembly Government could enact a licence for unqualified and unsupervised culling to take place without the need for an Order or further legislation. I do not want to see that happen. It would open the door to excessive cruelty and to uncontrolled killing. Since the Government won the vote to carry out this cull, I have wanted to ensure that it is carried out as humanely as possible. It has to be regulated and targeted.

Given the obvious levels of continuing widespread public concern about this issue and the question marks that persist over the scientific basis for supporting the cull, it is incumbent on the Government not to proceed without providing assurance that there will be complete openness and transparency. I want

TB mewn gwartheg ai peidio; pe byddai, byddwn yn pleidleisio o'i blaid. Yr wyf yn gwrthwynebu'r rhaglen ddifa o hyd. Nid wyf yn credu bod digon o dystiolaeth wyddonol ar gael i gefnogi cam mor eithafol. Yr wyf wedi siarad â gwyddonwyr a milfeddygon, ac nid oes yr un ohonynt wedi gallu fy sicrhau mai hwn yw'r polisi iawn ac y bydd yn cael yr effaith ar TB mewn gwartheg y mae'r Llywodraeth yn credu a gaiff. Er hynny, un pryder mawr—

**Mark Isherwood:** Yr ydych wedi cyfeirio at filfeddygon, ond mae Cymdeithas Milfeddygon Prydain, sydd â 11,500 o aelodau, wedi dweud bod methu â mynd i'r afael â ffynonellau'r haint ymysg bywyd gwyllt wedi golygu bod y clefyd wedi para'n hwy ymhlith poblogaethau'r holl rywogaethau yr effeithir arnynt. Yr oedd yn ein hannog i gefnogi'r Gorchymyn dileu TB a phleidleisio yn erbyn y gwelliant sydd ger ein bron heddiw. Pwy, dybiwch chi sy'n gwybod orau, Cymdeithas Milfeddygon Prydain ynteu criw o wleidyddion?

**Lesley Griffiths:** Nid wyf yn dweud nad oes rhai milfeddygon sy'n dweud hynny. Cyfeirio'r oeddwn at y milfeddygon a'r gwyddonwyr yr wyf fi wedi siarad â hwy.

Un pryder mawr sydd gennyf, ac sydd gan yr holl etholwyr sydd wedi cysylltu â mi, yw lles anifeiliaid. Os na chaiff y Gorchymyn dileu ei gytuno y prynhawn yma, gallai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno trwydded ar gyfer difa a gaiff ei gwneud gan bobl anghymwys a heb oruchwyliaeth, a hynny heb angen Gorchymyn na deddfwriaeth bellach. Nid wyf am weld hynny'n digwydd. Byddai'n agor y drws i greulondeb eithafol a lladd direolaeth. Ers i'r Llywodraeth ennill y bleidlais i gynnal y rhaglen ddifa hon, yr wyf wedi bod yn awyddus i sicrhau ei bod yn cael ei gwneud mewn modd mor ddi-boen ag sy'n bosibl. Rhaid i'r rhaglen gael ei rheoleiddio a'i thargedu.

O ystyried cymaint yw'r pryderon amlwg sy'n parhau ymhlith y cyhoedd ar y mater hwn a'r amheuan sy'n parhau am y sail wyddonol dros gefnogi'r difa, mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth i beidio â bwrw ymlaen heb roi sicrwydd y bydd y cyfan yn hollol agored a thryloyw. Yr wyf

the Minister to pledge today to provide regular reports on the number of badgers killed, the incidence among cattle, data on badger migration, and a quarterly oral statement to Assembly Members in the Chamber. I also seek her assurance that if, however many months down the line it may be, she finds that the policy is wrong and ineffective, she will come back here to inform Members and look for a different way of eradicating bovine TB, reconsidering a vaccination programme such as those being pursued elsewhere.

**Christine Chapman:** I will not repeat what others have said, but I fully support Lorraine and Peter in their attempt to annul this Order. I have thought long and hard about this and my conscience will not allow me to do otherwise.

While I fully acknowledge the realities of bovine TB and the threat that it poses, the evidence in favour of a cull is inconclusive. I know that, when examined, scientific research is never 100 per cent certain, but I firmly believe that the evidence against such a drastic move far outweighs the evidence in favour of it, and that is how I have approached the issue in coming to a judgment.

3.50 p.m.

We also know how deeply unhappy many groups and individuals across Wales are with the proposal for a cull, and that includes the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals, farmers, the scientific community and many citizens who are concerned and distressed by these proposals. It would be wrong to ignore that strength of feeling. I know that, as politicians, we have to be decisive, but, having looked at the evidence, I cannot do anything but support this attempt to annul the Order.

All these groups implore us to develop a sustainable and humane solution to the problem. In 10 years of devolution, I have been proud of the values and practices that we have promoted here of sustainability and

am i'r Gweinidog addo heddiw y bydd darparu adroddiadau rheolaidd ar nifer y moch daear a leddir, nifer yr achosion mewn gwartheg, data ar ymfudo gan foch daear, a datganiad llafar bob chwarter i Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr. Ceisiaf sicrwydd ganddi hefyd, os bydd yn darganfod, ymhen faint bynnag o fisoedd y digwydd hynny, fod y polisi'n anghywir ac yn aneffeithiol, y daw'n ôl yma i roi gwybod i'r Aelodau ac edrych am ffordd wahanol i ddileu TB mewn gwartheg, gan ailystyried rhaglen frechu megis y rheini sydd ar waith mewn mannau eraill.

**Christine Chapman:** Ni wnaaf ailadrodd yr hyn y mae eraill wedi'i ddweud, ond yr wyf yn cefnogi Lorraine a Peter yn llwyr yn eu hymgais i ddirymu'r Gorchymyn hwn. Yr wyf wedi meddwl yn hir ac yn galed am hyn ac nid yw fy nghydwyl yn caniatáu imi wneud fel arall.

Er fy mod yn cydnabod yn llwyr wirionedd y sefyllfa a'r bygythiad y mae TB mewn gwartheg yn ei achisi, amhendant yw'r dystiolaeth o blaid rhaglen ddifa. Gwn nad yw ymchwil wyddonol, pan gaiff ei harchwilio, byth gant y cant yn sicr, ond yr wyf yn grediniol fod y dystiolaeth yn erbyn cam mor eithafol yn drech na'r dystiolaeth o'i phlaid, a dyna sut yr wyf wedi ystyried y mater wrth ddod i benderfyniad.

Gwyddom i gyd fod nifer o grwpiau ac unigolion ledled Cymru yn anhapus iawn â'r cynnig i gynnal rhaglen ddifa, ac ymhlith y rheini mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, ffermwyr, y gymuned wyddonol a nifer o ddinasyddion y mae'r cynigion hyn yn peri pryder a gofid iddynt. Camsyniad fyddai anwybyddu cryfder y teimlad hwnnw. Gwn ei bod yn rhaid inni, fel gwleidyddion, fod yn bendant, ond ar ôl edrych ar y dystiolaeth ni allaf wneud dim ond cefnogi'r ymgais hwn i ddirymu'r Gorchymyn.

Mae'r holl grwpiau hyn yn ymbilio arnom i ddatblygu ateb cynaliadwy a di-boen i'r broblem. Yn y 10 mlynedd ers datganoli, yr wyf wedi bod yn falch o'r gwerthoedd a'r arferion yr ydym wedi'u hyrwyddo yma o ran

biodiversity. We have tried to uphold those, but this Order overturns all that. It is like using a sledgehammer to crack a nut, and I urge colleagues to vote for an annulment.

**Alun Davies:** Bovine TB was one of the first issues that I addressed as an Assembly Member and as a candidate for election to the Assembly. As I toured Mid and West Wales seeking support, one of the big issues that landed on my plate—and I did not anticipate it—was bovine TB. The intensity of the suffering of people in communities throughout rural Wales struck me immediately, before my election.

The other members of the Rural Development Sub-committee and I made bovine TB the subject of our first inquiry. For seven or eight months, we investigated it. We questioned witnesses and read the scientific evidence—and we did not just quote it; we read it, and there is a difference between the two. We came to a conclusion. To be frank, I started from the position of not understanding the disease, where it comes from, how it is transmitted, or how we could defeat it. Therefore, I came to the issue from a neutral position and was persuaded by the arguments that I heard. The key conclusion of the committee's report was that bovine TB in the wildlife population and bovine TB in the cattle population are directly linked. That was a clear conclusion, which was not challenged—and I make that clear—by anybody in that sub-committee working on that report. If you accept that, you must also accept that you can eradicate the disease only if you eradicate it in both reservoirs: in the cattle population for biosecurity, and in the wildlife population, in this instance using the culling method—and I will use the word 'killing' if necessary.

**Irene James** *rose*—

**Alun Davies:** I will not take an intervention at the moment.

We have to manage and control the disease and then eradicate it. It is not pretty or easy.

cynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Yr ydym wedi ceisio cynnal y rheini, ond y mae'r Gorchymyn hwn yn troi'r cyfan ar ei ben. Mae fel defnyddio gordd i dorri cneuen, ac anogaf fy nghyd-aelodau i bleidleisio o blaid dirymu'r gorchymyn.

**Alun Davies:** Yr oedd TB mewn gwartheg yn un o'r materion cyntaf imi roi sylw iddo fel Aelod Cynulliad ac fel ymgeisydd yn yr etholiad i'r Cynulliad. Wrth imi deithio'r canolbarth a'r gorllewin yn ceisio cefnogaeth, un o'r materion mawr a laniodd ar fy mhlât—ac nid oeddwn wedi'i ragweld—oedd TB mewn gwartheg. Trawyd fi ar unwaith gan ddioddefaint pobl mewn cymunedau ledled Cymru wledig, cyn cael fy ethol.

Gwneuthum i ac aelodau eraill yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig fater TB mewn gwartheg yn destuna ein hymchwiliad cyntaf. Am saith neu wyth mis buom yn ymchwilio iddo. Buom yn holi tystion ac yn darllen y dystiolaeth wyddonol—ac nid ei dyfynnu'n unig a wnaethom; buom yn ei darllen, ac y mae gwahaniaeth rhwng y ddau. Daethom i gasgliad. A dweud y gwir, dechreuais o sefyllfa lle nad oeddwn yn deall y clefyd, o ble y daw, sut y caiff ei drosglwyddo, na sut y gallem ei orchfygu. Deuthum at y mater, felly, o safbwynt niwtral a chefais fy narbwyllgo gan y dadleuon a glywais. Casgliad allweddol adroddiad y pwyllgor oedd bod cysylltiad uniongyrchol rhwng TB mewn bywyd gwyllt a TB mewn gwartheg. Yr oedd hwnnw'n un casgliad pendant na chafodd ei herio—ac yr wyf yn gwneud hynny'n glir—gan neb ar yr is-bwyllgor hwnnw a oedd yn gweithio ar yr adroddiad hwnnw. Os derbyniwch hynny, rhaid ichi dderbyn hefyd mai trwy ddileu'r clefyd o'r ddwy boblogaeth yn unig y gellir ei ddileu: yn y boblogaeth gwartheg er mwyn bioddiogelwch, ac yn y boblogaeth bywyd gwyllt, gan ddefnyddio'r dull difa yn yr achos hwn—a defnyddiaf y gair 'lladd' os oes angen.

**Irene James** *a gododd*—

**Alun Davies:** Ni dderbyniaf ymyriad ar hyn o bryd.

Rhaid inni ffrwyno a rheoli'r clefyd ac yna'i ddileu. Nid yw'n bleserus nac yn hawdd.

This has been a profoundly disappointing debate for the Assembly. All too often, we hear people quoting selectively, reading briefs but not having read the research and scientific evidence—

**Joyce Watson:** Will you give way?

**Alun Davies:** I want to continue to develop my argument.

**Joyce Watson:** Will you give way?

**Alun Davies:** No, Joyce. I will continue to develop my argument.

The holistic approach that the Government is taking is to address the reservoir of disease in both the wildlife and the cattle populations. If you do one without the other, you will fail. The Republic of Ireland failed with culling because a sufficiently rigorous and robust biosecurity measure and regime was not adopted. People elsewhere have failed because they have not addressed the issue in wildlife. If you think that that you can eradicate this disease in a painless way, you are, frankly, living in cloud-cuckoo-land. That is not how you do it. Of course it is a difficult issue, but we are elected to take difficult decisions.

I came to this from an entirely neutral perspective, but a weight of evidence has been produced, not just by the Independent Scientific Group on Cattle TB but by the royal society, too. I hear people say that there is no link, but the royal society, of all organisations, says that 84 per cent of all cattle infections are caused by wildlife. That is the royal society, not an individual scientist or someone in their back bedroom coming up with some theory from an internet site. [*Laughter.*] It is the royal society. If you cannot accept the words of an organisation like that, frankly, you will take some persuading. [*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. This is a serious debate.

Bu hon yn ddadl siomedig dros ben i'r Cynulliad. Lawer rhy aml clywn bobl yn dyfynnu'n ddetholus, yn darllen papurau briffio ond heb ddarllen yr ymchwil a'r dystiolaeth wyddonol—

**Joyce Watson:** A wnewch chi ildio?

**Alun Davies:** Yr wyf am barhau er mwyn datblygu fy nadl.

**Joyce Watson:** A wnewch chi ildio?

**Alun Davies:** Na wna, Joyce. Yr wyf am barhau er mwyn datblygu fy nadl.

Dull gweithredu cyfannol y Llywodraeth yw rhoi sylw i'r clefyd mewn gwartheg ac mewn bywyd gwyllt. Os gwnewch y naill heb y llall, byddwch yn methu. Methodd rhaglen ddifa Gweriniaeth Iwerddon am na chafwyd cyfundrefn a mesur bioddiogelwch digon cadarn a thrylwyr. Mae pobl mewn mannau eraill wedi methu am nad ydynt wedi rhoi sylw i'r mater mewn bywyd gwyllt. Os credwch fod modd dileu'r clefyd hwn mewn modd di-boen yr ydych, a siarad yn blaen, yn byw mewn byd ffantasi. Nid dyna'r ffordd i'w gwneud hi. Wrth gwrs y mae'n fater anodd, ond cawn ein hethol i wneud penderfyniadau anodd.

Deuthum at y mater hwn o safbwynt cwbl niwtral, ond mae tystiolaeth gref wedi ei chyflwyno, nid yn unig gan y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg, ond gan y gymdeithas frenhinol hefyd. Clywaf bobl yn dweud nad oes dim cysylltiad, ond dywed y gymdeithas frenhinol, o bob sefydliad, mai bywyd gwyllt sy'n achosi 84 y cant o'r holl achosion o'r haint mewn gwartheg. Y gymdeithas frenhinol yw honno, nid gwyddonydd unigol na rhywun yn ei ystafell wely yn datblygu rhyw theori neu'i gilydd oddi ar safle ar y rhyngwyd. [*Chwerthin.*] Y gymdeithas frenhinol ydyw. A dweud y gwir, os na allwch dderbyn geiriau sefydliad fel hwnnw, bydd yn anodd iawn eich darbwyllo. [*Torri ar draws.*]

**Y Llywydd:** Trefn. Mae hon yn ddadl ddifrifol.



**Alun Davies:** To bring my contribution to this debate to a conclusion, I hope that we can move forward from this debate and understand the impact of bovine TB on the human population. I do not mean what Brynle mentioned about disease linkages, but the impact on families and communities when this disease hits them, as Mick described. We have to eradicate it from our countryside. If we want to make our countryside healthy again, we have to take tough decisions today and then work together to make sure that this disease does not come back within our borders.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Yr wyf yn gwerthfawrogi'r cyfle i esbonio'r Gorchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009 a'i ran o fewn y rhaglen weithredu gynhwysfawr i ddileu TB gwartheg yng Nghymru. Yr wyf yn ymwybodol o'r ffaith bod y mater hwn o ddiddordeb ac yn destun pryder i bob Aelod yn y Siambr. Dyna pam yr wyf eisoes wedi cyflwyno dadl gan y Llywodraeth ar y pwnc, tri datganiad llafar, tri datganiad ysgrifenedig ac wedi ymrwymo i roi adroddiad blynyddol i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig am TB gwartheg. Rhoddais yr un cyntaf yn ôl ym mis Gorffennaf.

Llynedd, lladdwyd 12,000 o wartheg yng Nghymru oherwydd TB o'u cymharu â 700 yn 1997. Eleni, erbyn mis Awst yn unig, lladdwyd mwy nag 8,000 o wartheg yng Nghymru oherwydd TB. Mae costau'r iawndal i drethdalwyr hefyd wedi codi o £1.8 miliwn yn 2000-01 i bron £24 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Gallai'r gost fod yn fwy nag £80 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2013-14 os bydd y duedd bresennol yn parhau. Ar yr un adeg, yr wyf wedi cymryd camau i gyflwyno mesurau gweinyddol pellach i wneud yn siŵr bod pob iawndal yn cael ei dalu yn unol â gwerth y farchnad.

Yn y gwanwyn eleni, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r cyngor a ddaeth i law, dechreuais ymgynghori ar y ddeddfwriaeth y byddai arnom ei hangen i roi strategaethau'r Llywodraeth ar gyfer brechu a difa moch daear ar waith. Ar ôl ystyried pob barn, yr wyf o hyd yn credu bod y mesurau hyn yn angenrheidiol. Y mis diwethaf, cafodd y

**Alun Davies:** I ddirwyn fy nghyfraniad i'r ddadl hon i ben, gobeithio y gallwn symud ymlaen o'r ddadl hon a deall effaith TB mewn gwartheg ar y boblogaeth ddynol. Nid yr hyn a grybwyllodd Brynle am gysylltedd y clefyd yr wyf yn ei olygu, ond yn hytrach yr effaith ar deuluoedd a chymunedau pan fydd y clefyd hwn yn eu taro, fel y disgrifiodd Mick. Rhaid inni ei ddileu o'n cefn gwlad. Os ydym am wneud ein cefn gwlad yn iach drachefn, rhaid inni wneud penderfyniadau anodd heddiw ac yna weithio gyda'n gilydd i sicrhau na fydd y clefyd hwn yn dychwelyd o fewn ein ffiniau.

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I appreciate the opportunity to explain the Tuberculosis Eradication (Wales) Order 2009 and its role within the comprehensive action programme to eradicate bovine TB in Wales. I am aware of the fact that this matter has aroused great interest and concern for every Member in the Chamber. That is why I have already presented one Government debate on the topic, three oral statements, three written statements, and I have committed to give an annual report on bovine TB to the Rural Development Sub-committee. I delivered the first one back in July.

Last year, 12,000 cattle in Wales were slaughtered because of TB compared with 700 in 1997. This year, by August alone, more than 8,000 cattle in Wales had been slaughtered because of TB. The costs to the taxpayer of the compensation payments have also increased from £1.8 million in 2000-01 to almost £24 million in the last financial year. That cost could rise to more than £80 million in the 2013-14 financial year if the current trend continues. At the same time, I have taken steps to introduce further administrative measures to ensure that every compensation payment is paid in accordance with market values.

This spring, having considered all the evidence and advice that I received, I embarked on a consultation process on the legislation that would be required to implement the Government's strategies on vaccination and badger culling. Having considered every opinion, I remain of the view that these measures are essential. Last

camau hyn eu cydnabod gan Gomisiwn Ewrop yn ei argymhelliad i gymeradwyo cynllun dileu TB mewn gwartheg y Deyrnas Gyfunol ynghyd â chymorth ariannol inni. Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglen i ddileu TB yn ymwneud â phroblem gwartheg yn lledaenu'r clefyd, ac yr wyf eisoes wedi rhoi gwybod ichi am y camau sy'n cael eu cymryd o ran y polisiau hynny. Er enghraifft, gwelwyd gwelliannau o ran yr amser i symud gwartheg sydd wedi'u heintio oddi ar y fferm, o ran profi'r holl fuchesi yng Nghymru erbyn diwedd Rhagfyr ac o ran eu profi unwaith eto y flwyddyn nesaf. Hefyd, o fewn y flwyddyn hon, yr ydym wedi gostwng nifer y profion hwyr gan dros 98 y cant ac wedi dechrau datblygu mentrau ar lefel ranbarthol, er enghraifft menter fioggiogelwch bwrdd rhanbarthol dileu TB y gogledd yn ardal Wrecsam.

It is important that the public is aware of the evidence that I have considered and the justification for any action on badgers. All the scientific and modelling advice submitted to me, and all the consultation responses on the Order under discussion today are available on the Assembly Government's website.

I will now address some of the points raised today in the debate and more generally on this issue. Government-led culling and the vaccination of badgers are both appropriate strategies to pursue the eradication of bovine TB in Wales, which is why the Order confers powers to carry out both. Culling removes infection through the removal of infected animals, while vaccination protects uninfected animals from becoming infected, so each will be necessary to pursue the eradication of bovine TB in Wales. Vaccination will not benefit already infected badgers, and any benefits in reduced cattle herd breakdowns are not expected to be evident through badger vaccination alone for several years—not until infected badgers have died. Studies have identified that culling badgers can have a positive—

month, these steps were recognised by the European Commission in its recommendation to approve the United Kingdom's bovine TB eradication programme together with financial support for us. The majority of the programme to eradicate TB relates to the problem of cattle spreading the disease, and I have already informed you of the steps being taken with those policies. For instance, improvements have been made in the time taken to remove infected cattle from farms, in the testing of all cattle herds in Wales by the end of December, and in testing them once more next year. In addition, within this year, we have reduced the number of late tests by more than 98 per cent and have started to develop initiatives on a regional level, such as the north Wales regional TB eradication board in the Wrexham area.

Mae'n bwysig i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r dystiolaeth yr wyf wedi'i hystyried a'r cyfiawnhad dros unrhyw weithredu yn erbyn moch daear. Mae'r holl gyngor gwyddonol a'r cyngor ar fodelu a gyflwynwyd imi, ynghyd â'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn sydd dan sylw heddiw, ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

Yn awr rhoddaf sylw i rai o'r pwyntiau a godwyd yn y ddadl heddiw ac yn fwy cyffredinol ar y mater hwn. Mae rhaglen ddifa a brechu moch daear dan arweiniad y Llywodraeth yn ddwy strategaeth briodol i'w defnyddio wrth geisio dileu TB gwartheg yng Nghymru, a dyna pam y mae'r Gorchymyn yn rhoi'r pwerau i weithredu'r ddwy. Mae difa'n dileu'r clefyd drwy ladd anifeiliaid sydd wedi'u heintio, ac y mae brechu'n amddiffyn anifeiliaid iach rhag cael eu heintio, felly, bydd y naill ddull a'r llall yn angenrheidiol i geisio dileu TB mewn gwartheg yng Nghymru. Ni fydd brechu o fantais i foch daear sydd eisoes wedi'u heintio, ac ni ddisgwylir gweld gostyngiad yn nifer y buchesi gwartheg sydd wedi'u heintio drwy frechu moch daear yn unig, am flynyddoedd lawer—wedi i'r moch daear heintus farw. Mae astudiaethau wedi dangos y gall difa moch daear gael effaith gadarnhaol—

**Lorraine Barrett:** You mentioned a moment

**Lorraine Barrett:** Soniech funud yn ôl am

ago the removal of infected badgers. With your proposed cull, how will you know that those that are caught are healthy or infected before they are killed?

4.00 p.m.

**Elin Jones:** You will know, Lorraine, from the advice that I sought, which led to this decision, that I commissioned modelling to show the implications for TB in cattle of a combined approach of badger cull and vaccination, by testing badgers on capture to decide whether to cull or to vaccinate. The modelling advice given to me showed an almost counterintuitive result, in that it clearly showed the combined cull/vaccination programme to be a high-risk strategy that could result in increased incidence of disease. Studies have identified that culling badgers can have a positive impact on the incidence of bovine TB. The first five years of the randomised badger cull trial in England, which led to the ISG report, showed an average 23 per cent reduction in confirmed cattle breakdowns, and an additional 54 per cent reduction in the two years following the trial. The randomised badger culling trials did not include measures to limit the disease in cattle, such as movement restrictions, and the ISG report said that badger culling can reduce rates of TB in cattle, but that there were practical problems in the delivery of a badger cull. The report outlined the criteria believed necessary for any badger cull to be successful and, consequently, any cull of badgers in Wales would not replicate the previous trials, but apply the lessons learned from them. Those lessons would include implementing strict control measures alongside badger culling, taking account of the benefits in geographical location and natural boundaries, and ensuring effective delivery, managed by Government and implemented by trained personnel. I give that assurance to Lorraine, as she raised that point in her contribution. Additionally, any area in which a cull is carried out would be significantly larger than the RBCT areas to maximise the benefits.

ladd moch daear sydd wedi'u heintio. Gyda'ch rhaglen ddifa arfaethedig, sut y byddwch yn gwybod a yw'r rhai sy'n cael eu dal yn rhai iach ynteu wedi'u heintio cyn iddynt gael eu lladd?

**Elin Jones:** Gwyddoch, Lorraine, o'r cyngor a geisiais, ac a arweiniodd at y penderfyniad hwn, fy mod wedi comisiynu proses fodelu i ddangos yr hyn y byddai dull cyfun o ddifa a brechu moch daear yn ei olygu i TB mewn gwartheg, drwy brofi moch daear ar ôl eu dal er mwyn penderfynu a ddylid eu difa ynteu eu brechu. Dangosodd y cyngor modelu imi ganlyniad a oedd yn groes i synnwyr bron, oherwydd dangosai'n glir fod y rhaglen o ddifa/brechu gyfun yn strategaeth mawr ei risg a fyddai'n gallu arwain at gynydd yn nifer yr achosion o'r clefyd. Mae astudiaethau wedi dangos y gall difa moch daear gael effaith gadarnhaol ar nifer yr achosion o TB gwartheg. Yn ystod pum mlynedd cyntaf yr hap-dreial o ddifa moch daear yn Lloegr, treial a arweiniodd at adroddiad y Grŵp Gwyddonol Annibynnol, gwelwyd, ar gyfartaledd, ostyngiad o 23 y cant yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg wedi'u cadarnhau, ynghyd â gostyngiad pellach o 54 y cant yn y ddwy flynedd ar ôl y treial. Nid oedd yr hap-dreialon difa moch daear yn cynnwys mesurau i gyfyngu'r clefyd mewn gwartheg, megis cyfyngiadau ar symud gwartheg, a dywedodd adroddiad y Grŵp Gwyddonol Annibynnol y gall difa moch daear ostwng cyfraddau TB mewn gwartheg, ond bod problemau ymarferol yn codi wrth weithredu rhaglen ddifa. Amlinellodd yr adroddiad y meini prawf y credid eu bod yn angenrheidiol er mwyn i raglen o ddifa moch daear fod yn llwyddiannus, ac o'r herwydd ni fyddai rhaglen i ddifa moch daear yng Nghymru yn ailadrodd y treialon blaenorol, yn hytrach byddai'n defnyddio'r gwersi a ddysgwyd oddi wrthynt. Byddai'r gwersi hynny'n cynnwys gweithredu mesurau rheoli llym ochr yn ochr â difa moch daear, gan ystyried manteision lleoliad daearyddol a ffiniau naturiol, a chan sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni'n effeithiol, yn cael ei rheoli gan y Llywodraeth a'i gweithredu gan bobl wedi'u hyfforddi. Rhoddaf y sicrwydd hwnnw i Lorraine, gan iddi godi'r pwynt

hwnnw yn ei chyfraniad. Yn ogystal, byddai unrhyw ardal lle bydd y rhaglen ddifa lawer yn fwy o faint nag ardaloedd yr hap-dreialon difa moch daear er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl.

I would not want anyone listening to this debate to think that organic farming is somehow free of bovine TB. One of the most high-profile organic farms in Wales, the Harris family farm of Ffos-y-ficer, was subject to a devastating TB breakdown earlier this year, and there are other, large and small, organic and conventional farms that are subject to TB breakdowns.

The Order that the motion proposes to annul provides Welsh Ministers with legal powers in relation to bovine TB to manage a badger cull using prescribed methods and to vaccinate badgers where possible and appropriate in future. It also provides powers of entry for these purposes. The consultation on the Order ran for 14 weeks, which is longer than the standard Assembly Government consultation period. Of the 741 respondents who answered questions posed in the consultation, 50 per cent were against a badger cull alongside additional cattle restrictions, and 49 per cent were for the measure. Of those against the cull, 42 per cent were from outside the UK. Of the Welsh respondents, 85 per cent were in favour of a badger cull. Some 86 per cent of respondents to the consultation also agreed that a Government-led cull was the best option, and this included respondents who were against culling in principle.

The Order confers the necessary powers for a Government-led cull. A Government-led cull is better than simply issuing licenses under the Protection of Badgers Act 1992, which would permit individual farmers or landowners to destroy badgers. Those powers are already available to me, but I have decided that a Government-led cull is preferable. That is why this Order is necessary. It is preferable because it will deliver a sustained, co-ordinated and

Ni fyddwn am i neb sy'n gwranddo ar y ddadl hon feddwl nad yw TB mewn gwartheg yn effeithio ar ffermio organig. Cafodd un o ffermydd organig amlycaf Cymru, fferm y teulu Harris o Ffos-y-ficer, ei heintio'n ofnadwy â TB yn gynharach eleni, ac y mae ffermydd eraill, mawr a bach, yn organig a chonfensiynol sydd â'u buchesi wedi'u heintio â TB.

Mae'r Gorchymyn y bwriedir i'r cynnig ei ddirymu yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau cyfreithiol o safbwynt TB mewn gwartheg i reoli rhaglen o ddifa moch daear gan ddefnyddio dulliau wedi eu rhagnodi a brechu moch daear lle bynnag y bydd hynny'n bosibl ac yn briodol yn y dyfodol. Mae hefyd yn rhoi pwerau i fynd i mewn i safleoedd at y dibenion hyn. Parhaodd yr ymgynghoriad ar y Gorchymyn am gyfnod o 14 wythnos, sy'n hwy na chyfnod ymgynghori safonol Llywodraeth y Cynulliad. O'r 741 o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad, yr oedd 50 y cant yn erbyn rhaglen ddifa ochr yn ochr â chyfyngiadau ychwanegol ar wartheg, ac yr oedd 49 y cant o blaid y mesur. O'r rheini a oedd yn erbyn y rhaglen ddifa, yr oedd 42 y cant ohonynt o'r tu allan i'r DU. O'r ymatebwyr o Gymru, yr oedd 85 y cant o blaid rhaglen i ddifa moch daear. Yr oedd oddeutu 86 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hefyd yn cytuno mai rhaglen ddifa dan arweiniad y Llywodraeth oedd y dewis gorau, ac yr oedd y ffigur hwn yn cynnwys ymatebwyr a oedd yn erbyn egwyddor difa.

Mae'r Gorchymyn yn rhoi'r pwerau angenrheidiol ar gyfer rhaglen ddifa dan arweiniad y Llywodraeth. Mae rhaglen ddifa dan arweiniad y Llywodraeth yn well na mynd ati i gyflwyno trwyddedau dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992, a fyddai'n caniatáu i ffermwyr neu dirfeddianwyr unigol ddinistrio moch daear. Mae'r pwerau hynny eisoes ar gael imi, ond yr wyf wedi penderfynu mai rhaglen ddifa dan arweiniad y Llywodraeth fyddai orau. Dyna pam y mae

effective cull alongside additional cattle controls, and so result in a greater reduction of TB in cattle.

The legislation under discussion today is enabling legislation. I will be considering further ecological and logistical advice before taking a final decision on using this legislation to undertake a cull of badgers in north Pembrokeshire. I will continue to ensure that the Assembly is informed of progress with the 'One Wales' commitment to vigorously pursue the eradication of bovine TB in Wales. I am already committed to providing an annual update to the Rural Development Sub-committee on TB eradication, and in future, this will, of course, include an ongoing analysis of any cull undertaken in the intensive action pilot area.

I end by reminding everyone that this Order does not affect the status of badgers as a protected species under the Protection of Badgers Act 1992, and any illegal activity will be subject to prosecution by the police. I urge Members to reject this annulment Order.

**Peter Black:** I thank everyone who has contributed to this debate. In preparation for this debate, I received a letter from the Farmers Union of Wales, which suggested that this motion is the work of vegetarians and animal lovers—as if that was an insult. However, I am a committed carnivore and I do not find badgers particularly cuddly, but I object to a protected species being culled on the basis of inconclusive scientific evidence from a flawed pilot study.

Since we tabled this motion, I have been astounded, not by the number of e-mails and letters that I have received opposing the cull, but by the large number of correspondence from north Pembrokeshire and Ceredigion, mostly from landowners and people with livestock of their own or significant experience of managing cattle. The claimed

angen y Gorchymyn hwn. Dyna'r dewis gorau oherwydd bydd yn cynnig rhaglen ddifa gynaliadwy, gydgysylltiedig ac effeithiol ochr yn ochr â mesurau ychwanegol i reoli gwartheg, a bydd felly'n arwain at fwy o ostyngiad yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg.

Deddfwriaeth alluogi yw'r ddeddfwriaeth dan sylw heddiw. Byddaf yn ystyried cyngor logistaidd ac ecolegol pellach cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch defnyddio'r ddeddfwriaeth hon i gynnal rhaglen difa moch daear yng ngogledd sir Benfro. Byddaf yn parhau i sicrhau bod y Cynulliad yn cael gwybod am y cynnydd a wneir o ran yr ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i fynd ati'n egniol i ddileu TB mewn gwartheg yng Nghymru. Yr wyf eisoes wedi ymrwymo i ddarparu diweddariad blynyddol i'r Isbwyllgor Datblygu Gwledig ar ddileu TB, ac yn y dyfodol bydd hwn, wrth gwrs, yn cynnwys dadansoddiad parhaus o unrhyw raglen ddifa a gynhelir yn yr ardal beilot triniaeth ddwys.

Hoffwn gloi drwy atgoffa pawb nad yw'r Gorchymyn hwn yn effeithio ar statws moch daear fel rhywogaeth a warchodir dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992, ac y bydd yr heddlu'n erlyn am unrhyw weithgarwch anghyfreithlon. Anogaf yr Aelodau i wrthod y Gorchymyn dirymu hwn.

**Peter Black:** Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon. Wrth baratoi ar gyfer y ddadl hon, cefais lythyr gan Undeb Amaethwyr Cymru, a awgrymai mai gwaith llysiuwy'r ac addolwyr anifeiliaid yw'r cynnig hwn—fel pe bai hynny'n sarhad. Fodd bynnag, yr wyf yn fwytawr cig ymroddedig ac nid wyf yn credu bod moch daear yn bethau annwyl iawn, ond yr wyf yn gwrthwynebu difa rhywogaeth a warchodir ar sail tystiolaeth wyddonol amhendant o astudiaeth beilot wallus.

Ers inni gyflwyno'r cynnig hwn, yr wyf wedi fy syfrdanu, nid gan nifer y negeseuon e-bost a'r llythyrau yr wyf wedi eu cael yn gwrthwynebu'r difa, ond gan yr holl ohebiaeth o ogledd sir Benfro a Cheredigion, yn bennaf oddi wrth dirfeddianwyr a phobl sydd â da byw eu hunain neu sydd â phrofiad helaeth o reoli gwartheg. Mae'n amlwg nad

overwhelming support for this cull in the north Pembrokeshire area is clearly not as solid as claimed, with many residents concerned that the cull is taking place without clear scientific evidence to support it, that it threatens the integrity of the natural environment in which they live and that the legislation empowers Government agents to enter their land to carry out the cull without their consent.

I listened to Rhodri Glyn Thomas, Lesley Griffiths and the Minister argue that, if this legislation is approved, the cull could go ahead anyway by licensing individual farmers to carry it out. I find that hard to believe, because, in doing so, you would be opposing not only the will of the Assembly, but you would also not get the 100 per cent coverage that you require. You would probably be in breach of animal welfare regulations, and you would also leave yourself wide open to a judicial review. It seems that that is a red herring, which should not be taken into account.

Many have pointed out that badger culling is not cost-effective. The amount of cattle TB prevented by culling is miniscule compared with effective cattle controls. If you test and remove TB effectively from cattle, badger TB declines; that is a fact. It is also the case that culling has been tried elsewhere and abandoned. Even the Republic of Ireland is considering abandoning its cull, because although reduction in bovine TB rates in cattle has been evident, the rate of decline has been no better than in Northern Ireland, where effective management of herds and control has also had an impact.

On the basis of the same evidence available in England—

**Alun Davies** *rose*—

**Peter Black:** I am not taking an intervention. On the basis of the same evidence, a decision

yw'r gefnogaeth ysgubol honedig i'r rhaglen ddifa hon yng ngogledd sir Benfro mor gadarn ag yr honnir: mae nifer o'r trigolion yn pryderu bod y rhaglen ddifa'n mynd rhagddi heb dystiolaeth wyddonol glir i'w chefnogi, ei bod yn bygwth cyfanrwydd yr amgylchedd naturiol lle maent yn byw, a bod y ddeddfwriaeth yn rhoi pwerau i asiantwyr y Llywodraeth fynd ar eu tir i wneud y gwaith difa heb eu caniatâd.

Gwrandewais ar Rhodri Glyn Thomas, Lesley Griffiths a'r Gweinidog yn dadlau, os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chymeradwyo, y gallai'r difa fynd rhagddo pa un bynnag drwy drwyddedu ffermwyr unigol i'w wneud. Yr wyf yn ei chael yn anodd credu hynny oherwydd, drwy wneud hynny, byddech yn mynd yn groes i ewyllys y Cynulliad yn un peth. Ond yn ogystal ni fyddech yn gallu sicrhau bod y difa'n digwydd ar draws yr ardal gyfan, fel yr ydych am iddo ddigwydd. Mae'n debyg y byddech yn gweithredu'n groes i reoliadau lles anifeiliaid, a byddech hefyd yn eich gadael eich hun yn agored i adolygiad barnwrol. Mae'n ymddangos mai codi sgwarnogod yw hyn, ac ni ddylid cymryd sylw ohono.

Mae llawer wedi dweud nad yw difa moch daear yn gost-effeithiol. Bach iawn yw nifer yr achosion o TB mewn gwartheg sy'n cael eu hatal drwy ddifa o'i gymharu â mesurau effeithiol i reoli gwartheg. O brofi am TB a dileu'r clefyd yn effeithiol mewn gwartheg, mae nifer yr achosion o TB mewn moch daear yn gostwng; mae hynny'n ffaith. Mae hefyd yn wir bod difa wedi'i dreialu mewn mannau eraill ac y rhoddwyd y gorau iddo. Mae hyd yn oed Gweriniaeth Iwerddon yn ystyried rhoi'r gorau i'w rhaglen ddifa, oherwydd er bod gostyngiad wedi bod yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg, nid oedd cyfradd y gostyngiad hwnnw ddim gwell nag yng Ngogledd Iwerddon, lle mae gwaith rheoli buchesi a mesurau rheoli effeithiol hefyd wedi cael effaith.

Ar sail yr un dystiolaeth ag sydd ar gael yn Lloegr—

**Alun Davies** *a gododd*—

**Peter Black:** Nid wyf am gymryd ymyriad. Ar sail yr un dystiolaeth, gwnaed

has been taken not to have a cull in England. Why is it that two different Ministers can come to different conclusions when faced with the same facts? It is a matter that has also puzzled Dr Robbie McDonald, head of the wildlife and emerging disease programme at DEFRA's food and environmental research association. I understand that he is an adviser to the Welsh Government's TB eradication board, and he has stated publicly that culling badgers would make bovine TB worse and that farmers need to start backing the vaccination programme. In fact, new field trials in the Republic of Ireland to stop the spread of TB in cattle, by vaccinating badgers rather than exterminating them, is showing good results, according to reports that I have read in *The Irish Times*.

**Brynle Williams** *rose—*

**Peter Black:** The big increase in bovine TB in Wales came following restocking after the foot and mouth outbreak, which we must acknowledge. However, although there has been a significant increase in the numbers of infected cattle identified, the incidence of bovine TB in cattle is not rising, does not reflect on, and is therefore probably independent of, the situation among badgers. A cull of badgers is unlikely to yield long-term benefits. If there is any impact on bovine TB in cattle, it is likely to be adverse due to the disturbance of the badger population that a cull would produce. It is possible that the outcome will be a small wide-ranging population of badgers infected with bovine TB.

The Minister and others make a good case with regards to the cost to the Welsh Government of bovine TB in cattle. However, in recent years, the number of cattle tested has risen from around 600,000 in 2002 to over 1.4 million in 2008. There is no more TB in cattle today than there was in 2002, just a gingered-up system for detecting it.

4.10 p.m.

The rise in overall costs is explained entirely by changes in husbandry and testing, and it

penderyniad i beidio â difa yn Lloegr. Sut y gall dau Weinidog gwahanol ddod i gasgliadau gwahanol a hwythau wedi cael yr un ffeithiau? Mae'n fater sydd wedi peri dryswch i Dr Robbie McDonald hefyd, pennaeth y rhaglen bywyd gwyllt a chlefydau sy'n datblygu yng nghymdeithas ymchwil amgylcheddol a bwyd DEFRA. Deallaf ei fod yn gynghorydd i fwrdd dileu TB Llywodraeth Cymru, a'i fod wedi dweud yn gyhoeddus y byddai difa moch daear yn gwaethygu problem TB mewn gwartheg a bod angen i ffermwyr ddechrau cefnogi'r rhaglen frechu. Yn wir, yn ôl adroddiadau a ddarllenais yn *The Irish Times*, mae treialon maes newydd yng Ngweriniaeth Iwerddon i atal TB rhag ymledu ymhlith gwartheg, drwy frechu moch daear, yn hytrach na'u difa, yn dangos canlyniadau da.

**Brynle Williams** *a gododd—*

**Peter Black:** Gwelwyd y cynnydd mawr mewn TB yng Nghymru yn dilyn ailstocio ar ôl yr achosion o glwy'r traed a'r genau, a rhaid inni gydnabod hynny. Fodd bynnag, er bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y gwartheg heintus a nodwyd, nid yw amllder TB mewn gwartheg yn codi, nid yw'n adlewyrchu'r sefyllfa ymysg moch daear, ac y mae'n debygol felly ei fod yn annibynnol ar y sefyllfa honno. Nid yw rhaglen o ddifa moch daear yn debygol o sicrhau manteision hirdymor. Os bydd unrhyw effaith ar TB mewn gwartheg, mae'n debygol o fod yn effaith andwyol oherwydd y modd y byddai'r rhaglen ddifa yn aflonyddu ar y boblogaeth moch daear. Mae'n bosibl mai'r canlyniad fydd poblogaeth fach ac eang o foch daear wedi'u heintio â TB.

Mae'r Gweinidog ac eraill yn cyflwyno dadl dda ynghylch cost TB mewn gwartheg i Lywodraeth Cymru. Er hynny, dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y gwartheg a brofwyd wedi codi o oddeutu 600,000 yn 2002 i dros 1.4 miliwn yn 2008. Nid yw TB mewn gwartheg yn fwy cyffredin heddiw nag yr oedd yn 2002, dim ond bod gennym system fwy trylwyr ar gyfer ei ddarganfod.

Newidiadau mewn hwsmonaeth a phrofi sydd i gyfrif am y cynnydd yn y costau

has not been influenced by changes in the prevalence of bovine TB. In the belief that the disease is out of control, a decision has been taken to slaughter all inconclusive reactors immediately. In 2008, 230 inconclusive testers were sent to slaughter. Halfway through the current year, over 800 have already been sent to slaughter. Over this year, there will be at least a fivefold increase on the previous year. I do not know whether badgers infect cattle with bovine TB—no-one does. The data is insufficient and/or contradictory. There is no doubt that the baseline of infection in badgers is relatively high, but given that the trend in cattle is downwards, those figures cannot support a hypothesis that badger-to-cattle transmission occurs to any significant degree. In other words, the whole foundation of the case for the cull is undermined.

The last significant point that I want to make is to do with the geography of the cull area. It has been made already, but it is worth repeating that, apart from the sea, there are no hard boundaries that will prevent perturbation and infection in adjoining areas. The fact is that substantial reductions in cattle TB incidence could be achieved by improving cattle-based control measures. I welcome the measures that the Minister is introducing in this regard. Such measures include introducing more thorough controls on cattle movements through zoning or herd attestation; the strategic use of testing in both routine and pre-movement testing; quarantine of purchase cattle; shorter testing intervals; careful attention to breakdowns in areas that are currently at low risk; and whole herd slaughter for chronically affected herds. In my view, and that of many others, the Minister needs to apply all of these measures thoroughly and uniformly before even considering culling a protected species. She must explore vaccination as an alternative. If it is considered to be cumbersome, surely so must be the trapping, shooting and incineration of badgers.

cyffredinol, nid newidiadau yn nifer yr achosion o TB. Gan gredu bod y clefyd wedi mynd yn rhemp, gwnaed penderfyniad i ladd pob anifail sydd wedi adweithio'n amhendant i'r prawf TB ar unwaith. Yn 2008, anfonwyd 230 o wartheg a adweithiodd yn amhendant i'r prawf i'w lladd. Hanner ffordd drwy'r flwyddyn bresennol, mae dros 800 eisoes wedi eu hanfon i'w lladd. Yn ystod y flwyddyn hon, bydd o leiaf bum gwaith yn fwy o wartheg yn cael eu lladd na'r flwyddyn flaenorol. Wn i ddim a yw moch daear yn heintio gwartheg â TB—ni wŷr neb. Mae'r data'n annigonol a/neu'n anghyson. Nid oes dim amheuaeth nad yw llinell sylfaen yr haint mewn moch daear yn gymharol uchel, ond o ystyried bod y duedd ar i lawr mewn gwartheg, ni all y ffigurau hynny gefnogi damcaniaeth fod moch daear yn trosglwyddo'r haint i wartheg i raddau sylweddol. Mewn geiriau eraill, caiff holl sylfaen y ddadl dros y rhaglen ddifa ei thanseilio.

Mae fy mhwynt pwysig diwethaf yn ymwneud â daearyddiaeth ardal y difa. Fe'i pennwyd eisoes, ond y mae'n werth ailadrodd nad oes, heblaw am y môr, ffiniau pendant a fydd yn atal y rhaglen rhag aflonyddu ar foch daear mewn ardaloedd cyfagos gan heintio'r ardaloedd hynny. Y ffaith yw y gellid sicrhau gostyngiadau sylweddol yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg drwy wella mesurau rheoli gwartheg. Croesawaf y mesurau y mae'r Gweinidog yn eu cyflwyno i'r perwyl hwn. Mae mesurau o'r fath yn cynnwys cyflwyno mesurau rheoli mwy trylwyr ar symud gwartheg drwy ddynodi parthau neu ardstio buchesi; defnyddio profion yn strategol gyda phrofion rheolaidd a phrofion cyn symud; rhoi gwartheg sy'n cael eu prynu mewn cwarantyn; llai o fwelch rhwng profion; sylw gofalus i achosion a gadarnhawyd mewn ardaloedd lle nad yw TB yn gyffredin ar hyn o bryd; a lladd buches gyfan os yw'r clefyd yn effeithio ar y fuches honno drwy'r amser. Yn fy marn i, ac ym marn llawer o bobl eraill, mae angen i'r Gweinidog weithredu'r holl fesurau hyn yn drylwyr ac yn gyson cyn hyd yn oed ystyried difa rhywogaeth a warchodir. Rhaid iddi bwysu a mesur brechu fel dewis amgen. Os ystyrir bod hynny'n drafferthus, onid yw dal moch daear mewn maglau, eu saethu a'u llosgi hefyd yn



drafferthus?.

The proposed cull of badgers in north Pembrokeshire is inhumane, unnecessary and based on inconclusive and dubious evidence. The proposed trial is not only unscientific; it will prove difficult to evaluate, because of the other control measures being taken. It will be impossible to properly assess the impact of the cull as a stand-alone measure. It is also my view that taking this action will bring the Assembly into disrepute. Once more, policy is being dictated by a significant lobby group in contradiction to the evidence. By tabling this motion today, a few of us hope that reason will prevail, and that this cull is halted to give other measures longer to take effect. I know that party whips have been at work, but I would ask those Assembly Members who have a conscience in this matter to exercise their vote accordingly and to vote in favour of annulling this legislation.

Mae'r rhaglen arfaethedig o ddifa moch daear yng ngogledd sir Benfro yn greulon, yn ddiangen ac yn seiliedig ar dystiolaeth amhendant ac amheus. Nid yn unig y mae'r treial arfaethedig yn anwyddonol; bydd yn anodd ei werthuso oherwydd defnyddir mesurau rheoli eraill hefyd. Bydd yn amhosibl asesu effaith y difa'n briodol fel mesur annibynnol. Yr wyf hefyd o'r farn y bydd gweithredu fel hyn yn dwyn anfri ar y Cynulliad. Unwaith eto, y mae'r polisi'n cael ei lywio gan grŵp lobiö sylweddol yn groes i'r dystiolaeth. Drwy gyflwyno'r cynnig hwn heddiw, mae rhai ohonom yn gobeithio y bydd synnwyr yn drech, ac y caiff y rhaglen ddifa hon ei hatal er mwyn rhoi mwy o amser i fesurau eraill gael effaith. Gwn fod chwipiaid y pleidiau wedi bod wrth eu gwaith, ond byddwn yn gofyn i'r Aelodau Cynulliad hynny sydd â chydwybod yn y mater hwn fwrw eu pleidlais yn unol â hynny a phleidleisio o blaid dirymu'r ddeddfwriaeth hon.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

**The Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, the vote will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.  
Vote deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.13 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.13 p.m.*

### **Adroddiad yr Is-bwyllgor Darlledu ar y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru**

#### **The Broadcasting Sub-committee's Report on the Welsh Newspaper Industry**

**David Lloyd:** Cynigiaf fod

**David Lloyd:** I move that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*the National Assembly for Wales:*

*yn nodi adroddiad yr Is-bwyllgor Darlledu, 'Y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2009. (NDM4316)*

*notes the report of the Broadcasting Sub-committee, 'The Welsh Newspaper Industry', which was laid in the Table Office on 17 June 2009. (NDM4316)*

Pleser yw agor y ddadl hon fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Darlledu. Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cynulliad heddiw, hoffwn ddechrau drwy ddiolch i holl aelodau'r is-

As Chair of the Broadcasting Sub-committee, it is a pleasure to open this debate. In presenting this report to the Assembly today, I want to start by thanking all members of the

bwyllgor, sydd bellach wedi'i ddiddymu, am eu gwaith drwy gydol yr ymchwiliad, a diolch yn arbennig i'm cyfaill, Nerys Evans, Cadeirydd gwreiddiol yr is-bwyllgor. Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant am eu hadroddiad cysylltiedig ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, ac i'n tîm clerico a'r cynghorwr arbenigol am ein cynorthwyo â'n gwaith. Yr wyf yn hynod ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth yn ystod ein hymchwiliad. Galluogodd hynny ni i glywed gan amrywiaeth o dystion allweddol o'r byd papurau newydd. Llwyddodd eu sylwadau i'n perswadio o ddifrifoldeb a maint yr argyfwng sy'n wynebu'r diwydiant papurau newydd, ac fe'n harweiniwyd yn sgîl hynny i ystyried atebion eithaf radical.

Mae hwn yn gyfnod anodd ac yn gyfnod o newid i'r diwydiant papurau newydd, gyda'r cyhoedd yn gallu cael mwy a mwy o newyddion a gwybodaeth drwy amryw o ddulliau. Eto, mae gan bapurau newydd lleol gyfraniad hanfodol i'w wneud er mwyn darparu newyddion sy'n adlewyrchu'n benodol yr hyn sy'n digwydd mewn cymunedau lleol, a hynny mewn ffordd nad yw'r papurau newydd cenedlaethol Prydeinig a chyfryngau eraill yn gallu'i hefelychu.

Dim ond fis diwethaf, wrth i ni drafod adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, soniais wrth yr Aelodau am fy mhrofiad o deithio'n rheolaidd ar y bws plÿg yma yng Nghaerdydd, gan ddarllen y papur newydd *Metro*—sy'n rhad ac am ddim, wrth gwrs—a hynny heb ddod o hyd i unrhyw gyfeiriad at Gymru. Mewn gwirionedd, mae tua 85 y cant o bobl Cymru yn darllen papurau newydd nad ydynt yn cael eu hysgrifennu na'u cynhyrchu yng Nghymru, ac, yn anffodus, ychydig o wybodaeth y rhydd hynny i bobl Cymru am yr hyn sy'n digwydd yma. Gwaetha'r modd, nid yw gwasg brintiedig genedlaethol y Deyrnas Unedig yn gwasanaethu dinasyddion Cymru'n dda o bell ffordd. Bydd angen ichi chwilio'n ddyfal i ddod o hyd i newyddion am wleidyddiaeth Cymru ym mhrif bapurau newydd y Deyrnas Unedig.

Dyna paham fod papurau newydd lleol mor

sub-committee, which has now been dissolved, for their work throughout the inquiry, and especially to my colleague, Nerys Evans, the original Chair of the sub-committee. I also wish to thank the members of the Communities and Culture Committee for their related report on public service broadcasting in Wales, and to the clerking team and our expert advisers for assisting us in our work. I am extremely grateful to everyone who gave evidence during our inquiry. That enabled us to hear from a range of key witnesses from the newspaper industry. Their insights succeeded in persuading us of the severity and depth of the crisis facing the newspaper industry, which led us to consider some quite radical solutions.

This is a difficult period and a time of great change for the newspaper industry, with the public able to receive more and more news and information through diverse means. Yet, local newspapers have an essential contribution to make in order to provide news that reflects specifically what happens in local communities in a way that national British newspapers and other media cannot emulate.

Only last month, during discussions in the Communities and Culture Committee on public service broadcasting in Wales, I told Members of my experience of travelling regularly on the bendy bus here in Cardiff, reading the *Metro* newspaper—which is free, of course—where I was unable to find any reference to Wales. In fact, around 85 per cent of the people of Wales read newspapers which are not written or produced in Wales, and which, unfortunately, give little information to the people of Wales about what is happening here. Sadly, the citizens of Wales are not well served by the national print media of the United Kingdom. You need to search high and low to find news about Welsh politics in the main UK newspapers.

That is why local newspapers are so vital in

hanfodol yng Nghymru. Fel gwleidyddion, credaf y byddem oll yn cytuno nad ydym, ar adegau, yn rhy hoff o'r hyn y bydd gan newyddiadurwyr unigol i'w ddweud, ond cydnabyddwn bod angen cyfryngau addas i roi gwybod i bobl Cymru am y penderfyniadau gwleidyddol sy'n cael eu gwneud yma ac mewn ardaloedd lleol, gan fod y penderfyniadau hynny'n effeithio ar ein bywydau o dydd i dydd. Felly, mae papurau newydd lleol Cymru'n allweddol, ac mae diogelu newyddiaduraeth wreiddiol a lleol o fudd i ni i gyd. Dyna paham ei fod hefyd yn bwysig diogelu swyddi newyddiadurwyr sy'n gweithio ar lawr gwlad.

Yr oeddwn felly yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn bositif i bedwar argymhelliad ein hadroddiad. Croesawaf fod y Llywodraeth yn cydweld ei bod yn debygol y bydd gan waith partneriaeth gyfraniad pwysig i'w wneud er mwyn darparu gwasanaeth newyddion effeithiol i ddinasyddion Cymru. Byddwn hefyd yn croesawu diweddariad gan y Gweinidog ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i ddylanwadu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod modd asesu manteision partneriaethau o'r fath yng nghyd-destun anghenion democrataidd Cymru, ochr yn ochr â'r diffyg lluosogrwydd a allai ddeillio o'r partneriaethau hynny.

Croesawaf hefyd benderfyniad y Llywodraeth i dderbyn ein trydydd argymhelliad, sef

'Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu deialog â chwmnïau papurau newydd ac undebau i archwilio modd o gefnogi newyddiaduraeth Saesneg yng Nghymru.'

Yr wyf yn falch bod ymateb y Llywodraeth wedi cyfeirio at y ddeialog reolaidd sy'n mynd rhagddi â'r cwmnïau a'r undebau hynny, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi manylion, naill ai heddiw neu'n y dyfodol, ynghylch unrhyw gynlluniau penodol i gynorthwyo newyddiaduraeth drwy gyfrwng y Saesneg yng Nghymru, er enghraifft drwy grantiau neu gymorth i ddarparu hyfforddiant.

Wales. As politicians, I think we would all agree that there are times when we are not too happy with what individual journalists have to say, but we recognise that appropriate media are needed to inform the people of Wales of the political decisions made here and in local areas because those decisions affect our daily lives. Therefore, the local newspapers of Wales are crucial, and protecting original and local journalism is in everyone's interest. That is why it is also important to safeguard the jobs of journalists who work on the ground.

I was therefore pleased that the Government of Wales had responded positively to four of the recommendations in our report. I welcome the fact that the Government agrees that partnership working is likely to make an important contribution in providing an effective news service to the citizens of Wales. I would also welcome an update from the Minister regarding what the Welsh Government is doing to influence the UK Government to ensure that the benefits of such partnerships can be assessed in the context of Wales's democratic needs, alongside the lack of plurality that could stem from those partnerships.

I also welcome the Government's decision to accept our third recommendations, namely

'The Welsh Assembly Government should establish a dialogue with newspaper companies and unions to explore means of supporting English language journalism in Wales.'

I am pleased that the Government's response has referred to the ongoing dialogue with those companies and unions, but I should be grateful if the Minister could provide details, either today or in the future, of any specific plans to support English language journalism in Wales, for example, by means of grants or support to provide for training.

Yn olaf, yr wyf yn falch bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i feithrin dull strategol o hysbysebu, a'i bod wedi datgan parodrwydd i adolygu ei phrosesau ar gyfer roi hysbysiadau cyhoeddus yn y wasg leol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ganlyniadau'r adolygiad hwn pan gaiff ei gwblhau. Credaf fod llawer i'w groesawu yn ymateb ystyriol y Gweinidog a Llywodraeth y Cynulliad i'n hadroddiad. Fodd bynnag, fel erioed, y manylion sy'n cyfrif, ac edrychaf ymlaen at glywed rhagor am gynnydd y Llywodraeth wrth roi ein hargymhellion ar waith. Gyda hynny, hoffwn ddiolch drachefn i bawb a gyfrannodd at y gwaith o lunio'r adroddiad hwn. Edrychaf ymlaen at y ddadl y prynhawn yma.

**Alun Ffred Jones:** Croesawaf y cyfle i gyfrannu i'r ddadl heddiw. Mae'n amserol iawn ein bod yn cael cyfle i drafod y materion hyn, wrth ystyried y drafodaeth sylweddol sydd wedi bod ar faterion yn ymwneud â phapurau newydd dros y misoedd diwethaf.

Mae perygl i fy araith ailadrodd araith Dai Lloyd, gan ein bod oll yn cydnabod bod problem ddifrifol yn ein wynebu cyn belled â bo papurau newydd a newyddiaduraeth yng Nghymru yn bod, yn arbennig, efallai, newyddiaduraeth Saesneg, er nad yw'r sefyllfa o ran newyddiaduraeth yn y Gymraeg yn olau iawn ychwaith. Yr hyn sy'n anoddach yw i ddarganfod atebion i'r problemau hynny. Yn y lle cyntaf hoffwn ddiolch i Dai fel Cadeirydd yr is-bwyllgor, ynghyd â'r Aelodau a swyddogion, am y gwaith a gyflawnwyd. Nid yw'n fwriad gennyf heddiw ailadrodd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad yr is-bwyllgor nac ychwaith ein tystiolaeth a gyflwynwyd i'r is-bwyllgor. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw at rhai agweddau o'n hymateb.

4.20 p.m.

Gwnaethom dderbyn tri o'r argymhellion a'r llall yn rhannol. Mae hynny'n arwydd amlwg bod cytundeb ar y meysydd sydd dan sylw. Fel y gwyddoch, cafwyd trafodaeth yma dair wythnos yn ôl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Ddarlledu

Finally, I am pleased that the Government is committed to adopting a strategic approach to advertising, and that it is prepared to review its processes for placing notices in the local press. I should be grateful if the Minister could give us an update on the outcomes of this review when it is completed. I believe there is a great deal to be welcomed in the measured response by the Minister and the Assembly Government to our report. However, as ever, the devil is in the detail, and I look forward to hearing more about the Government's progress in implementing our recommendations. With that, I should like once again to thank everyone who contributed to the production of this report. I look forward to the debate this afternoon.

**Alun Ffred Jones:** I welcome the opportunity to contribute to today's debate. It is timely that we should have an opportunity to discuss these matters, considering the substantial discussions on matters relating to newspapers over recent months.

There is a danger that my speech will repeat that made by Dai Lloyd, as we all recognise that we face a serious problem as far as newspapers and journalism in Wales are concerned, particularly, perhaps, journalism in English, although the situation with regard to journalism in the Welsh language is not that bright either. What is more difficult is finding answers to those problems. In the first place, I should like to thank Dai, as Chair of the sub-committee, and the Members and officials for their work. I do not wish to repeat the Government response to the sub-committee report, or the evidence which we presented to the sub-committee. However, I should like to draw attention to some aspects of our response.

We accepted three of the recommendations in full and the other in part. That is a sure sign that there is agreement on the areas in question. As you know, we had a discussion here three weeks ago on the Communities and Culture Committee report on public

Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru. Bryd hynny, cyfeiriais at bwysigrwydd amrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau darlledu yng Nghymru, ac mae'r un dadleuon yn wir o ran y diwydiant papurau newydd. Pwysleisiaf bwysigrwydd sicrhau amrywiaeth newyddion yng Nghymru er mwyn sicrhau democratiaeth deg a diwallu anghenion darllenwyr.

Fel y mae adroddiad yr is-bwyllgor yn pwysleisio, nid yw cyfryngau print y Deyrnas Unedig yn rhoi gwasanaeth da iawn i ddinasyddion Cymru. Gwnaeth Dai y pwynt bod yn rhaid i chi edrych yn fanwl iawn i ddod o hyd i newyddion am wleidyddiaeth Cymru, neu hyd yn oed straeon am Gymru, ym mhhrif bapurau newydd y DU. Yn wir, yn amlach na pheidio nid oes un cyfeiriad at Gymru neu stori am Gymru yn y papurau hynny.

Mae Cymru, wrth gwrs, mewn sefyllfa unigryw gan mai canran isel o'r boblogaeth sy'n darllen papurau newydd sydd yn adrodd straeon am Gymru. Mae hyn ond yn tanlinellu rôl allweddol y gwasanaethau newyddion rhanbarthol. Mewn cyd-destun Cymreig, mae'r *Western Mail*, y *Daily Post* a theitlau lleol wedi gwneud cyfraniad pwysig o ran sicrhau bod dinasyddion Cymru yn gallu darllen am y penderfyniadau a'r digwyddiadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd. Nid oes modd cael papurau newydd heb newyddiadurwyr ac felly siom o'r mwyaf oedd clywed, yn ystod y flwyddyn diwethaf, am golli swyddi mewn nifer o swyddfeydd papurau newydd. Mae nifer o bapurau lleol dan fygythiad, ac mae rhai wedi diflannu. Y prif reswm am hyn yw'r gostyngiad mewn refeniw hysbysebu, yn bennaf oherwydd bod mwy o hysbysebu ar y we. Ynghyd ag arwain at golli swyddi golygyddol, yr oedd y newyddion am gau swyddfeydd yn ergyd amlwg i'r cymunedau hynny.

**Jenny Randerson:** Are you aware that the newspapers of Trinity Mirror, which is the major newspaper owner in Wales, remain profitable despite the decline in advertising revenue? Its dire financial situation results from the fact that the parent company also owns a number of websites that it took over some years ago, which have not been

service broadcasting in Wales. At that time, I referred to the importance of variety in providing broadcast services in Wales, and the same argument applies to the newspaper industry. I stress the importance of ensuring variety in news in Wales in order to ensure a fair democracy and to satisfy the needs of readers.

As the sub-committee report emphasises, the UK print media do not provide a good service for Welsh citizens. Dai made the point that you have to look very hard to find any news about Welsh politics, or even stories about Wales, in the UK's leading newspapers. Indeed, more often than not, there is no reference at all to Wales or any stories about Wales in those newspapers.

Wales is in a unique situation, of course, because a small percentage of the population reads newspapers that report stories about Wales. That only underlines the key role of regional news services. In a Welsh context, the *Western Mail*, *Daily Post* and local titles have made an important contribution to ensuring that Welsh citizens can read about the decisions and events that affect their daily lives. You cannot have newspapers without journalists, and therefore it was extremely disappointing, during the past year, to hear of job losses in several newspaper offices. Several local newspapers are under threat, and some have disappeared. The main reason for this is the decrease in advertising revenue, largely because more advertising is done on the internet. Along with the loss of editorial jobs, the news of office closures is an obvious blow to those communities.

**Jenny Randerson:** A ydych yn ymwybodol fod papurau newydd Trinity Mirror, sef y prif berchennog papurau newydd yng Nghymru, yn parhau i wneud elw er gwaethaf y gostyngiad mewn refeniw hysbysebu? Mae ei sefyllfa ariannol arswydus yn deillio o'r ffaith fod y rhiant-gwmni hefyd yn berchen ar nifer o wefannau a gymerwyd drosodd

profitable—they are to do with recruitment. I am assured that Trinity Mirror owes well over £200 million and has a large hole in its pension fund, so the problems go well beyond the newspapers themselves—the problems go back to the parent company, and that is what threatens our press in Wales at the moment.

**Alun Ffred Jones:** This is not a localised problem, although I accept that the Trinity Mirror papers in Wales have been very profitable until recently, and they are still profitable. It was interesting that, in discussions that I have had with independent owners of local papers, they took a less pessimistic view of the situation. They are under pressure, but because they do not have the added pressures that you referred to, they can soldier on. Whether they can prosper in the future is another matter, but the point that you make is well made, and I fully accept it.

Fel y gwyddoch nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb uniongyrchol mewn perthynas â'r diwydiant papurau newyddion yng Nghymru. Ar y llaw arall, nid oes modd i ni anwybyddu'r sefyllfa sy'n datblygu, gan ei bod â chymaint o ardrawiad ar ein gwaith ni ac ar gymunedau lleol ledled Cymru.

Cyfeiriasoch at y ffaith fy mod wedi cadw mewn cyswllt â grwpiau; yr wyf wedi bod yn ymweld â Media Wales yn gyson, ac yr wyf wedi cyfarfod yn uniongyrchol gyda nifer o sefydliadau eraill, grwpiau sy'n berchnogion ar bapurau lleol ac unigolion a gyflwynodd dystiolaeth i'r is-bwyllgor, gan gynnwys yr NUJ. Bûm yn ymweld â swyddfeydd Media Wales i weld sut y mae'r cwmni wedi ceisio addasu i'r sefyllfa newydd sy'n datblygu.

Nid yw Cymru yn wahanol i weddill y byd. Mae adroddiad diweddar gan yr Audit Bureau of Circulations yn yr Unol Daleithiau yn dangos bod gwerthiant papurau newydd, ar gyfartaledd, wedi gostwng o 11 y cant rhwng Ebrill a Medi 2008, gydag ambell ostyngiad gymaint â 22 y cant. Yn ddiau, effaith y dechnoleg newydd yw'r prif reswm am hyn.

ganddo rai blynyddoedd yn ôl ac nad ydynt wedi bod yn gwneud elw—maent yn ymwneud â recriwtio. Cefais sicrwydd fod gan Trinity Mirror ddyled ymhell dros £200 miliwn a bod ganddo dwll mawr yn ei gronfa bensiw, ac y mae'r problemau felly'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r papurau newydd eu hunain—mae'r problemau'n deillio o'r rhiant-gwmni, a dyna sy'n bygwth ein gwastg yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Alun Ffred Jones:** Nid problem leol yw hon, er fy mod yn derbyn bod papurau newydd Trinity Mirror yng Nghymru wedi bod yn gwneud elw da tan yn ddiweddar, ac yn dal i wneud elw. Yr oedd yn ddi-ddorol clywed yn ystod trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda pherchnogion annibynnol papurau lleol, fod eu barn hwy am y sefyllfa yn llai pesimistaidd. Maent dan bwysau, ond oherwydd nad oes arnynt y pwysau ychwanegol y cyfeiriedech atynt, maent yn gallu dal ati. Mater arall yw a fyddant yn gallu ffynnu yn y dyfodoll, ond y mae gennych bwynt da ac yr wyf yn ei dderbyn yn llwyr.

As you know, the Welsh Assembly Government has no direct responsibility in relation to the newspaper industry in Wales. However, we have grave concerns about the developing situation, because it has such an effect on our work and on local communities across Wales.

You referred to the fact that I have kept in touch with groups; I have visited Media Wales regularly, and I have met with many other establishments, groups that own local newspapers and individuals who presented evidence to the sub-committee, including the NUJ. I also visited the Media Wales offices to see how the company has tried to adapt to the new situation that is developing.

Wales is no different from the rest of the world. A recent report by the Audit Bureau of Circulations in the USA shows that sales of newspapers, on average, declined by 11 per cent between April and September 2008, with some sales declining by as much as 22 per cent. Doubtless, the effect of new technology is the main reason for this.

Yr oedd adroddiad diweddar gan PricewaterhouseCoopers yn nodi bod gwariant ar hysbysebu ar-lein yn uwch bellach na gwariant hysbysebu ar y teledu ym Mhrydain am y tro cyntaf erioed. Mae'r holl ffactorau hyn yn dylanwadu ar y sefyllfa.

A recent report from PricewaterhouseCoopers noted that expenditure on online advertising was greater than expenditure on television advertising in Britain for the first time ever. All these factors influence the situation.

Fel y gwyddoch, mae'r Llywodraeth, drwy Gyngor Llyfrau Cymru, yn rhoi cymorth ariannol i gylchgronau Cymraeg drwy gyfrwng grant o £170,000. Yr ydym hefyd yn rhoi cymorth, drwy'r cyngor llyfrau, i'r gwasanaeth newyddion Cymraeg ar y we, sy'n gwireddu ymrwymiad yn 'Cymru'n Un'. Rhoddir £200,000 y flwyddyn i'r cwmni Golwg Newydd dros gyfnod 2008 i 2011. Mae hynny, yn sicr, yn gyfraniad tuag at ddatblygu newyddiaduraeth a darllenwyr newydd. Mae Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn cefnogi ysgrifennu Saesneg yng Nghymru; mae'n gwario tua £175,000 ar ariannu tri chylchgrawn.

As you know, the Welsh Assembly Government, through the Wales Books Council, provides financial support to Welsh-medium magazines in the form of a £170,000 grant. We also provide support, through the books council, to the on-line Welsh news service, which meets the commitment in 'One Wales'. To this end, £200,000 a year is allocated to the Golwg Newydd company for the period 2008 to 2011. This is certainly a contribution to developing journalism and new readers. The Wales Books Council also supports writing in English in Wales; it spends around £175,000 on funding three magazines.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno ag adroddiad yr is-bwyllgor bod cymorth yn y ddwy iaith yn hanfodol ar gyfer hyfforddi newyddiadurwyr, a rhoddir cryn sylw yn yr adroddiad at hyfforddi newyddiadurwyr. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am Gronfa Ddysgu Undebau Cymru, sef prosiect ar y cyd rhwng yr undebau sy'n gweithio ym myd y cyfryngau i hybu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr llawrydd. Mae'r prosiect yn werth tua £140,000 dros ddwy flynedd. Cewch ragor o fanylion am hynny gennyf yn ysgrifenedig maes o law.

The Assembly Government agrees with the sub-committees report that support in both languages is essential to train journalists, and considerable attention is given in the report to the training of journalists. The Assembly Government is responsible for the Wales Union Learning Fund, which is a project between the unions working in the media to promote the training of freelance workers. The project is worth £140,000 over two years. I shall give you further details about that in writing in due course.

Yr wyf yn ymwybodol o'r teimladau cryf sy'n bodoli yma ond y mae'n rhaid inni gydnabod bod y byd yn newid. Yr wyf yn bwriadu cynnal cyfarfod â Ben Bradshaw yn y dyfodol agos, yn bennaf i drafod darlledu ond hefyd byddaf yn codi'r materion hyn sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth newyddion y mae pobl Cymru yn ei chael. Fel y gwyddoch hefyd, y mae'r Athro Ian Hargreaves wedi ei gomisiynu i gynnal arolwg o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Yn naturiol, bydd nifer o faterion adroddiad yr is-bwyllgor yn cael eu hystyried ganddo.

I am aware of the strong feelings on this matter, but we must recognise that the world is changing. I intend to arrange a meeting with Ben Bradshaw in the near future, mainly to discuss broadcasting, but I will also raise with him issues relating to news provision for the People of Wales. As you are also aware, Professor Ian Hargreaves has been commissioned to undertake a review of the creative industries in Wales. Naturally, he will consider a number of issues raised by the sub-committee report.

Os ydym yn chwilio am atebion i'r sefyllfa, credaf y dylem ddisgwyl i atebion gael eu cynnig o'r diwydiant ei hun. Annoeth fyddai

If we are looking for solutions, I believe we should wait for the industry itself to provide the answers. It would be unwise to expect a

disgwyl i Lywodraeth ddod ag atebion gerbron. Mae'r sefyllfa'n newid ac y mae'n hyblyg iawn. Gwyddom fod angen gweithredu ond disgwylir gweld cynigion penodol yn dod gan y diwydiant ei hun a chredaf y bydd y darlun dros y blynyddoedd nesaf yn gwbl wahanol i'r darlun sy'n bodoli ar hyn o bryd. Ni chredaf mai amddiffyn y *status quo* yw'r ateb ond, yn hytrach, chwilio am gyfleoedd newydd.

**Alun Cairns:** I thank the Chairs for their support in the drafting of this document, as well as the clerks, the support staff, witnesses and so on.

There are four key recommendations in the report, which have been well received by the Welsh Assembly Government. The first one was partially accepted, and I understand that that is for good reasons, in terms of the intention. However, those issues were discussed at length by the sub-committee and I ask that the Assembly Government looks at that again in terms of trying to allow the sector and the industry itself to come up with innovative ways of solving this problem. I do not need to labour the importance of newspapers in disseminating information, and in education, particularly in Wales, given the relatively new political structures that need to be better understood by one and all.

4.30 p.m.

That comes in the context of falling circulations across the board. I do not think that there is one newspaper, other than perhaps *The Daily Telegraph*, that has increased its circulation over the past 12 months. This is in addition to the falling income resulting from the recession. So, we are facing a position in some communities of a sort of news vacuum in relation to some subjects. That is worrying in itself.

Taking today's BBC news website as a simple example, the top 10 news items now, and for much of the afternoon as I have looked through them, do not include one political item. I am not saying that politics is more interesting than anything else, but it shows the challenge we face in getting

Government to come up with answers. The situation is changing and is very flexible. We know that action needs to be taken, but we expect to see specific suggestions coming from the industry itself, and I think the picture over the next few years will be completely different from that which currently exists. I do not believe that protecting the status quo is the answer, but rather looking for new opportunities.

**Alun Cairns:** Hoffwn ddiolch i'r Cadeiryddion am eu cymorth wrth ddrafftio'r ddogfen hon, yn ogystal â'r clerod, y staff cynorthwyol, y tystion, ac yn y blaen.

Mae pedwar prif argymhelliad yn yr adroddiad, ac y maent wedi cael ymateb da gan Lywodraeth y Cynulliad. Derbyniwyd yr argymhelliad cyntaf yn rhannol, ac yr wyf yn deall bod hynny wedi'i wneud am resymau da, o ran y bwriad. Fodd bynnag, cafwyd cryn drafodaeth gan yr is-bwyllgor ar y materion hynny, a gofynnaf i Lywodraeth y Cynulliad ystyried unwaith eto y mater sy'n ymwneud â cheisio galluogi'r sector a'r diwydiant ei hun i ddod o hyd i ffyrdd arloesol i ddatrys y broblem hon. Nid oes angen imi rygnu ymlaen am bwysigrwydd papurau newydd o ran lledaenu gwybodaeth ac o ran addysg, yn enwedig yng Nghymru, o gofio'r strwythurau gwleidyddol gweddol newydd y mae angen i bawb eu deall yn well.

Daw hynny yng nghyd-destun cylchrediadau sy'n lleihau yn gyffredinol. Ni chredaf fod yr un papur newydd, ac eithrio'r *Daily Telegraph*, efallai, wedi cynyddu ei gylchrediad dros y 12 mis diwethaf. Mae hynny'n ychwanegol at leihad mewn incwm oherwydd y dirwasgiad. Yr ydym felly'n wynebu sefyllfa mewn rhai cymunedau lle mae rhyw fath o wacter o ran newyddion am rai pynciau. Mae hynny'n destun pryder ynddo'i hun.

O gymryd gwefan newyddion y BBC heddiw fel enghraifft syml, nid yw'r 10 prif eitem newyddion ar hyn o bryd, ac am y rhan fwyaf o'r prynhawn wrth imi edrych drwyddynt, yn cynnwys yr un eitem wleidyddol. Nid wyf yn dweud bod gwleidyddiaeth yn fwy diddorol na dim arall, ond y mae'n dangos yr her sy'n



politics covered and in recognising its relevance. It is sad to say that even the tragedy of five soldiers being killed in Afghanistan is not in the top 10 news items, measured by website hits, on the BBC news website today. There are, however, three celebrity-based items in the top 10 news items. That demonstrates a worrying trend in general.

So, this debate is not just about newspapers. The Minister rightly broadened it to cover subjects such as broadcasting, but I think that it goes even wider than that to the culture that we are creating and society. We need to work in partnership with newspapers to see whether we can re-engage community and society with the issues that really matter. That also means that the Assembly Government can use this difficulty with newspapers as an opportunity to encourage more people to embrace digital technology. I think that it is fair to say that the newspapers have done that. Many of the websites that have been referred to are presented and published by the newspapers. Media Wales is one example, which runs the WalesOnline website and [thisissouthwales.co.uk](http://thisissouthwales.co.uk) run by the *South Wales Evening Post* has also been mentioned, and I have no doubt that other regional and local newspapers have similar websites to promote them.

Most public sector organisations and a large number of private sector organisations advertise their jobs in newspapers. I think that there is a trend of moving away from newspapers to websites for that. If there is a co-ordinated approach across all Government departments, with more people being encouraged, while we have high unemployment, to go to the libraries to use websites, those people who have resisted until now who want to access job advertisements could do that through those websites in the libraries, helping to bridge that digital divide.

I want to spend my remaining time on

ein hwynebu i sicrhau bod gwleidyddiaeth yn cael sylw ac y cydnabyddir ei pherthnasedd. Trist yw nodi na chyrhaeddodd hyd yn oed y drasiedi bod pum milwr wedi'u lladd yn Affganistan y 10 prif eitem newyddion, a fesurir yn ôl nifer y bobl sydd wedi edrych arnynt, ar wefan newyddion y BBC heddiw. Fodd bynnag, ceir tair eitem am enwogion yn y 10 prif eitem newyddion. Mae hynny'n dangos tuedd sy'n peri pryder yn gyffredinol.

Nid yw'r ddadl hon felly'n ymwneud â phapurau newydd yn unig. Yr oedd y Gweinidog yn iawn i ehangu'r ddadl i gynnwys pynciau megis darlledu, ond credaf fod y mater yn ymestyn hyd yn oed yn ehangach na hynny i'r diwylliant yr ydym yn ei greu, a chymdeithas. Mae angen inni weithio ar y cyd â phapurau newydd i weld a allwn ailgynnau diddordeb y gymuned a chymdeithas yn y materion sy'n bwysig mewn gwirionedd. Mae hynny'n golygu hefyd y gall Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio'r anhawster hwn gyda phapurau newydd fel cyfle i annog rhagor o bobl i ddefnyddio technoleg ddigidol. Credaf ei bod yn deg dweud bod y papurau newydd wedi gwneud hynny. Caiff nifer o'r gwefannau y cyfeiriwyd atynt eu cyflwyno a'u cyhoeddi gan bapurau newydd. Un enghraifft yw Media Wales, sy'n cynnal gwefan WalesOnline, a soniwyd hefyd am [thisissouthwales.co.uk](http://thisissouthwales.co.uk) sy'n wefan a gaiff ei rhedeg gan y *South Wales Evening Post*, ac nid oes gennyf amheuaeth nad oes gan bapurau newydd rhanbarthol a lleol eraill wefannau tebyg i'w hyrwyddo.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, a nifer fawr o sefydliadau yn y sector preifat, yn hysbysebu eu swyddi mewn papurau newydd. Credaf fod tuedd i symud i ffwrdd oddi wrth bapurau newydd a thuag at wefannau ar gyfer hynny. O gael dull gweithredu cydlynol ar draws pob adran o'r Llywodraeth, a mwy o bobl yn cael eu hannog i fynd i'r llyfrgelloedd i ddefnyddio gwefannau tra bydd gennym lefelau uchel o ddiweithdra, gallai'r bobl hynny sydd wedi ymatal tan yn awr ac sydd am weld hysbysebion swyddi, wneud hynny trwy'r gwefannau hyn yn y llyfrgelloedd, gan helpu pontio'r rhaniad digidol.

Hoffwn dreulio gweddill fy amser yn sôn am

recommendation 4, which concerns a strategic approach to advertising. I think that this is essential. From reading the Welsh Assembly Government's response to the recommendation, I do not think that it has really understood the issues. It claims that it takes into account the most effective and efficient channels in reaching its target audience. I would seriously question that. The evidence to the sub-committee demonstrated that job adverts and public notices were placed in newspapers that were completely irrelevant to their target audiences. That needs to be considered in terms of value for money for the taxpayer, but also with regard to reaching the audience to communicate the message or encourage applications for jobs. The circulation of newspapers in certain areas needs to be taken into account. In Swansea, the *South Wales Evening Post* has the highest circulation of any newspaper in Wales, but—

**The Deputy Presiding Officer:** Please wind up.

**Alun Cairns:** I will. However, it gets next to no adverts from the Welsh Assembly Government and the Assembly Commission. We need to consider that to ensure all of the newspapers have a fair crack of the whip in line with the target audience.

**Joyce Watson:** It is not often that a Minister, in responding to a committee report, accepts or partially accepts all of its recommendations. However, I think that the Minister's response reflects the consensus view that we all want our local newspapers to survive and thrive in what is a very difficult market. As politicians, we often turn over the page of a local newspaper when we do not want to see it, but we rely on them to keep us up to date with news and events. Some Members made the point that local news is best when it is just that: local. The newspaper is still a hugely important forum and meeting point for the community, like the local shop or pub. It is a place where people can come together and talk about what is happening close to home. That is not just sentimentalism; it is important for local democracy and for a sense of community—and, crucially, people want to read it.

argymhelliad 4, sy'n ymwneud ag agwedd strategol at hysbysebu. Credaf fod hynny'n hanfodol. O ddarllen ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r argymhelliad, ni chredaf ei bod wedi deall y materion dan sylw yn iawn. Mae'n honni ei bod yn ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol ac effeithlon i gyrraedd ei chynulleidfa darged. Yr wyf yn amau hynny'n fawr. Yr oedd y dystiolaeth a roddwyd i'r is-bwyllgor yn dangos bod hysbysebion swyddi a hysbysiadau cyhoeddus yn cael eu rhoi mewn papurau newydd a oedd yn hollol amherthnasol i'w cynulleidfa darged. Mae angen ystyried hynny o ran gwerth am arian i'r trethdalwr, ond hefyd o ran cyrraedd y gynulleidfa i gyfleu'r neges neu annog pobl i ymgeisio am swyddi. Mae angen ystyried cylchrediad papurau newydd mewn rhai ardaloedd. Yn Abertawe, mae cylchrediad y *South Wales Evening Post* yn fwy na chylchrediad unrhyw bapur newydd arall yng Nghymru, ond—

**Y Dirprwy Lywydd:** A wnewch chi dynnu at y terfyn?

**Alun Cairns:** Gwnaf. Fodd bynnag, nid yw'n cael bron dim hysbysebion gan Lywodraeth y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad. Mae angen inni ystyried hynny er mwyn sicrhau bod pob un o'r papurau newydd yn cael cyfle teg yn unol â'r gynulleidfa darged.

**Joyce Watson:** Nid yn aml y bydd Gweinidog, wrth ymateb i adroddiad gan bwyllgor, yn derbyn ei holl argymhellion, neu'n eu derbyn yn rhannol. Fodd bynnag, credaf fod ymateb y Gweinidog yn adlewyrchu'r farn gyffredin fod pob un ohonom yn dymuno i'n papurau newydd lleol barhau a ffynnu mewn marchnad anodd iawn. Fel gwleidyddion, byddwn yn aml yn troi tudalen papur newydd pan na fyddwn am ei gweld, ond yr ydym yn dibynnu ar y papurau newydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am newyddion a digwyddiadau. Gwnaeth rhai Aelodau y pwynt fod newyddion lleol ar eu gorau pan fyddant yn newyddion lleol. Mae'r papur newydd yn dal yn fforwm ac yn fan cyfarfod hynod o bwysig i'r gymuned, yr un fath â'r siop neu'r dafarn leol. Mae'n fan lle gall pobl ddod at ei gilydd i siarad am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal hwy. Nid sentimentalïaeth yw hynny; mae'n bwysig i

ddemocratiaeth leol ac er mwyn creu ymdeimlad o gymuned—ac, yn hanfodol, fod pobl am ei ddarllen.

The story of one of my own local papers, the *Tenby Observer*, shows what can happen when a paper gets it right. In the late 1970s the paper was up against the wall, and in a bid to survive it tried to expand to become the *West Wales Observer*, reporting on news from across the region. When it was on the brink of collapse, Sir Ray Tindle of the Tindle group agreed to step in and save it. He said he would buy the paper if staff could get a copy of it done by the end of the week. However, when they agreed, he added that they had to throw out any story that was not about Tenby. The *Observer's* sales climbed from 3,700 to 7,000 over the next 25 years.

Mae hanes un o'm papurau lleol i, y *Tenby Observer*, yn dangos yr hyn a all ddigwydd pan fydd papur newydd yn gwneud pethau'n iawn. Ddiwedd yr 1970au, yr oedd y papur mewn trafferth, ac mewn ymgais i oroesi ceisiodd ehangu a'i alw ei hun yn *West Wales Observer*, gan roi sylw i newyddion ar draws y rhanbarth. Pan oedd yr hwch ar fin mynd trwy'r siop, cytunodd Syr Ray Tindle o grŵp papurau newydd Tindle i gamu i'r adwy ac achub y papur. Dywedodd y byddai'n prynu'r papur newydd os gallai'r staff gynhyrchu copi ohono erbyn diwedd yr wythnos. Fodd bynnag, ar ôl iddynt gytuno, ychwanegodd y byddai'n rhaid iddynt ddileu unrhyw stori nad oedd yn ymwneud â Dinbych-y-pysgod. Cynyddodd gwerthiant yr *Observer* o 3,700 i 7,000 dros y 25 mlynedd nesaf.

There will always be an appetite for local news, and I am pleased that both the sub-committee and the Government have recognised that.

Bydd galw am newyddion lleol bob amser, ac yr wyf yn falch bod yr is-bwyllgor a'r Llywodraeth wedi sylweddoli hynny.

**Eleanor Burnham:** Mae hwn yn gyfle imi ddweud gair byr, oherwydd mae'r mater hwn wedi bod yn fy mhryderu ers imi ddod i'r Cynulliad. Mae diffyg democratiaeth, sy'n cael ei adlewyrchu gan y sefyllfa fregus a monopolyddol sy'n bodoli yn y cyfryngau yng Nghymru. Yr wyf yn falch o weld bod y Gweinidog yn cytuno ag argymhellion yr is-bwyllgor. Fel y dywedodd y Cadeirydd, diolchaf i bawb a oedd yn ein cynorthwyo y tu hwnt i'r llenni.

**Eleanor Burnham:** This is an opportunity for me to say a brief word because I have been concerned about this matter since I came to the Assembly. There is a lack of democracy, reflected by the vulnerable and monopolistic situation that exists in the media in Wales. I am pleased to see that the Minister agrees with the sub-committee's recommendations. As the Chair said, I thank everyone who assisted us behind the scenes.

Yr wyf yn pryderu'n fawr mai'r unig adeg y mae pobl yn gwybod am Gymru yw pan fydd rhywbeth gwael yn digwydd. Yr ydym wedi clywed Anne Robinson, er enghraifft, yn siarad yn frwnt am bobl Cymru. Heblaw am hynny, pwy sy'n gwybod am Gymru?

I am extremely concerned that the only time people know about Wales is when something bad happens. We have heard Anne Robinson, for example, speaking disparagingly about the people of Wales. Apart from that, who knows about Wales?

Yr wyf yn mentora dynes alluog a phrofiadol o ogledd-ddwyrain Cymru, ac y cwestiwn cyntaf a ofynnais iddi pan ddaeth ataf oedd, 'Beth yr ydych yn ei wybod am Gymru?' Nid yw'n darllen dim am Gymru. Nid oeddwn eisiau ei beirniadu; dim ond eisiau gwybod faint yn union yr oedd yn ei wybod am Gymru yr oeddwn, oherwydd ei bod yn dod

I am mentoring an intelligent and experienced woman from north-east Wales, and the first question I asked her when she first approached me was, 'What do you know about Wales?' She reads nothing about Wales. I did not wish to criticise her; I only wanted to know exactly how much she knew about Wales because she had come here to be

yma i gael ei mentora ac i ddysgu am yr hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad. Cefais sioc, oherwydd nid yw'n gweld dim am Gymru ar y teledu, ac nid yw'n darllen dim am Gymru. Dyna'r hyn sy'n fy mhryderu, ac yr wyf yn falch bod y Gweinidog yn cymryd y materion hyn o ddifrif. Yr ydym mewn sefyllfa andros o ddifrifol. Mae pobl ifanc yn edrych ar y we, ac yr wyf yn falch o weld bod gwefan BBC Democracy Live wedi dechrau gweithredu ddoe, er fy mod mewn pwyllgor arall ac yn methu â gweld yn union yr hyn a oedd yn digwydd ar y pryd. Fodd bynnag, mae'r wefan yn beth da.

Yn y pen draw, mae cymhlethdod mawr ynglŷn â'r materion hyn. Yr ydym wedi cael gwerth ein harian drwy edrych ar y mater hwn oherwydd nid oedd yr un ohonom yn gwybod pa mor fregus oedd y sefyllfa. Os edrychwch ar lawer o'r papurau, gwelwch mai torri a gludo sy'n digwydd yn awr. Mae pob papur, bron, yn edrych yr un fath. Mae North Wales Newspapers Media Ltd yn gwneud gwaith da yn sir y Fflint ac yn Wrecsam. Dechreuasant weithredu yn sir Ddinbych, ond ni fu hynny'n llwyddiant. Fel y dywedodd Joyce, mae eisiau newyddion lleol; eto i gyd, mae'r cwmni'n gweithredu mewn ffordd hollol wahanol i Tindle Newspapers Ltd.

Crëodd Tindle Newspapers Ltd argraff arnaf. Yr oeddwn yn meddwl ei fod wedi gwneud gwaith ffantastig. Yr wyf yn cyd-fynd â'r hyn yr oedd Joyce yn ei ddweud; yr oedd gan y cwmni agwedd hollol wahanol pan ddaeth at yr is-bwyllgor.

Gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu gwneud ychydig o waith dylanwadu yn San Steffan oherwydd weithiau yr wyf o'r farn nad yw unrhyw beth yr ydym yn ei wneud yng Nghymru o bwys i bobl y tu allan i Gymru, ac ni ddylai fod felly. Mae hynny'n bwysig. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gwneud ei orau.

4.40 p.m.

**Eleanor Burnham:** We have a democratic deficit in Wales. All the issues that have been mentioned have been of huge concern. I did not realise until I came to the Assembly that so few people know about it. In my region,

mentored and to learn about what is happening in the Assembly. I was shocked because she sees nothing about Wales on the television, and she reads nothing about Wales. That is what concerns me, and I am pleased that the Minister is taking these issues seriously. We are in a serious situation. Young people access the internet, and I am pleased to see that the BBC website, Democracy Live, started operating yesterday, although I was at another committee and could not see exactly what was happening at the time. However, the website is a good thing.

Ultimately, there is much confusion about these matters. We have had our money's worth in looking at this issue because no-one knew how precarious the situation was. If you look at many of the papers, you will see that it is now a matter of cutting and pasting. Virtually every paper looks the same. North Wales Newspapers Media Ltd does good work in Flintshire and Wrexham. They started to operate in Denbighshire, but that did not succeed. As Joyce said, we need local news; yet the company is operating in a completely different way to Tindle Newspapers Ltd.

I was impressed with Tindle Newspapers Ltd. I thought it had done a fantastic job. I agree with what Joyce has said; the company had a completely different attitude when it came before the sub-committee.

I hope the Minister will be able to have some influence in Westminster, because sometimes I believe that what we do in Wales is of no importance to people outside Wales, and that should not be the case. That is important. I hope the Minister will do his best.

**Eleanor Burnham:** Mae gennym ddiffyg democrataidd yng Nghymru. Mae pob un o'r materion y soniwyd amdanynt yn peri pryder enfawr. Nid oeddwn wedi sylweddoli nes imi ddod i'r Cynulliad fod cyn lleied o bobl yn

which is North Wales, many people do not have a clue about what we are doing here, and that is a big issue. Therefore, I am pleased to see these recommendations, all of which are important. I look for a timetable so that the Minister can tell us when, for example, recommendations will be taken on board. Recommendation 4 calls for a strategic approach to advertising. When we came here, adverts were placed only in the *Western Mail*. I would not have read the *Western Mail* before I came here. I am sorry; I hope that the *Western Mail* is not upset. I am just making that point because it is perfectly true.

Good luck, Minister, and I hope that you will be able to come back to us in a timely fashion to let us know how you are getting on with influencing discussions about these important issues in London, because, unfortunately, we do not have the power that we would love to have. Long may we strive for the power to do something about broadcasting in Wales.

**Bethan Jenkins:** I would like to thank the sub-committee for its hard work during its inquiry into the state of local Welsh newspapers and its attempt to find some relief for this extremely hard-pressed sector. I am not on the sub-committee in question, but I speak as the culture spokesperson for Plaid Cymru.

I would like to raise a couple of issues. It is obvious that the sub-committee remains concerned about ensuring a proper news service for the public by retaining experienced journalists in Wales. However, the recommendations in the report would bring relief instead to a number of commercial organisations, whose business practice of the past decade has involved taking profits out of Wales while at the same time putting skilled workers out of work. As such, I do not think that these organisations can be regarded as responsible partners in the solutions that the Welsh Assembly Government should be considering for the future. Quite simply, they have had their chance and they have not been successful.

gwybod amdano. Yn fy rhanbarth i, sef y gogledd, nid oes gan lawer o bobl syniad am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn y Cynulliad, ac y mae hynny'n broblem fawr. Yr wyf felly'n falch gweld yr argymhellion hyn, ac y mae pob un ohonynt yn bwysig. Hoffwn weld amserlen fel y gall y Gweinidog ddweud wrthym pryd, er enghraifft, y caiff yr argymhellion eu gweithredu. Mae argymhelliad 4 yn galw am agwedd strategol at hysbysebu. Pan ddaethom yma, yn y *Western Mail* yn unig y byddai hysbysebion. Ni fyddwn wedi darllen y *Western Mail* cyn dod yma. Mae'n ddrwg gennyf; gobeithio nad yw'r *Western Mail* wedi'i siomi. Yr wyf yn gwneud y pwynt dim ond am ei fod yn berffaith wir.

Pob lwc, Weinidog, a gobeithio y gallwch ddod yn ôl atom mewn da bryd i ddweud wrthym sut hwyl yr ydych yn ei gael wrth geisio dylanwadu ar drafodaethau ar y materion pwysig hyn yn Llundain, oherwydd nid oes gennym y grym y byddem yn dymuno'i gael, yn anffodus. Bydded inni ddal ati i ymdrechu i gael y grym i'n galluogi i wneud rhywbeth ynghylch darlledu yng Nghymru.

**Bethan Jenkins:** Hoffwn ddiolch i'r is-bwyllgor am ei waith caled yn ystod ei ymchwiliad i gyflwr papurau newydd lleol yng Nghymru, a'i ymdrech i geisio cael rhywfaint o gymorth i'r sector hwn sydd dan bwysau mawr. Nid wyf yn aelod o'r is-bwyllgor dan sylw, ond yr wyf yn siarad fel llefarydd Plaid Cymru ar ddiwylliant.

Hoffwn godi rhai materion. Mae'n amlwg fod yr is-bwyllgor yn dal yn bryderus am sicrhau gwasanaeth newyddion priodol i'r cyhoedd drwy gadw newyddiadurwyr profiadol yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai'r argymhellion yn yr adroddiad yn hytrach yn rhyddhad i nifer o sefydliadau masnachol y mae eu harferion busnes dros y degawd diwethaf wedi golygu eu bod yn mynd ag elw allan o Gymru, ac yn rhoi gweithwyr medrus allan o waith ar yr un pryd. Ni chredaf y gellir ystyried y sefydliadau hyn yn bartneriaid cyfrifol yn yr atebion y dylai Llywodraeth y Cynulliad fod yn eu hystyried ar gyfer y dyfodol. Yn syml, maent wedi cael eu cyfle, ac nid ydynt wedi bod yn llwyddiannus. Maent yn dewis

Choosing profit over research—

**Andrew R.T. Davies:** I thank Bethan for taking an intervention. You seem to be insinuating that those working in the field of printed media who do not have head offices in Wales or are not Wales-based companies should not have ownership of Welsh print companies. Is that the case?

**Bethan Jenkins:** What I am saying is that many companies based in Wales are taking their profits outside Wales instead of investing in journalists currently working in Wales. Hence the redundancies that Media Wales announced recently. I do not see that the company has acted responsibly in doing that.

At the pace at which newspapers are closing, it is possible that they may cease to be widely consumed. We cannot stop this. We saw this when my local newspaper, the *Neath Guardian* closed and we had no right of reply to ensure that that was not closed. I am concerned that there may come a time when newspapers largely cease to exist, but online news has failed to fill the hole that they have left, particularly their role as a facet of any properly functioning democracy.

As a consequence, it is far more important to concentrate on how we may develop both broadband provision and news and other services that can be delivered online. The recommendation that there should be a review of publicly-funded journalism training courses points the way forward.

**Alun Cairns:** I am grateful to Bethan Jenkins for giving way. Do you not accept that there is an over-supply of journalists coming out of the Cardiff School of Journalism, Media and Cultural Studies at the moment? That allows some newspapers and journals to keep salaries exceptionally low.

**Bethan Jenkins:** I would like to declare an

gwneud elw ar draul gwaith ymchwil—

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i Bethan am gymryd ymyriad. Ymddengys eich bod yn awgrymu na ddylai'r sawl sy'n gweithio ym maes y cyfryngau print, nad oes ganddynt bencadlysoedd yng Nghymru neu nad ydynt yn gwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, fod yn berchen ar gwmnïau print yng Nghymru. Ai dyna'r gwir?

**Bethan Jenkins:** Yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw bod nifer o gwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn mynd â'u helw allan o Gymru yn lle buddsoddi mewn newyddiadurwyr sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd. Dyna pam y cafwyd y diswyddiadau a gyhoeddwyd gan Media Wales yn ddiweddar. Ni welaf fod y cwmni wedi ymddwyn yn gyfrifol wrth wneud hynny.

O ystyried y cyflymdra y mae papurau newydd yn cau, mae'n bosibl y byddant yn gorffen cael eu prynu gan gynifer o bobl. Ni allwn atal hyn. Gwelsom hynny'n digwydd pan gaeodd fy mhapur newydd lleol i, y *Neath Guardian*, ac nid oedd gennym hawl i ymateb i sicrhau na fyddai'n cau. Yr wyf yn pryderu y gallai amser ddod pan fydd papurau newydd yn peidio â bod, ond y mae newyddion ar-lein wedi methu â llenwi'r bwloch y maent wedi'i adael ar ôl, yn enwedig eu rôl fel agwedd ar ddemocratiaeth sy'n gweithredu'n iawn.

O ganlyniad, mae'n llawer pwysicach canolbwyntio ar y ffordd y gallwn ddatblygu newyddion a darpariaeth band eang, a gwasanaethau eraill y gellir eu darparu ar-lein. Mae'r argymhelliad sy'n dweud y dylid gwneud adolygiad o gyrsiau hyfforddi newyddiaduraeth a ariennir yn gyhoeddus yn dangos y ffordd ymlaen.

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ddiolchgar i Bethan Jenkins am ildio. Onid ydych yn derbyn bod gormod o newyddiadurwyr yn dod allan o Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol Caerdydd ar hyn o bryd? Mae hynny'n golygu y gall rhai papurau newydd gadw cyflogau'n eithriadol o isel.

**Bethan Jenkins:** Hoffwn ddatgan diddordeb,

interest, as my brother is one of those journalists. Perhaps it is for others to make a judgment on that particular point.

It should be a starting point, a place where we can look at how we support and propagate this knowledge industry, and consider how we can create first-mover advantages for truly indigenous, entrepreneurial new media organisations. Of course, there are large numbers of people in Wales who either do not have access to broadband services or choose not to use them. That is their choice, although I believe that the Welsh Assembly Government has a duty to ensure that telecommunications companies are delivering broadband provision to as many people in Wales as possible.

We also have a responsibility to educate people in its uses and its benefits. The world is moving away from traditional media and it is more important that we ensure that everyone in Wales keeps up with the sometimes breathtaking speed of technological development, rather than looking over our shoulder at a sector that is fast heading into history. If we are truly serious about a knowledge economy, we must do our best to ensure that everyone in Wales, no matter what their age or background, takes full advantage of these developments.

Wales is a land of small businesses and entrepreneurs; why can we not give them the opportunity to introduce genuine innovation into the news industry? Large businesses simply do not have the agility to take real advantage of technological advances. We have often seen this in their preference for playing catch up through acquisition. If we find ways of assisting entrepreneurs to work with journalists in providing new models for news delivery, I believe that Wales can lead in developing a unique and possibly lucrative information industry.

We need to stop thinking about helping news organisations and start thinking about retraining experienced workers with media skills. This is a once-in-a-generation opportunity to think in an innovative way and to help others in shaping a truly Welsh

gan fod fy mrawd yn un o'r newyddiadurwyr hynny. Efallai mai pobl eraill a ddylai fynegi barn am y pwynt penodol hwnnw.

Dylai fod yn fan cychwyn, yn fan lle gallwn edrych ar y modd yr ydym yn cefnogi ac yn lledaenu'r diwydiant gwybodaeth hwn, ac ystyried sut y gallwn greu manteision arloesol i sefydliadau cyfryngau newydd sy'n wirioneddol gynhenid ac entrepreneuriaidd. Wrth gwrs, mae nifer fawr o bobl yng Nghymru sy'n methu cael gwasanaethau band eang, neu'n dewis peidio â'u defnyddio. Eu dewis hwy yw hynny, ond yr wyf yn credu bod gan Lywodraeth y Cynulliad ddyletswydd i sicrhau bod cwmnïau telathrebu'n cynnig darpariaeth band eang i gynifer o bobl yng Nghymru ag sy'n bosibl.

Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i addysgu pobl sut i ddefnyddio band eang a manteision ei ddefnyddio. Mae'r byd yn symud oddi wrth gyfryngau traddodiadol, ac y mae'n bwysicach inni sicrhau bod pawb yng Nghymru yn dal i fyny â datblygiadau technolegol, sy'n gallu digwydd yn syfrdanol o gyflym weithiau, yn hytrach nag edrych dros ein hysgwydd ar sector sy'n prysur fynd yn rhan o hanes. Os ydym o ddifrif ynghylch cael economi wybodaeth, rhaid inni wneud ein gorau i sicrhau bod pawb yng Nghymru, waeth beth fo'u hoed neu eu cefndir, yn manteisio'n llawn ar y datblygiadau hyn.

Mae Cymru'n wlad o nifer o fusnesau bach ac entrepreneuriaid; pam na allwn roi'r cyfle iddynt gyflwyno arloesedd go iawn i'r diwydiant newyddion? Nid oes gan fusnesau mawr yr hyblygrwydd i fanteisio'n wirioneddol ar ddatblygiadau technolegol. Yr ydym wedi gweld hynny'n aml wrth iddynt ffafrio dal i fyny trwy gaffael. Os gallwn ddod o hyd i ffyrdd i gynorthwyo entrepreneuriaid i weithio gyda newyddiadurwyr ar ddarparu modelau newydd ar gyfer darparu newyddion, credaf y gall Cymru arwain o ran datblygu diwydiant gwybodaeth unigryw a allai wneud elw.

Mae angen inni roi'r gorau i feddwl am helpu sefydliadau newyddion, a dechrau meddwl am ailhyfforddi gweithwyr profiadol sydd â sgiliau cyfryngol. Mae hwn yn gyfle sy'n codi unwaith yn unig mewn cenhedlaeth i feddwl mewn modd arloesol a helpu eraill i

media, free from the ravages of London-based profiteers. It is essential that we grasp this opportunity now.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to contribute to this debate. Like Bethan, I was not on the sub-committee that looked into these issues but, as an avid news reader, I take great interest in the fate of newspapers and, given my role as an Assembly Member, I take an interest in the supply of information generally.

The Minister touched on the point about American circulation. Over half term, I had the pleasure of being in America, and I saw those figures graphically illustrated. The *San Francisco Chronicle* has seen a 28 per cent decline and the *Los Angeles Times* has seen a 25 per cent decline. Those are household names in American journalism. The only paper that has seen an increase is *The Wall Street Journal*, with a 0.6 per cent increase. When I opened the newspapers, I noticed that, even though there have been massive decreases in circulation, they are attracting commercial advertising. They contained whole-page advertising from leading companies, because the people reading those newspapers are the people who the advertisers wanted to reach.

In America last week, people were gripped by the health Bill that was going through Congress—the United States Senate and House of Representatives. That Bill was receiving extensive coverage, irrespective of which side of the argument was being taken. The multimedia opportunity that the public had to digest what was going on in the United States Capitol building was fascinating for me to see, because, sadly, an outside critic could say that whatever we discuss here in Wales is pretty pointless, but I would like to think that, by and large, what we discuss impacts on the lives of people in Wales, their outlook and what Wales projects. It is vital that we have a multidisciplinary media that offers the opportunity to project various facets of our life.

lunio cyfryngau sy'n wirioneddol Gymreig ac na fyddant yn cael eu dinistrio gan bobl o Lundain sy'n gwneud elw. Mae'n hanfodol inni ddal ar y cyfle hwn yn awr.

**Andrew R.T. Davies:** Yr wyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu i'r ddaidl hon. Fel Bethan, nid oeddwn ar yr is-bwyllgor a fu'n edrych ar y materion hyn, ond fel darllenwr newyddion brwd mae gennyf ddi-ddordeb mawr yn nhynged papurau newydd, ac oherwydd fy rôl fel Aelod o'r Cynulliad, mae gennyf ddi-ddordeb yn y modd y caiff gwybodaeth ei darparu yn gyffredinol.

Cyfeiriodd y Gweinidog at gylchrediad papurau newydd yn America. Yn ystod yr hanner tymor, cefais y pleser o fod yn America, a gwelais enghraifft fyw iawn o'r ffigurau hynny. Mae'r *San Francisco Chronicle* wedi gweld gostyngiad o 28 y cant yn ei gylchrediad, a'r *Los Angeles Times* wedi gweld gostyngiad o 25 y cant. Mae'r rhain yn bapurau newydd amlwg ym maes newyddiaduraeth yn America. Yr unig bapur newydd sydd wedi gweld cynnydd yw *The Wall Street Journal*, sydd wedi gweld cynnydd o 0.6 y cant. Pan agorais y papurau newydd, sylwais eu bod yn denu hysbysebion masnachol er bod gostyngiadau enfawr wedi bod yn eu cylchrediad. Yr oeddent yn cynnwys hysbysebion tudalen gyfan gan gwmnïau mawr, oherwydd mai darllenwyr y papurau newydd hynny oedd y bobl yr oedd yr hysbysebwr am eu cyrraedd.

Yn America yr wythnos diwethaf yr oedd gan bobl ddi-ddordeb aruthrol yn y Mesur iechyd a oedd yn mynd trwy'r Gyngres—Senedd yr Unol Daleithiau a Thŷ'r Cynrychiolwyr. Yr oedd y Mesur hwnnw'n cael llawer o sylw, waeth pa ochr o'r ddaidl oedd yn cael ei chymryd. Yr oedd y cyfleoedd amlgyfrwng a oedd gan y cyhoedd i ystyried beth oedd yn digwydd yn adeilad y Capitol yn yr Unol Daleithiau yn ddi-ddorol iawn imi ei weld, oherwydd, yn anffodus, gallai beirniad o'r tu allan ddweud bod beth bynnag yr ydym yn ei drafod yma yng Nghymru'n ddigon dibwys, ond hoffwn feddwl bod yr hyn yr ydym yn ei drafod ar y cyfan yn effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru, eu safbwynt, a'r hyn y mae Cymru'n ei gyfleu. Mae'n hanfodol fod gennym gyfryngau aml-ddisgyblaeth sy'n cynnig y cyfle i gyfleu amrywiaeth o



Three aspects have been touched on in this debate. Alun Davies presented the broadcasting side, and the newspaper side is being presented, but there is also the local paper angle—the free papers—that journalists can cut their teeth on, such as the *Glamorgan Gem*.

**Alun Cairns:** I talked about public sector advertising in newspapers. Do you believe that the importance of free papers, such as the *Glamorgan Gem*, which you mentioned and is important to your constituency and mine, is sometimes ignored by Assembly Government and Assembly Commission officials in terms of advertising, possibly because they are simply free papers, even though they are often more widely read than some of the paid-for journals?

**Andrew R.T. Davies:** I was going to develop that point, as Alun mentioned it in his presentation. The Assembly Government needs to look holistically at the papers in which it advertises. If it is going to put in public notices and spend public money, as all public bodies do, it needs to get the best bang for its buck. As Jenny Randerson said in her intervention to the Minister, London-based newspapers are profitable in certain aspects of their operations in Wales but, because of previous commercial decisions, they are, sadly, burdened with various cost factors to service debt. It would be wrong to give false subsidies when organisations are profitable in Wales, thereby making up for commercial decisions taken elsewhere.

I hope that the Minister will look holistically at the proposal that Alun introduced to ensure that all aspects of the print media receive the benefit if there is to be a change in Welsh Assembly Government policy or a retargeting of the policy.

wahanol agweddau ar ein bywyd.

Mae tair agwedd wedi cael sylw yn y ddadl hon. Cyflwynodd Alun Davies yr agwedd ddarlledu, mae'r agwedd ar bapurau newydd yn cael sylw, ond y mae'r agwedd sy'n ymwneud â phapurau newydd lleol hefyd—y papurau newydd sy'n rhad ac am ddim—y gall newyddiadurwyr eu defnyddio i ddechrau meithrin eu crefft, megis y *Glamorgan Gem*.

**Alun Cairns:** Soniais am y sector cyhoeddus yn hysbysebu mewn papurau newydd. A ydych yn credu bod pwysigrwydd papurau newydd rhad ac am ddim, megis y *Glamorgan Gem* y soniech amdano ac sy'n bwysig i'ch etholaeth chi a'm hetholaeth i, yn cael ei anwybyddu weithiau gan Lywodraeth y Cynulliad a swyddogion Comisiwn y Cynulliad o ran hysbysebu, efallai am y rheswm syml eu bod yn bapurau newydd rhad ac am ddim, er eu bod yn aml yn denu mwy o ddarlennwyr na rhai o'r papurau newydd y mae pobl yn talu amdanynt?

**Andrew R.T. Davies:** Yr oeddwn ar fin datblygu'r pwynt hwnnw, gan fod Alun wedi sôn amdano yn ei gyflwyniad. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ystyried y papurau y mae'n hysbysebu ynddynt mewn modd cyfannol. Os yw'n bwriadu cynnwys hysbysiadau cyhoeddus ynddynt a gwario arian cyhoeddus, fel y bydd pob corff cyhoeddus yn ei wneud, mae angen iddi sicrhau'r gwerth gorau am yr arian hwnnw. Fel y dywedodd Jenny Randerson yn ei hymyriad i'r Gweinidog, mae papurau newydd Llundainiol yn gwneud elw mewn rhai agweddau ar eu busnes yng Nghymru, ond oherwydd penderfyniadau masnachol blaenorol cânt eu llethu yn anffodus gan amrywiaeth o ffactorau cost i gynnal dyled. Byddai'n anghywir rhoi cymorthdaliadau ffug pan fydd sefydliadau'n gwneud elw yng Nghymru, a digolledu penderfyniadau masnachol a wneir rywle arall.

Gobeithio y bydd y Gweinidog yn edrych mewn modd cyfannol ar y cynnig y mae Alun wedi'i gyflwyno, er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y cyfryngau print yn elwa os bydd unrhyw newid ym mholisi Llywodraeth y Cynulliad, neu os caiff y polisi hwnnw ei aildargedu.

I believe passionately that we have to recognise that we are moving on. The Minister touched on that, as he said that we are in changing times. However, there will always be a significant minority that wishes to get its information from the printed media. I remember being in school and being given a lecture by Andrew Neil, who was the editor of *The Sunday Times* at the time. He held up one page of *The Sunday Times* and said that that was probably as much as a news reader is able to deliver: one side. A newspaper has 30 or 40 pages. It is about the ability to undertake that in-depth, critical analysis and to be objective.

Sadly, we are lacking in Wales. It has been raised several times that Welsh issues are not covered. I believe the reason why Scotland has such good coverage in the national press is because many of the titles have a Scottish edition and therefore they can share information. It is not that they have a greater interest in Scottish issues; it is that the information is already collated in Scotland and can then be transferred to the national media, so it has a far higher profile.

4.50 p.m.

There is not a simple silver bullet to remedy this situation. Perhaps the one silver bullet would be to have a more prosperous society because then commercialism would flow and the advertisers would provide revenue for print media organisations to flourish. We have to make sure that we move forward with the economic programme to encourage economic activity, so that advertisers look at Wales as an attractive place to market their goods and thus supply opportunities for the media to get the resources that will pay for journalists, for the opportunities for journalists to train in Wales and to sustain their titles.

**David Lloyd:** Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon y prynhawn yma. Yn amlwg, byddai'n

Yr wyf yn credu'n gryf ei bod yn rhaid inni gydnabod ein bod yn symud ymlaen. Cyfeiriodd y Gweinidog at hynny pan ddywedodd ein bod yng nghanol cyfnod o newid. Fodd bynnag, bydd lleiafrif sylweddol o bobl bob amser yn dymuno cael eu gwybodaeth drwy'r cyfryngau print. Cofiaf fod yn yr ysgol a chael darlith gan Andrew Neil, golygydd *The Sunday Times* ar y pryd. Dangosodd un dudalen o *The Sunday Times*, a dywedodd mai dyna'r wybodaeth y byddai darlledwr newyddion fwy na thebyg yn gallu ei chyflwyno: un ochr i dudalen. Mae gan bapur newydd 30 neu 40 o dudalennau. Mae'n ymwneud â'r gallu i ddadansoddi'n fanwl ac yn feirniadol, a bod yn wrthrychol.

Yn anffodus, yr ydym ar ei hôl hi yng Nghymru. Mae'r pwynt wedi'i godi droeon nad yw materion Cymreig yn cael sylw. Credaf mai'r rheswm pam y mae'r Alban yn cael cymaint o sylw da yn y wasg genedlaethol yw'r ffaith bod gan nifer o'r papurau rifyn arbennig ar gyfer yr Alban, ac y maent felly'n gallu rhannu gwybodaeth. Nid mater ydyd fod ganddynt fwy o ddi-ddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r Alban; ond bod y wybodaeth eisoes yn cael ei chasglu yn yr Alban, a gellir ei throsglwyddo wedyn i'r cyfryngau cenedlaethol, gan roi iddi broffil llawer uwch.

Nid oes un ateb syml, addas at bob diben i wella'r sefyllfa hon. Efallai mai'r un ateb syml fyddai cael cymdeithas fwy llewyrchus, oherwydd byddai'r elfen fasnacheiddiol yn llifo wedyn, a byddai hysbysebwr yn darparu refeniw i alluogi sefydliadau'r cyfryngau print i ffynnu. Rhaid inni sicrhau ein bod yn symud ymlaen â'r rhaglen economaidd i annog gweithgarwch economaidd, er mwyn i hysbysebwr ystyried Cymru yn lle deniadol i farchnata eu nwyddau ac felly roi cyfleoedd i'r cyfryngau gael yr adnoddau a fydd yn talu am newyddiadurwyr, am gyfleoedd i newyddiadurwyr gael hyfforddiant yng Nghymru, ac i gynnal eu papurau newydd.

**David Lloyd:** I should like to thank all Members who have contributed to this debate this afternoon. Obviously, it would be

amhosibl ymateb i bob pwynt sydd wedi ei godi gan mai dim ond ychydig funudau sydd gennyf, ond gwnaf gyfeirio at rai ohonynt. Gwnaethom ddechrau gydag ymateb y Gweinidog a oedd yn pwysleisio maint yr her sy'n wynebu'r sector, ond yr oedd ef ac eraill yn pwysleisio ein bod yn sôn am farchnad a bod angen chwilio am atebion yn y diwydiant ei hun er mwyn ymateb i'r her sylweddol honno. Wrth dorri ar draws, bu Jenny Randerson yn olrhain dylanwadau amgen tu allan i faes cul y papurau newydd. Pwysleisiodd Alun Cairns, ymysg pethau eraill, rôl allweddol hysbysebu yn y papurau newydd. Mae wedi gwneud y pwynt yn ddigon aml ac yr wyf yn credu ein bod i gyd yn cytuno bod hynny'n bwysig. O ystyried yr holl arian y gall y Llywodraeth ei wario ar hysbysebu, mae'n bwysig bod yr hysbysebion hynny yn cael eu cyhoeddi yn y papurau lle mae disgwyl i'r bobl fyddai â diddordeb ynddynt eu darllen.

Pwysleisiodd Joyce Watson y consensws sydd ymysg aelodau'r pwyllgor ac adroddodd hanes llwyddiant un papur newydd lleol, sef y *Tenby Observer*. Bu Eleanor Burnham, yn ei ffordd ddihafal ei hun, yn olrhain problemau a diffygion y papurau newydd, ac yr wyf yn credu yr oedd pawb yn cytuno â'r sylwadau hynny. Yr oedd gan Bethan Jenkins olwg newydd, ffraeth, yn pwysleisio rôl a phwysigrwydd newyddiadurwyr lleol a newyddiaduriaeth yng Nghymru, a phwysigrwydd arloesi yn y maes at y dyfodol, o ran mynd yn amlgyfryngol at ati. Bu Andrew R.T. Davies yn adrodd ei hanesion dros y dŵr wythnos diwethaf ac yn sôn am y sefyllfa ryngwladol, ynghyd â sôn am hysbysebu.

Mae'r ddadl hon wedi dangos fod gennym gonsensws cryf ynghylch gwerth papurau newydd lleol yng Nghymru. Mewn oes lle gall y cyhoedd dderbyn newyddion drwy sianeli niferus, byd eang, mae'r papurau newydd yn parhau'n unigryw gan eu bod yn rhoi safbwynt lleol ar faterion ac mae'n hanfodol inni eu cynorthwyo drwy'r cyfnod anodd hwn. Bydd y Gweinidog wedi clywed y sylwadau hyn oll. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl ac i bawb a fu'n ein cynorthwyo wrth baratoi'r adroddiad. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

impossible to respond to every point made, as I only have a few minutes, but I will refer to a few. We began with the Minister's reply, who emphasised the extent of the challenge facing the sector, but he and others emphasised that we are talking about a market and that answers should be sought from within the industry itself in order to respond to that huge challenge. In an intervention, Jenny Randerson charted some alternative pressures from outside the narrow field of newspapers. Alun Cairns emphasised, among other things, the key role of advertising in newspapers. He has often made that point, and I believe we all agree that that is important. Given the amount of money the Government can spend on advertising, it is important that those advertisements are published in newspapers read by those who would be expected to have an interest in what is being advertised.

Joyce Watson emphasised the consensus among committee members, and went on to talk of the success of one local newspaper, the *Tenby Observer*. Eleanor Burnham, in her own unique way, mentioned the problems and weaknesses of newspapers, and I believe everyone agreed with those comments. Bethan Jenkins had a fresh perspective, emphasising the role and importance of local journalists and journalism in Wales, and the importance of innovation for the future in terms of being multimedia, and so on. Andrew R.T. Davies talked about his experiences abroad last week, and mentioned the international situation and advertising.

The debate has shown that there is strong consensus on the value of local newspapers in Wales. In an age when the public is able to access news through numerous global channels, newspapers continue to be unique in that they provide a local perspective on issues, and it is vital that we support them through this difficult period. The Minister will have heard these comments. I thank everyone who has contributed to the debate and to everyone who helped us in preparing the report. Thank you all.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

## **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate**

### **Gwasanaethau Cardiaidd Cardiac Services**

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones, a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Carwyn Jones, and amendment 2 in the name of Peter Black.

**Andrew R.T. Davies:** I move that  
*the National Assembly for Wales:*

**Andrew R.T. Davies:** Cynigiaf fod  
*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. recognises the importance of education and a healthy lifestyle in ensuring the prevention of heart disease;*

*1. yn cydnabod pwysigrwydd addysg a ffordd iach o fyw er mwyn atal clefyd y galon;*

*2. expresses concern that cardiac services in Wales fall short of current and projected need; and*

*2. yn mynegi pryder bod prinder gwasanaethau cardiaidd yng Nghymru o'i gymharu â'r angen presennol a'r angen a ragwelir; a*

*3. calls on the Welsh Assembly Government to take measures to improve the standard of cardiac services and tackle the inequalities in service provision across Wales. (NDM4312)*

*3. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno mesurau i wella safon gwasanaethau cardiaidd ac i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau yn narpariaeth y gwasanaeth ledled Cymru. (NDM4312)*

I wish to look at cardiac services and the healthy-lifestyle educational message that the Assembly Government should be engaging in. I am sure that this is something on which we can all find common ground. I will deal with the amendments first. I welcome the Assembly Government's recognition of the importance of education and lifestyle by not seeking to delete point 1 of the motion, but I regret that amendment 1 then moves on to become a 'delete all' amendment, so it will come as no surprise to you that we will not be supporting the Assembly Government's amendment. We will be supporting amendment 2, tabled in the name of Peter

Hoffwn edrych ar wasanaethau cardiaidd, a'r neges addysgiadol ynghylch ffordd iach o fyw y dylai Llywodraeth y Cynulliad fod yn ymwneud â hi. Yr wyf yn siŵr fod hwn yn faes lle gallwn i gyd ddod o hyd i dir cyffredin. Hoffwn ymdrin â'r gwelliannau yn gyntaf. Yr wyf yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd addysg a ffordd o fyw, drwy beidio â cheisio dileu pwynt 1 yn y cynnig. Ond yr wyf yn gresynu bod gwelliant 1 wedyn yn symud ymlaen i fod yn welliant 'dileu popeth'. Ni fyddwch yn synnu, felly, na fyddwn yn cefnogi gwelliant Llywodraeth y Cynulliad. Byddwn yn cefnogi gwelliant 2,

Black on behalf of the Liberal Democrats. I will go on to explain why we regard cardiac rehabilitation to be so important and why cardiac rehabilitation services in Wales need to be developed so that patients can follow a care pathway that would allow them to enjoy a satisfactory quality of life.

Moving on to the first point in our motion, about the important aspects of education and health improvement, I am sure that when the health service was formed over 60 years ago, its founders could not have envisaged many of the problems that many of today's commissioners of healthcare and politicians have to grapple with. That was an era of post-war deprivation and rationing, so the obesity and diabetes of today would not have been contemplated, although smoking, as many will recall, was a massive issue even then. When we look at the problems of obesity and diabetes today, and the fact that 60 per cent of men are overweight, and with one in five people being obese, it is a fact that this issue will challenge all Governments of whatever colour. We must therefore attach importance to the educational programmes and the ability to reinforce in people's minds the fact that by not taking responsibility for yourself, you are storing up major problems and medical challenges for the future as you go through life. With the current demographics, showing an ageing population, this is a real issue that we need to tackle.

I commend the Assembly—because it was done before I was elected—on its approach to the issue of smoking, which is one of the key factors in cardiac disease. On average, people start smoking at the age of 11, and the fact that its addictive nature takes hold of the psyche and mindset of the individual really hampers his or her health prospects. It would be good to hear from the Minister how she, under the smoking strategy in the Bill currently proceeding through Westminster, which will confer powers in this regard, will implement a comprehensive strategy here in Wales. I believe that we are the only part of the United Kingdom that currently does not have such a strategy, and it is time that we

a gyflwynwyd yn enw Peter Black ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol. Af ymlaen i egluro pam yr ydym yn ystyried bod adsefydlu cardiaidd mor bwysig, a pham y mae angen datblygu gwasanaethau adsefydlu cardiaidd yng Nghymru fel y gall cleifion ddilyn llwybr gofal a fyddai'n eu galluogi i fwynhau ansawdd bywyd boddhaol.

Hoffwn symud ymlaen at bwynt cyntaf ein cynnig, yn ymwneud â'r agweddau pwysig, sef addysg a gwella iechyd. Pan ffurfiwyd y gwasanaeth iechyd dros 60 mlynedd yn ôl, yr wyf yn siŵr na allai ei sylfaenwyr fod wedi rhagweld llawer o'r problemau y mae'n rhaid i nifer o gomisiynwyr gofal iechyd a gwleidyddion heddiw fynd i'r afael â hwy. Cyfnod o ddogni ac amddifadedd ar ôl y rhyfel oedd hwnnw, ac ni fyddai'r gordewdra a'r diabetes sy'n bodoli heddiw wedi cael eu hystyried, er bod ysmegu'n broblem enfawr hyd yn oed bryd hynny, fel y bydd llawer yn cofio. Wrth inni edrych ar broblemau gordewdra a diabetes heddiw, a'r ffaith fod 60 y cant o ddynion yn rhy dew ac un person o bob pump yn ordew, mae'n ffaith y bydd y broblem hon yn herio pob Llywodraeth, waeth beth fo'i lliw. Rhaid inni felly roi pwys ar raglenni addysgiadol, a'r gallu i atgyfnerthu ym meddyliau pobl y ffaith eu bod yn achosi problemau mawr a heriau meddygol ar gyfer y dyfodol wrth fynd trwy eu bywyd a pheidio â bod yn gyfrifoldeb amdanynt eu hunain. O gofio bod y ddemograffeg bresennol yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio, mae hon yn broblem wirioneddol y mae angen inni fynd i'r afael â hi.

Yr wyf yn canmol y Cynulliad—oherwydd gwnaed y gwaith cyn imi gael fy ethol—am ei agwedd at ysmegu, sy'n un o'r ffactorau allweddol yng nghlefyd y galon. Ar gyfartaledd, bydd pobl yn dechrau ysmegu yn 11 oed, ac y mae'r ffaith fod natur gaethiwus ysmegu yn gafael yn seice a meddwl yr unigolyn yn llesteirio rhagolygon yr unigolyn o ran iechyd. Byddai'n dda clywed gan y Gweinidog sut y bydd yn gweithredu strategaeth gynhwysfawr yma yng Nghymru, dan y strategaeth ysmegu yn y Mesur sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd ac a fydd yn cyflwyno pwerau yng nghyswllt hyn. Credaf mai ni yw'r unig ran yn y Deyrnas Unedig lle nad oes strategaeth

started to see some flesh on the bones of this issue.

When we look at diet and the junk food mentality—I am most probably included in this—[ASSEMBLY MEMBERS: ‘Hear, hear.’] I heard the calls of ‘hear, hear’ behind me. Diet is something that we need to challenge, because people have a mindset today that our quick and easy diet is not a problem and it will not cause us any problems. Regrettably, it is a fact that today’s lifestyle means that we are storing up problems for the future. When you think of most retail outlets, we talk about anchor tenants, but when it comes to the dining experience, these outlets are not built without some sort of junk food operation having been tailored to fit in. I believe that it is incumbent on Government and society to ensure that restrictions are put in place so that people understand the importance of a healthy diet to avoid getting into serious difficulties in later life with cardiac problems.

When we look at the issue of cardiac deaths in Wales, we see that it is without doubt the largest killer, as nearly 6,000 people die of cardiac ailments. If you combine that with other complications, the figure rises to 11,000. Some 240,000 people suffer from cardiology problems daily. This is a massive issue for the health service and individuals. Speedier intervention is needed—the pain-to-needle time—which means ensuring that the ambulance service, hospitals, the primary care model and the rehabilitation model are all linked in the care pathway, but that is something that we, sadly, have not developed here in Wales, and so we are falling behind the rest of the United Kingdom. When we look at the level of cardiac problems in Wales, we see that we are, sadly, in the premier league of western European countries, let alone the United Kingdom, that suffer such a high incidence of cardiology problems. Unfortunately, we are not in the premier league for cardiac services to deal with that issue.

o’r fath ar hyn o bryd, ac y mae’n bryd inni ddechrau gweld ychydig o gig ar esgryn y mater hwn.

Wrth inni edrych ar ddeiet a meddylfryd bwyd sothach—mae hynny’n berthnasol i mi hefyd, fwy na thebyg—[AELODAU’R CYNULLIAD: ‘Clywch, clywch.’] Clywais rai’n galw ‘clywch, clywch’ y tu ôl imi. Mae deiet yn rhywbeth y mae angen inni ei herio, oherwydd mae pobl heddiw’n credu nad yw ein deiet cyflym a rhwydd yn broblem, ac na fydd yn achosi dim problemau inni. Gwaetha’r modd, mae’n ffaith fod ein ffordd o fyw heddiw yn golygu ein bod yn achosi problemau ar gyfer y dyfodol. Pan feddylwch am y rhan fwyaf o fannau manwerthu, byddwn yn sôn am denantiaid angor, ond o ran y profiad bwyta, ni chaiff y manau hyn eu hadeiladu heb ryw fath o fusnes bwyd sothach wedi’i deilwra i gyd-fynd. Credaf ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth a chymdeithas i sicrhau gosod cyfyngiadau fel y bydd pobl yn deall pwysigrwydd deiet iach er mwyn osgoi mynd i drafferthion difrifol yn ddiweddarach yn eu bywydau oherwydd problemau cardiaidd.

Wrth inni edrych ar farwolaethau’n ymwneud â phroblemau cardiaidd yng Nghymru, gwelwn mai problemau cardiaidd sydd heb os yn lladd y nifer fwyaf o bobl, gan fod bron i 6,000 o bobl yn marw o afiechydon cardiaidd. O gyfuno hynny â chymhlethdodau eraill, mae’r ffigur yn codi i 11,000. Mae tua 240,000 o bobl yn dioddef gan broblemau cardioleg bob dydd. Mae hon yn broblem enfawr i’r gwasanaeth iechyd ac i unigolion. Mae angen ymyrryd yn gyflymach—o gael y boen i gael y pigiad—sy’n golygu sicrhau bod y gwasanaeth ambiwlans, ysbytai, y model gofal sylfaenol a’r model adsefydlu i gyd yn cael eu cysylltu ar hyd y llwybr gofal. Yn anffodus, fodd bynnag, nid yw hynny’n rhywbeth yr ydym wedi’i ddatblygu yma yng Nghymru, ac yr ydym felly’n cael ein gadael ar ôl gweddill y Deyrnas Unedig. Wrth inni edrych ar lefel problemau cardiaidd yng Nghymru, gwelwn yn anffodus ein bod yn yr uwch-gynghrair o ran gwledydd gorllewin Ewrop, heb sôn am y Deyrnas Unedig, sydd â lefel mor uchel o broblemau cardioleg. Yn anffodus, nid ydym yn yr uwch-gynghrair o ran gwasanaethau cardiaidd i ymdrin â’r broblem honno.

In the decade to come, the challenge for this and future Governments will be to address the future needs of cardiology and associated issues. When you think that there will be a two-thirds increase in the number of valve procedures performed on the NHS, and when you think that there will be a 200 per cent increase in pacemaker procedures performed on the NHS by 2020, you can truly see the impact that this level of demand will have on the NHS if we do not address these issues over the next 10 years. It is sad to say that the Government's national service framework document is short on real achievable targets that people can work to. In fact, it is more of an aspirational document than a delivery document. I am keen to hear how the Minister will take that document forward with benchmarking so that we can move forward on service delivery and improve to meet the current and future demand for cardiac services in Wales.

Yn y degawd sydd i ddod, yr her i'r Llywodraeth hon a Llywodraethau'r dyfodol fydd rhoi sylw i anghenion cardioleg a materion cysylltiedig yn y dyfodol. Os ystyriwch y bydd cynnydd o ddwy ran o dair yn nifer y llawdriniaethau falgiau a gynhelir yn y GIG, ac os ystyriwch y bydd cynnydd o 200 y cant yn nifer y llawdriniaethau rheolyddion calon a gynhelir yn y GIG erbyn 2020, gallwch weld o ddifrif yr effaith y bydd y lefel hon o alw'n ei chael ar y GIG os na fyddwn yn rhoi sylw i'r materion hyn yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Mae'n drist nodi bod dogfen fframwaith gwasanaeth cenedlaethol y Llywodraeth yn brin o ran targedau go iawn y gellir eu cyrraedd ac y gall pobl weithio tuag atynt. Mewn gwirionedd, mae'n debycach i ddogfen ddyheu na dogfen gyflawni. Yr wyf yn awyddus i glywed sut y bydd y Gweinidog yn gweithredu ar sail y ddogfen hon drwy feincnodi, er mwyn inni allu symud ymlaen o ran darparu gwasanaethau a gwella er mwyn bodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol am wasanaethau cardiaidd yng Nghymru.

5.00 p.m.

One of the more lamentable aspects of performance in Wales is in cardiac rehabilitation services. There is a proven course that can improve the pathways of care for people with cardiology problems but, year on year since 2006, we have seen a decline in the number of patients benefiting from it. In 2006, 41 per cent of eligible patients received cardiac rehabilitation, but that figure slipped to 30 per cent in 2009—the lowest figure in the United Kingdom, regrettably. Looking at the cost ratio, we see that it is a no-brainer. The course costs around £600 per person, but it rebuilds that person's life and offers them a direction. A single day on a cardiology ward costs around £1,400. The Government needs to address how it will develop the cardiac rehabilitation strategy so that patients who are eligible to go on such courses—and I accept that not all patients are—can get the advice and information that they need to lead to a good outcome and quality of life.

Un o'r agweddau mwy truenus ar berfformiad yng Nghymru yw gwasanaethau adsefydlu cardiaidd. Mae yna gwrs pendant a all wella'r llwybrau gofal i bobl sydd â phroblemau cardioleg, ond er 2006 yr ydym wedi gweld gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall yn nifer y cleifion sy'n elwa ohono. Yn 2006 cafodd 41 y cant o gleifion cymwys wasanaethau adsefydlu cardiaidd, ond gostyngodd y ffigur hwnnw i 30 y cant yn 2009—y ffigur isaf yn y Deyrnas Unedig, yn anffodus. Wrth edrych ar y gymhareb o ran cost, gwelwn ei bod yn hollol syml ei deall. Mae'r cwrs yn costio tua £600 y pen, ond mae'n ailadeiladu bywyd yr unigolyn dan sylw ac yn rhoi cyfeiriad iddo. Mae un diwrnod ar ward cardioleg yn costio tua £1,400. Mae angen i'r Llywodraeth roi sylw i'r modd y bydd yn datblygu'r strategaeth adsefydlu cardiaidd er mwyn i gleifion sy'n gymwys fynd ar gyrsiau o'r fath—ac yr wyf yn derbyn nad yw pob claf yn gymwys—allu cael y cyngor a'r wybodaeth y ame arnynt eu hangen i gael canlyniad da ac ansawdd bywyd da.

Staffing the cardiac rehabilitation programme is another lamentable aspect in many areas of Wales. In some areas, only 29 per cent of the staff who should have been available were available to deliver physiotherapy, 21 per cent for dietary support, and 14 per cent for psychological support. That is a lamentable level of staffing in various teams, which we touched on in this morning's meeting of the Health, Wellbeing and Local Government Committee. In various disciplines, we are failing to attract people to come to work in Wales. We must ensure that we are more proactive, and I would be grateful if the Minister could highlight the strategies that she and the Welsh Assembly Government have put in place to attract staff to Wales to meet those requirements, so that we can have comprehensive confidence. It is no good setting up the structures if we do not have the staff to deliver the product. I hope that the Minister will give us some tangible information in her response on how she sees that requirement being met.

On palliative care and heart disease, many patients diagnosed with cancer, for example, receive specialist palliative nurses to help them to achieve a degree of normality during the final weeks or months of their life. However, as the British Heart Foundation pointed out to me, the same specialist care is not available or is limited in the heart sector. It is almost perceived as an issue that does not need to be raised. Although that organisation funds various posts, it would be good to hear what the Minister believes the Welsh Assembly Government could do on this important aspect of specialist care for people with cardiac problems.

To conclude, I look forward to hearing contributions from Members on this issue, and I reiterate that cardiac problems are the biggest killers in Wales. Therefore, it is a case of facing up to the challenges of today but also to those of the next decade, which, as I identified in my speech, will be numerous for the NHS.

**The Minister for Health and Social**

Mae staffio'r rhaglen adsefydlu cardiaidd yn agwedd druenus arall mewn llawer ardal yng Nghymru. Mewn rhai ardaloedd, 29 y cant yn unig o'r staff a ddylasai fod ar gael a oedd ar gael i ddarparu ffisiotherapi, 21 y cant ar gyfer cymorth deietegol, ac 14 y cant ar gyfer darparu cymorth seicolegol. Mae'r lefel staffio hon mewn amrywiol dimau yn druenus, a chyfeiriwyd at hynny gennym yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y bore yma. Mewn amrywiol ddisgyblaethau, yr ydym yn methu â denu pobl i ddod i weithio yng Nghymru. Rhaid inni sicrhau ein bod yn fwy rhagweithiol, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog dynnu sylw at y strategaethau y mae hi a Llywodraeth y Cynulliad wedi'u rhoi ar waith i ddenu staff i Gymru i ateb y gofynion hynny, er mwyn inni allu teimlo'n gwbl hyderus. Nid oes pwrpas gosod y strwythurau os nad yw'r staff gennym i ddarparu'r gwasanaethau. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi ychydig wybodaeth bendant inni yn ei hymateb am y ffordd y mae'n gweld y bydd y gofyniad hwnnw'n cael ei fodloni.

O ran gofal lliniarol a chlefyd y galon, mae nifer o gleifion y gwelir bod arnynt ganser, er enghraifft, yn cael nyrsys gofal lliniarol arbenigol i'w helpu i sicrhau ychydig normalrwydd yn ystod wythnosau neu fisoedd olaf eu bywyd. Fodd bynnag, fel y dangosodd Sefydliad Prydeinig y Galon imi, nid yw'r gofal arbenigol hwnnw ar gael yn sector y galon, neu y mae'n gyfyngedig. Y canfyddiad bron yw nad yw'n fater y mae angen ei godi. Er bod y sefydliad hwnnw'n ariannu amrywiol swyddi, byddai'n dda clywed beth y mae'r Gweinidog yn ei gredu y gallai Llywodraeth y Cynulliad ei wneud am yr agwedd bwysig hon ar ofal arbenigol ar gyfer pobl sydd â phroblemau cardiaidd.

I gloi, edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau gan Aelodau ar y mater hwn, a hoffwn ddweud unwaith eto mai problemau cardiaidd sy'n lladd y nifer mwyaf o bobl yng Nghymru. Felly, mae'n fater o wynebu heriau heddiw, ac wynebu heriau'r degawd nesaf hefyd, a fydd yn niferus i'r GIG, fel y dywedais yn fy araith.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau**



**Services (Edwina Hart):** I move amendment 1 in the name of Carwyn Jones. Delete all after point 1 and replace with:

*2. recognises the significant improvements made in terms of cardiac waiting times, to be taken forward through the cardiac disease national service framework and cardiac strategic framework; and*

*3. welcomes steps taken by the Welsh Assembly Government to improve the standard of cardiac services and tackle inequalities in service provision across Wales.*

**Peter Black:** I move amendment 2 in my name. Insert as new points after point 2 and renumber accordingly:

*notes that cardiac rehabilitation is cost effective and has been shown to improve both the length and quality of life for patients;*

*notes that according to the national audit of cardiac rehabilitation 2009 only 31 per cent of eligible patients in the three main diagnostic groups receive cardiac rehabilitation within Wales.*

I apologise for missing the first few minutes of the debate. Cardiac rehabilitation has been shown to be effective by increasing physical activity levels and improving the quality of life of those involved. Research by the British Heart Foundation shows that

‘There was a 19% increase in the number of people exercising five or more times a week and a 29% reduction in those who never exercised. The number of people who reported smoking decreased, from 12% to 7%.’

These all have significant health benefits for those patients who are receiving the rehabilitation, and their quality of life scores reflect that. The statistic that matters the most is that cardiac rehabilitation can reduce the chance of dying prematurely of heart disease by 26 per cent. Controlled trials have shown that those who undergo rehabilitation are more likely to live longer than those who do

**Cymdeithasol (Edwina Hart):** Cynigiau welliant 1 yn enw Carwyn Jones. Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

*2. yn cydnabod y gwelliannau sylweddol a wnaed o ran amseroedd aros ar gyfer triniaethau cardiaidd, i'w datblygu drwy'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd y galon a'r fframwaith strategol cardiaidd; a*

*3. yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella safon gwasanaethau cardiaidd ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn narpariaeth y gwasanaethau ledled Cymru.*

**Peter Black:** Cynigiau welliant 2 yn fy enw i. Cynnwys fel pwyntiau newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

*yn nodi bod adsefydlu cardiaidd yn gost effeithiol a bod profion wedi dangos ei fod yn gwella ansawdd a hyd bywyd cleifion;*

*yn nodi, yn ôl archwiliad cenedlaethol adsefydlu cardiaidd 2009, mai 31 y cant yn unig o gleifion cymwys yn y tri phrif grŵp diagnostig sy'n cael gwasanaethau adsefydlu cardiaidd yng Nghymru.*

Ymddiheuraf am golli ychydig funudau cyntaf y ddadl. Dangoswyd bod adsefydlu cardiaidd yn effeithiol wrth gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a gwella ansawdd bywyd y rhai sy'n ymwneud ag ef. Mae ymchwil gan Sefydliad Prydeinig y Galon yn dangos

bod cynnydd o 19% yn nifer y bobl a oedd yn gwneud ymarfer corff bum gwaith neu fwy yr wythnos, a gostyngiad o 29% yn nifer y rhai nad oeddent byth yn gwneud ymarfer corff. Gostyngodd nifer y bobl a ddywedodd eu bod yn ysmegu, o 12% i 7%.

Mae i'r tueddiadau hyn i gyd fanteision sylweddol o ran iechyd i'r cleifion sy'n cael y gwasanaeth adsefydlu, ac y mae eu sgôrâu ansawdd bywyd yn adlewyrchu hynny. Yr ystadegyn pwysicaf yw'r ffaith y gall gwasanaeth adsefydlu cardiaidd leihau perygl marw cyn pryd o glefyd y galon gymaint â 26 y cant. Mae treialon dan reolaeth wedi dangos bod y rheini sy'n cael gwasanaeth

not.

We all know that many treatments that can have beneficial effects can be expensive, but this is not the case for cardiac rehabilitation, which costs less than £700 per patient on average. That is far cheaper than keeping a patient on a high-dependency unit for several days. Wales remains the poorest performer at referring people for this treatment. Only 30 per cent of heart attack sufferers in Wales took part in this treatment programme compared with 34 per cent in England, Scotland and Northern Ireland. While 4 per cent may not seem to be a massive gap, it represents 227 individual patients. Cardiac rehabilitation needs to form a part of the patient pathway, so that all those who could potentially benefit from this service are offered a treatment that could make a significant difference to their outlook following a heart attack.

We cannot forget that there are many contributing factors that increase the likelihood of someone suffering from a heart attack. Smoking is one of the biggest contributors to heart disease. As a result, smokers are twice as likely to suffer a heart attack as non-smokers. Wales is the only country in the UK that does not have a Government-endorsed tobacco control strategy. While moves such as the smoking ban have been successful, there is a need for a full strategy for dealing with smoking and a Government-backed plan to reduce the rate of smoking in Wales, which still stands at 24 per cent of the population. This would not just have benefits regarding heart disease; it would also cut cancer rates and respiratory illness. If the Government is as serious about tackling heart disease as it claims to be, there will be a far greater emphasis on rehabilitation as part of treatment in its strategies.

I am sure that everyone would agree that it is far better to prevent a hospital admission than to treat someone once they get to hospital. Although cardiac rehabilitation will not prevent someone from having an initial heart

adsefydlu yn fwy tebygol o fyw'n hwy na'r rheini nad ydynt yn cael gwasanaeth o'r fath.

Gwyddom i gyd y gall nifer o driniaethau sydd ag effeithiau buddiol fod yn ddruod, ond nid yw hynny'n wir am wasanaeth adsefydlu cardiaidd, sy'n costio llai na £700 y claf ar gyfartaledd. Mae hynny'n rhatach o lawer na chadw claf mewn uned dibyniaeth uchel am ddiwrnodau lawer. Cymru yw'r perfformiwr gwaethaf o hyd o ran cyfeirio pobl i'r driniaeth hon. Tri degt y cant yn unig o bobl sydd wedi cael trawiad ar y galon yng Nghymru a gymerodd ran yn y rhaglen driniaeth hon, o'u cymharu â 34 y cant yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er nad yw 4 y cant yn ymddangos yn fwlch anferth, mae'n cyfateb i 227 o gleifion unigol. Mae angen i waith adsefydlu cardiaidd fod yn rhan o lwybr cleifion, fel y bydd pawb a allai gael budd o'r gwasanaeth hwn yn cael cynnig triniaeth a allai wneud gwahaniaeth sylweddol i'w rhagolygon ar ôl cael trawiad ar y galon.

Ni allwn anghofio bod nifer o ffactorau cyfrannol yn cynyddu tebygolrwydd rhywun i gael trawiad ar y galon. Ysmygu yw un o'r cyfranwyr pennaf at glefyd y galon. O ganlyniad, mae ysmygwyr ddwywaith yn fwy tebygol o gael trawiad ar y galon na phobl nad ydynt yn ysmegu. Cymru yw'r unig wlad yn y DU nad oes ganddi strategaeth rheoli tybaco wedi ei chymeradwyo gan y Llywodraeth. Er bod camau megis y gwaharddiad ar ysmegu wedi bod yn llwyddiannus, mae angen strategaeth lawn ar gyfer ymdrin ag ysmegu, a chynllun wedi ei gefnogi gan y Llywodraeth i leihau'r gyfradd ysmegu yng Nghymru, sy'n dal yn 24 y cant o'r boblogaeth. Nid manteision o ran clefyd y galon yn unig fyddai'n dod yn sgil hynny; ond byddai hefyd yn gostwng cyfraddau cancer a afiechyd anadlol. Os yw'r Llywodraeth gymaint o ddifrif ynghylch mynd i'r afael â chlefyd y galon ag y mae'n ei honni, bydd pwyslais mwy o lawer ar adsefydlu fel rhan o driniaeth yn ei strategaethau.

Yr wyf yn siŵr y byddai pawb yn cytuno ei bod yn well o lawer atal derbyn claf i'r ysbyty na thrin rhywun ar ôl cyrraedd yr ysbyty. Er na fydd gwasanaeth adsefydlu cardiaidd yn atal rhywun rhag cael trawiad ar

attack, it can stop them from having another and tackle the underlying causes. A tobacco control strategy would also help to prevent admission in the first place, by lowering the number of people who are suffering from smoking-related heart disease. Stopping that would be far more effective than simply sending them an ambulance when it happens. It would be more cost-effective and far better for patients. I therefore urge the Government to listen to this debate, to take on board the points raised by the Conservatives and us, to put preventing admission and readmission at the centre of its cardiac approach, and to reflect that by supporting our amendment 2.

**William Graham:** The Minister will be fully aware that South Wales East is a hot spot for heart disease. Merthyr Tydfil has been acknowledged as the unhealthiest town in Britain, while Blaenau Gwent and Torfaen have some of the highest rates of heart disease in the United Kingdom. We need to invest in healthy lifestyle programmes throughout south-east Wales.

I acknowledge that the British Heart Foundation will invest £1.6 million in Blaenau Gwent and Torfaen, through its Hearty Lives programme, to trial new, innovative schemes to tackle obesity and smoking rates in the area—two of the biggest causes of heart disease. Furthermore, I welcome the Newport Exercise scheme, which is part of a national exercise referral programme offering patients who have mild to moderate problems linked to coronary heart disease risk factors, including mental health, musculoskeletal, respiratory and neurological conditions, 16 weeks of one to two hours' supervised physical activity. The Newport scheme is the first in Wales to carry out consultations in GPs' surgeries. Then, patients are able to use community venues and open spaces across the city, rather than leisure centre and gym-based activities, to try to keep the costs low for as many participants as possible. More than 350 people have already been referred by their GPs to this exercise scheme, which is run by five specially trained staff.

y galon yn y lle cyntaf, gall ei atal rhag cael un arall a mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Byddai strategaeth rheoli tybaco hefyd yn helpu atal mynd â chleifion i'r ysbyty yn y lle cyntaf, drwy leihau nifer y bobl sy'n dioddef gan glefyd y galon am resymau'n ymwneud ag ysmegu. Byddai rhwystro hynny lawer yn fwy effeithiol nag anfon ambiwlans atynt pan fydd yn digwydd. Byddai'n fwy cost-effeithiol ac yn well o lawer i gleifion. Yr wyf felly'n pwysu ar y Llywodraeth i wrando ar y ddadl hon, ystyried y pwyntiau y mae'r Ceidwadwyr a ninnau wedi'u codi, gosod atal achosion o dderbyn ac aildderbyn cleifion i'r ysbyty wrth wraidd ei dull o drin problemau cardiaidd, ac adlewyrchu hynny drwy gefnogi ein gwelliant 2.

**William Graham:** Bydd y Gweinidog yn gwybod yn iawn fod y de-ddwyrain yn ardal lle mae llawer iawn o bobl yn dioddef gan glefyd y galon. Mae Merthyr Tudful wedi'i chydabod yn dref fwyaf afiach Prydain, ac ym Mlaenau Gwent a Thor-faen y mae rhai o'r cyfraddau uchaf o glefyd y galon yn y Deyrnas Unedig. Mae angen inni fuddsoddi mewn rhaglenni i hybu ffordd iach o fyw ledled y de-ddwyrain.

Yr wyf yn cydnabod y bydd Sefydliad Prydeinig y Galon yn buddsoddi £1.6 miliwn ym Mlaenau Gwent a Thor-faen, drwy ei raglen 'Hearty Lives', i dreialu cynlluniau newydd ac arloesol ar gyfer mynd i'r afael â chyfraddau gordewdra ac ysmegu yn yr ardal—dau o brif achosion clefyd y galon. At hynny, yr wyf yn croesawu cynllun 'Newport Exercise', sy'n rhan o raglen genedlaethol i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff sy'n cynnig 16 wythnos o weithgarwch corfforol am awr neu ddwy dan oruchwyliaeth i gleifion sydd â phroblemau bach i gymedrol o ran ffactorau risg sy'n ymwneud â chlefyd coronaidd y galon, gan gynnwys anhwylderau iechyd meddwl, anhwylderau cyhyrsgerbydol, anhwylderau anadlu ac anhwylderau niwrolegol. Cynllun Casnewydd yw'r cyntaf yng Nghymru i gynnal sesiynau ymgynghori ym meddygfeydd meddygon teulu. Yna, gall cleifion ddefnyddio manau cymunedol a manau agored ledled y ddinas yn hytrach na gweithgareddau mewn canolfannau hamdden a champfeydd, er mwyn ceisio cadw'r

costau'n isel i gynifer â phosibl o gyfranogwyr. Mae dros 350 o bobl eisoes wedi'u cyfeirio gan eu meddyg teulu i'r cynllun ymarfer corff hwn, sy'n cael ei redeg gan bum aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant arbennig.

The reality remains that one in 10 adults in the area is being treated for a heart condition. It is vital that, where possible, we retain and improve leisure facilities, making them cost-effective and accessible. We must prevent the closure of facilities where no replacement services are readily available, such as the closure of the Blaenavon Leisure Centre in 2007. The latest figures for south-east Wales indicate that as many as 76 males per 100,000 people in Blaenau Gwent will suffer a heart attack. That compares with just 50 per 100,000 people in Monmouthshire. Alongside health education and healthy lifestyle promotion, we require investment in the treatment of heart disease.

Y gwir o hyd yw bod un o bob 10 oedolyn yn yr ardal yn cael triniaeth am anhwylder y galon. Lle mae hynny'n bosibl, mae'n hanfodol inni gadw a gwella cyfleusterau hamdden, a'u gwneud yn gost-ffeithiol ac yn hygyrch. Rhaid inni sicrhau nad yw cyfleusterau'n cau lle nad oes gwasanaethau eraill ar gael yn hawdd yn eu lle, er enghraifft, caewyd Canolfan Hamdden Blaenafon yn 2007. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y de-ddwyrain yn dangos y bydd cynifer â 76 o ddynion o bob 100,000 o bobl ym Mlaenau Gwent yn cael trawiad ar y galon. Mae hynny'n cymharu â 50 yn unig o bob 100,000 o bobl yn Sir Fynwy. Ochr yn ochr ag addysgu pobl am iechyd a hybu ffordd iach o fyw, mae angen buddsoddiad arnom mewn triniaeth am glefyd y galon.

5.10 p.m.

In addition to recent medical breakthroughs, it is encouraging news for cardiac service campaigners that a recent Welsh Government survey found that people's attitudes towards smoking are altering, with more people thinking about quitting than ever before. However, we cannot grow complacent that the trend will continue, which is why it is incumbent on the Government to heed the calls of Action for Smoking and Health in Wales to implement a comprehensive tobacco control strategy for Wales. Figures that underline the link between smoking and heart disease continue to have a sobering effect. In Wales, one in four of the 11,259 people who died as a result of circulatory disease in 2007 did so because of smoking.

Yn ogystal â datblygiadau meddygol arloesol diweddar, mae'n newyddion calonogol i ymgyrchwyr dros wasanaethau cardiaidd fod arolwg yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru wedi darganfod bod agweddau pobl at ysmegu yn newid, a bod mwy o bobl nag erioed yn ystyried rhoi'r gorau iddi. Fodd bynnag, ni allwn ddechrau teimlo'n hunanfodlon a thybio y bydd y duedd yn parhau, a dyna pam y mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth i wrando ar alwadau gan Gweithredu ar Ysmegu ac Iechyd yng Nghymru am weithredu strategaeth gynhwysfawr i Gymru ar reoli tybaco. Mae ffigurau sy'n pwysleisio'r cysylltiad rhwng ysmegu a chlefyd y galon yn parhau i'n sobreiddio. Yng Nghymru, ysmegu oedd achos marwolaeth un o bob pedwar o'r 11,259 o bobl a fu farw o ganlyniad i glefyd cylchrediad y gwaed yn 2007.

There needs to be a more targeted approach to those most in need. Smoking rates are higher in areas of economic deprivation in Wales. Tobacco use is a major contributor to, and a driver of, health inequalities across Wales. As the Wales Centre for Health

Mae angen sicrhau dull gweithredu sy'n targedu i raddau mwy y bobl sydd fwyaf mewn angen. Mae cyfraddau ysmegu yn uwch mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd yng Nghymru. Mae defnyddio tybaco yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu

observes,

‘more than any other issue, tobacco use is responsible for the gap in life expectancy between the most advantaged and the most disadvantaged in our society’.

Earlier this year, I raised the issue of cardiac services at the Royal Gwent Hospital. The cardiology unit at the royal Gwent is able to undertake angiogram diagnostic examinations, but it refers patients for angioplasty to the University Hospital of Wales in Cardiff. These operations could be undertaken at the royal Gwent, which would reduce waiting times for referrals, prevent bedblocking and allow patients to be treated near to their homes, where their families can support them throughout their treatment and recovery. The Royal Gwent Hospital has the qualified medical and clinical teams together with the necessary operative theatres and equipment to perform routine cardiac surgery such as the insertion of stents. All that is required to allow these cardiac operations at the royal Gwent—and more than 70 percent of coronary angioplasty procedures include stenting—is the equitable allocation of cardiac funding. The Minister has previously conceded that that depends on the budget, but she undertook to discuss with her officials the resource implications of providing enhanced cardiac services at the royal Gwent. I hope that today the Minister will be able to confirm that these services are to begin in Newport.

**Helen Mary Jones:** I want to make two brief points in my contribution to this important debate. Others have drawn attention to the importance of rehabilitation services. I could be unpleasant and point out that the Liberal Democrat amendment, as so often, sets out the problem but does not really suggest any solutions, but given that Peter Black did suggest some solutions in his speech, that would be uncharitable of me.

at anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru ac sy'n sbarduno hynny. Fel y dywed Canolfan Iechyd Cymru,

yn fwy nag unrhyw ffactor arall, mae defnyddio tybaco'n gyfrifol am y bwlch mewn disgwyliad oes rhwng y bobl fwyaf breintiedig a'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas.

Yn gynharach eleni, codais fater gwasanaethau cardiaidd yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Gall yr uned gardioleg yn Ysbyty Brenhinol Gwent wneud archwiliadau diagnostig angiogram, ond bydd yn cyfeirio cleifion i Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd ar gyfer angioplasteg. Gellid gwneud y llawdriniaethau hyn yn Ysbyty Brenhinol Gwent, a byddai hynny'n lleihau amseroedd aros o ran atgyfeirio, yn sicrhau bod gwelyau'n cael eu rhyddhau'n brydlon, ac yn galluogi cleifion i gael triniaeth yn agos i'w cartref, lle gall eu teuluoedd eu cynorthwyo drwy gydol eu triniaeth a'u hadferiad iechyd. Mae gan Ysbyty Brenhinol Gwent y timau meddygol a chlinigol cymwys ynghyd â'r theatrau a'r offer angenrheidiol i wneud llawdriniaethau cardiaidd arferol, megis gosod stentiau. Y cyfan y mae ei angen i alluogi Ysbyty Brenhinol Gwent i wneud y llawdriniaethau cardiaidd hyn—ac y mae dros 70 y cant o lawdriniaethau angioplasteg coronaidd yn cynnwys gosod stentiau—yw dyrannu arian yn deg at ddibenion cardiaidd. Mae'r Gweinidog eisoes wedi cyfaddef bod hynny'n dibynnu ar y gyllideb, ond addawodd drafod gyda'i swyddogion y goblygiadau o ddarparu gwasanaethau cardiaidd gwell yn Ysbyty Brenhinol Gwent o ran adnoddau. Gobeithio y gall y Gweinidog gadarnhau heddiw fod y gwasanaethau hyn i gychwyn yng Nghasnewydd.

**Helen Mary Jones:** Yr wyf am wneud dau bwynt byr yn fy nghyfraniad i'r ddadl bwysig hon. Mae pobl eraill wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau adsefydlu. Gallwn fod yn annifyr a dweud bod gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, fel sy'n wir mor aml, yn egluro'r broblem ond yn methu ag awgrymu unrhyw atebion mewn gwirionedd. Ond o gofio bod Peter Black wedi awgrymu rhai atebion yn ei araith, byddai dweud hynny'n angharedig.

As others have said, good rehabilitation services are relatively low cost, have excellent proven outcomes for individuals, and the savings that can be made in keeping people out of secondary care could be valuable in themselves, particularly when resources may begin to get tight. I ask the Minister whether, in her frequent discussions with the vice-chairs of the new local health boards who are responsible for community services, she would consider ensuring that cardiac rehabilitation is prioritised across Wales. I was particularly concerned to see how few services are available in the north west, so I hope that the Minister will consider building cardiac rehabilitation into the development of community-based services as they are rolled out by the new local health boards. We have the advantage of new structures that will make it easier to move resources out of secondary care and into community care, and it seems that this is one particularly good example of where that could be done. In the long term, the service could save costs as well, although that is nowhere near as important as the positive outcomes for patients.

Secondly, several speakers have referred to the problem of smoking. I am sure that we would all agree wholeheartedly and, at a personal level, I am very glad that I never started smoking. However, we know that many people do start when they are very young, as William Graham, I think, pointed out, which makes it difficult to give up.

We also know how many young smokers get their cigarettes from vending machines, and I am grateful to the British Heart Foundation among others for that evidence. I am disappointed that the Westminster Government does not intend to bring in a ban. It is extraordinary that we allow these toxic substances to be sold through vending machines that, even with the best will in the world, go mostly unsupervised. I would not want Members to think that I spend a lot of my time in pubs, but when I do, I notice that the cigarette vending machine is very often right by the door or even in a porch. The

Fel y mae pobl eraill wedi'i ddweud, mae gwasanaethau adsefydlu da yn weddol rad, profwyd bod eu canlyniadau ar gyfer unigolion yn ardderchog, a gallai'r arbedion y gellir eu gwneud o gadw pobl allan o ofal eilaidd fod yn werthfawr yn eu rhinwedd eu hunain, yn enwedig pan allai adnoddau ddechrau mynd yn brin. Gofynnaf i'r Gweinidog a fyddai, yn ei thrafodaethau mynych gydag is-gadeiryddion y byrddau iechyd lleol newydd sy'n gyfrifol am wasanaethau cymunedol, yn ystyried sicrhau bod adsefydlu cardiaidd yn cael blaenoriaeth ledled Cymru. Yr oeddwn yn pryderu'n arbennig o weld cyn lleied o wasanaethau sydd ar gael yn y gogledd-orllewin, felly, gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried ymgorffori gwasanaethau adsefydlu cardiaidd mewn gwaith datblygu gwasanaethau cymunedol wrth i'r byrddau iechyd lleol newydd ddarparu gwasanaethau felly. Mae gennym y fantais o fod â strwythurau newydd a fydd yn ei gwneud yn haws symud adnoddau allan o ofal eilaidd ac i mewn i ofal cymunedol, ac ymddengys fod hon yn enghraifft arbennig o dda lle gellid gwneud hynny. Yn y tymor hir, gallai'r gwasanaeth arbed costau hefyd, er nad yw hynny mor bwysig o bell ffordd â'r canlyniadau cadarnhaol i gleifion.

Yn ail, mae nifer o siaradwyr wedi cyfeirio at broblem ysmegu. Yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno'n llwyr, ac ar lefel bersonol yr wyf yn falch iawn na ddechreuais erioed ysmegu. Fodd bynnag, gwyddom fod llawer o bobl yn dechrau pan fyddant yn ifanc iawn, fel y dywedodd William Graham, mi gredaf, sy'n ei gwneud yn anodd rhoi'r gorau iddi.

Gwyddom hefyd faint o ysmygwyr ifanc sy'n cael eu sigarêts o beiriannau gwerthu, ac yr wyf yn ddiolchgar i Sefydliad Prydeinig y Galon ymhlith eraill am y dystiolaeth honno. Yr wyf yn siomedig nad yw Llywodraeth San Steffan yn bwriadu cyflwyno gwaharddiad. Mae'n rhyfedd ein bod yn caniatáu i'r sylweddau gwenwynig hyn gael eu gwerthu drwy beiriannau gwerthu nad ydynt gan amlaf yn cael eu goruchwylio, hyd yn oed os yw pobl yn llawn bwriadau da i wneud hynny. Ni fyddwn am i Aelodau feddwl fy mod yn treulio llawer o'm hamser mewn tafarnau, ond pan fyddaf mewn tafarn, byddaf

Westminster Government will put a responsibility on landlords to check the identification of people using those machines. I am sure that everyone in Westminster lives very pure and chaste lives, Deputy Presiding Officer, but have they ever been in a pub on a Saturday night? How would it possibly be practical to put that responsibility on the landlord? That is unreasonable.

I am aware, Minister, that the legislation going through Westminster will give Welsh Ministers new powers. I am not sure, at this stage, whether those powers would include the power to ban cigarette machines in Wales. If those powers are coming to us, I would strongly urge you to use them. We do not sell fireworks, knives and alcohol through vending machines, and we should certainly not continue to sell cigarettes in that way. If those powers will not be with you as a Government, I wonder whether, in the medium term, we could explore a legislative competence Order to bring them here. That may be something that a Member, having won a ballot, would want to do, and I hope that the Government would support that if it happened.

Cardiac services are obviously very important, and I know that the Government's amendment acknowledges that there is still a lot of work to do. I know that the Minister is very well aware of that, but I hope that we will be moving into an era where we can move services out of secondary care and into the community where the vital work of rehabilitation can, as Peter Black and others have pointed out, make such a huge difference to patients.

**Brynle Williams:** As someone who has a great deal of first-hand experience of NHS cardiac services, this debate has a great deal of relevance. I do have particular concerns that the cardiac rehabilitation services that I was able to receive are not given the same priority as they are elsewhere in Britain. I believe that the follow-up service, to provide health advice after cardiac surgery, was absolutely essential for my recovery.

yn sylwi bod y peiriant gwerthu sigarêts yn aml iawn wrth ymyl y drws, neu mewn cyntedd hyd yn oed. Bydd Llywodraeth San Steffan yn rhoi cyfrifoldeb ar landlordiaid i wirio dogfennau adnabod pobl sy'n defnyddio'r peiriannau hyn. Yr wyf yn siŵr fod pawb yn San Steffan yn byw bywydau pur a dilychwin iawn, Ddirprwy Lywydd, ond a ydynt erioed wedi bod mewn tafarn ar nos Sadwrn? Sut ar wyneb y ddaear y byddai'n ymarferol rhoi'r cyfrifoldeb hwnnw ar y landlord? Mae hynny'n afresymol.

Gwn, Weinidog, y bydd y ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy San Steffan yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru. Nid wyf yn siŵr, ar hyn o bryd, a fyddai'r pwerau hynny'n cynnwys y pŵer i wahardd peiriannau sigarêts yng Nghymru. Os yw'r pwerau hynny i ddod inni, byddwn yn eich annog yn gryf i'w defnyddio. Nid ydym yn gwerthu tân gwyllt, cyllyll ac alcohol drwy beiriannau gwerthu, ac yn bendant ni ddylem barhau i werthu sigarêts fel hynny. Os na fydd y pwerau hynny gennyh fel Llywodraeth, tybed a allem ni archwilio Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn y tymor canolig, fel y gellir eu cyflwyno yma. Efallai fod hynny'n rhywbeth y byddai Aelod am ei wneud, ar ôl ennill pleidlais, a gobeithio y byddai'r Llywodraeth yn cefnogi hynny pe bai'n digwydd.

Yn amlwg, mae gwasanaethau cardiaidd yn bwysig iawn, a gwn fod gwelliant y Llywodraeth yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd. Gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol iawn o hynny, ond gobeithio y byddwn yn symud i gyfnod lle gallwn symud gwasanaethau allan o ofal eilaidd ac i mewn i'r gymuned, lle gall gwaith adsefydlu hanfodol wneud gwahaniaeth enfawr i gleifion, fel y mae Peter Black ac eraill wedi ei ddweud.

**Brynle Williams:** Fel rhywun sydd â llawer iawn o brofiad uniongyrchol o wasanaethau cardiaidd y GIG, mae'r ddadl hon yn berthnasol iawn i mi. Yr wyf yn pryderu'n benodol nad yw'r gwasanaethau adsefydlu cardiaidd a roddwyd i mi yn cael yr un flaenoriaeth ag a gânt mewn mannau eraill ym Mhrydain. Yn fy marn i, yr oedd y gwasanaeth dilynol, i ddarparu cyngor iechyd ar ôl llawdriniaeth gardiaidd, yn gwbl

hanfodol i'm hadferiad.

One of the most poignant things that I was told was that, if I was a smoker, I would not be here today. The risk of cancer from smoking is quite rightly highlighted, but I do not think that there is enough emphasis on cardiac ailments, diabetes and other cigarette-related illnesses. As someone else has said, cigarettes are far too easily available—they can be found anywhere. If you get a child hooked on cigarettes young enough, you have them hooked for life. Therefore, we must readdress this issue. It is far better to spend £600 on a programme of rehabilitation, which will add years to a patient's life and keep them out of surgery, than have a situation where patients are not fully aware of the, often considerable, lifestyle changes that they need to make. Failing to make those changes will lead, almost inevitably, to further health complications and the need for additional and costly surgery. It is deeply troubling that one in three of the patients who are offered this service are not interested in taking it up. There is clearly some way to go before the value of these programmes is communicated effectively by staff.

This issue of education, and, through it, better prevention, deserves to be given a higher priority, not least because it is a more cost effective use of taxpayers' money. This is rightly reflected in the first point of the motion. There is a role here for schools, where children can be made aware of the long-term impact that their lifestyle will have on them. I believe that we are en route to that now, with better better-quality food in schools, but we also need to be looking at physical education; however, on a lighter note, I know that we need to look at ourselves first. We really need to make a concerted attack on food, health and education—it all needs to come together under one banner—and that, particularly in this time following the reorganisation of the health boards, cardiac treatment and rehabilitation are given the priority that they deserve and that the quality of care is brought up to the standard provided elsewhere in the UK.

Un o'r pethau mwyaf ingol a ddywedwyd wrthyf oedd na fyddwn yma heddiw pe bawn i'n ysmegu. Tynnir sylw at berygl canser oherwydd ysmegu, ac y mae hynny'n berffaith iawn, ond ni chredaf fod digon o bwyslais yn cael ei roi ar afiechydon cardiaidd, diabetes ac afiechydon eraill sy'n gysylltiedig â sigarêts. Fel y dywedodd rhywun arall, mae sigarêts ar gael yn rhy rwydd o lawer—gellir eu cael ym mhobman. Os bydd plentyn yn mynd yn gaeth i sigarêts yn ddigon ifanc, bydd yn gaeth iddynt am oes. Felly, rhaid inni roi sylw i'r mater hwn eto. Gwell o lawer yw gwario £600 ar raglen adsefydlu, a fydd yn ychwanegu blynyddoedd at fywyd claf, a gwneud yn siŵr na fydd arno angen llawdriniaeth, na bod mewn sefyllfa lle nad yw cleifion yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau, sylweddol yn aml, y mae angen iddynt eu gwneud yn eu ffordd o fyw. Bydd methu â gwneud y newidiadau hynny'n arwain yn anochel bron at fwy o gymhlethdodau iechyd a'r angen am lawdriniaeth ychwanegol a chostus. Mae'n ofid mawr nad oes gan un o bob tri o'r cleifion sy'n cael cynnig y gwasanaeth hwn ddiddordeb mewn manteisio arno. Mae'n amlwg fod llawer o waith i'w wneud eto cyn y bydd staff yn cyfleu gwerth y rhaglenni hyn yn effeithiol.

Mae addysg, a gwell gwaith atal drwy hynny, yn haeddu cael blaenoriaeth uwch, ac un o'r rhesymau pennaf am hynny yw'r ffaith fod addysg yn ffordd fwy cost-effeithiol o ddefnyddio arian trethdalwyr. Caiff hynny ei adlewyrchu'n gywir ym mhwynt cyntaf y cynnig. Mae gan ysgolion rôl, lle gellir sicrhau bod plant yn ymwybodol o effaith hirdymor eu ffordd o fyw arnynt. Credaf ein bod ar y ffordd i gyflawni hynny'n awr, a bwyd o ansawdd gwell yn cael ei gynnig mewn ysgolion, ond mae angen inni edrych ar addysg gorfforol hefyd. Ar nodyn ysgafnach, fodd bynnag, gwn fod angen inni edrych arnom ein hunain yn gyntaf. Mae angen inni fynd i'r afael â bwyd, iechyd ac addysg ar y cyd—mae angen i'r cyfan ddod at ei gilydd dan un faner—a sicrhau, yn enwedig yn awr yn dilyn ad-drefnu'r byrddau iechyd, fod triniaeth a gwasanaethau adsefydlu cardiaidd yn cael y flaenoriaeth y maent yn ei haeddu, a bod ansawdd gofal yn



cyrraedd y safon a ddarperir mewn mannau eraill yn y DU.

5.20 p.m.

**David Lloyd:** I wish to concentrate on the prevention aspect of the motion. Prevention is the key, because we have a phenomenal burden of cardiac disease here in Wales, as has already been outlined. We have one of the highest incidences of all the western democracies. So, prevention is the key, and smoking is one of the most preventable causes of cardiac diseases. Smoking in Wales causes 6,000 deaths annually. Nicotine is a very addictive substance. Hardly anybody starts smoking as an adult; most people start as children, and I do mean children, because some are as young as seven. The average age of people starting to smoke in Wales is now 11. Therefore, we have to do everything in our power to dissuade our children from starting to smoke, because, once hooked, as everybody knows, it is very difficult to stop smoking, and that increasing burden of cardiac illness arises from that.

This is not only about cardiac illness, because smoking causes lung cancer as well. Some 94 per cent of all cases of lung cancer occur in smokers. If we could stop people smoking, the incidence of lung cancer would fall through the floor. It is that important. When we talk of risk factors and lifestyle, it is important to note that smoking is at least six times as strong a risk factor as the other risk factors that we all talk about, such as exercise and cholesterol. If you do not smoke, you have a head start. If you do smoke, please stop. As a GP, the most valuable intervention that I can make in a consultation is to convince someone not to smoke. Your life is turned around if you stop smoking.

Mention has already been made of the smoking ban. Wales and this National Assembly were ahead of the game as regards

**David Lloyd:** Dymunaf ganolbwyntio ar yr agwedd ar y cynnig sy'n ymdrin ag atal clefyd y galon. Atal yw'r allwedd, oherwydd mae gennym faich rhyfeddol i'w gario o ran clefyd y galon yma yng Nghymru, fel yr amlinellwyd eisoes. Mae nifer yr achosion o glefyd y galon yng Nghymru gyda'r uchaf yn holl wledydd democrataidd y gorllewin. Felly, atal yw'r allwedd, ac ysmegu yw un o'r achosion y mae'n fwyaf posibl ei atal. Mae ysmegu'n achosi 6,000 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru. Mae nicotin yn sylwedd caethiwus iawn. Ni fydd fawr o neb yn dechrau ysmegu pan fyddant yn oedolion; bydd y mwyafrif yn dechrau ysmegu pan fyddant yn blant, a phlant yr wyf yn ei olygu, gan fod rhai ohonynt mor ifanc â saith oed. Yng Nghymru, cyfartaledd oed pobl sy'n dechrau ysmegu bellach yw 11. Felly, rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i ddarbwylllo ein plant i beidio â dechrau ysmegu, gan ei bod yn anodd iawn rhoi'r gorau i ysmegu pan fyddwch yn gaeth i'r arfer, fel y gŵyr pawb, ac atal baich cynyddol salwch cardiaidd sy'n deillio o ysmegu.

Nid salwch cardiaidd yn unig sydd dan sylw yma, gan fod ysmegu hefyd yn achosi canser yr ysgyfaint. Mae tua 94 y cant o'r holl achosion o ganser yr ysgyfaint yn digwydd ymhllith ysmegwyr. Pe gallem rwystro pobl rhag ysmegu, byddai nifer yr achosion o ganser yr ysgyfaint yn gostwng yn ddramatig. Mae mor bwysig â hynny. Pan fyddwn yn sôn am ffactorau risg a ffordd o fyw, mae'n bwysig sylwi bod ysmegu'n ffactor risg sydd o leiaf chwe gwaith yn gryfach na'r ffactorau risg eraill yr ydym yn sôn amdanynt, megis ymarfer corff a cholesterol. Os nad ydych yn ysmegu, yr ydych ar y blaen. Os ydych yn ysmegu, rhowch y gorau iddi, da chi. Fel meddyg teulu, yr ymyrraeth fwyaf gwerthfawr y gallaf ei gwneud mewn sesiwn ymgynghori yw darbwyllo rhywun i beidio ag ysmegu. Mae rhoi'r gorau i ysmegu'n newid eich bywyd.

Mae'r gwaharddiad ar ysmegu wedi'i grybwyll eisoes. Yr oedd Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol hwn ar y blaen o ran

bringing in the ban on smoking in enclosed public buildings. After a year of the ban in Scotland, the number of heart attacks decreased by 19 per cent. There were similar figures for the first year here in Wales. I think that the number of heart attacks decreased by 14 per cent, simply because we banned smoking in enclosed public buildings—in other words, by removing the toxic effect of secondary environmental cigarette smoke, which causes heart attacks. So, a dramatic decrease in the number of heart attacks has been brought about by legislation, legislation that this National Assembly led the UK on. The Irish Government had the idea, but the first vote in all of these islands on banning smoking in enclosed public buildings was in this National Assembly in January 2003.

My final point, emphasising the importance and success of legislation in this field as regards smoking, is to exhort the Minister to think about a tobacco control strategy. We have led the field here in the National Assembly as regards legislating on smoking, and we must ban vending machines that sell cigarettes for all of the reasons that Helen Mary Jones very graphically outlined following on one of her rare visits to public houses here in Wales. [*Laughter.*] In addition, we must remove cigarettes from view in newsagents, and we must remove the promotional, brightly coloured—usually bluish backgrounds—in newsagents and small shops that are inevitably promoting cigarettes, and which are inevitably attractive to young children. I am talking about young children, and not young people. When you are seven, eight, nine, 10 and 11 you are a child, and children of those ages are smoking. We must do all that is within our power to stop our children smoking. I exhort the Minister to think seriously about doing all that we can under legislation and to institute a proper tobacco control strategy here in Wales.

**Nick Bourne:** That was a very powerful speech. There has been a measure of consensus on this issue, and I wish to associate myself with what Helen Mary and Dai Lloyd have said about the control of vending machines. That is long overdue. On

cyflwyno'r gwaharddiad ar ysmegu mewn adeiladau cyhoeddus caeëdig. Ar ôl blwyddyn o'r gwaharddiad yn yr Alban, gostyngodd nifer y trawiadau ar y galon 19 y cant. Cafwyd ffigurau tebyg am y flwyddyn gyntaf yma yng Nghymru. Credaf fod nifer y trawiadau ar y galon wedi gostwng 14 y cant, o wahardd ysmegu mewn adeiladau cyhoeddus caeëdig yn unig—mewn geiriau eraill, drwy ddileu effaith wenwynig mwg amgylcheddol eilaidd sigarêts, sy'n achosi trawiadau ar y galon. Felly, mae deddfwriaeth, yr arweiniodd y Cynulliad Cenedlaethol hwn arno yn y DU, wedi achosi gostyngiad dramatig yn nifer y trawiadau ar y galon. Llywodraeth Iwerddon a gafodd y syniad, ond yn y Cynulliad Cenedlaethol hwn ym mis Ionawr 2003 y bu'r bleidlais gyntaf yr holl nysoedd hyn ar wahardd ysmegu mewn adeiladau cyhoeddus caeëdig.

Fy mhwynt olaf, i bwysleisio pwysigrwydd a llwyddiant deddfwriaeth yn y maes hwn o ran ysmegu, yw annog y Gweinidog i ystyried strategaeth rheoli tybaco. Yr ydym wedi arwain y ffordd yma yn y Cynulliad Cenedlaethol o ran deddfu ar ysmegu, a rhaid inni wahardd peiriannau sy'n gwerthu sigarêts, am yr holl resymau a eglurwyd yn fyw iawn gan Helen Mary Jones yn dilyn un o'i hymweliadau prin â thafarnau yma yng Nghymru. [*Chwerthin.*] Yn ogystal, rhaid inni symud sigarêts o'r ffordd i fod o'r golwg mewn siopau papurau newydd, a rhaid inni ddileu'r cefndiroedd hyrwyddo llachar—lliw glas fel rheol—mewn siopau papurau newydd a siopau bach, sy'n anochel yn hyrwyddo sigarêts ac yn ddeniadol i blant ifanc. Sôn yr wyf am blant ifanc, nid pobl ifanc. Pan fyddwch yn saith, wyth, naw, 10 ac 11 oed, plentyn ydych, ac y mae plant yr oedran hwnnw'n ysmegu. Rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i rwystro ein plant rhag ysmegu. Pwysaf ar y Gweinidog i feddwl o ddifrif am wneud popeth posibl dan y ddeddfwriaeth a chyflwyno strategaeth briodol ar reoli tybaco yma yng Nghymru.

**Nick Bourne:** Yr oedd honno'n araith honno'n un bwerus iawn. Cafwyd rhywfaint o gonsensws ar y mater hwn, a hoffwn ategu'r hyn y mae Helen Mary a Dai Lloyd wedi'i ddweud ynghylch rheoli peiriannau gwerthu. Mae'n hen bryd gwneud hynny. Ar

a lighter note—and I am sure that Jeff Cuthbert would want to join me in this—I want to thank Helen Mary very much indeed for all the pub visits. As co-chairs of the all-party pub group, we are glad that you are supportive and look forward to you being at the next meeting.

More seriously, this is an important issue, as other Members have said. Around 0.25 million people live in Wales with heart disease, and together with circulatory system problems, as has been said, it claims over 11,000 lives each year. We have rising levels of obesity, diabetes and alcohol problems and an ageing population, and given the smoking situation in particular, which has been mentioned by many Members, and graphically by Brynle Williams, it really brings it home when someone is able to say, as Brynle did, ‘I wouldn’t be here if I smoked’. That is how important it is for us to take a grip of this problem of people, particularly with young people, as Dai said, as young as seven years’ old, knowing nothing of life, taking up this dreadful habit and probably signing their own death warrants at that early age. I would appeal to the Minister to take that on board, to look at this tobacco control strategy, and to see where we go. Again, we can be proud of what we did with the tobacco ban in Wales ahead of everywhere else and how we have managed to control, or at least to bring down, the number of deaths from smoking as a result.

I pay tribute to everyone who works in the NHS and in cardiac services, but we know that, as a nation, we should invest more in cardiovascular services. I know that the Minister will want to address that. It is a question of priorities, as it always is, which is why it is important that parties protect health spending, as we have promised to do here and at Westminster. We need to protect it and grow it.

The most important area, which has been concentrated on by a succession of Members speaking in this debate, is cardiac rehabilitation. Again, Brynle spoke movingly

nodyn ysgafnach—ac yr wyf yn siŵr y byddai Jeff Cuthbert am ymuno â mi yn y cyswllt hwn—hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Helen Mary am ei holl ymweliadau â thafarnau. Fel cyd-gadeiryddion y grŵp tafarnau hollbleidiol, yr ydym yn falch eich bod yn gefnogol, ac edrychwn ymlaen at eich gweld yn y cyfarfod nesaf.

Ar nodyn mwy difrifol, mae hwn yn fater pwysig, fel y mae Aelodau eraill wedi ei ddweud. Mae tua 0.25 miliwn o bobl yn byw gyda chlefyd y galon yng Nghymru, ac fel y dywedwyd, ynghyd â phroblemau cylchrediad y gwaed mae’r clefyd yn hawlio dros 11,000 o fywydau bob blwyddyn. Mae gennym lefelau cynyddol o ordewdra, diabetes a phroblemau alcohol, a phoblogaeth sy’n heneiddio, ac o ystyried y sefyllfa o ran ysmegu’n benodol, a grybwyllwyd gan nifer o Aelodau, ac yn fyw iawn gan Brynle Williams, mae’r neges yn gwbl glir pan fydd rhywun yn gallu dweud fel Brynle, ‘Ni fyddwn yma pe bawn i’n ysmegu’. Dyna mor bwysig yw inni fynd i’r afael â’r broblem hon, sef bod pobl, yn enwedig pobl mor ifanc â saith oed, fel y dywedodd Dai, nad ydynt yn gwybod dim am fywyd, yn dechrau’r arfer ofnadwy hwn ac yn eu condemnio’u hunain yn ifanc i farwolaeth, fwy na thebyg. Hoffwn apelio ar y Gweinidog i ystyried hynny, i edrych ar y strategaeth rheoli tybaco, ac i weld i ba gyfeiriad yr awn ni. Unwaith eto, gallwn fod yn falch o’r hyn a wnaethom ggyda’r gwaharddiad ar dybaco yng Nghymru o flaen pob man arall, a’r modd yr ydym wedi llwyddo i reoli, neu o leiaf i ostwng, nifer y marwolaethau oherwydd ysmegu, o ganlyniad i hynny.

Yr wyf yn rhoi teyrnged i bawb sy’n gweithio yn y GIG ac mewn gwasanaethau cardiaidd, ond gwyddom y dylem fel cenedl fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau cardiofasgwlaidd. Gwn y bydd y Gweinidog am roi sylw i hynny. Mater o flaenoriaethau ydyw, fel bob amser, a dyna pam y mae’n bwysig i’r pleidiau ddiogelu gwariant ar iechyd, fel yr ydym wedi ei addo yma ac yn San Steffan. Mae angen inni ei ddiogelu a’i gynyddu.

Y maes pwysicaf y mae un Aelod ar ôl y llall sydd wedi siarad yn y ddadl hon wedi canolbwyntio arno, yw adsefydlu cardiaidd. Unwaith eto, siaradodd Brynle yn deimladwy

of how he was able to access that. However, many people cannot do so. In north Wales, only one in five heart attack survivors receive cardiac rehabilitation services. That figure is too low, primarily from the patient's perspective, which has to be the most important thing. In looking at the pressure on the public purse, as I think that Peter Black said, the cost of the rehabilitation service is under £700. The cost of a coronary bypass, for example, is £8,000 or more. I do not think that we should look at it in monetary terms, but if we were to do so, that is supportive of what we should be doing in terms of helping the individual.

I appreciate that this is an issue of resources, and I appreciate that resources are always scarce, but if we look at the position in Wales, we see that we have some of the worst heart disease problems in the whole of the United Kingdom, if not the worst; yet, as a nation, in terms of investment and how we tackle it, we are among the lowest. I know that it is something that all Members would wish to address, and I am sure that the Minister would want to address it. I am sure that there are some things that we can do without causing massive pressure on the public purse. I look forward to hearing what the Minister has to say about how we can carry this forward and ensure that we do dramatically reduce the number of people who are dying in Wales from this dreadful disease.

**Nick Ramsay:** I suppose that I should start by also paying tribute to the valuable work done by Nick and Jeff's all-party pub group. I also concur with the thoughts of Helen Mary and the thoughtful speech regarding vending machines in pubs. I think that you are right; it is totally nonsensical to expect hard-pressed publicans, particularly at busy times of the night, to be monitoring what is happening with vending machines. Therefore, if something could be done, many of us would support it.

I support this motion recognising the importance of education and healthy lifestyles in preventing heart disease, and I

am y ffordd y llwyddodd i gael gwasanaeth o'r fath. Fodd bynnag, mae nifer o bobl yn methu cael hynny. Yn y gogledd, un yn unig o bob pum person sy'n dod drwy drawiad ar y galon sy'n cael gwasanaethau adsefydlu cardiaidd. Mae'r ffigur hwnnw'n rhy isel, yn bennaf o safbwynt y claf, sef yr agwedd bwysicaf. Wrth edrych ar y pwysau sydd ar bwrs y wlad, a chredaf mai Peter Black a ddywedodd hyn, mae cost y gwasanaeth adsefydlu'n llai na £700. Mae cost llawdriniaeth i ddargyfeirio rhydweliâu coronaidd, er enghraifft, yn £8,000 neu fwy. Ni chredaf y dylem edrych ar hynny o safbwynt ariannol, ond o wneud hynny mae'n ategu'r hyn y dylem fod yn ei wneud o ran helpu'r unigolyn.

Yr wyf yn sylweddoli bod hwn yn fater o adnoddau, ac yr wyf yn sylweddoli bod adnoddau'n brin bob amser, ond os edrychwn ar y sefyllfa yng Nghymru, gwelwn mai yma y mae rhai o'r problemau gwaethaf o ran clefyd y galon, os nad y gwaethaf, yn y Deyrnas Unedig gyfan. Ac eto, fel cenedl, o ran buddsoddi ac o ran y modd yr ydym yn mynd i'r afael â'r sefyllfa, yr ydym ymhlith yr isaf. Gwn y mater hwn yn rhywbeth y mae'r holl Aelodau yn dymuno rhoi sylw iddo, ac yr wyf yn siŵr fod y Gweinidog yn dymuno rhoi sylw iddo. Yr wyf yn siŵr fod rhai pethau y gallwn eu gwneud heb roi pwysau enfawr ar bwrs y wlad. Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gan y Gweinidog i'w ddweud am y ffordd y gallwn fwrw ymlaen â hyn a sicrhau ein bod yn gostwng yn ddramatig nifer y bobl sy'n marw o'r clefyd ofnadwy hwn yng Nghymru.

**Nick Ramsay:** Mae'n debyg y dylwn ddechrau drwy roi teyrnged hefyd i'r gwaith gwerthfawr y mae grŵp tafarnau hollbleidiol Nick a Jeff yn ei wneud. Cytunaf hefyd â barn Helen Mary a'r araith ystyriol am beiriannau gwerthu mewn tafarnau. Credaf eich bod yn iawn; nonsens llwyr yw disgwyl i dafarnwyr prysur fonitro'r hyn sy'n digwydd gyda pheiriannau gwerthu, yn enwedig ar adegau prysur o'r nos. Felly, pe bai'n bosibl gwneud rhywbeth, byddai llawer ohonom yn ei gefnogi.

Yr wyf yn cefnogi'r cynnig hwn sy'n cydnabod pwysigrwydd addysg a ffyrdd iach o fyw i atal clefyd y galon, ac yr wyf hefyd

also support the amendment. This debate comes in the wake of successive reports by the British Heart Foundation and other groups that cardiac services in Wales are sadly lagging well behind—at least behind where they should be, which has been the case for a number of years. As Nick Bourne said, there is an issue of resourcing, but it is not just a question of resourcing. I know that the Minister has done a significant amount in this regard but, hopefully, we can all find further suggestions of where improvements can be made. I welcome the fact that one of those improvements has been an improved screening programme, which has been happening since 2005, but let us face it, as Dai Lloyd said, we need this, because we experience some very severe health problems in Wales, and we have the second highest rate of coronary disease of all the countries in the United Kingdom.

5.30 p.m.

I will focus the rest of my comments on an issue raised by Peter Black and Andrew R.T. Davies, which is cardiac rehabilitation, which is cross-cutting and which brings together a range of professionals and services. Key to this is the fact that we are talking not just about health and treatment, but about wellbeing. Clearly, cardiac rehabilitation is an important part of aftercare. It is important that those who have suffered coronary disease and heart attacks receive the relevant treatment and encouragement to change their lifestyle, so that the causes of the illness are dealt with.

I have spoken with the Minister at length about the work of the North Gwent Cardiac Rehabilitation and Aftercare service. As she knows, it was experiencing severe problems with regard to funding from the local health board a few years ago. I am pleased to say that it has now received the amount of funding that it needs, and it continues to do valuable work. However, from my recent discussions with the organisation, the scale of the problems that it faces is quite overwhelming, as there are so many people who need its services.

The statistics speak for themselves. As Peter

yn cefnogi'r gwelliant. Mae'r ddadl hon yn dilyn nifer o adroddiadau gan Sefydliad Prydeinig y Galon a grwpiau eraill, fod gwasanaethau cardiaidd yng Nghymru ymhell ar ei hôl hi'n anffodus—neu o leiaf y tu ôl i'r fan lle dylent fod, a dyna yw'r sefyllfa ers llawer blwyddyn. Fel y dywedodd Nick Bourne, mae adnoddau'n broblem, ond nid mater o adnoddau'n unig ydyw. Gwn fod y Gweinidog wedi gwneud llawer yn y cyswllt hwn, ond gobeithio y gallwn oll ddod o hyd i awgrymiadau eraill ynghylch ble y gellir gwneud gwelliannau. Croesawaf y ffaith mai un o'r gwelliannau hynny oedd rhaglen sgrinio well, sydd wedi bod ar waith er 2005, ond gadewch inni wynebu'r ffeithiau. Fel y dywedodd Dai Lloyd, mae angen hyn arnom gan fod gennym rai problemau iechyd difrifol iawn yng Nghymru, a chan mai ni sydd â'r gyfradd uchaf ond un o ran clefyd coronaidd o holl wledydd y Deyrnas Unedig.

Bydd gweddill fy sylwadau'n canolbwyntio ar fater a godwyd gan Peter Black ac Andrew R.T. Davies, sef adsefydlu cardiaidd, sy'n fater trawsbynciol ac sy'n dod ag ystod o weithwyr proffesiynol a gwasanaethau at ei gilydd. Mae'r ffaith ein bod yn sôn am les yn ogystal ag iechyd a thriniaeth yn allweddol i hyn. Mae adsefydlu cardiaidd yn amlwg yn rhan bwysig o ôl-ofal. Mae'n bwysig i bobl sydd wedi dioddef clefyd coronaidd a thrawiadau ar y galon gael y driniaeth a'r anogaeth berthnasol i newid eu ffordd o fyw, er mwyn i achosion y salwch gael eu trin.

Yr wyf wedi siarad yn helaeth â'r Gweinidog am waith gwasanaeth Adsefydlu Cardiaidd ac Ôl-ofal Gogledd Gwent. Fel y gwyr, yr oedd y gwasanaeth yn cael problemau difrifol i sicrhau cyllid gan y bwrdd iechyd lleol rai blynyddoedd yn ôl. Yr wyf yn falch dweud ei fod bellach wedi cael y cyllid y mae arno'i angen, ac y mae'n parhau i wneud gwaith gwerthfawr. Fodd bynnag, o'm trafodaethau diweddar gyda'r sefydliad, mae'r problemau sy'n ei wynebu yn enfawr, gan fod angen ei wasanaethau ar gynifer o bobl.

Mae'r ystadegau'n dweud y cyfan. Fel y

Black mentioned earlier, it is not cheap; a programme of treatment costs around £600. So there is a high cost involved, but we must not forget the subsequent reduction in cost to the NHS over the medium and long-term, as people's dependence on the health service is reduced. A single day in a coronary unit costs around £1,500, and an angioplasty costs around £3,000. Therefore, there is a cost to the rehabilitation of people with cardiac problems, but when you weigh that up against the costs on the other side, and of not providing that rehabilitation, there are clearly gains to be made.

It is interesting to note that, in 2006, only about 40 per cent of patients who were in need of cardiac rehabilitation received it. That is a woeful figure, but it is an issue not just of resources, but of making people aware of the services that are available to them. Going back to Dai Lloyd's point, it is about educating people about how a small change such as stopping smoking can make a big difference to their lifestyle, and how lifestyle changes can improve the life chances of people who have been suffering from cardiac problems.

In my own area of south-east Wales, nearly 60 per cent of heart attack survivors—over half—failed to receive any form of cardiac rehabilitation. Given the comments made by other Members, I do not need to reiterate just how sad that situation is. Let us all do what we can to ensure that the message gets through, and that people access the services that are available. I know that my time is short, Deputy Presiding Officer, so I will finish with this point. At the same time, can we ensure that the new health authorities, now that we have a clean slate and a fresh start, are charged with improving the situation in relation to cardiac rehabilitation, and are well aware of their responsibilities in that regard?

This is a significant issue, and I am pleased to have been able to contribute to the debate. I am also pleased to have heard the contributions of other Members. There is no

crybwyllodd Peter Black yn gynharach, nid yw'n rhad; mae rhaglen driniaeth yn costio tua £600. Felly, mae yna gost uchel, ond rhaid inni beidio ag anghofio'r gostyngiad dilynol o ran cost i'r GIG dros y tymor canolig a'r tymor hir, wrth i ddibyniaeth pobl ar y gwasanaeth iechyd leihau. Mae un diwrnod mewn uned goronaidd yn costio tua £1,500, ac mae angioplasteg yn costio tua £3,000. Felly, er bod cost ynghlwm wrth adsefydlu pobl sydd â phroblemau cardiaidd, wrth bwysu a mesur hynny yn erbyn y costau ar yr ochr arall, a chostau peidio â darparu'r gwasanaeth adsefydlu hwnnw, mae'n amlwg bod modd sicrhau enillion.

Mae'n ddiddorol sylwi mai tua 40 y cant yn unig o gleifion yr oedd arnynt angen gwasanaeth adsefydlu cardiaidd yn 2006 a'i cafodd. Mae hwnnw'n ffigur truenus, ond mae'n fater nid yn unig o adnoddau ond o sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. I ddychwelyd at bwynt Dai Lloyd, mae'n ymwneud ag addysgu pobl sut y gall newid bach, megis rhoi'r gorau i ysmegu, wneud gwahaniaeth mawr i'w ffordd o fyw, a sut y gall newidiadau mewn ffordd o fyw wella disgwyliad oes pobl sydd wedi bod yn dioddef gan broblemau cardiaidd.

Yn fy ardal i, sef y de-ddwyrain, methodd bron i 60 y cant o bobl a ddaeth drwy drawiad ar y galon—dros eu hanner—â chael unrhyw fath o wasanaeth adsefydlu cardiaidd. O ystyried y sylwadau y mae Aelodau eraill wedi'u gwneud, nid oes angen imi ailadrodd mor drist yw'r sefyllfa honno. Gadewch inni i gyd wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y neges yn cyrraedd y mannau cywir, a bod pobl yn defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael. Gwn fod fy amser yn fyr, Ddirprwy Lywydd, felly, hoffwn orffen ar y pwynt hwn. Ar yr un pryd, a allwn sicrhau bod yr awdurdodau iechyd newydd, gan fod gennym lechen lân a chyfle i ddechrau o'r newydd, yn gyfrifol am wella'r sefyllfa o ran adsefydlu cardiaidd, ac a allwn sicrhau eu bod yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau yn hynny o beth?

Mae hwn yn fater pwysig, ac yr wyf yn falch gallu cyfrannu i'r ddadl. Yr wyf yn falch hefyd o fod wedi clywed cyfraniadau Aelodau eraill. Nid oes amheuaeth nad yw'r

doubt that the importance of addressing the issue is well recognised in the Chamber. Much has been done, but can we do that little bit more to ensure that this issue is addressed, and that people in Wales get the best life chances that they can, as they deserve?

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** The topic of today's debate is important to the citizens of Wales. As we have all recognised today, cardiac disease remains a major killer and cause of premature death in Wales. People's views about whether they will have a heart attack vary greatly. Most people think that heart attacks mostly affect middle-aged men with bad eating habits, but they affect all sectors of society, and women are just as vulnerable to cardiac disease as men. We need to send out a message to the public about tackling cardiac disease. It must remain one of the top priorities for the NHS in Wales.

I have been very taken by the points in the discussion about having a tobacco control strategy. I think that we are all agreed, across the parties, on vending machines, and what we will be able to do with any powers that are conferred upon us. It is important that I take that topic away, and give further consideration, with officials, to how we can use any legislative opportunities to strengthen the issues around it. I was particularly taken by the points made by Brynle and Helen Mary about the location of these vending machines. Sometimes, as you said, they are in the hallways of pubs and other establishments, so a child could quickly nip in, put in money and go away with cigarettes. I was also taken by Dai Lloyd's point about the age of children smoking cigarettes; some are as young as seven or eight years old.

All of those among us who are reformed smokers will know how difficult it is, once you get into the habit, to give up smoking. I started smoking as a teenager and finished smoking at 25. One of the hardest things that I have ever done is to give up smoking. For

Siambwr yn cydnabod yn llwyr mor bwysig yw rhoi sylw i'r mater. Mae llawer wedi'i wneud, ond tybed a allwn wneud ychydig mwy i sicrhau rhoi sylw i'r mater hwn a bod pobl yng Nghymru'n cael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd, fel y maent yn eu haeddu?

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae pwnc y ddadl heddiw'n bwysig i ddinasyddion Cymru. Fel yr ydym i gyd wedi cydnabod heddiw, mae clefyd y galon yn parhau i ladd llawer o bobl ac achosi marwolaethau cyn pryd yng Nghymru. Mae barn pobl a fyddant yn cael trawiad ar y galon yn amrywio'n fawr. Mae'r mwyafrif yn credu bod trawiadau ar y galon yn effeithio'n bennaf ar ddynion canol oed sydd ag arferion bwyta gwael. Ond maent yn effeithio ar bob sector mewn cymdeithas, ac y mae menywod yr un mor agored i glefyd y galon â dynion. Mae angen inni gyfleu neges i'r cyhoedd ynghylch mynd i'r afael â chlefyd y galon. Rhaid iddo barhau'n un o'r prif flaenoriaethau i'r GIG yng Nghymru.

Mae'r pwyntiau yn y drafodaeth ynghylch cael strategaeth rheoli tybaco wedi gwneud argraff arnaf. Credaf ein bod i gyd yn cytuno, ar draws y pleidiau, am beiriannau gwerthu a'r hyn y byddwn yn gallu'i wneud gydag unrhyw bwerau a gyflwynir inni. Mae'n bwysig imi fynd â'r pwnc hwnnw oddi yma heddiw, ac yn ystyried ymhellach gyda swyddogion sut y gallwn ddefnyddio unrhyw gyfleoedd deddfwriaethol i gryfhau'r problemau'n gysylltiedig ag ef. Gwnaeth y pwyntiau a gyflwynodd Brynle a Helen Mary ynghylch lleoliad y peiriannau gwerthu hyn argraff arbennig arnaf. Weithiau, fel y dywedasoch, maent yng nghynteddau tafarnau a sefydliadau eraill, a gallai plentyn sleifio i mewn yn gyflym, rhoi arian yn y peiriant a gadael gyda sigarêts. Gwnaed argraff arnaf hefyd gan bwynt Dai Lloyd ynghylch oedran plant sy'n ysmegu sigarêts; mae rhai mor ifanc â saith neu wyth oed.

Bydd pawb yn ein plith sy'n ysmygwyr sy'n wedi cael diwygiad yn gwybod mor anodd yw rhoi'r gorau i ysmegu pan fyddwch wedi mynd i'r arfer. Dechreuais ysmegu pan oeddwn yn fy ardegau, a rhoddais y gorau iddi pan oeddwn yn 25 oed. Un o'r pethau

me to say today that I would not like a cigarette would be untrue; sometimes when you have a coffee, you think 'I wouldn't mind a cigarette' and you have to pinch yourself and tell yourself that you do not want to start that habit again. It is really quite difficult to give up once you have gone down that track. It is therefore important that we put all of the mechanisms in place to assist people to give up smoking.

Brynle told us about his terrifying experience of suffering a heart attack and having to get through it, as well as knowing that you have to change your lifestyle afterwards and identifying the education that you require to undertake that. I think that it was also Brynle who alluded to education and how quickly we deal with these issues in relation to children. Through Health Challenge Wales, there is a national focus for action, and there are initiatives such as the Welsh network of healthy schools schemes and the Let's Walk Cymru scheme, whereby people of all ages are involved in improving health and wellbeing. Therefore, there is a plethora of schemes, and it is important that we recognise that they are doing some good and getting the messages across.

With regard to the amendment that we have tabled to the motion, as well as pointing to the work that is needed in the future, the motion must recognise the significant improvements that we have seen in cardiac services and the steps already taken to improve the quality of services further and to plan for equity of access to those services. Our strategy to achieve our policy aims on preventing heart disease, and improving the quality of cardiac care in Wales, will be achieved through the progressive implementation of the standards of care and the cardiac disease national service framework.

The original NSF was published in 2001 and has led to many notable improvements in this area, with significant reductions in waiting times and a reduction in the number of heart attacks, which is to be welcomed. However, there is still more to do. In July this year, we published an updated cardiac disease NSF

anoddaf imi eu gwneud erioed oedd rhoi'r gorau i ysmegu. Byddwn yn dweud celwydd pe bawn yn dweud heddiw na fyddwn yn hoffi sigarét. Weithiau, wrth gael coffi, byddaf yn meddwl 'byddai sigarét yn braf iawn', a bydd yn rhaid imi fy mhinsio fy hun a'm hatgoffa fy hun nad wyf am ddechrau'r arfer eto. Mae'n eithaf anodd rhoi'r gorau iddi pan fyddwch wedi dechrau mynd i lawr y llwybr hwnnw. Mae'n bwysig, felly, inni roi pob system ar waith i gynorthwyo pobl i roi'r gorau i ysmegu.

Dywedodd Brynle wrthym am ei brofiad brawychus o ddiodeff trawiad ar y galon a gorfod dod trwyddi, a gwybod ei bod yn rhaid ichi newid eich ffordd o fyw wedyn ac adnabod yr addysg y mae arnoch ei hangen i wneud hynny. Credaf mai Brynle hefyd a gyfeiriodd at addysg, a pha mor gyflym yr ydym yn ymdrin â'r materion hyn yng nghyswllt plant. Drwy Her Iechyd Cymru mae ffocws cenedlaethol ar gyfer gweithredu, ac y mae gennym fentrau megis Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru a chynllun Dewch i Gerdded Cymru, lle mae pobl o bob oed yn ymwneud â gwella iechyd a lles. Mae yna lu o gynlluniau, felly, ac y mae'n bwysig inni gydnabod eu bod yn gwneud lles ac yn llwyddo i gyfleu'r negeseuon.

O ran y gwelliant yr ydym wedi'i gyflwyno i'r cynnig, yn ogystal â chyfeirio at y gwaith y mae angen ei wneud yn y dyfodol, rhaid i'r cynnig gydnabod y gwelliannau sylweddol yr ydym wedi'u gweld mewn gwasanaethau cardiaidd, a'r camau a gymerwyd eisoes i wella ansawdd gwasanaethau ymhellach a chynllunio ar gyfer tegwch mynediad i'r gwasanaethau hynny. Bydd ein strategaeth i gyflawni nodau ein polisi ar clefyd y galon, a gwella ansawdd gofal cardiaidd yng Nghymru, yn cael ei chyflawni drwy weithredu'r safonau gofal a'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd y galon gam wrth gam.

Cyhoeddwyd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol gwreiddiol yn 2001, ac y mae wedi arwain at nifer o welliannau nodedig yn y maes hwn, a lleihad sylweddol mewn amseroedd aros a gostyngiad yn nifer y trawiadau ar y galon, a dylid croesawu hynny. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud o



and the standards of care reflect the developments in clinical practice and the latest evidence to ensure that we achieve the best outcomes for patients. Those standards cover the whole patient pathway from prevention, which is quite key, early detection, assessment through to diagnosis, treatment and rehabilitation, which has been a theme in this particular debate.

For the first time, there is a dedicated standard for cardiac rehabilitation to reflect the importance of the service and the need for it to be an integral and routine part of cardiac care. Nick Ramsay made a good point about the percentage of people accessing this. It now falls to the local health boards to produce a local delivery plan, mapping out the actions needed to achieve full compliance with the NSF by 2015. That will include cardiac rehabilitation.

William Graham outlined some of the local initiatives that are taking place, which are valid, and spoke about how good they are. Such local initiatives to deal with something that is not only a great risk to health, but also costs the NHS, are to be welcomed. We should do more preventative work and we take these issues seriously. However, compliance with the NSF will deal with prevention, treatment and rehabilitation.

The educational aspect and healthy eating are fundamental to this. It is not just about being more physically active, it is about a balanced diet, drinking alcohol in moderation and being smoke free. The emphasis on the smoking agenda indicates that we feel strongly that, once again, we have to get out some strong messages about smoking. For this, there are schemes such as Health Challenge Wales.

I will turn to treatment. There has been a more consistent and systematic approach to the management of treatment in primary care, with registers in GP practices. We also had

hyd. Ym mis Gorffennaf eleni, cyhoeddwyd fframwaith gwasanaeth cenedlaethol wedi'i ddiweddarau gennym ar gyfer clefyd y galon, ac y mae'r safonau gofal yn adlewyrchu'r datblygiadau mewn arfer clinigol a'r dystiolaeth ddiweddaraf, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau gorau i gleifion. Mae'r safonau hynny'n cwmpasu'r llwybr cyfan i gleifion, o waith atal, sy'n eithaf allweddol, i ddarganfod yn gynnar, asesu, diagnosio, trin ac adsefydlu, sydd wedi bod yn thema yn y ddadl benodol hon.

Am y tro cyntaf, mae yna safon benodol ar gyfer adsefydlu cardiaidd i adlewyrchu pwysigrwydd y gwasanaeth a'r angen iddo fod yn rhan annatod ac arferol o ofal cardiaidd. Gwnaeth Nick Ramsay bwynt da am ganran y bobl sy'n cael y gwasanaeth. Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yn awr yw cynhyrchu cynllun darparu lleol, a mapio'r camau gweithredu y mae eu hangen i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol erbyn 2015. Bydd hynny'n cynnwys adsefydlu cardiaidd.

Amlinellodd William Graham rai o'r mentrau lleol sy'n digwydd, ac sy'n ddilys, a dywedodd eu bod yn dda. Dylid croesawu mentrau lleol o'r fath i ymdrin â rhywbeth sy'n risg fawr i iechyd ond sydd hefyd yn costio llawer o arian i'r GIG. Dylem wneud mwy o waith atal, ac yr ydym yn cymryd y materion hynny o ddifrif. Fodd bynnag, bydd cydymffurfio â'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn ymdrin ag atal, trin ac adsefydlu.

Mae'r agwedd addysgiadol a bwyta'n iach yn hanfodol i hynny. Nid mater ydyw o wneud mwy o ymarfer corff yn unig, oherwydd mae'n ymwneud hefyd â sicrhau deiet cytbwys, yfed alcohol yn gymedrol a pheidio ag ysmegu. Mae'r pwyslais ar yr agenda ysmegu yn dangos ein bod yn teimlo'n gryf ei bod yn rhaid inni, unwaith eto, gyfleu negeseuon cryf am ysmegu. Mae gennym Mae gennyn gynlluniau megis Her Iechyd Cymru i wneud hynny.

Hoffwn droi fy sylw at waith trin. Cafwyd dull gweithredu mwy cyson a systematig o ran rheoli triniaeth mewn gofal sylfaenol, gyda chofrestrau ym meddygfeydd

the prescribing of cholesterol-lowering drugs, which increased threefold between 2002 and 2008. I recently announced funding for familial hypercholesterolaemia. This is the first time that this has been done in the UK; we are the first to do this to help to identify the increased risks of premature coronary heart disease. The national exercise referral scheme provides an opportunity for health professionals, such as GPs, to refer patients with coronary heart disease, mental health problems and so on, to a qualified exercise professional, which is good news.

meddygon teulu. Yn ogystal, cafwyd gwaith rhagnodi cyffuriau i leihau colesterol, a gynyddodd deirgwaith drosodd rhwng 2002 a 2008. Yn ddiweddar, cyhoeddais gyllid ar gyfer hypercolesterolaemia etifeddol. Hwn yw'r tro cyntaf erioed i hynny gael ei wneud yn y DU; ni yw'r cyntaf i wneud hynny er mwyn helpu nodi peryglon uwch o glefyd coronaidd y galon cyn pryd. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, megis meddygon teulu, gyfeirio cleifion sydd â chlefyd coronaidd y galon, problemau iechyd meddwl, ac yn y blaen, at weithwyr proffesiynol cymwys ym maes ymarfer corff, sy'n newyddion da.

5.40 p.m.

I have had enormous postbags of correspondence from Assembly Members and others on rehabilitation, the value of it and how it helps to educate people. I have taken action to protect these important services in terms of the investment that local health boards have to put in, and I have told them that they have to protect that in their budgets. I appreciate that there is more to do, but this is about a balance of priorities. It is about looking at our financial settlement and seeing what more we can do.

Yr wyf wedi cael sacheidiau enfawr o ohebiaeth gan Aelodau'r Cynulliad ac eraill ynghylch adsefydlu, ei werth a'r modd y mae'n helpu i addysgu pobl. Yr wyf wedi cymryd camau gweithredu i ddiogelu'r gwasanaethau pwysig hyn o ran y buddsoddiad y mae'n rhaid i fyrddau iechyd lleol ei wneud, ac yr wyf wedi dweud wrthynt ei bod yn rhaid iddynt ddiogelu hynny yn eu cyllidebau. Sylweddolaf fod mwy i'w wneud, ond mater o sicrhau cydbwysedd o ran blaenoriaethau yw hyn. Mae'n golygu edrych ar ein setliad ariannol a gweld beth arall y gallwn ni ei wneud.

Therefore, there have been achievements in this agenda, but, to pick up on Helen Mary Jones's point, we need to ensure that LHBs look at their policy agenda. As Members have said, it is much better to spend money in the early stages than to let people go down the road of having a heart attack, which becomes costly.

Bu cyflawniadau yn yr agenda hon felly, ond i gymryd pwynt Helen Mary Jones, mae angen inni sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn edrych ar eu hagenda polisi. Fel y mae Aelodau wedi ei ddweud, gwell o lawer yw gwario arian yn y cyfnodau cynnar na gadael i bobl gael trawiad ar y galon, sy'n mynd yn gostus.

There have been significant reductions in the times that people wait for diagnostic tests and so on and, by the end of December, all adults referred to secondary or tertiary cardiology will have their definitive treatment within 26 weeks. That is a huge achievement when you consider the long waiting lists that we used to have and it is down to the fact that, as a Government, we have made significant revenue and capital investment to tackle this.

Bu lleihad sylweddol yn yr amseroedd y bydd pobl yn aros am brofion diagnostig, ac yn y blaen, ac erbyn diwedd mis Rhagfyr bydd pob oedolyn a gaiff ei gyfeirio am gardioleg eilaidd neu drydyddol yn cael triniaeth ddiffiniol cyn pen 26 wythnos. Mae hynny'n gyflawniad aruthrol o ystyried y rhestrau aros hir a arferai fod gennym, ac y mae wedi digwydd oherwydd ein bod ni, fel Llywodraeth, wedi gwneud buddsoddiad refeniw a chyfalaf sylweddol i fynd i'r afael â

hynny.

I recognise that further improvements in the service are needed, such as tackling inequity of access to key services, but we must build on what we have done, consider what we need to do in the future, take a united approach and ensure that LHBs deliver on this agenda. I thank everyone for their contribution. I will read the record and take everything into account. I will certainly come back to Members to talk about the issues around a tobacco control strategy.

**Andrew R.T. Davies:** I thank everyone who has contributed to this debate. There was a point at which I thought we were just going to focus on smoking. Smoking and the smoking plan are important aspects of the debate and we can address issues around that, but cardiology and cardiac problems are far wider than that.

On the ability to access services, the Minister touched on the 26-week target to be achieved by 31 December. We addressed that in the Health and Wellbeing Committee meeting this morning, and, despite being an opposition spokesman, I hope that the target is met, because that will meet patients' aspirations. At the end of August, on all procedures, 103,000 patients were waiting for that target to be achieved. The key to meeting the target will be sustaining the opportunity to access healthcare, especially in cardiology, because in virtually every benchmark that you might care to use, Wales comes last out of the four home nations in the provision of such services, and that is to be regretted.

I am glad that the Minister touched on the national service framework agreement. The sad part is that the evidence that I have is that many professionals, whether local health board professionals or professionals at the coalface delivering the service, regard it as an aspirational delivery model rather than as something compulsory. Therefore, more steel needs to be put into the national framework to ensure that it has teeth and can deliver on what we as politicians and the Government, in particular, would like to see in the field of

Yr wyf yn cydnabod bod angen gwelliannau pellach yn y gwasanaeth, megis mynd i'r afael â mynediad anghyfartal i wasanaethau allweddol. Ond rhaid inni adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i wneud, ystyried yr hyn y mae angen inni ei wneud yn y dyfodol, mabwysiadu dull gweithredu unedig, a sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn cyflawni ar yr agenda hon. Diolch i bawb am eu cyfraniad. Byddaf yn darllen y cofnod ac yn ystyried popeth. Dof yn ôl yn bendant at yr Aelodau i siarad am y problemau gyda strategaeth rheoli tybaco.

**Andrew R. T. Davies:** Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ddatl hon. Ar un adeg credwn ein bod yn mynd i ganolbwyntio ar ysmegu'n unig. Mae ysmegu a'r cynllun ysmegu yn agweddau pwysig ar y ddatl, a gallwn roi sylw i faterion sy'n ymwneud â hynny, ond y mae cardioleg a phroblemau cardiaidd yn ehangach o lawer na hynny.

O ran y gallu cael gwasanaethau, cyfeiriodd y Gweinidog at y targed o 26 wythnos sydd i'w gyrraedd erbyn 31 Rhagfyr. Rhoesom sylw i hynny yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Lles y bore yma, ac er fy mod yn llefarydd yr wrthblaid, yr wyf yn gobeithio y cyrhaeddir y targed, oherwydd bydd hynny'n bodloni dyheadau cleifion. Ddiwedd mis Awst, o ran pob llawdriniaeth, yr oedd 103,000 o gleifion yn aros i'r targed hwnnw gael ei gyrraedd. Yr allwedd i gyrraedd y targed fydd cynnal y cyfle i allu cael gofal iechyd, yn enwedig mewn cardioleg, oherwydd mae Cymru'n waeth na Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon o ran darparu gwasanaethau o'r fath, o safbwynt pob meincnod bron y carech ei ddefnyddio, ac y mae hynny'n drueni.

Yr wyf yn falch fod y Gweinidog wedi cyfeirio at y cytundeb fframwaith gwasanaeth cenedlaethol. Y tristwch, yn ôl y dystiolaeth sydd gennyf fi, yw bod nifer o weithwyr proffesiynol, boed yn weithwyr byrddau iechyd lleol ynteu'n weithwyr rheng-flaen sy'n darparu'r gwasanaeth, yn ei ystyried yn fodel cyflenwi dyheadol yn hytrach na rhywbeth gorfodol. Felly, mae angen cryfhau'r fframwaith cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ganddo ddannedd ac y gall gyflawni o ran yr hyn yr hoffem ni fel

cardiology.

There seems to be unanimous support for the cardiac rehabilitation service model, which has been touched on by various speakers across the Chamber, but, sadly, there is a postcode lottery in terms of access to cardiac rehabilitation. My colleague Brynle Williams touched on the fact that, in north Wales, only 20 per cent of patients who might receive it do receive it. That goes back to the point that I made in my opening remarks. One of the difficulties in being able to have a comprehensive cardiac rehabilitation service is that you need different members of staff, for example, dieticians, psychologists and so on, on the team, working on the programme to ensure that it is available. As the British Heart Foundation told me, a change in mindset is required. Instead of professionals in the secondary sector performing the procedure and thinking, 'Right, I have done my bit; I do not need to do any more' and passing the patient on, we need to look at creating pathways to care so that patients have a complete experience as they progress through the healthcare system to address their situation.

I regret that the Minister did not take up my challenge to address the issue of staff recruitment and retention, particularly in four disciplines. I take the point that you have made that you will read the Record and I hope that I will get a response from you on the particular challenges that I put to you in my initial comments.

If we are to be serious about delivering a step change in cardiology services in Wales, we need to make sure that we can attract the best staff, train them accordingly and retain them. On the other aspects that were put forward by various speakers today, there was also the alcohol issue and the possibility that binge drinking will have a greater detrimental affect on people's health. Sadly, I do not think that that avenue was explored fully. We spent a lot of time on the smoking issue, but I think that diet and alcohol make a contribution equal to that of smoking when it comes to creating the cardiology problems that people face, especially in later life.

gwleidyddion, a'r Llywodraeth yn enwedig, ei weld ym maes cardioleg.

Ymddengys fod cefnogaeth unfrydol i fodel y gwasanaeth adsefydlu cardiaidd y mae amryw lefarwyr ar draws y Siambr wedi cyfeirio ato. Yn anffodus, fodd bynnag, loteri cod post yw gallu cael gwasanaethau adsefydlu cardiaidd. Cyfeiriodd fy nghydweithiwr, Brynle Williams, at y ffaith mai 20 y cant yn unig o gleifion a allai gael gwasanaeth o'r fath yn y gogledd sy'n ei gael. Mae hynny'n mynd yn ôl at y pwynt a wneuthum yn fy sylwadau agoriadol. Un o'r anawsterau wrth allu cael gwasanaeth adsefydlu cardiaidd cynhwysfawr yw'r ffaith fod arnoch angen gwahanol aelodau staff yn y tîm, er enghraifft, deietegwyr, seicolegwyr ac yn y blaen, yn gweithio ar y rhaglen i sicrhau ei bod ar gael. Fel y dywedodd Sefydliad Prydeinig y Galon wrthyf, mae angen newid meddylfryd. Yn hytrach na bod gweithwyr proffesiynol yn y sector eilaidd yn gwneud y llawdriniaeth ac yn meddwl, 'Iawn, yr wyf wedi gwneud fy rhan i; nid oes angen imi wneud rhagor' cyn trosglwyddo'r claf, mae angen inni edrych ar greu llwybrau i ofal sy'n golygu bod cleifion yn cael profiad cyflawn wrth fynd drwy'r system gofal iechyd er mwyn mynd i'r afael â'u sefyllfa.

Yr wyf yn gresynu nad ymatebodd y Gweinidog i'm her a rhoi sylw i fater recriwtio a chadw staff, yn enwedig mewn pedair disgyblaeth. Yr wyf yn derbyn y pwynt yr ydych wedi'i wneud, sef y byddwch yn darllen y cofnod, a gobeithio y caf ymateb gennych am yr heriau penodol a osodais ichi yn fy sylwadau dechreuol.

Os ydym o ddifrif ynghylch sicrhau newid mawr mewn gwasanaethau cardiaidd yng Nghymru, mae angen inni sicrhau y gallwn ddenu'r staff gorau, eu hyfforddi yn ôl yr angen a'u cadw. O ran yr agweddau eraill a gyflwynwyd gan amrywiol lefarwyr heddiw, yr oedd mater alcohol hefyd a'r posibilrwydd y bydd goryfed yn cael effaith fwy niweidiol ar iechyd pobl. Yn anffodus, ni chredaf fod yr agwedd honno wedi'i harchwilio'n llawn. Treuliyd llawer o amser gennym ar fater ysmygu, ond credaf fod deiet ac alcohol yn cyfrannu'r un faint ag ysmygu at greu'r problemau cardioleg y bydd pobl yn eu hwynebu, yn enwedig yn ddiweddarach

mewn bywyd.

Also, physical exercise is important. I note the figures that were given to me by the British Heart Foundation that 66 per cent of adult males and 72 per cent of adult females do not engage in any meaningful type of physical activity. We have a big agenda item on our hands to make that preventative argument, let alone to address the issue of providing quality services when people present with problems and the rehabilitation services at the other end.

There are three parts to this debate and all three have been touched on today. There is a great deal of work to be done and we cannot take any comfort from the current situation. As I said, sadly, Wales is in the superleague of cardiology problems, not just compared with the rest of the United Kingdom, but compared with western Europe. I very much hope that, as we move forward, we will be able to develop a superleague of services so that we can truly say that we are not at the bottom of the league. I thank everyone who has contributed to this debate today. Various issues were raised on which the Minister failed to respond and I hope that she will come back to me on those in written correspondence.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, the votes will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

At hynny, mae ymarfer corff yn bwysig. Nodaf y ffigurau a roddodd Sefydliad Prydeinig y Galon imi, sef nad yw 66 y cant o ddynion sy'n oedolion a 72 y cant o fenywod sy'n oedolion yn gwneud dim math o weithgarwch corfforol ystyrlon. Mae gennym eitem agenda fawr ar ein dwylo i gyflwyno'r ddadl ar atal clefyd y galon, heb sôn am roi sylw i fater darparu gwasanaethau o safon pan fydd pobl yn cael problemau, a'r gwasanaethau adsefydlu yn y pen arall.

Mae tair rhan i'r ddadl hon, a chyfeiriwyd at y tair heddiw. Mae llawer iawn o waith i'w wneud, ac ni allwn gymryd cysur o'r sefyllfa bresennol. Fel y dywedais, yn anffodus mae Cymru yn yr uwch-gynghrair o ran problemau cardioleg, nid o'i chymharu â gweddill y Deyrnas Unedig yn unig, ond o'i chymharu â gorllewin Ewrop. Gobeithiaf yn fawr y byddwn yn gallu datblygu uwch-gynghrair o wasanaethau wrth inni symud ymlaen, fel y gallwn ddweud yn iawn nad ydym ar waelod y gynghrair. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ddadl hon heddiw. Codwyd amryw faterion y methodd y Gweinidog ag ymateb iddynt, a gobeithio y daw'n ôl ataf ar y rheini mewn gohebiaeth ysgrifenedig.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

## Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4301: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 43.  
Motion NDM4301: For 9, Abstain 0, Against 43.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Chapman, Christine  
James, Irene  
Jones, Ann  
Law, Trish  
Lewis, Huw

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Cairns, Alun

Randerson, Jenny  
Watson, Joyce

Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Jocelyn  
Davies, Paul  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Isherwood, Mark  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Ramsay, Nick  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

*Cynnig NDM4312: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 33.  
Motion NDM4312: For 16, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Law, Trish  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin

Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4312: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 16.  
Amendment 1 to NDM4312: For 33, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R. T.  
Davies, Paul  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Law, Trish  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4312: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 33.  
Amendment 2 to NDM4312: For 16, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Law, Trish  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty

Andrews, Leighton  
 Asghar, Mohammad  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davies, Alun  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Morgan, Rhodri  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
 Amendment not agreed.*

Motion NDM4312 as amended: that

*the National Assembly for Wales:*

*1. recognises the importance of education and a healthy lifestyle in ensuring the prevention of heart disease;*

*2. recognises the significant improvements made in terms of cardiac waiting times, to be taken forward through the cardiac disease national service framework and cardiac strategic framework; and*

*3. welcomes steps taken by the Welsh Assembly Government to improve the standard of cardiac services and tackle inequalities in service provision across Wales.*

Cynnig NDM4312 fel y'i diwygiwyd: bod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn cydnabod pwysigrwydd addysg a ffordd iach o fyw er mwyn atal clefyd y galon;*

*2. yn cydnabod y gwelliannau sylweddol a wnaed o ran amseroedd aros ar gyfer triniaethau cardiaidd, i'w datblygu drwy'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd y galon, a'r fframwaith strategol cardiaidd; a*

*3. yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella safon gwasanaethau cardiaidd ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn narpariaeth y gwasanaethau ledled Cymru.*

*Cynnig NDM4312 fel y'i diwygiwyd: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 16.  
 Motion NDM4312 as amended: For 33, Abstain 0, Against 16.*



Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Law, Trish  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM4312 fel y'i diwygiwyd.  
Motion NDM4312 as amended agreed.*

## **Dadl Fer Short Debate**

### **Cefnogi Ymgyrch Rhyddid Rhag Ofn USDAW Supporting USDAW's Freedom from Fear Campaign**

**Lorraine Barrett:** Joyce Watson has asked if she may speak for a moment and I am glad to be able to offer her that time. I would like to thank Janice Gregory for hosting an event with the Union of Shop, Distributive and Allied Workers at lunchtime, promoting its freedom from fear campaign. It was a very successful event: about 25 Assembly Members and a whole host of support staff attended. USDAW was very grateful for the support shown.

**Lorraine Barrett:** Mae Joyce Watson wedi gofyn a gaiff siarad am ychydig, ac y mae'n dda gennyf allu cynnig yr amser hwnnw iddi. Hoffwn ddiolch i Janice Gregory am gynnal digwyddiad gydag Undeb y Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol (USDAW) amser cinio, i hyrwyddo'i ymgyrch rhyddid rhag ofn. Yr oedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn a fynychwyd gan ryw 25 o Aelodau Cynulliad a llu o staff cymorth. Yr oedd USDAW yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a ddangoswyd.

5.50 p.m.

It is that time of the year again when consumerism goes into overdrive. Following the opening of the St David's 2 centre last month, Cardiff is now one of the most attractive cities in the UK for a consumer—as well as for visitors and residents, of course—and we can expect to see an increase in the number of shoppers over the coming weeks as shops stay open later, and not only in Cardiff, but across Wales. Shops will be bracing themselves and hoping for a bumper couple of months to lift them out of the difficult economic conditions that have dominated the year so far. While the shopping spree can be exciting or depressing—depending on which way you look at it—there is another side to the Christmas, or winterlude, shopping chaos that largely goes unnoticed, and I think that it deserves far greater attention. I am talking about the abuse that shop workers suffer.

We have grown accustomed to calls being made to respect workers from varying professions—from football referees to the staff who work on trains. These campaigns have had a tangible effect on the how staff are treated, and they are testament to how prevention through education can be an effective way of tackling anti-social behaviour. USDAW—the Union of Shop, Distributive and Allied Workers—launched its Freedom from Fear campaign in 2002, and it has led the way in seeking to protect shop workers across the country. In a report released in 2007, it published statistics that demonstrate the verbal and physical abuse suffered by shop workers who are often left to bear the brunt of customers' dissatisfaction. I will not read all the statistics out, but I feel that a few merit being highlighted and analysed. First, 47 per cent of shop workers claimed to have been physically assaulted in 2006. This form of abuse does not take the form of a passing swear-word or sexist or racist language, lamentable though such behaviour is; it can leave a worker in pain as a result of the actions of someone they are trying to serve. Incidents of physical abuse include a cashier being stabbed and a customer who was HIV

Mae'r adeg o'r flwyddyn pan fydd defnyddwyr yn prynu fel ffyliaid wedi cyrraedd unwaith eto. Yn dilyn agor canolfan Dewi Sant 2 fis diwethaf, mae Caerdydd erbyn hyn yn un o ddinasoedd mwyaf deniadol y DU i ddefnyddwyr—a phobl sy'n ymweld â'r ddinas ac yn byw ynddi, wrth gwrs—a gallwn ddisgwyl gweld cynnydd yn nifer y siopwyr dros yr wythnosau nesaf wrth i siopau aros ar agor yn hwyrach, ledled Cymru yn ogystal ag yng Nghaerdydd. Bydd y siopau'n ymbaratoi ac yn gobeithio am fis neu ddau prysur i'w galluogi i ddod allan o'r amgylchiadau economaidd anodd sydd wedi bod mor amlwg yn ystod y flwyddyn hyd yma. Gall sbri siopa eich cyffroi neu'ch digalonni—yn dibynnu ar eich safbwynt—ond mae yna agwedd arall i'r holl siopa sy'n digwydd adeg y Nadolig, neu ŵyl y gaeaf, nad ydym yn sylwi arni i raddau helaeth, a chredaf ei bod yn haeddu llawer mwy o sylw. Sôn yr wyf am y cam-drin y bydd gweithwyr siopau yn ei ddiodef.

Yr ydym wedi dod i arfer â galwadau am barchu gweithwyr mewn amrywiol broffesiynau—o ddyfarnwyr gêmâu pêl-droed i staff sy'n gweithio ar drenau. Mae'r ymgyrchoedd hyn wedi cael effaith amlwg ar y modd y caiff staff eu trin, ac y maent yn brawf o'r modd y gall atal cam-drin drwy addysgu pobl fod yn ffordd effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Lansiodd USDAW ei ymgyrch Rhyddid rhag Ofn yn 2002, ac y mae wedi arwain y ffordd wrth geisio diogelu gweithwyr siopau ledled y wlad. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2007, cyhoeddodd yr undeb ystadegau sy'n dangos y cam-drin corfforol a geiriol a ddiodefir gan weithwyr siopau, sy'n aml yn gorfod goddef ymddygiad gwaethaf cwsmeriaid anfodlon. Nid wyf am ddarllen yr holl ystadegau ichi, ond teimlaf fod rhai ohonynt yn haeddu sylw ac yn haeddu eu dadansoddi. Yn gyntaf, honnodd 47 y cant o weithwyr siopau eu bod wedi dioddef ymosodiad corfforol yn 2006. Nid rheg ddidaro neu iaith hiliol neu rywiaethol yw'r math hwn o gam-drin, er mor resyn yw ymddygiad o'r math hwnnw; gall y math hwn o gam-drin olygu bod gweithiwr mewn poen oherwydd gweithredoedd rhywrai y maent yn ceisio'u gwasanaethu. Ymhlith yr achosion o

positive biting a shop worker. While these are extreme cases, it is shocking that shop workers have to suffer such abuse at all. Shoplifters are the main perpetrators of acts of physical abuse, and the view that shoplifting is a petty, victimless crime is clearly a misconception. It is the role of politicians and the police to ensure that there is enough of a deterrent so as to prevent potential shoplifters from stealing and placing shop workers in danger.

Far more prevalent than reported cases of physical abuse were those of verbal abuse. While physical abuse was carried out in the majority of cases by young people, there is no section of the population that is primarily responsible for verbal abuse towards shop workers. Verbal abuse is as likely to come from the elderly lady who is upset at the length of time she has been made to wait at a checkout as it is from a young man who is refused a sale on the basis of not having identification. Customers often use shop workers as a target at which to vent their frustration at company policy or if a desired product is unavailable. As with physical abuse, verbal abuse should not be tolerated.

The effects of any form of abuse in the workplace can be extremely damaging to the individual concerned. USDAW claims that over a third of its members reported that workers complained often or very often about ill health caused by their fear of violence and abuse. The same is true for the NHS. We recently conducted a review of that, and it showed the fear that NHS staff have of violence and abuse. A third of the union's membership is a surprisingly large number, and it is unforgivable that a person's health should be seriously affected because of the threats and abuse that they receive when simply doing their job. Being frightened to go to work must be a terrible feeling. Incidents of shop workers suffering from post-traumatic stress disorder are uncommon, but not unheard of, and such a condition can

gam-drin corfforol mae achos lle cafodd derbynnydd arian ei drywanu, ac achos lle cafodd gweithiwr siop ei gnoi gan gwsmer a oedd wedi'i heintio â HIV. Er bod yr achosion hyn yn eithafol, mae'n gywilyddus bod gweithwyr siopau'n gorfod dioddef cam-drin o'r fath o gwbl. Lladron sy'n bennaf gyfrifol am achosion o gam-drin corfforol, ac y mae'n amlwg mai camsyniad yw'r gred fod dwyn o siopau'n drosedd dibwys a neb yn dioddef. Rôl gwleidyddion a'r heddlu yw sicrhau bod systemau atal digonol ar waith i rwystro lladron posibl rhag dwyn, a'u rhwystro rhag rhoi gweithwyr siopau mewn perygl.

Yr oedd achosion o gam-drin geiriol yn fwy cyffredin o lawer nag achosion o gam-drin corfforol y cafwyd gwybod amdanynt. Er bod y rhan fwyaf o achosion o gam-drin corfforol wedi'u cyflawni gan bobl ifanc, nid oes un rhan benodol o'r boblogaeth sy'n bennaf gyfrifol am gam-drin gweithwyr siopau'n eiriol. Mae'r ddynes hyn sy'n ddig am ei bod wedi gorfod aros cyhyd wrth y til yr un mor debygol o fod yn gyfrifol am gam-drin geiriol â'r dyn ifanc y gwrthodir gwerthu nwyddau iddo am nad oes ganddo ddogfennau adnabod. Yn aml, bydd cwsmeriaid yn defnyddio gweithwyr siopau fel targed i fynegi eu rhwystredigaeth ynghylch polisi'r cwmni neu'r ffaith nad yw'r cynnyrch y maent yn dymuno'i brynu ar gael. Fel yn achos cam-drin corfforol, ni ddylid goddef cam-drin geiriol.

Gall effeithiau unrhyw fath o gam-drin yn y gweithle fod yn eithriadol o niweidiol i'r unigolyn dan sylw. Mae USDAW yn honni bod dros un rhan o dair o'i aelodau wedi dweud bod gweithwyr yn cwyno'n aml neu'n aml iawn am afiechyd a achosir oherwydd eu bod yn ofni trais a cham-drin. Mae'r un peth yn wir am y GIG. Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad gennym o hynny, a dangosodd yr adolygiad sut y mae staff y GIG yn ofni trais a cham-drin. Mae un rhan o dair o aelodau'r undeb yn nifer syndod o fawr, ac y mae'n anfaddeuol y dylai iechyd unigolion ddioddef yn ddifrifol oherwydd y bygythiadau a'r cam-drin a gânt wrth fynd ati'n syml i wneud eu gwaith. Rhaid bod ofni mynd i'r gwaith yn deimlad erchyll. Mae achosion lle mae gweithwyr siopau'n dioddef anhwylder straen wedi trawma yn anghyffredin ond yn

take years to overcome. Far more common are incidents of workers anticipating something happening at work and waking up in the morning thinking about previous abuse that they or a colleague have suffered. This can lead to a vicious circle of staff not being as productive as they could be, which in turn can lead to a poorer service and more complaints and abuse from customers. With such a high number of incidents of staff suffering as a result of customers' dissatisfaction, it is imperative that a support network is put in place so that if an incident of abuse occurs, a worker is able to feel confident in going to their manager to seek help. While this is becoming more and more prevalent, sadly it is not always the case. USDAW claims that there have been instances where little support has been given to victims of even physical abuse.

It would be easy to condemn shop managers for not ensuring that staff feel safe and supported in their jobs. However, the managers themselves are often the victims of abuse and are left with no guidance on how to tackle the issue. Steps which should be taken such as lighting the car park, ensuring that more than one worker locks up at night and installing CCTV cameras are often not the responsibility of a store manager. I believe that it is the role of Government, along with local authorities, to work with the police and the management of shops to ensure that all is done to prevent workers from being susceptible to abuse.

The Co-operative Group and other co-operative retail societies are major supporters of USDAW's campaign and have their own 'Respect for Shopworkers' campaign to protect those that work in convenience retail stores. They have brought in various initiatives in their stores, such as installing classical music devices to deter anti-social behaviour outside the store, and create a welcoming atmosphere for customers. Crime has reduced by 70 per cent in the stores where classical music is played. They support neighbourhood policing, and last year they organised a series of local respect events in

digwydd, a gall gymryd blynyddoedd i wella o anhwylder o'r fath. Mae achosion, lle mae gweithwyr yn disgwyl i rywbeth ddigwydd yn y gwaith, ac yn deffro yn y bore'n meddwl am gam-drin blaenorol y maent hwy neu gydweithiwr wedi'i ddiodeff, yn fwy cyffredin o lawer. Gall hynny arwain at gylch dieflig lle nad yw staff mor gynhyrchiol ag y gallent fod, a hynny yn ei dro'n gallu arwain at wasanaeth gwaeth a mwy o gwynion a cham-drin gan gwsmeriaid. Gan fod cynifer o achosion lle mae staff yn diodeff oherwydd anfodlonrwydd cwsmeriaid, y mae'n hanfodol rhoi rhwydwaith cymorth ar waith, fel y gall gweithiwr fynd at ei reolwr yn hyderus i ofyn am help os bydd achos o gam-drin. Er bod gweithwyr yn mynd at eu rheolwyr yn amlach, yn anffodus nid ydynt bob amser yn cael y cymorth priodol. Mae USDAW yn honni mai ychydig gymorth a gynigiwyd mewn rhai achosion, hyd yn oed i bobl a oedd wedi diodeff camdriniaeth gorfforol.

Byddai'n hawdd condemnio rheolwyr siopau am beidio â sicrhau bod staff yn teimlo'u bod yn cael eu diogelu a'u cefnogi yn eu swyddi. Fodd bynnag, mae'r rheolwyr eu hunain yn aml yn diodeff camdriniaeth, a chânt eu gadael heb ddim arweiniad ynghylch sut i fynd i'r afael â'r broblem. Yn aml, nid rheolwr siop sy'n gyfrifol am gamau y dylid eu cymryd, megis goleuo'r maes parcio, sicrhau bod mwy nag un gweithiwr yn cloi'r siop gyda'r nos, a gosod camerâu teledu cylch cyfyng. Credaf mai rôl y Llywodraeth, ynghyd ag awdurdodau lleol, yw gweithio gyda'r heddlu a rheolwyr siopau i sicrhau y gwneir popeth posibl i atal gweithwyr rhag bod yn agored i'w cam-drin.

Mae The Co-operative Group a chymdeithasau manwerthu cydweithredol eraill ymhlith rhai o brif gefnogwyr ymgyrch USDAW, ac y mae ganddynt eu hymgyrch eu hunain 'Parch at Weithwyr Siopau' i ddiogelu pobl sy'n gweithio mewn siopau bach. Maent wedi gweithredu amrywiol fentrau yn eu siopau, megis gosod dyfeisiau chwarae cerddoriaeth glasurol i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol y tu allan i'r siop a chreu awyrgylch croesawgar i gwsmeriaid. Mae troseddau wedi gostwng 70 y cant yn y siopau lle caiff cerddoriaeth glasurol ei chwarae. Maent yn cefnogi

communities with police, residents and local authorities. The Co-operative offers spare store space in a number of stores to local police, creating a place where they can work while out on the beat.

Trade unions also have a role to play in tackling the issue, as shop workers and managers are in a far stronger position to defend and support themselves knowing that the guidance and aid of a union is available to them. USDAW has compiled guides to supporting workers and tackling anti-social behaviour, and I urge shop workers to think seriously about joining a trade union.

I am grateful to have the opportunity to address this issue, and I hope that it will remind people that shop workers are there to serve us—literally; they are only doing their job, so let them do it in safety. It is time to say that the customer is not always right, that abuse is not part of a shop worker's job and that it should not be tolerated.

**Joyce Watson:** Most people who visit a shop are considerate, polite and jolly, but it is also sad to say that not all customers and shoppers are of that manner. We expect those people who work in shops to have an entitlement to freedom from fear. The evidence supports the fact that there are no age, gender, race or other barriers to the abuser or the abused. Shop workers are public servants, and we all know that that job is difficult. No-one accepts this type of behaviour in the health service, and that is right and proper. It is time to move the agenda that we do not accept bad behaviour towards public servants who happen to work in the shop workers industry. I commend Lorraine for bringing forward this debate and giving me an opportunity to send the message that it is wrong in every case to abuse a shop worker. It is also the case, as Lorraine said, that the customer is not always right. I hope that others will join me in conveying that message in their locality, and join a local campaign in their given area to highlight the issues that have been raised.

plismona cymunedol, a'r llynedd trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau lleol cymunedol ganddynt ar barch, ar y cyd â'r heddlu, trigolion ac awdurdodau lleol. Mae The Co-operative yn cynnig lle rhydd mewn nifer o siopau i'r heddlu lleol, gan greu man lle gall swyddogion heddlu weithio pan fyddant wrthi'n plismona.

Mae gan undebau llafur rôl hefyd wrth fynd i'r afael â'r broblem, oherwydd bydd rheolwyr a gweithwyr siopau mewn sefyllfa dipyn cryfach i'w diogelu a'u cynorthwyo'u hunain o wybod bod arweiniad a chymorth undeb ar gael iddynt. Mae USDAW wedi llunio canllawiau i gynorthwyo gweithwyr a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac anogaf weithwyr siopau i feddwl o ddifrif am ymuno ag undeb llafur.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i roi sylw i'r mater hwn, a gobeithio y bydd yn atgoffa pobl fod gweithwyr siopau yno i'n gwasanaethu—yn llythrennol; gwneud eu gwaith yn unig y maent, felly, beth am adael iddynt ei wneud mewn amodau diogel? Mae'n bryd dweud nad y cwsmer sy'n iawn bob tro, nad yw cam-drin yn rhan o swydd gweithiwr siop, ac na ddylid ei oddef.

**Joyce Watson:** Mae mwyafrif y bobl sy'n ymweld â siop yn ystyriol, yn gwrtais ac yn serchog, ond y mae hefyd yn drist nodi nad pobl felly yw pob cwsmer a siopwr. Yr ydym yn disgwyl i'r bobl sy'n gweithio mewn siopau fod â hawl i ryddid rhag ofn. Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r ffaith nad oes dim rhwystrau o ran oed, rhyw a hil na rhwystrau eraill o ran y sawl sy'n cam-drin neu'r sawl sy'n dioddef. Gweision cyhoeddus yw gweithwyr siopau, a gwyddom i gyd mor anodd yw'r gwaith hwnnw. Nid oes neb yn derbyn y math hwn o ymddygiad yn y gwasanaeth iechyd, ac y mae hynny'n iawn ac yn briodol. Mae'n bryd symud yr agenda sy'n dangos nad ydym yn derbyn ymddygiad gwael tuag at weision cyhoeddus sy'n digwydd gweithio mewn siopau. Yr wyf yn canmol Lorraine am gyflwyno'r ddadl hon ac am roi cyfle imi gyfleu'r neges fod cam-drin gweithiwr siop yn anghywir ym mhob achos. Yn ogystal, fel y dywedodd Lorraine, mae'n wir nad yw'r cwsmer yn iawn bob tro. Gobeithio y bydd pobl eraill yn ymuno â mi i

gyfleu'r neges honno yn eu hardaloedd, ac yn ymuno ag ymgyrch leol yn eu hardal benodedig i dynnu sylw at y materion a godwyd.

6.00 p.m.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** I start by thanking Lorraine and Joyce for their contributions. I am pleased to give my support to USDAW's Freedom from Fear campaign. I would also like to thank and congratulate Janice Gregory for her long record in highlighting this particular area of work and for working with USDAW to make our shops safer places for staff to work. The Welsh Assembly Government has supported USDAW and its campaigns to prevent violence, threats and abuse against shop workers since the first campaign was launched in 2002. I think that Janice was involved at that particular juncture.

There are some, if you listen to the media, who try to play down the issue of health and safety at work. We often read stories in certain media outlets about overzealous health and safety inspectors, but we never read in the same papers about the deaths, injuries and hurt that the health and safety inspectorate prevents and, as Lorraine said in her contribution, this is an area where prevention is much better than cure. While it is important that we have a proportionate and risk-based approach to health and safety at work, it is in all our interests, no matter what people's professional calling is, that they have the right to work in a safe and secure environment. That is why I, like everyone else who heard Lorraine's contribution, was appalled to hear the statistics that USDAW has prepared that show that so many of its staff, over a relatively short period of time, have been subject to violence and abuse. As Lorraine said, and it is an important point to repeat, there are not just the physical consequences or the psychological hurt at the time that the insults are made. If a person wakes up in the morning and is afraid to go into work, it destroys their quality of life. It is horrific to realise that some people working in the retail trade could be suffering long-term consequences such as post-traumatic

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Lorraine a Joyce am eu cyfraniadau. Mae'n bleser gennyf gefnogi ymgyrch USDAW Rhyddid rhag Ofn. Yn ogystal, hoffwn ddiolch i Janice Gregory a'i llongyfarch am ei hymdrech ers amser maith i dynnu sylw at y maes gwaith penodol hwn, ac am weithio gydag USDAW i wneud ein siopau'n lleoedd mwy diogel i staff weithio ynddynt. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi USDAW a'i ymgyrchoedd i atal trais, bygythiadau a cham-drin gweithwyr siopau ers lansio'r ymgyrch gyntaf yn 2002. Credaf fod Janice yn ymwneud â'r mater bryd hynny.

Wrth wrando ar y cyfryngau, clywir rhai pobl sy'n ceisio rhoi llai o bwys ar iechyd a diogelwch yn y gwaith. Byddwn yn darllen straeon yn aml mewn rhai cyfryngau am arolygwyr iechyd a diogelwch gorfrwdffrydig, ond ni fyddwn byth yn darllen yn y papurau hynny am y marwolaethau, yr anafiadau a'r niwed y mae'r arolygiaeth iechyd a diogelwch yn eu hatal, ac fel y soniodd Lorraine yn ei chyfraniad hi, mae hwn yn faes lle mae'n well o lawer rhwystro'r clwy na'i wella. Er ei bod yn bwysig inni fabwysiadu agwedd gymesur at iechyd a diogelwch yn y gwaith, wedi'i seilio ar risg, mae o fudd i bob un ohonom sicrhau bod gan bobl hawl i weithio mewn amgylchedd saff a diogel, ni waeth beth fo'u galwedigaeth broffesiynol. Dyna pam y cefais i, fel pawb arall a glywodd gyfraniad Lorraine, fy nychryn o glywed yr ystadegau y mae USDAW wedi'u paratoi, sy'n dangos bod cynifer o'i staff, dros gyfnod cymharol fyr, wedi dioddef trais a chamdriniaeth. Fel y dywedodd Lorraine, ac y mae'n bwynt pwysig i'w ailadrodd, nid y canlyniadau corfforol neu'r niwed seicolegol a adewir ar ôl sarhau'r gweithiwr dan sylw yw unig effeithiau cam-drin. Os bydd unigolyn yn deffro yn y bore ac yn ofni mynd i'r gwaith, caiff ansawdd ei fywyd ei ddifetha. Mae'n

stress syndrome. It is a sad situation that this has come to pass.

Retail workers are an important part of our economy and community; they are not faceless individuals, but our friends, parents, wives and husbands. I applaud this campaign and any action that will be taken to prevent front-line workers in the private or public sector from physical attacks and verbal abuse. Both Joyce and Lorraine highlighted the fact that we are in the run-up to Christmas, and, while some of us like it, others have a much more mixed view. There is no doubt that it is a time when stores are busy and crowded and when people are stressed, but it is sadly the case that a small minority of shoppers thinks that this time of year is also a licence to shout at and abuse staff, who are doing their best in difficult circumstances. We must send out a strong message in this debate that that is not good enough.

We realise that, at this time of year, town centres are particularly vulnerable areas. What happens outside a shop can also contribute to the problems inside it. USDAW has highlighted the role of closed-circuit television. It can play a significant role in protecting the public outside the shop door and it can be a valuable deterrent when it comes to people who think that they can go into a shop, abuse staff, walk out and escape undetected. Therefore, CCTV can be an important instrument in bringing these people to account. USDAW is lobbying for more police and police community support officers to patrol our streets, particularly in our shopping precincts. The UK Government's promotion of neighbourhood policing has also meant that dedicated police officers and PCSOs are working at the heart of their communities and are in a unique position to get to know shop workers on a first-name basis. In tackling local problems and giving the police a visible face, they are able to take into account the unique circumstances of their own areas. The further development of community policing fits in well with the

arswydus sylweddoli y gallai rhai pobl sy'n gweithio ym maes manwerthu fod yn dioddef canlyniadau hirdymor megis syndrom straen wedi trawma. Mae'n drist bod y sefyllfa hon yn bod.

Mae gweithwyr ym maes manwerthu yn rhan bwysig o'n heconomi a'n cymuned; ein cyfeillion, ein rhieni, ein gwagedd a'n gwŷr ydynt, nid unigolion dieithr. Yr wyf yn canmol yr ymgyrch hon, ac unrhyw gamau gweithredu a gymerir i atal gweithwyr rhengflaen yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus rhag dioddef ymosodiadau corfforol a cham-drin geiriol. Tynnodd Joyce a Lorraine sylw at y ffaith ein bod yn nesáu at y Nadolig, ac er y bydd rhai ohonom wrth ein bodd â hynny, bydd gan eraill deimladau mwy cymysg o lawer. Nid oes amheuaeth nad yw hon yn adeg pan fydd y siopau'n brysur ac yn orlawn, a phan fydd pobl dan straen. Ond yn anffodus mae hefyd yn wir fod lleiafrif bach o siopwyr yn meddwl bod yr adeg hon o'r flwyddyn yn rhoi hawl iddynt weiddi ar staff a cham-drin staff sy'n gwneud eu gorau glas mewn amodau anodd. Rhaid inni gyfleu neges gref yn y ddadl hon, sy'n dweud nad yw hynny'n ddigon da.

Sylweddolwn fod canol trefi'n ardaloedd sy'n arbennig o agored i risg yr adeg hon o'r flwyddyn. Gall yr hyn sy'n digwydd y tu allan i siop gyfrannu hefyd at y problemau y tu mewn iddi. Mae USDAW wedi tynnu sylw at rôl teledu cylch cyfyng. Gall fod yn bwysig wrth ddiogelu'r cyhoedd y tu allan i ddrws y siop, a gall fod yn ddull gwerthfawr i atal pobl sy'n credu y gallant fynd i mewn i siop, cam-drin y staff, cerdded allan a dianc heb i neb eu gweld. Gall teledu cylch cyfyng fod yn adnodd pwysig, felly, i ddwyn y bobl hyn i gyfrif am eu gweithredoedd. Mae USDAW wrthi'n lobbio i gael mwy o swyddogion heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu i batrolio ein strydoedd, yn enwedig yn ein canolfannau siopa. Yn ogystal, mae'r gwaith y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud i hyrwyddo plismona yn y gymdogaeth wedi golygu bod swyddogion heddlu penodedig a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu wrthi'n gweithio yng nghanol eu cymunedau, a'u bod mewn sefyllfa unigryw i ddod i adnabod gweithwyr siopau wrth eu henwau cyntaf. Wrth fynd i'r afael â phroblemau lleol a gwneud yr

campaign that is being promoted by USDAW.

I was pleased to see, in the last few weeks, the formal launch by the police forces in Wales of their crime statistics database, which will allow us to look at the levels of crime in all of our communities and, in those areas where there are above-average levels of crime, to get a feel for what the police are doing to address it.

Community safety is not just for the police, or the council, or any single agency. All of us as citizens have a responsibility, and we need to work with our front-line staff, whether they are shop workers, or in public services, or even football referees. They deserve our support—unless they give a wrong decision against Rhyl F.C., of course.

Central to this is the work of the community safety partnerships, which are the crucial agency for tackling local priorities on this. They are making a real difference, reflecting people's concerns and seeking to address crime and disorder, anti-social behaviour and the misuse of substances that can destroy entire communities and people's quality of life.

As an Assembly Government we are concerned about some of the points that were made in the debate. Our recent strategy on substance misuse, 'Working Together to Reduce Harm', highlighted the anti-social consequences of both drugs and alcohol. We know that substance misuse is an important driver of acquisitive crime and, clearly, shoplifting is one of those types of crime that is often driven by a drug habit. By working to tackle the problem of substance misuse, we will hopefully make the working environment safer for members of USDAW and others in the retail sector.

heddlu'n weladwy, gallant ystyried amgylchiadau unigryw eu hardaloedd eu hunain. Mae gwaith pellach i ddatblygu plismona cymunedol yn cyd-fynd yn dda â'r ymgyrch sy'n cael ei hyrwyddo gan USDAW.

Yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, yr oeddwn yn falch gweld heddluoedd Cymru yn lansio'n ffurfiol eu cronfa ddata o ystadegau ar droseddau, a fydd yn ein galluogi i edrych ar lefelau troseddu ym mhob un o'n cymunedau, a chael syniad o'r hyn y mae'r heddlu'n ei wneud i fynd i'r afael â throseddu yn yr ardaloedd lle mae lefelau troseddu'n uwch na'r cyfartaledd.

Nid mater i'r heddlu, neu'r cyngor, neu un asiantaeth yn unig yw diogelwch cymunedol. Fel dinasyddion mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb, ac y mae angen inni gydweithio â'n staff rheng-flaen, boed yn weithwyr siopau, yn weithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus, ynteu'n ddyfarnwyr gêmâu pêl-droed hyd yn oed. Maent yn haeddu ein cefnogaeth—oni bai eu bod yn gwneud penderfyniad anghywir yn erbyn Clwb Pêl-droed y Rhyl, wrth gwrs.

Mae gwaith y partneriaethau diogelwch cymunedol yn ganolog i hynny, oherwydd maent yn asiantaethau hollbwysig i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol yn y cyswllt hwn. Maent yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, yn adlewyrchu pryderon pobl ac yn ceisio mynd i'r afael â throseddu ac anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r arfer o gamddefnyddio sylweddau, sy'n medru difetha cymunedau cyfan ac ansawdd bywyd pobl.

Fel Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym yn pryderu am rai o'r pwyntiau a wnaed yn y ddadl. Yr oedd ein strategaeth ddiweddar ar gamddefnyddio sylweddau, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', yn tynnu sylw at ganlyniadau gwrthgymdeithasol cyffuriau ac alcohol. Gwyddom fod camddefnyddio sylweddau'n ffactor pwysig sy'n cyfrannu at droseddau meddiangar, ac y mae'n amlwg bod dwyn o siopau yn un o'r mathau o droseddau a sbardunir yn aml gan yr arfer o ddefnyddio cyffuriau. Drwy weithio i fynd i'r afael â phroblem camddefnyddio sylweddau, y gobaith yw y



byddwn yn gwneud yr amgylchedd gweithio'n fwy diogel i aelodau USDAW a phobl eraill yn y sector manwerthu.

Alcohol is an important area, and the challenge for shop workers to ensure that alcohol is not sold to people under 18 can be a problem. However, it is encouraging to see that the fail rate in test purchasing operations is lower than it was a few years ago. We must continue to promote mystery shopping to ensure that that progress is continued. Equally, we realise that the sale of drink to underage people is sometimes driven by unscrupulous shop owners, who lack a sense of public duty. Very often, it is the consequence of intimidation, and both the shop owner and worker may feel compelled to sell for that reason. This is a wide problem area, and changing public attitudes is important.

This debate is particularly timely for me as a Minister because, earlier this week, I joined the fire and rescue service, the police and the Crown Prosecution Service at Ely fire station here in Cardiff to sign the UK's first memorandum of understanding ensuring effective prosecution of cases involving abuse against fire and rescue service personnel. By signing this memorandum, we are sending out a clear message to emergency workers and front-line workers that they do not have to put up with such behaviour, and we as an Assembly Government will support them in building a safer work environment, as well as ensuring that the perpetrators will be held to account.

**Ann Jones:** While I welcome that, it is something that the Fire Brigades Union has been pushing for for some time. Does it include control room staff, who will suffer abuse on the telephone, as well as front-line firefighters in the field? Can we look at this memorandum of understanding and ask USDAW whether we could do something similar for shop workers?

**Brian Gibbons:** That is a good idea, and to

Mae alcohol yn faes pwysig, a gall yr her i weithwyr siopau sicrhau na chaiff alcohol ei werthu i bobl dan 18 fod yn broblem. Fodd bynnag, mae'n galonogol gweld bod y gyfradd methu mewn ymarferion prawf-brynu yn is nag yr oedd rai blynyddoedd yn ôl. Rhaid inni barhau i hyrwyddo ymarferion siopa gan gwsmer cudd i sicrhau bod y cynnydd hwnnw'n parhau. Yn yr un modd, sylweddolwn mai perchnogion diegwyddor siopau, nad oes ganddynt ymdeimlad o ddyletswydd gyhoeddus, sydd weithiau'n hybu'r arfer o werthu diod i bobl dan oed. Yn aml iawn, bydd hynny'n digwydd oherwydd ofn, ac efallai y bydd perchennog y siop a'r gweithiwr yn teimlo rheidrwydd i werthu diod i bobl dan oed am y rheswm hwnnw. Mae'r maes problemus hwn yn un eang, ac y mae newid agweddau'r cyhoedd yn bwysig.

Mae'r ddadl hon yn arbennig o amserol i mi fel Gweinidog, oherwydd yn gynharach yr wythnos hon ymunais â'r gwasanaeth tân ac achub, yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yng ngorsaf dân Trelái yma yng Nghaerdydd, i lofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth cyntaf y DU i sicrhau bod pobl sy'n cam-drin personél y gwasanaeth tân ac achub yn cael eu herlyn yn effeithiol. Drwy lofnodi'r memorandwm, yr ydym yn anfon neges glir i weithwyr sy'n ymdrin ag argyfyngau, neu weithwyr rheng-flaen, nad oes raid iddynt oddef ymddygiad o'r fath, ac y byddwn ni fel Llywodraeth y Cynulliad yn eu cefnogi wrth greu amgylchedd gweithio mwy diogel, ac yn sicrhau bod y sawl sy'n eu cam-drin yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd.

**Ann Jones:** Er fy mod yn croesawu hynny, mae'n gam y mae Undeb y Brigadau Tân wedi bod yn ymgyrchu drosto ers cryn amser. A yw'n cynnwys staff ystafelloedd rheoli, a fydd yn dioddef eu cam-drin dros y ffôn, yn ogystal ag ymladdwyr tân rheng-flaen sy'n gweithio yn y maes? A allwn edrych ar y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn a gofyn i USDAW a fyddai modd inni wneud rhywbeth tebyg ar gyfer gweithwyr siopau?

**Brian Gibbons:** Mae hynny'n syniad da, ac i

answer your question, yes, it includes control room staff and the fire and rescue service staff who are not fully kitted out but do community safety work, making people's homes safer from fire. Lorraine pointed out the key role played by trade unions in promoting this work, and the Fire Brigades Union has been a key agent in highlighting the risks to firefighters.

Launching that memorandum of understanding was salutary and, indeed, sad, because it was clear that many firefighters regarded bricks and insults as part of the job and seemed to have resigned themselves to being treated in that way. Possibly some in the retail trade, particularly at this time of year, also think that it goes with the territory. We have to send out a clear message that that is not the case, and it is not acceptable in a socially responsible and civil society.

6.10 p.m.

We have also heard of the good work that is done by my colleague the Minister for Health and Social Services, who has very much led the way in taking action to protect front-line services, whether in the public or private sectors, and also working with lone workers—not just people in an accident and emergency department or on wards, but lone workers who go to people's houses. It is important that we recognise the need for them to be safe as well.

In conclusion, this is a very important campaign, because of the key messages that it gives in relation to our concern for front-line workers. It is also an important debate because it is about setting standards for public behaviour, public morality and public value, and those who contravene social standards need to be held to account for what they do. It would be so much better to create a society here in Wales and across the United Kingdom in which people are sufficiently

ateb eich cwestiwn, ydy, mae'n cynnwys staff ystafelloedd rheoli a staff y gwasanaeth tân ac achub nad ydynt yn ymladd tân ond sy'n gwneud gwaith yng nghyswllt diogelwch cymunedol, i wneud cartrefi pobl yn fwy diogel rhag tân. Cyfeiriodd Lorraine at rôl allweddol undebau llafur wrth hyrwyddo'r gwaith hwn, ac y mae Undeb y Brigadau Tân wedi bod yn asiant allweddol i dynnu sylw at y risgiau i ymladdwyr tân.

Yr oedd lansio'r memorandwm cydddealltwriaeth yn llesol ond hefyd yn drist, oherwydd yr oedd yn amlwg bod nifer o ymladdwyr tân yn ystyried bod brics a sylwadau sarhaus yn rhan o'r gwaith, ac yr oeddent fel pe baent wedi derbyn ei bod yn rhaid iddynt oddef triniaeth o'r fath. Efallai fod rhai pobl ym maes manwerthu hefyd yn meddwl bod triniaeth o'r fath yn rhan o'u gwaith, yn enwedig yr adeg hon o'r flwyddyn. Rhaid inni gyfleu neges glir sy'n dweud nad yw hynny'n wir, ac nad yw triniaeth o'r fath yn dderbyniol mewn cymdeithas sifil a chyfrifol o safbwynt cymdeithasol.

Yr ydym hefyd wedi clywed am y gwaith da a wneir gan fy nghydweithiwr, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac sydd wedi arwain y ffordd i raddau helaeth iawn o ran gweithredu i ddiogelu gwasanaethau rheng-flaen, boed yn y sector cyhoeddus ynteu'r sector preifat, a gweithio gyda gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain—nid pobl mewn adran damweiniau ac achosion brys neu ar wardiau'n unig, ond gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ac yn mynd i dai pobl. Mae'n bwysig inni gydnabod bod angen iddynt hwy hefyd fod yn ddiogel.

I gloi, mae'r ymgyrch hon yn bwysig iawn oherwydd y negeseuon allweddol y mae'n eu rhoi am ein pryder am weithwyr rheng-flaen. Mae hefyd yn ddadl bwysig gan ei bod yn ymwneud â gosod safonau ar gyfer ymddygiad cyhoeddus, moesoldeb cyhoeddus a gwerth cyhoeddus, ac y mae angen i'r rheini sy'n mynd yn groes i safonau cymdeithasol gael eu dwyn i gyfrif am yr hyn a wnânt. Gwell o lawer fyddai creu cymdeithas yma yng Nghymru ac ar draws y

civic minded to get to a situation in which this sort of activity is regarded as being totally beyond the pale and where people do not stoop to those low standards.

Deyrnas Unedig lle mae pobl yn ddigon dinasgar i gyrraedd sefyllfa lle caiff y math hwn o weithgarwch ei ystyried yn anfaddeuol, a lle nad yw pobl yn ymostwng i'r safonau isel hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.11 p.m.  
The meeting ended at 6.11 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
 Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)

Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)